

Craffu rhwng y llinellau: ffeminyddiaeth,  
ecffrasis ac aralledd ym marddoniaeth  
Christine James

Fflur Rhys

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd MPhil

Prifysgol Aberystwyth

2016

## Crynodeb

Bwriad yr astudiaeth hon yw taenu goleuni newydd ar farddoniaeth Christine James, ffigur cyhoeddus nad yw ei gwaith wedi derbyn rhyw lawer o sylw beirniadol cyn hyn, er ei bod fel unigolyn wedi ei serio ar yr ymwybod cenedlaethol drwy ei swyddogaeth fel Archdderwydd Gorsedd y Beirdd. Dadleuir bod gwaith y bardd yn dangos crefft a dawn arbennig, a cheisir codi ymwybyddiaeth o dreiddgarwch y cerddi gan ganolbwyntio ar dair thema benodol: ffeminyddiaeth, ecffrasis ac aralledd.

Ystyria'r bennod gyntaf gyd-destun hanesyddol beirdd benywaidd yng Nghymru, gan edrych ar y datblygiadau a fu mewn barddoniaeth gan ferched yn ystod yr ugeinfed ganrif a lle Christine James yn y canon hwn. Eir ymlaen yn ail ran y bennod i gynnig dadansoddiad ffeminyddol o'i cherddi, gan fanylu ar y defnydd o *écriture feminine* a ddefnyddir ganddi, yn ogystal â phenderfynu a oes llinyn cyswllt rhwng y merched sy'n cael sylw yn y gwaith. Yn yr ail bennod, trafodir ei barddoniaeth ecffrastig. Ystyrir i ddechrau y canu ecffrastig a gafwyd eisoes yn Gymraeg, cyn mynd ati i drafod lle Christine James yn y traddodiad hwn, a sut y mae ei hymdriniaeth yn wahanol i eiddo'i rhagflaenwyr. Yn y drydedd bennod, ystyrir yr ystrydeb o fardd Cymraeg traddodiadol, ac edrychir ar le Christine James yn yr olyniaeth mewn perthynas â hyn. Erbyn diwedd y bennod, dadansoddir y gwahanol weddau ar aralledd a geir yn ei gwaith.

## **Diolchiadau**

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Robin Chapman am ei holl gyngor, ei gymorth a'i amynedd wrth imi fynd ati i lunio'r astudiaeth hon. Diolch i Dr Mihangel Morgan am fy ysbrydoli i ymddiddori yn y maes, ac i'r Athro Marged Haycock a gweddill staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth am eu gofal yn ystod y cyfnod o astudio. Hoffwn gydnabod fy ngwerthfawrogiad a'm diolch diffuant i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am ariannu'r gwaith ymchwil. Diolch arbennig hefyd i'm teulu a'm ffrindiau am eu hanogaeth a'u cefnogaeth barhaus.

## Cynnwys

1. Rhagymadrodd	4
2. Pennod 1: Ffeminyddiaeth	10
3. Pennod 2: Ecffrasis	58
4. Pennod 3: Aralledd	113
5. Casgliadau	155
6. Llyfryddiaeth	165

## Rhagymadrodd

'Mae hon yn gyfrol i ddychwelyd ati dro ar ôl tro, a chanfod haenau eto fyth.'<sup>1</sup>

'[Cyfrol] canol-oed yn yr ystyr orau [yw hon] – ... cyfrol aeddfed, dawel-hyderus sy'n ildio ...

[m]wy a mwy o ddoethineb a delweddau gyda phob darlleniad.'<sup>2</sup>

*Rhwng y Llinellau* yw cyfrol gyntaf Christine James o'i barddoniaeth ei hun. Pan gyhoeddwyd y gwaith yn 2013, tynnwyd sylw at dreiddgarwch y cerddi, a'r modd y llwydda'r darllenydd i ddarganfod haenau o ystyron ar bob darlleniad. Crybwylla'r astudiaeth hon enw'r gyfrol gyntaf honno yn ei theitl, am mai yr un yw ei bwriad sylfaenol: treiddio rhwng y llinellau i ddod â goleuni newydd i waith bardd nad yw wedi derbyn rhyw lawer o sylw beirniadol, a cheisio codi ymwybyddiaeth o gynnyrch a gweithgarwch ffigur sydd â lle amlwg yn yr ymwybod cenedlaethol trwy ei gwaith fel Archdderwydd Gorsedd y Beirdd rhwng 2013 a 2016, ond sydd â'i barddoniaeth yn brin o'r sylw y mae'n ei haeddu.

Ganwyd Christine James yn Nhonypandy yng Nghwm Rhondda, ac fe'i magwyd ar aelwyd ddi-Gymraeg yn y cwm diwydiannol hwnnw. Dechreuodd ddysgu'r Gymraeg fel 'iaith dramor'<sup>3</sup> yn yr ysgol uwchradd, cyn mynd ati i'w hastudio ymhellach ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle derbyniodd radd anrhydedd ddosbarth cyntaf. Cwblhaodd ei hastudiaeth ddoethurol ar faes testunau cyfraith Hywel Dda, cyn gweithio fel swyddog golygyddol ar y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (1986).<sup>4</sup> Yn dilyn y cyfnod hwn, penodwyd hi i staff Adran y

---

<sup>1</sup> Meg Elis, 'Adolygiad: rhwng y llinellau, Christine James', *Taliesin*, 150 (2013), 105.

<sup>2</sup> Guto Dafydd, 'Adolygiadau: Delweddau a doethineb', *Barn*, 609 (2013), 51.

<sup>3</sup> Trystan Hallam a Christine James, 'Dan yr Wyneb: Christine James' (Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2015) <https://www.mudiad-efengylaidd.org/cylchgrawn/dan-yr-wyneb-christine-james/>.

<sup>4</sup> <http://www.swansea.ac.uk/staff/academic/artshumanities/aht/jamesc/> (Cyrchwyd: 20 Rhagfyr 2015).

Gymraeg, Prifysgol Abertawe, a bellach y mae hi'n gweithio fel uwch-ddarlithydd yn Academi Hywel Teifi.

Er iddi fwynhau chwarae â geiriau erioed, dywed nad aeth ati o ddifrif i ysgrifennu nes dioddef cyfnod o salwch yn dilyn ymweliad academaidd â Boston, Massachusetts, ym mis Hydref 2002. Fe'i hanogwyd gan ei chyd-olygydd ar gylchgrawn *Taliesin*, Manon Rhys, i ysgrifennu, fel math o gatharsis er mwyn dygymod â'i hiselder, a dyma ble y darganfu ei llais a'i dawn fel bardd.

Erbyn y flwyddyn 2004, daeth yn ail agos yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch gyda chasgliad o gerddi ar y thema 'egni', cyn mynd ati i ennill y Goron y flwyddyn ganlynol yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri gyda chasgliad o gerddi yn dwyn y teitl 'Llinellau Lliw'. Yn dilyn ei llwyddiant eisteddfodol, penodwyd hi yn Archdderwydd Gorsedd y Beirdd yn 2013, y ferch gyntaf a'r ddysgwraig gyntaf erioed i wneud hynny.

Bwriad sylfaenol yr ymdriniaeth hon yw trafod gwaith bardd cyfoes crefftus, gan gynnig beirniadaeth a gwerthfawrogiad gwreiddiol ar gerddi ffigur cynyddol bwysig ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Ystyrir tair prif thema yn yr astudiaeth, sy'n deillio o'r nodweddion hynny sy'n ymddangos yn gyson ym marddoniaeth Christine James ac sydd wedi dod â hi i amlygrwydd. I ddechrau, bydd yr astudiaeth yn ystyried gwaith Christine James o safbwynt ffeminyddol. Ers sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol fodern yn 1880, dim ond deg o ferched sydd wedi ennill y Goron erioed,<sup>5</sup> a chwech o'r rheini wedi'r mileniwm newydd, gan

---

<sup>5</sup> Enillwyd y Goron ddwywaith gan Eluned Phillips, gan olygu bod y Goron wedi'i hennill gan ferch un ar ddeg o weithiau ers sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol fodern.

gynnwys Christine James ei hun yn 2005.<sup>6</sup> Yn ogystal â chynnig beirniadaeth ffeminyddol ar y cerddi, bydd yr astudiaeth yn ystyried y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar feirdd benywaidd yng Nghymru ac yn ystyried pam tybed fod cyn lleied o ferched wedi llwyddo ar lefel genedlaethol, gan drafod cefndir barddoniaeth gan ferched yng Nghymru er mwyn lleoli gwaith Christine James yn ei gyd-destun diwylliannol.

Yn yr ail bennod, canolbwyntir ar feirniadaeth o waith ecffrastig Christine James, sef y cerddi hynny a luniwyd mewn ymateb i gelfyddyd arall, boed yn baentiadau, yn gerfluniau neu hyd yn oed yn ffotograffau. Ystyrir ecffrasis yn gyffredinol fel dyfais rethregol lle y mae un darn o gelfyddyd yn ceisio ymateb i gelfyddyd weledol<sup>7</sup> trwy ddisgrifio ei ffurf a'i hanfod. Bwriad hyn yw ennyn gwerthfawrogiad neu ddealltwriaeth o'r gwaith gwreiddiol, neu ddodâ'r gwaith gwreiddiol yn fyw, fel petai, trwy adrodd stori am ryw elfen o'r gwaith. Noda Christine James ei hun mai 'cynnal deialog â gweithiau celf' y mae hi yn ei cherddi, gan 'sylwi ar fanylyn bach a fu'n fodd i danio'r dychymyg neu gyffwrdd â'r galon'.<sup>8</sup> Dyma un o'r nodweddion hynny yn ei barddoniaeth sydd wedi derbyn y sylw pennaf gan y cyhoedd, am ei bod yn dod â gwedd newydd i hen ffurf mewn modd gwreiddiol.

Yn y drydedd bennod, rhoddir sylw i 'aralledd' Christine James, a sut y nodweddir hyn yn ei gwaith. Cysyniad yw aralledd sy'n deillio o theori ôl-drefedigaethedd, ac sy'n ymwneud â'r syniad bod grwpiau lleiafrifol mewn cymdeithas arbennig yn eu hystyried eu hunain a'u diwylliant yn wahanol i'r ffordd y byddai'r mwyafrif yn eu diffinio. Yn sicr, nid yw Christine James yn gweddu i'r ystrydeb draddodiadol o 'fardd Cymraeg'. Yn ogystal â bod yn ferch

---

<sup>6</sup> Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 'Y Goron' (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2016)

<https://www.eisteddfod.cymru/amdanom-ni/enillwyr-yr-eisteddfod/enillwyr-y-goron>.

<sup>7</sup> Laura M Sager, *Writing and Filming the Painting: Ekphrasis in Literature and Film*, (Amsterdam: Rodopi, 2008), tt. 1-4.

<sup>8</sup> Christine James, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 18.

sy'n barddoni, sy'n ei gosod mewn lleiafrif o ran enillwyr cenedlaethol ac enwau mawr y traddodiad, y mae hi hefyd wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolyn – ac yn cael ei hystyried oherwydd hyn yn fardd 'ail-iaith'. Cafodd ei geni a'i magu mewn ardal nad yw'n cael ei hystyried yn naturiol fel man sy'n gynnwys barddoniaeth a llenyddiaeth yn y Gymraeg. Yn ogystal â hyn oll, y mae'r bardd hefyd yn Gristion sy'n perthyn i'r Eglwys Efengylaidd,<sup>9</sup> ac yn agored wrth drafod ei chrefydd a chynnwys cyfeiriadau crefyddol yn ei gwaith. Mewn oes lle y mae'r nifer sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion ym Mhrydain yn disgyn yn sylweddol – rhwng 2001 a 2011, cwmpodd y ffigur hwn gan 13%, o 72% i 59%<sup>10</sup> – mae hyn hefyd yn nodwedd anarferol, sy'n gosod Christine James ar wahân i feirdd a llenorion eraill yn gyffredinol, wrth i anghredinedd ac amau ffydd ennill tir. Bydd pennod olaf yr astudiaeth felly yn cloriannu'r holl elfennau hyn ynghyd gan gynnig sylwebaeth ynglŷn ag aralledd y bardd, a sut y gwelwn yr elfennau hyn yn ei gwaith.

Prif ddeunydd llenyddol yr astudiaeth hon yw cerddi Christine James a ysgrifennwyd rhwng 2003 a 2013.<sup>11</sup> Defnyddir 2003 fel man cychwyn naturiol am mai dyma'r adeg y dechreuodd y bardd fynd ati i farddoni o ddifrif, yn dilyn cyfnod o salwch ac iselder difrifol. Daw'r astudiaeth i ben wrth drafod y cerddi a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2013, sef cyfnod cyhoeddi'r gyfrol *Rhwng y Llinellau*. Dyma hefyd y flwyddyn y dechreuodd Christine James yn ei rôl fel Archdderwydd Gorsedd y Beirdd, gan ddechrau ar gyfnod newydd yn ei gyrfa yn ymwybyddiaeth lenyddol Cymru. Y mae rhai o'r cerddi a drafodir yn ymddangos am y tro

---

<sup>9</sup> Trystan Hallam a Christine James, 'Dan yr Wyneb: Christine James' (Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2015) <https://www.mudiad-efengylaidd.org/cylchgrawn/dan-yr-wyneb-christine-james/>.

<sup>10</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'What does the Census tell us about religion in 2011?', 16 Mai 2013 (Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2015) <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/detailed-characteristics-for-local-authorities-in-england-and-wales/sty-religion.html>.

<sup>11</sup> Cyhoeddiadau Barddas, 'Rhwng y Llinellau, Christine James', 26 Gorffennaf 2013 (Cyrchwyd: 03 Ionawr 2016) [http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com\\_content&view=article&id=122:rhwng-y-llinellau&catid=37:cyfrolau&Itemid=55](http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com_content&view=article&id=122:rhwng-y-llinellau&catid=37:cyfrolau&Itemid=55).



cyntaf yn ei chyfrol gyntaf, ond cynhwysir cerddi a gyhoeddwyd eisoes ar ddalennau cylchgronau llenyddol, megis *Barddas*, *Taliesin* a *Barn* hefyd. Lle y bo hynny'n briodol, croesgysylltir â gwaith beirdd a llenorion Cymreig eraill, p'un ai er mwyn cymharu ymdriniaethau neu leoli cerddi Christine James yn eu cyd-destun hanesyddol.

Cafwyd ychydig o anhawster wrth geisio penderfynu ar y term a fyddai'n cael ei ddefnyddio wrth drafod merched yng nghorff y drafodaeth. Teimlwn fod 'dynes' bron yn eilradd i 'dyn', a'i fod yn anodd ei ddefnyddio am nad oes lluosog amlwg, ac hefyd ei fod yn derm mwy cyffredin yng Ngogledd Cymru na'r De. Nid oedd y term 'gwraig' ychwaith yn taro deuddeg, am ei fod yn fwy cyffredin fel disgrifiad o briod dyn, 'wife'. Er bod 'menyw' yn derm cyffredin yn Ne Cymru, caiff ei ystyried mewn ambell ardal, ac yn fy ardal enedigol yn Nyffryn Tywi, bron fel term dirmygus. O ganlyniad, teimlwn yn chwithig yn ei ddefnyddio wrth drafod beirdd a llenorion benywaidd. Crybwyllir problem debyg gan Mair Rees yn ei chyfrol *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen*,<sup>12</sup> ac hefyd gan y beirniad Roni Crwydren:

I couldn't even decide which word to use for 'woman': should it be *merch* which also means 'girl' and 'daughter'; or *gwraig* which also means 'wife' or *dynes* which has no plural; or *menyw* which is not used in North Wales?<sup>13</sup>

Y term a ddefnyddir ar gyfer 'woman' yng nghorff y traethawd hwn felly fydd 'merch', gyda 'merched' fel lluosog. Er y bydd rhai yn teimlo bod y term yn cyfleu anaeddfedrwydd, i mi y mae'n awgrymu ieuentid ac arloesedd, a chan ei fod yn derm a ddefnyddir yn gymharol reolaidd, er enghraifft wrth sôn am hawliau merched, ni fyddai'n teimlo'n annaturlol defnyddio'r gair wrth drafod beirdd a llenorion benywaidd. Er efallai y bydd rhai yn gwrthwynebu oherwydd amheuan ynglŷn ag amwysedd rhwng yr ystyron posibl, dyma'r

---

<sup>12</sup> Mair Rees, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen: Y Corff Benywaidd A'i Symbolaeth Mewn Ffuglen Gymraeg Gan Fenywod* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), t. xxii.

<sup>13</sup> Roni Crwydren, 'Welsh Lesbian Feminist: A Contradiction in Terms?', yn Jane Aaron et al. (goln), *Our Sisters' Land: Changing Identity of Women in Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 296.

term yr wyf fwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio a'r un sy'n gweddu'n fwyaf naturiol i'r drafodaeth.

Yn yr un modd, cefais anhawster dewis y gair priodol i'w ddefnyddio wrth drafod ffeminyddiaeth yn yr astudiaeth hon. Ni cheir cyfieithiad Cymraeg o'r gair '*feminist*' yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* hyd heddiw, er gwaethaf diwygiadau ac ychwanegiadau niferus dros y blynyddoedd diwethaf.<sup>14</sup> Er gwaethaf y diffyg cysondeb ac arweiniad o ran termau, penderfynwyd defnyddio'r ansoddair 'ffeminyddol' yn hytrach na 'ffeministaidd' yn yr ymdriniaeth oherwydd ei fod yn fy nharo i'n fwy naturiol Gymreigaidd, am ei fod yn defnyddio 'ffeminydd' fel bôn yn hytrach na'r Saesneg '*feminist*'.

Cafwyd problem debyg wrth drafod 'beirdd', am fod y rhan fwyaf o'r beirdd a drafodir yn ferched. Y term a ddefnyddir yng nghorff y traethawd hwn yw 'bardd benywaidd' – er bod hyn ychydig yn drwsgl, roedd yn anodd cadw'r gwaith rhag bod yn amwys wrth siarad am ferched oedd yn barddoni trwy ddefnyddio 'bardd' neu 'beirdd' yn unig, gan fod y term ei hun yn un gwrywaidd. Cyniga *Geiriadur Prifysgol Cymru* 'farddones' neu 'brydyddes' fel enghreifftiau posibl hefyd, ond teimlwn fod y rhain yn annaturiol ac yn glogyrnaidd am nad ydynt wedi ymsefydlu yn yr iaith gymaint ag 'awdures'.

Beirniadaeth lenyddol a geir yn bennaf yn yr astudiaeth hon. Fodd bynnag ceir ychydig o feirniadaeth gelf ar adegau, lle bo hynny'n berthnasol i'r drafodaeth ar y cerddi ecffrastig a geir yn yr ail bennod.

---

<sup>14</sup> Geiriadur Prifysgol Cymru (Cyrchwyd: 6 Mehefin 2016) <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>.

## Pennod 1 – Ffeminyddiaeth

Yn ystod ei gyrfa farddol a'i chyfnod fel Archdderwydd, y mae Christine James fel petai wedi gwneud ymdrech ymwybodol i osgoi labeli ffeminyddol gorsym. Yn sicr, nid yw'n synio am ei gyrfa yn nhermau mudiad na safiad, nac ychwaith yn ei ystyried ei hun fel esiampl ffeminyddol i eraill. Bydd y bennod hon, felly, yn holi i ba raddau y gellir defnyddio theori ffeminyddol yn bwrpasol wrth drafod ei gweithiau. Eir o drafod yr ychydig iawn a ddywed amdani ei hun at drafodaeth ar sefyllfa beirdd o fenywod yn ystod y cyfnod pan oedd yn darganfod ei llais llenyddol, cyn troi at y dystiolaeth sydd yn ei cherddi am ei pherthynas â gynofeirnadaeth ac ag *écriture féminine* – a cheisir penderfynu (yn amodol iawn) a ellir ei labelu er ei gwaethaf.

Holwyd Christine James a oedd hi'n ei hystyried ei hun 'ar flaen y gad'<sup>15</sup> o safbwynt merched, o gofio mai hi oedd y ferch gyntaf erioed i arwain Gorsedd y Beirdd fel Archdderwydd. Ei hymateb oedd taeru nad oedd bod yn '*rôle model*' o ferch yn bwysig iddi – neu yn hytrach, y byddai'n well ganddi gael ei hystyried fel enghraifft o Gymraes ail-iaith a lwyddodd i feistrioli'r iaith gan gyrraedd safon gyfuwch â'r rheini a gafodd y 'fagwraeth i gyd',<sup>16</sup> na fel merch a gododd i statws uchel mewn maes a ddominyddir gan ddynion yn draddodiadol. Fodd bynnag, yr oedd hi'n ymwybodol o'r proses a oedd wedi caniatáu i ferched fraenaru'r tir o'i blaen, ac yn cydnabod bod y proses hwnnw yn gynnyrch cyfnod:

---

<sup>15</sup> Nia Roberts: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

<sup>16</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

Wrth gwrs, mae yna broses ar waith, oherwydd am flynyddoedd lawer, doedd na'r un ferch wedi ennill y Gadair na'r Goron, ac felly doedd merched ddim ar dir i fod yn Archdderwydd ... mae'r datblygiad yn adlewyrchu ein cyfnod ni'n sicr.<sup>17</sup>

Adleisia'r sylw uchod yr hyn a ddywedwyd ganddi wrth gael ei derbyn i'r rôl yn 2012:

Mae mwy o ferched wedi bod yn ennill y prif wobrau felly mae'r pwll y gallwch chi ddewis ohono wedi newid o ran demograffeg ... Fi oedd y person lwcus, rwy'n credu – ro'n i yn y lle iawn ar yr amser iawn, fel petai. Ond mae yn bryd erbyn hyn ac mae'n dangos fod yr Orsedd yn symud gyda'r oes.<sup>18</sup>

Pwysleisiodd wrth gael ei phenodi yn Archdderwydd benywaidd cyntaf yr Orsedd, na ddylid cyfeirio ati fel 'Archdderwyddes'<sup>19</sup> ar unrhyw gyfrif, ac wrth ystyried ei sylwadau, ceir yr argraff nad yw hi am i'w benyweidd-dra ei diffinio hi fel unigolyn. Er nad yw hi am gael ei hystyried yn y cyswllt hwn, fodd bynnag, rhaid cydnabod bod Christine James yn rhan anochel o broses sydd wedi arwain at newidiadau sylweddol ym myd barddoniaeth Gymraeg erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain. Canlyniad y broses hon yw fod merched, yn un peth, yn ennill prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn ail, bod un ohonynt mor uchel ei pharch fel ei bod wedi cael ei derbyn i arwain Gorsedd y Beirdd, penodiad symbolaidd sy'n adlewyrchu bod merch wedi ei derbyn i faes patriarchaidd o'r diwedd.

Bydd y bennod hon felly yn rhoi trosolwg bras o gefndir canu gan ferched a beirniadaeth lenyddol ffeminyddol yng Nghymru, cyn symud i drafod lle Christine James yn y mudiad hwn. Erbyn diwedd y bennod, ystyrir y gwaith yng nghyd-destun beirniadaeth ffeminyddol, gan geisio pwysu a mesur i ba raddau y gellir honni bod Christine James yn fardd ffeminyddol, neu i ba raddau y mae hi'n gweithredu syniadau ffeminyddol yn ei gwaith.

---

<sup>17</sup> Ibid.

<sup>18</sup> Nia Cerys, 'Yr Archdderwydd Christine yn torri tir newydd', 4 Awst 2013 (Cyrchwyd: 10 Hydref 2014) <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/23503321>.

<sup>19</sup> 'Holi'r Archdderwydd', *Barddas*, 320 (2013), 13.

Man cychwyn y newid hwn mewn meddylfryd tuag at farddoniaeth Gymraeg gan ferched oedd pan arweiniodd cynnydd mewn gweithgarwch gan fudiadau ffeminyddol yn yr 1960au, yn ystod y cyfnod a adwaenir fel ail don ffeminyddiaeth, at newid yn yr agwedd tuag at ferched fel llenorion a sut yr oedd merched yn cael eu portreadu mewn llenyddiaeth. Gellir nodi dwy ffrwd yn y newid hwn; yn gyntaf, rhoddwyd pwyslais yn arbennig ar adfer gweithiau llenyddol gan ferched y gorffennol. Ystyriwyd hyn yn angenrheidiol oherwydd pwysigrwydd traddodiad i'r Cymry: yr oedd 'creu achyddiaeth gynhenid o weithiau gan ferched ... o'r pwys mwyaf wrth geisio dilysu cyfraniad menywod Cymraeg'<sup>20</sup>, fel y nododd Simon Brooks. Deilla'r math hwn o syniad o feirniadaeth a elwir yn gynofeirniadaeth – term a fathwyd gan Elaine Showalter<sup>21</sup> er mwyn dosbarthu gwaith beirniadol sy'n canolbwyntio yn benodol ar lenyddiaeth gan awduron benywaidd, ac sydd hefyd yn ymwneud â datgelu gwaith gan ferched a gollwyd neu a esgeuluswyd ar hyn y canrifoedd. Dynion a fyddai'n cael addysg farddol yn y gorffennol, a hwy hefyd oedd yn hawlio'u lle mewn llawysgrifau; yr oedd memrwn yn brin ac o ganlyniad, rhoddwyd y flaenoriaeth i waith y rhai uchaf eu statws mewn cymdeithas.<sup>22</sup> Nod y ffeminyddion Cymraeg erbyn y 1980au oedd datgelu'r gweithiau hynny gan awduron benywaidd a ddiystyrwyd fel rhan o'r traddodiad islenyddol oherwydd statws is merched mewn cymdeithas, a thrwy hyn daeth yr ymgais i hyrwyddo gwaith gan ferched a anwybyddwyd yn y gorffennol yn rhan allweddol o'r mudiad ffeminyddol Cymreig. Ystyrid yr adfer llenyddol hwn yn gam allweddol er mwyn profi bod

---

<sup>20</sup> Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru*, Cyfres Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig, 14 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004), t. 181.

<sup>21</sup> Elaine Showalter, 'Toward a Feminist Poetics', yn Elaine Showalter (gol.) *The New Feminist Criticism: Essays on Women, Literature and Theory* (London: Virago, 1986), tt. 125-143.

<sup>22</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Beirdd Benywaidd yng Nghymru cyn 1800', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 13.

merched wedi ysgrifennu erioed, a bod modd cyfleu a throsglwyddo'r profiad benywaidd mewn geiriau. Un o'r merched canoloesol y ceisiwyd codi ymwybyddiaeth o'i gwaith, er enghraifft, oedd Gwerful Mechain: merch a ysgrifennai'n ddiflwyn ar dafod am ei chorff a'i rhywioldeb, pynciau na thalwyd fawr ddim sylw iddynt gan awduron y blodeugerddi a dderbyniwyd fel rhan o'r canon.

O ganlyniad i'r traddodiad patriarchaidd hwn mewn llenyddiaeth Gymraeg, nid oedd gan ferched a oedd yn dymuno barddoni esiampl debyg iddynt hwy eu hunain i'w dilyn. Yr oedd y canon wedi'i lunio gan ddynion – cynhwysai weithiau gan ddynion a oedd wedi'u dewis ar sail canllawiau esthetaidd dynion. Y mae'n ddigon posibl nad oedd hyn yn fwriadol, o anghenraid, ond ei fod wedi cael ei dderbyn yn ddigwestiwn cyhyd â'i fod yn ffurfio'r hyn a oedd yn 'normal' neu'n gyffredin, hyd at gyfnod ail don ffeminyddiaeth. Effaith uniongyrchol y 'sensoriaeth'<sup>23</sup> hon oedd nad oedd merched erioed wedi cael enghraifft o ferch sy'n barddoni, neu'n ysgrifennu rhyddiaith, i'w dilyn mewn gwirionedd. Taflwyd enw Ann Griffiths i'r pair ar adegau fel eithriad i'r drefn, ond yr oedd ei sefyllfa hi ychydig yn wahanol i ferched cyffredin – yr oedd ganddi safle freintiedig ac 'eithaf cysurus'<sup>24</sup> mewn cymdeithas, ac yr oedd hi'n cyfansoddi emynau, testunau duwiol a ystyrid yn weddus gan ddynion. O ganlyniad i'r diffyg enghreifftiau amlwg o gerddi gan ferched, nid oedd gan ferched a oedd yn ceisio cyfansoddi yn y Gymraeg esiampl o fardd benywaidd y gallent lwyr uniaethu â hi, na neb o'r un rhyw i'w hedmygu a'i hefelychu. Effaith bellgyrhaeddol hyn wrth gwrs oedd nad oedd gan ferched yr hyder i ysgrifennu a chystadlu am le yn y canon yn erbyn y dynion, ni waeth pa mor anuniongyrchol oedd yr effaith honno. Cafwyd sylwadau

---

<sup>23</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 36.

<sup>24</sup> E. Wyn James, 'Cyflwyniad i fywyd a gwaith Ann Griffiths' (Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2014) <http://www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/cyflwyniad.html>.

diddorol ar y pwnc mewn rhifyn ffeminyddol arbennig o'r *Traethodydd* yn 1986 a olygwyd gan bedair ffeminydd nodweddiadol – Kathryn Curtis, Marged Haycock, Elin ap Hywel a Ceridwen Lloyd-Morgan. Trafodai'r rhifyn bob math o agweddau ar le merched mewn llenyddiaeth Gymraeg:

Mae sensoriaeth, boed yn amlwg neu'n sensoriaeth gymdeithasol fwy anuniongyrchol, yn rhan gynhenid o'r monolith y mae llawer yn falch o'i alw yn un o brif ogoniannau ein diwylliant. Nid oes dim gwaharddiadau swyddogol sy'n cadw gwragedd rhag ysgrifennu'n greadigol. Y casgliad yw mai gwaharddiadau answyddogol, anffurfiol, sy'n gyfrifol am fudandod y 'rhyw di-lais' ... Rhaid troi i gyfeiriad dylanwadau cymdeithasol: addysg, dosbarth, economeg a statws, ynghyd â'u heffaith ar y traddodiad llenyddol, er mwyn ffurfio unrhyw fath o ateb i'r cwestiwn.<sup>25</sup>

Trwy agor y llifddorau fel hyn a chynnig beirniadaeth lenyddol ffeminyddol ar weithiau mawr y gorffennol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o waith llenyddol gan ferched, y gobaith oedd y byddai hyn yn ei dro yn arwain at gynhyrchu rhagor o waith llenyddol gan ferched neu ddod â'r gwaith hwnnw i'r amlwg, drwy newid meddylfryd y Cymry tuag at waith a ystyrid gynt yn ymylol:

Ond a yw hyn oll yn bwysig? Ydy. Mae'n bwysig i bob llenor ei 'leoli' ei hun, ac un ffordd o wneud hynny yw trwy fod yn rhan o draddodiad cydnabyddedig, neu drwy wrthryfela yn erbyn y traddodiad hwnnw ... Rhaid cael nerth, dewrder a hyder i gyflwyno darn o lenyddiaeth sy'n cynnwys darlun o'r byd na chyfetyb i'r disgwyl, i ddarllenwyr wedi'u magu a'u hyfforddi mewn cymdeithas a reolir gan ddynion, cymdeithas lle y gorseddir 'rheolau' patriarchaidd poblogaidd y Gorllewin. Mae gweledigaeth gwragedd o'r byd o'u cwmpas o angenrheidrwydd yn wahanol i weledigaeth eu tadau a'u brodyr a'u cymheiriaid.<sup>26</sup>

Yr oedd cyhoeddi'r gyfrol *Hel Dail Gwyrdd*<sup>27</sup> o dan olygyddiaeth Menna Elfyn yn 1985 yn gam arloesol ymlaen ym myd barddoniaeth Gymraeg. Hon oedd y gyfrol gyntaf a gynhwysai

---

<sup>25</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 36.

<sup>26</sup> *Ibid.*, 40.

<sup>27</sup> Menna Elfyn (gol.) *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985).

waith gan feirdd benywaidd yn unig, ac a oedd yn rhoi llwyfan i waith merched na chawsant erioed eu hystyried yn deilwng i'w cyhoeddi mewn blodeugerddi cyffredinol.

Nid oedd yr ymateb i waith y mudiad ffeminyddol i hyrwyddo barddoniaeth gan ferched yn gadarnhaol bob tro, fodd bynnag, a bu'n rhaid brwydro yn erbyn rhagfarn a beirniadaeth lem o gyfeiriad cyhoeddiadau llenyddol – a hynny gan ddynion a merched fel ei gilydd.

Nododd Wendy Lloyd Jones, er enghraifft, fod rhai o'r cerddi yn y gyfrol yn dderbyniol iawn, a bod ambell un hyd yn oed yn 'fodern-ffeministaidd'<sup>28</sup> eu naws, ond er hynny, yr oedd nifer ohonynt yn dangos 'diffyg yn y dweud'<sup>29</sup>, a'r teimlad cyffredinol oedd na fyddent wedi cael lle mewn blodeugerdd arferol. Yr oedd hi o'r farn na ddylid cyhoeddi cyfrolau gan ferched yn unig yn y dyfodol, gan nodi bod 'hynny'n fwy naturiol, ac yn decach yn y pen draw, canys cadw safon uchel mewn iaith a llên yw'r peth pwysig, yn anad dim arall'.<sup>30</sup> Nododd hefyd nad oedd angen cyhoeddi cyfrolau i ferched yn unig oherwydd bod y gwahaniaeth mewn cyfleoedd i ferched a dynion wedi'u dileu erbyn hyn, yn ei thyb hi. Byddai nifer yn dadlau wrth gwrs, nid yw hyn yn wir hyd yn oed erbyn heddiw, heb sôn am ugain mlynedd yn ôl, a daeth hynny i'r amlwg pan gyhoeddwyd *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* ddwy flynedd yn ddiweddarach o dan olygyddiaeth Alan Llwyd a Gwynn ap Gwilym. O'r 167 o feirdd a gynhwyswyd, dim ond gwaith pump o ferched a gafwyd yn y gyfrol, a hyd yn oed wedyn, ni chynhwyswyd yr uchafswm o wyth cerdd gan yr un o'r beirdd hyn.

Eithriwyd y ffeminydd flaengar a chynhyrchiol, Menna Elfyn, yn llwyr o'r gyfrol, a chodwyd ei henw yn gyson gan feirniaid ac adolygwyr a'i câi'n anodd deall pam na chynhwyswyd ei gwaith.

---

<sup>28</sup> Wendy Lloyd Jones, 'Min Awen y Menywod', *Barddas*, 102 (1985), 16.

<sup>29</sup> Ibid.

<sup>30</sup> Ibid.



Nid yw'n annisgwyl, wrth gwrs, fod gan gylchgrawn cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn hybu cerdd dafod syniadau ceidwadol am le'r gynghanedd mewn barddoniaeth Gymraeg, ond cafwyd ymateb amddiffynnol iawn i fygythiad ffeminyddiaeth i'r traddodiad barddol Cymreig ar dudalennau *Barddas* yn enwedig, a oedd yn lladd ar yr ymdrechion i ennyn gwerthfawrogiad o farddoniaeth gan ferched. Yn wir, cafwyd rhai sylwadau sarhaus a ymylai ar fod yn fisogynistaidd gan feirniaid megis Alan Llwyd a Gwynn ap Gwilym, a hynny ar ei amlycaf wrth iddynt geisio amddiffyn eu *Blodeugerdd*, a oedd yn ddadleuol am nifer o resymau, gan gynnwys y diffyg cerddi ffeminyddol a phrinder cerddi gan feirdd benywaidd. Ymosododd Alan Llwyd yn chwyrn ar y ffeminyddion, gan honni fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar ganu am neges neu thema arbennig yn hytrach na'r grefft:

Am fod ambell fardd neu "farddones" yn canu am y pethau iawn, y pynciau cyfredol poblogaidd, fel ffeministiaeth, dyweder, neu'r sefyllfa yn Ne Affrica, fe'u dyrchefir, fe'u canmolir yn hael ar draul beirdd eraill sydd wedi torri llwybr unigolyddol, a'r beirdd eraill hyn yn feirdd rhagorach yn aml.<sup>31</sup>

Ceir awgrym yn ei eiriau ei fod yn gweld yr holl ddi-ddordeb mewn ffeminyddiaeth fel rhywbeth mympwyol a chyfoes a fyddai'n troi yn hen hanes o fewn 'chwe mis, neu flwyddyn ar y mwyaf'.<sup>32</sup> Yn yr un ysgrif, dywed mai 'difyrrwch mawr gan rai beirdd ifainc yw ymosod ar feirdd y genedlaeth hŷn, er mwyn cael gwared â'r genhedlaeth o'u blaen i wneud lle iddynt hwy eu hunain',<sup>33</sup> gan gymryd yr ymateb ffeminyddol fel ymosodiad personol ar waith y cylchgrawn o dan ei olygyddiaeth yn ogystal â'i safle fel bardd caeth.

---

<sup>31</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 118 (1987), 4.

<sup>32</sup> Ibid.

<sup>33</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 118 (1987), 4.

Ymateb ystyfnig ac amddiffynnol a oedd ganddo hefyd i'r feirniadaeth a gafwyd ynglŷn â methiant *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* i gynnwys gwaith gan ferched nodedig:

... cwynodd [Dafydd Elis Thomas] am y diffyg cynrychiolaeth i feirdd Marcsaidd a beirdd Ffeministaidd, gan enwi Menna Elfyn. Nid ein gwaith ni oedd chwilio am feirdd Marcsaidd a beirdd Ffeministaidd. Ein gwaith ni oedd chwilio am gerddi teilwng, nid cerddi eilradd a di-glem am rai pynciau ffasiynol a phoblogaidd ... Nid ein dyletswydd ni fel golygyddion oedd gwthio themâu a phynciau arbennig ar y gyfrol. Ar deilyngdod y cerddi y rhoddasom ni'r pwyslais, nid ar bynciau'r cerddi. Nid arnom ni mae'r bai nad oes yr un bardd mawr Marcsaidd na'r un bardd mawr Ffeministaidd wedi codi yng Nghymru.<sup>34</sup>

Yn ei adolygiad o'r *Flodeugerdd* rhestrodd Gerwyn Williams enwau'r beirdd hynny a eithriwyd o'r *Flodeugerdd* ar gam.<sup>35</sup> Un o'r rhain oedd Dilys Cadwaladr, y ferch gyntaf i ennill y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol fodern am gerdd yn y Gymraeg (gan mai cerdd Saesneg a gafwyd gan Forfudd Eryri yn 1883). Yr oedd ymateb Alan Llwyd i'r cyhuddiad hwn yn amddiffynnol eto:

Dyma'r tro cyntaf erioed, dan bwysau Ffeministiaeth, i fardd dof fel Dilys Cadwaladr ddod i'r blaendir. Un o gamweddau Ffeministiaeth yw ei fod fel mudiad yn rhoi sylw mawr i rai beirdd na chaent fawr ddim o sylw oni bai am y ffaith eu bod yn ferched ... Ansawdd a safon y gwaith sy'n bwysig, ond dyna'r union beth nad yw'n golygu dim i'r 'ysgol' newydd hon, safon ac ansawdd celfyddydol y gwaith.<sup>36</sup>

Ymatebodd Gwynn ap Gwilym i'r feirniadaeth hefyd â sylwadau misogynistaidd:

... fe roddodd Alan a minnau sylw i T. E. Nicholas ac i Menna Elfyn, a daethom i'r casgliad nad oedd gan yr un o'r ddau ohonynt gerddi a oedd *yn ein barn ni* yn ddigon boddhaol ... Fe fuasem ni wedi bod wrth ein bodd yn cynnwys gwaith rhagor o ferched yn y llyfr. Y drwg oedd bod cynifer ohonynt yn ysgrifennu mor sâl.<sup>37</sup>

---

<sup>34</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 135-137 (1988), 12.

<sup>35</sup> Gerwyn Williams, 'Politics Prydyddol! (Cyflwyniad i ddyrnaid o gerddi gan feirdd ifanc)', *Taliesin*, 61 (1988), 28-32.

<sup>36</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 135-137 (1988), 14.

<sup>37</sup> Gwynn ap Gwilym, 'Wynebu'r Moabiaid', *Barddas*, 135-137 (1988), 37-8.

Yn yr un ysgrif, ymddengys fel petai hefyd yn dilorni'r ymdrechion yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, i greu canon cydnabyddedig o weithiau llenyddol gan ferched a anwybyddwyd yn draddodiadol. Cyfeiria yn arbennig at y sefyllfa ym mhrifysgolion Unol Daleithiau'r America, lle y nodir fod y nofel *The Color Purple* gan y ffeminydd groenddu, Alice Walker, yn cael ei hastudio mewn adrannau Saesneg yn fwy na holl weithiau Shakespeare gyda'i gilydd.<sup>38</sup> Ei sylw cwta yw 'Ac yn ôl Annabel Patterson, sydd ar staff Prifysgol Duke, mae hynny'n gwbl resymol'<sup>39</sup>; ceir mwy nag awgrym yma ei fod yn anghytuno â'r newid hwn mewn traddodiad. Dywed yn ei sylw nesaf 'Rhaid, meddai hi, oedd newid holl "ganon" yr hyn a astudid gynt yn y Brifysgol, gan na wnâi'r canon hwnnw ddim ond adlewyrchu diddordeb mympwyol y "gwrywod gwynion" a'i dewisasai'.<sup>40</sup> Awgryma'r pwyslais arbennig ar y 'meddai hi' yn eithaf pendant nad yw yntau'n rhannu'r un farn.

O dan y fath amgylchiadau felly, yr oedd merched a oedd yn ceisio barddoni neu'r beirniaid hynny a oedd yn ceisio ennyn gwerthfawrogiad o weithiau llenyddol gan ferched yn wynebu beirniadaeth lem o gyfeiriadau niferus. Noda Simon Brooks fod yna 'anesmwythyd ceidwadol'<sup>41</sup> yng Nghymru ynghylch ffeminyddiaeth, am ei fod wedi dod law yn llaw â'r mudiad Marcsaidd, a oedd hefyd yn gofyn am ryw fath o 'ryddhad'.<sup>42</sup> Yr oedd y naill fudiad a'r llall yn fygythiad i seiliau ceidwadol y traddodiad beirniadol a llenyddol Cymraeg, am fod yn rhaid i Ffeminyddion a Marcswyr fel ei gilydd ymosod ar y canon llenyddol er mwyn gwrthwynebu grym<sup>43</sup> – dim ond trwy wrthwynebu'r pethau ceidwadol hynny a oedd yn gonglfeini diwylliannol a chymdeithasol yr oedd modd hyrwyddo'r mudiadau ymhellach.

---

<sup>38</sup> Ibid., 37.

<sup>39</sup> Ibid.

<sup>40</sup> Ibid.

<sup>41</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, tt. 176-7.

<sup>42</sup> Ibid., 176.

<sup>43</sup> Ibid.

Y mae modd dadlau bod y diystyru deallusol ar ffeminyddiaeth yn 'waeth o dipyn'<sup>44</sup> yng Nghymru nag mewn gwledydd megis Unol Daleithiau'r America a Lloegr, a hynny am fod trefedigaethedd yn golygu bod merched Cymraeg a ysgrifennai, yn ogystal â ffeminyddion Cymraeg, yn 'lleiafrif o fewn lleiafrif'.<sup>45</sup> Fel ymateb i'r broblem hon felly, ceisiwyd clymu ffeminyddiaeth wrth Gymreictod er mwyn ceisio ateb y cyhuddiad ei fod yn tanseilio gwerthoedd traddodiadol Cymreig. Gwnaed hyn trwy gymharu profiad merched mewn byd a reolir gan ddynion fel profiad y Cymry yn byw o dan orthrwm Prydeinig. Yr oedd hyn yn chwarae ar y syniad o 'aralledd', sef bod merched wedi'u hanwybyddu am eu bod yn wahanol i ddynion. Cododd y syniad hwn oherwydd tuedd dynion i ystyried eu gwerthoedd hwy yn rhai 'cyffredinol', yn yr un modd ag yr oedd y traddodiad Eingl-Americanaidd yn credu bod eu gwerthoedd hwy hefyd yn 'gyffredinol'.<sup>46</sup> Fel y dywed Simon Brooks:

...dylid cofio bod ffeminyddion y 1980au yn gweithio mewn awyrgylch neilltuol o elyniaethus a bod angen iddynt ddadlau bod menywod yn wahanol i ddynion er mwyn ceisio newid hinsawdd geidwadol beirniadaeth lenyddol Gymraeg.<sup>47</sup>

Er gwaethaf rhai syniadau misogynistaidd gan Bobi Jones ar dudalennau *Barddas* – cyfeiriodd unwaith at ffeminyddion fel rhai sy'n "ciprys gydag Ebrill na ddaw'n ôl ... megis yr hen wreigen druan sy'n ymbincio yn ei lliwur a'i lipstick, [gan] efelychu'r ferch ifanc a fuasai hi ugain mlynedd ynghynt"<sup>48</sup> – defnyddia'r trosiad o fyd y ferch fel sefyllfa'r Cymry yn effeithiol tu hwnt er mwyn cyfleu graddfa'r broblem:

Os caf symleiddio'n enbyd, *dwyieithog* yw'r fenyw; a'r gwryw yntau i raddau helaeth yn *uniaith* bron. Caeir y gwryw o fewn unllygeidrwydd traddodiadol ei amgyffrediad llywodraethol ef o deyrnas anghyfartal, tra bo'r fenyw (megis y Cymro o fewn

---

<sup>44</sup> Ibid., t. 178.

<sup>45</sup> Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Clwy'r Canmlwyddiannau?', *Barn*, 304 (1988), 34.

<sup>46</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 183.

<sup>47</sup> Ibid., t. 188.

<sup>48</sup> Cyfeirir at hyn yn Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 176.

Prydain), er iddi ddiweddef israddoldeb, o leiaf yn meddu ar ddealltwriaeth ddwyochrog... Fel y mae Cymro lleiafrifol yn gallu [deall] nid yn unig ei sefyllfa ef ei hun yn ogystal â sefyllfa'r mwyafrif sy'n ei amgylchynu'n ddifeddwl yn well nag a wna'r Sais, felly mae'r fenyw ... at ei gilydd yn ymddangos i mi fel pe bai'n deall y gwryw yn well nag a wna'r gwryw. Dim ond y Cymro o'r tu mewn a edwyn ei wlad ei hun yn iawn, ond y mae ganddo amcan go lew hefyd am wlad arall na chaiff ef lonydd ganddi: felly'r fenyw hithau.<sup>49</sup>

Ychydig iawn o ferched a oedd yn brifeirdd erbyn dechrau'r 1990au. Ers sefydlu'r Eisteddfod fodern ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dim ond tair o ferched a oedd wedi codi i hawlio'r Goron;<sup>50</sup> ac o'r rheini, dwy yn unig a oedd wedi ysgrifennu yn y Gymraeg, Dilys Cadwaladr yn 1953, ac Eluned Phillips yn 1967 ac 1983. Nid oedd yr un ferch wedi ennill y Gadair, ac ni fyddai'r un ferch yn ei hennill am ddegawd arall, pan fyddai Mererid Hopwood yn ennill yn 2001 gydag awdl a chanddi deitl addas – 'Dadeni'. Yr oedd tipyn o ferched yn barddoni erbyn yr 1990au, ond nid oeddent yn llwyddo i ennill yr un clod a'r un parch â'r dynion, yn enwedig yn y traddodiad eisteddfodol. Yr oedd nifer o ffeminyddion yn dadlau bod yr Eisteddfod Genedlaethol, yn enwedig, yn 'draddodiad dynion',<sup>51</sup> a bod hyn yn ei gwneud hi'n anos i ferched ddod yn fuddugol yn y prif gystadlaethau.

Yn gyffredinol, yr oedd llai o ferched yng Nghymru yn barddoni nag a oedd yn ysgrifennu straeon byrion, nofelau neu ddramâu. Fel y dywedodd golygyddion rhifyn ffeminyddol arbennig y *Traethodydd* yn 1986, yr oedd y gwahaniaeth hwn rhwng nifer y gweithiau rhyddiaith gan ferched o'i gymharu â nifer y cerddi yn 'adlewyrchiad o'r ffaith nad yw'r mowld wedi caledu, fel petai'.<sup>52</sup>

---

<sup>49</sup> Bobi Jones, 'Y Ffeminydd F/Beirniadol', *Barddas*, 134 (1988), 10.

<sup>50</sup> Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 'Y Goron' (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2016) <https://www.eisteddfod.cymru/amdanom-ni/enillwyr-yr-eisteddfod/enillwyr-y-goron>.

<sup>51</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 185.

<sup>52</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 45.

Un awgrym am ddiffyg natur weladwy barddoniaeth merched yw bod y pwyslais Cymreig ar y gynghanedd yn llesteirio hyder merched wrth farddoni. Yr oedd y gynghanedd yn grefft a oedd, ers canrifoedd, wedi cael ei dysgu gan urddau proffesiynol o ddynion oddi wrth ddynion eraill, gan gynnig rhywfaint o eglurhad ynglŷn â pham yr oedd cyn lleied o ferched yn y gorffennol yn ei meistrolï. Y mae'r traddodiad cynganeddol hefyd yn un sy'n pesgi ar enghreifftiau'r gorffennol, gyda'r elfen o efelychu techneg beirdd eraill yn amlwg ar adegau. Y ddadl a gyflwynwyd gan olygyddion rhifyn ffeminyddol arbennig o'r *Traethodydd* yn 1986 oedd nad oedd merched yn cynganeddu gymaint â dynion gan fod canu caeth yn gyfundrefn wrywaidd, ac nad oedd yn cynnig lle i ferched am ei fod yn gyforiog o gyfeiriadaeth. Gan fod yr adnoddau crai yn wrywaidd, fel petai, nid oedd modd defnyddio'r gynghanedd i fynegi'r profiad benywaidd:

... gall pob gair bron gyfeirio at gyfoeth o ystyron neu gynodiadau, a'r geiriau yn aml yn dibynnu am eu heffaith ar adlais ymwybodol o gorff o farddoniaeth a gynhyrchwyd gan ddynion ... Mae collfarnu merched heddiw am beidio â mynd i'r afael a'r gynghanedd braidd fel beirniadu dynion am nad ydynt yn gweu eu sanau eu hunain.<sup>53</sup>

Denodd dadleuon o'r fath sylw gan feirniaid megis Alan Llwyd, a wrthodai dderbyn bod hanes a natur y gynghanedd yn llesteirio canu caeth gan ferched:

Am na bu gan Gymru, hyd yn hyn, gynganeddwagedd o galibr, bu hyn yn esgus gan amryw Ffeministiaid i adweithio'n erbyn canu cynganeddol, ac i wrthod a diraddio beirdd cynganeddol.<sup>54</sup>

Dadleua rhai beirniaid fod cystadlu o dan ffugenw yn yr Eisteddfod yn rhoi'r un cyfle i bawb ymgeisio am y gwobrau llenyddol, am na fyddai'r beirniaid yn gallu gwahaniaethu ar sail dim

---

<sup>53</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 42-3.

<sup>54</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 135-137 (1988), 14.

oni bai am grefft a safon y gwaith. Fodd bynnag, gwrthodwyd y ddadl hon gan rai

ffeminyddion:

Gellid dadlau bod cystadlu dan ffugenw yn rhoi cyfle cydradd i bawb, ond rhaid gochel rhag gorsymleiddio; traddodiad yw conglaen y ffydd eisteddfodol, nid arbrofi. Y mae'r mwyafrif helaeth o feirniaid llenyddol prif wobrau'r Genedlaethol yn rhan o'r traddodiad sy'n lawnsio'r awdur ar ei daith o fod yn ymgeisydd at fod yn llenor arobryn, at fod yn feirniad ei hun. Felly mae safonau beirniadu'r sefydliad yn eu hail-greu eu hunain hyd dragwyddoldeb ... O'r ychydig ferched sy'n beirniadu, ceir yr un criw dethol (e.e., Marion Eames, Nesta Wyn Jones, Eigra Lewis Roberts) yn dod i'r golwg bob tro.<sup>55</sup>

Honnid felly nad oedd ffugenw yn rhoi tegwch wrth gystadlu yn yr Eisteddfod, am fod y testunau yn cael eu gosod gan ddynion, a bod y beirniaid bron i gyd yn ddynion, ac eithrio criw penodol o ferched. Dadleuwyd nad oedd dynion eto wedi dysgu'r strategaethau 'angenrheidiol wrth feirniadu barddoniaeth gan ferched',<sup>56</sup> ac felly'r unig ffordd o hybu rhagor o gystadlu, a gwaith creadigol yn gyffredinol gan ferched, oedd trwy weddnewid y traddodiad beirniadol Cymraeg. Gwrthodwyd yn llwyr y 'ddadl seml y dylai menywod gystadlu â dynion ar sail yr un canllawiau esthetaidd â hwy'<sup>57</sup>, ac awgrymwyd bod angen deall a gwerthfawrogi fod merched yn ysgrifennu am bynciau gwahanol i ddynion, ac yn gwneud hynny mewn dull gwahanol, yn gyffredinol. Fel y nododd golygyddion rhifyn ffeminyddol arbennig y *Traethodydd* yn 1986:

Yn gyffredinol, rhoddir statws is i lenyddiaeth sy'n trafod themâu neu bynciau o ddiddordeb arbennig i ferched neu sy'n adlewyrchu profiadau benywaidd yn bennaf megis geni plant, twf perthynas rhwng mam a'i phlentyn, neu rhwng dwy ferch. Nid themâu 'mawr' mohonynt yn nhyb y beirniaid, yn wahanol, felly, i thema fawr Rhyfel yng ngwaith Wilfred Owen neu Siegfried Sassoon neu Alun Llywelyn-Williams.<sup>58</sup>

---

<sup>55</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 42.

<sup>56</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 46.

<sup>57</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 185.

<sup>58</sup> Curtis, Haycock, ap Hywel, Lloyd-Morgan, 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 47.

Dadleuai ffeminyddion mwy radical fod yr iaith Gymraeg ei hun yn wrywaidd ei natur, am mai dynion a oedd wedi gosod y telerau wrth lunio orgraff a gramadeg yr iaith, ac am mai hwy hefyd a oedd wedi dewis pa fath o iaith a oedd yn cael ei defnyddio mewn llenyddiaeth ar hyd y canrifoedd.<sup>59</sup> Yr oedd hyn yn tynnu ar syniadau Hélène Cixous o *écriture féminine* – ‘ysgrifennu benywaidd’, yn llythrennol. Prif fyrdwn y syniad yw mai’r unig beth sydd gan ferch nad yw’n eiddo i ddyn yw ei chorff, a dyna’r unig beth sydd ganddi na all dyn ei ddwyn oddi arni. Credai’r ffeminyddion Ffrengig fod gan ferch ei hiaith ei hun sy’n perthyn i’w dychymyg a’i rhywioldeb, ac felly’r alwad oedd i ferched ddefnyddio eu cyrff yn eu gwaith.<sup>60</sup> Anogid merched i ddefnyddio’r weithred o farddoni i roi llais i brofiadau benywaidd unigryw, megis y misglwyf, beichiogrwydd ac esgor ar blant, er mwyn cynhyrchu math gwahanol o lenyddiaeth:

Woman must write her self: must write about women and bring women to writing, from which they have been driven away as violently as from their bodies – for the same reasons, by the same law, with the same fatal goal. Woman must put herself into the text – as into the world and into history – by her own movement ... By writing her self, woman will return to the body which has been more than confiscated from her, which has been turned into the uncanny stranger on display - the ailing or dead figure, which so often turns out to be the nasty companion, the cause and location of inhibitions. Censor the body and you censor breath and speech at the same time. Write your self. Your body must be heard. Only then will the immense resources of the unconscious spring forth. Our naphtha will spread, throughout the world, without dollars – black or gold – nonassessed values that will change the rules of the old game.<sup>61</sup>

Sylweddolwyd bod dynion hefyd yn gallu ysgrifennu’n ‘fenywaidd’; pan enillodd Iwan Llwyd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1990 gyda’i gerdd ‘Gwreichion’, er enghraifft,

---

<sup>59</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 184.

<sup>60</sup> Menna Elfyn, ‘Trwy Lygaid Ffeministaidd’, yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 27.

<sup>61</sup> Hélène Cixous, ‘Le Rire de la Méduse’, *L’Arc* (1975), 39-54. Cyfieithiad Saesneg gan Keith and Paula Cohen, ‘The Laugh of the Medusa’, *Signs*, Vol. 1, No. 4 (Summer, 1976), 875-80.



cyfeiriodd Alan Llwyd ato yn ei feirniadaeth fel merch,<sup>62</sup> am ei fod yn defnyddio persona gwraig feichiog a oedd yn siarad â'i phlentyn yn sôn am ei genhedlu, y cyfnod pan oedd wedi ystyried ei erthylu, a'i enedigaeth. O ran merched yn defnyddio'r iaith fenywaidd wrth ysgrifennu, canmolwyd Carmel Gahan gan ffeminyddion a beirniaid llenyddol am farddoni gan ddefnyddio'r dull hwn yn ei chyfrol *Lodes Fach Neis*, er i'r gyfrol fethu ag ennill gwobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1979.<sup>63</sup> Fel y dywed Simon Brooks: 'Hwyrach mai dim ond bardd o'r tu allan a allai herio'r Tadau, am nad oedd yn eu hadnabod yn bersonol.'<sup>64</sup>

A hithau'n Gymraes ail-iaith o'r Cymoedd, 'bardd o'r tu allan' ym mhob ystyr o'r gair yng ngolwg rhai Cymry Cymraeg, byddai rhywun yn disgwyl i enw Christine James godi o bryd i'w gilydd yn yr ymgais i herio'r sefydliad barddol patriarchaidd. Gwelir drwy hanes llenyddiaeth Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain fod statws ymylol fel petai'n rhagamod her. Ni raid ond crybwyll enwau megis Saunders Lewis, Waldo Williams, Bobi Jones a Pennar Davies, ymysg amryw eraill, i sylweddoli cymaint o'n llenorion a'n beirdd amlycaf a oedd wedi mabwysiadu'r iaith yn gyfrwng drwy ddewis ymwybodol. Drwy ystyried hyn, gellid efallai fod wedi disgwyl y byddai Christine James hefyd wedi defnyddio'i statws ymylol breintiedig i herio'r drefn a mynnu sylw i farddoniaeth gan ferched. Y peth trawiadol yn hyn i gyd, fodd bynnag, yw nad yw ei henw yn dod i'r amlwg o gwbl yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn o ennyn diddordeb mewn gwaith gan ferched. Nid yw hi'n ymddangos ym mlodeugerddi na chylchgronau'r cyfnod, nid hyd yn oed yn y cyfrolau o weithiau gan ferched yn unig, megis *Hel Dail Gwyrdd* (1985) ac *O'r lawn Ryw* (1991) o dan

---

<sup>62</sup> Alan Llwyd, "Casgliad o Gerddi: Gwreichion – Beirniadaeth Alan Llwyd", yn W.J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1990), t. 34.

<sup>63</sup> Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 185.

<sup>64</sup> Ibid.

olygyddiaeth Menna Elfyn. Gwelwn enwau ei chydfuddugwyr coronog yn codi dro ar ôl tro. Ceir cyfraniadau helaeth gan Eluned Phillips, Einir Jones, Eigra Lewis Roberts a Gwyneth Lewis, er enghraifft, yn y blodeugerddi hyn a oedd yn cynnig platfform i ferched nad oedd eu barddoniaeth yn gweddu i dudalennau cylchgronau ceidwadol, cynganeddol fel *Barddas*. Y mae tawedogrwydd Christine James yn arwyddocaol felly, ac yn anarferol.

Nid oherwydd diffyg cyfle y mae ei henw ar goll. Er ei bod hi'n anodd i ferched gael eu derbyn i'r traddodiad prif ffrwd, a chael eu cydnabod ar yr un lefel â'u cyfoedion gwrywaidd, yn enwedig am fod cymaint o bwyslais ar y gynghanedd mewn barddoniaeth Gymraeg, disgwylid i'w henw ymddangos yn rhywle, yn enwedig yn y cyfrolau a oedd yn cynnwys gweithiau merched yn unig – ond fe'i nodweddid gan ei habsenoldeb, hyd nes iddi ddod yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn 2004, a mynd ymlaen i ennill y wobwr yn 2005. Ai diffyg hyder yn ei Chymraeg a'i rhwystrodd? A hithau eisoes yn ddarlithydd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ers canol yr 1980au, byddai rhywun yn disgwyl na fyddai ei hyfedredd na'i hyder yn yr iaith yn broblem iddi. Rhaid cofio, fodd bynnag, fod hyder mewn Cymreictod yn fwy na'r gallu i siarad Cymraeg, ac y gallai ddeillio o amharodrwydd i leisio barn am gymuned nad ydyw'r unigolyn yn teimlo ei bod yn aelod cyflawn ohoni. A oedd hi'n teimlo bod ei haralledd yn ei rhwystro rhag cyfrannu'n llwyr at fywyd llenyddol y Gymraeg? Y mae'n ddigon posibl mai diffyg hyder i leisio barn mewn cymdeithas nad oedd yn teimlo'n rhan gyflawn ohoni ai rhwystrodd; ceir trafodaeth ehangach ar y syniad hwn o aralledd y bardd yn y drydedd bennod.

Y mae ei safle ymylol, felly, yn cynnig esboniad posibl am ei habsenoldeb yn ystod y cyfnod allweddol hwn o godi ymwybyddiaeth o farddoniaeth gan ferched. Rhaid ystyried hefyd y

posibilrwydd nad oedd ganddi diddordeb arbennig mewn ffeminyddiaeth, neu yn hytrach, mewn gweithredu ar ran y mudiad hwnnw. Nodwyd eisoes nad oedd hi am gael ei hystyried yn *rôle model* cyhoeddus o ferch, a dywed hynny'n ddigon eglur:

Mae'n gas gen i feddwl am fy hun fel *rôle model* o ferch ... dwi ddim yn gallu cael fy mhen i o gwmpas hynny o gwbl.<sup>65</sup>

Trwy ddatgan nad ei bwriad oedd ceisio bod yn esiampl o ferch ar flaen y gad, gellid honni bod Christine fel petai hi'n perthyn i'r syniad o broto-ffeminyddiaeth. Syniad yw hwn a ddatblygodd o flaen ffeminyddiaeth, sef bod merch yn ddigon hyderus i fynd ymlaen yn y byd a llwyddo ar ei liwt ei hun, ond nid fel rhan o ymgyrch i gael merched eraill i wneud yr un peth. Y mae hi fel petai hi'n ymwrthod â'i hanfod – fel y ferch gyntaf i gael ei derbyn yn Archdderwydd, byddai rhai yn disgwyl iddi fod wedi gwneud hyn fel rhyw fath o safiad, er mwyn profi bod modd i ferched gael eu derbyn i sefydliad patriarchaidd. Fodd bynnag, fel y trafodir yn y man, awgryma ei barddoniaeth yn gryf fod ganddi ddaliadau ffeminyddol; mae hi'n ddigon posibl felly, ac yn ddigon teg, nad oedd hi am wneud safiad cyhoeddus yn hynny o beth a chael ei labelu fel arweinydd ffeminyddol yn y cyfryngau. Gellir awgymru fod Christine James yn wylidwrus o allu'r cyfryngau i orsymleiddio pobl a'u gosod yn daclus mewn categorïau, ac o bosibl ei bod yn pryderu y byddai'r cyfryngau yn ei labelu fel ffeminydd yn ôl eu dealltwriaeth cul o'r term, gan wneud môr a mynydd o'r peth yn hytrach na gadael i'w barddoniaeth lefaru ar ei rhan.

Ar y llaw arall, y mae'n bosibl mai dim ond yn ddiweddarach yn ei bywyd y dechreuodd Christine James sylweddoli ei dawn fel bardd, ac mai dim ond wedi'r holl fwrlwm yn yr 1980au a'r 1990au y sbardunwyd yr awydd ynddi i farddoni. Noda'r bardd ei hun na

---

<sup>65</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

ddechreuodd gyfansoddi o ddifrif tan ar ôl iddi ddiodef cyfnod o iselder, a bod hyn fel petai yn drobwynt. Ar y pryd, gwelai farddoni fel rhywbeth cathartig, fel petai, ac yn ffordd o drechu'r teimladau a oedd yn ei llethu yn ystod y cyfnodau tywyll hynny:

Roeddwn i wedi gwneud ychydig, ychydig bach, bach [o farddoni] ond dim byd mor uniongyrchol, dim byd ar hyd y llinellau yma o glirio dy ben di, fel petai, trwy roi rhywbeth i lawr ar bapur.<sup>66</sup>

Gellid honni hefyd fod ei natur dawel yn rhannol gyfrifol am ei habsenoldeb fel bardd yn ystod y cyfnod hwn o ddadlau a brwydro dros hawliau merched, ac o geisio denu sylw at waith merched er mwyn adfywio barddoniaeth Gymraeg:

Mae'r Christine fewnol yn hollol wahanol i'r Christine y mae pobl yn ei gweld ar lwyfan yr Eisteddfod ... mae rhywun yn camu i mewn i ryw fath o rôl. Act yw hynny, ac wrth gwrs fel Archdderwydd mae gyda chi wisg amdanoch chi yn llythrennol ... ond yn y bôn rwy'n berson swil iawn, rwy'n berson tawel, dydw i ddim yn chwennych lot o sylw.<sup>67</sup>

Eto i gyd, er gwaetha'r ymwrthod bwriadol hwn, y mae Christine James yn amlwg wedi'i dylanwadu gan syniadau'r ffeminyddion hynny a fu wrthi'n brwydro dros newid yn yr agwedd tuag at farddoniaeth gan ferched. Yn rhan nesaf y bennod, trafodir effaith y dylanwad hwn ar gerddi y gellid ystyried bod ynddynt isleisiau ffeminyddol – ac yn enwedig yr elfen amlwg yng ngwaith y bardd o ysgrifennu'n fenywaidd, yr *écriture féminine* a oedd mor boblogaidd yng ngwaith merched yn ystod cyfnod ail don ffeminyddiaeth.

Ystyrir i ddechrau rai cerddi o'r casgliad 'Llinellau Lliw', a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau yn 2005. Gofynnwyd am ddeddiad o gerddi ar thema, a dewisodd Christine James weithiau celf fel y llinyn cyswllt, drwy ymateb i weithiau gan arlunwyr cydnabyddedig o Orllewin Ewrop a Gogledd America. Llwyddodd

---

<sup>66</sup> Ibid.

<sup>67</sup> Ibid.

hefyd i gysylltu'r thema â'i ffugenw 'Pwyntil' sy'n cyfeirio at declyn a ddefnyddir i wneud twll mewn darn o waith metel neu bren. Y mae'r dewis hwn o ffugenw yn un arwyddocaol a bwriadol iawn, sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r gwaith. Yr hyn sy'n nodweddiadol am 'bwyntil' yw ei fod yn creu darlun cyflawn fesul marc bach. Yn ogystal â'r teclyn, gall y term gyfeirio hefyd at dechneg '*pointillisme*', sef gwneud llun mawr allan o nifer o ddotiau bychain. Nid yw'r dotiau hyn yn bethau mawr na gwefreiddiol ar eu pen eu hunain, ond wrth eu rhoi at ei gilydd y ceir y campwaith. Gellir ystyried y casgliad coronog, ac yn wir, y gyfrol ar ei hyd, trwy ddefnyddio'r un syniad. Y mae'r cerddi bach unigol yn dda, ond y gyfrol yn ei chyfanrwydd yw'r peth pwysig a sylweddol, a thrwy ddarllen y cerddi gyda'i gilydd fel casgliad yr ydym ni'n sylweddoli cymaint yw eu crefft a'u techneg.

Er nad yw'r un o'r cerddi yn y casgliad buddugol yn seiliedig ar weithiau celf gan arlunwyr benywaidd, merched yw testunau llawer iawn o'r cerfluniau a'r paentiadau a grybwyllir, ac y mae'n arwyddocaol fod y bardd wedi dewis trafod y merched hyn drwy ganolbwyntio ar y modd y cânt eu portreadu gan ddynion. Dywed Mererid Puw Davies fod y bardd yn gwneud hyn yn fwriadol, a'i bod yn ymyrryd yn y traddodiad patriarchaidd trwy ysgrifennu'n ôl at draddodiad a arferai dawelu merched,<sup>68</sup> a thrwy hyn felly ei bod yn dadstrwythuro'r system, fel petai. Y mae dyfyniad enwog gan Picasso, arlunydd sy'n cael sylw yn y casgliad, sy'n honni bod merched naill ai'n dduwiesau neu'n slebogiaid – 'goddesses or doormats' – a bod pob merch yn gweddu i un o'r ddwy ystrydeb. Lluniwyd cerdd yn ymateb i'r gosodiad hwn gan Elin Llwyd Morgan, o dan y teitl 'Sgitso Picasso', lle y dadleua nad yw hi'n gweddu i'r ystrydebau hyn o gwbl, a'i bod hithau, fel pob merch arall, yn gyfuniad o'r ddwy – yn 'Dduwieslebog'.<sup>69</sup> Gellir ystyried gwaith Elin Llwyd Morgan a Christine James yn gyfochrog,

---

<sup>68</sup> Mererid Puw Davies, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284 (2005), 52.

<sup>69</sup> Elin Llwyd Morgan, *Duwieslebog*, (Talybont: Y Lolfa, 1993), t. 7.

yn yr ystyr hwn, yn y modd y mae'r ddwy ohonynt fel petaent yn ymateb i sylwadau Picasso. Yn achos Christine James, y mae'r gweithiau celf sy'n cael sylw yn y casgliad naill ai'n darlunio merched fel puteiniaid neu dduwiesau, ac mae'r bardd fel petai hi'n ceisio mynd o dan groen yr ystrydebau er mwyn profi bod mwy i ferch na'i phryd a'i gwedd. Prif linydd cyswllt cerddi'r bardd am ferched, yn syml, yw bod pob un ohonynt fel petai'n darlunio merched sy'n anghyfforddus yn eu cyrff am amryw resymau. Y mae rhai ohonynt yn gwingo wrth gael eu gweld fel gwrthrychau chwant yn unig; mewn cerdd arall, y mae mam sydd wedi colli ei phlentyn yn teimlo iddi golli'r hyn yr oedd ei chorff wedi ei fwriadu ar ei gyfer, sef meithrin a chynnal plentyn; y mae merched eraill a bortreadir yn troi deiet yn beth patholegol ac yn obsesiwn hollfeddiannol am eu bod yn anghyfforddus yn eu cyrff.

Trafoda gerdd gyntaf y casgliad, 'arddangosfa', brofiad criw o ferched yn eu harddegau, fwy na thebyg, sy'n ymweld ag oriel neu amgueddfa fel rhan o daith ysgol. Y gwaith celf a ysbardunodd y gerdd hon yw cerflun enwog Auguste Rodin, 'Y Gusan', a'r un gwaith sy'n sail i'r gerdd sy'n cloi'r casgliad coronog hefyd. Y mae'r gerdd agoriadol hon yn cael ei hadrodd yn y person cyntaf, ar ffurf atgof gan y bardd am sefyllfa a ddigwyddodd pan oedd yn ei harddegau. Llwydda'r gerdd i greu cyd-destun i weddill cerddi'r casgliad, gan ddisgrifio'r trobwynt yr oedd ei angen ar gyfer gwerthfawrogi ac ymateb i'r gweithiau celf eraill. Y mae'n arwyddocaol hefyd mai dyma'r merched ieuengaf yn y casgliad – criw yn eu harddegau ar drothwy bod yn oedolion – ac y mae hyn yn gosod cysail ar gyfer y cerddi sydd i ddilyn.

Tynnir ein sylw yn syth at fenyweidd-dra'r criw o ymwelwyr, wrth i'r tywysydd eu siarsio'n bigog, 'tewch, ferched!'.<sup>70</sup> Y mae'r sylw pigog hwn yn ein hatgoffa o'r ymadrodd Lladin

---

<sup>70</sup> Christine James, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 16.

*'taceat mulier in ecclesia'* – bydded y wraig yn ddistaw yn yr eglwys. Cawn yr argraff bod yr oriel gelf, fel yr eglwys, yn lle nad yw merched i fod i godi eu lleisiau, a phwysleisir y cyferbyniad rhwng y system a geir yn nhrosiad yr oriel fel eglwys, a'r merched sy'n ymweld â hi. Er gwaethaf eu sŵn a'u sgwrsio, sy'n tarfu ar naws dawel, fwill yr oriel, y mae'r criw fel petaent yn gweddu i awyrgylch barchus yr amgueddfa, yn eu 'sgidiau synhwyrol, gweddus'<sup>71</sup> sy'n cydymffurfio â'r drefn, heb dramgwyddo neb na dim. Awgrymir bod yr esgidiau gweddus hyn yn rhan o wisg ysgol y merched, ac y mae'r sylw a roddir iddynt yn pwysleisio'r cyfyngiadau sydd ar ymddygiad a gwisg merched hyd yn oed o oedran cynnar; rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cadw y tu mewn i ffiniau'r hyn y mae awdurdod uwch yn ei ystyried yn addas o'r cychwyn, am fod rheolau eisoes wedi'u sefydlu ar yr hyn sy'n briodol neu'n amhriodol i ferched ymgymryd ag ef. Pentyrrir ansoddeiriau i gyfleu cymaint yw syrffed y merched, sy'n '[y]mlusgo'n ddiogel ddiflas'<sup>72</sup> o lun i lun. Awgryma'r ansoddair 'diogel' unwaith eto'r syniad hwnnw o gadw y tu mewn i ffiniau'r hyn sy'n weddus, heb wyro rhag yr hyn a ddisgwylir gan gymdeithas waraidd.

Y mae 'sylwebaeth fwill'<sup>73</sup> y tywysydd neu'r athro yn gwbl ddi-fflach, ac y mae'n methu'n llwyr yn ei ymgais i ennyn unrhyw fath o ddiddordeb nac ysbrydoliaeth gan y disgyblion wrth iddo gadw draw o weithiau a ystyrir yn ddadleuol. Â'r criw yn eu blaenau trwy'r oriel, 'heibio i ryw lilis dŵr mewn pwll'<sup>74</sup>, heb ddangos unrhyw ddiddordeb yn yr hyn sydd o'u cwmpas. Y mae hyn, wrth gwrs, yn gyfeiriad at un o luniau enwocaf Monet. Nid yw hyn o ddim diddordeb i'r merched, fodd bynnag, ac awgryma'r bardd yma nad yw hi'n bwysig pa mor enwog yw'r llun na'r un a greodd y gelfyddyd, os nad yw'n symbylu ymateb gan y

---

<sup>71</sup> Ibid.

<sup>72</sup> Ibid.

<sup>73</sup> Ibid.

<sup>74</sup> Ibid.

gynulleidfa ehangach. Cyfeiria'r bardd wrth fynd heibio at y paentiadau a'r gweithiau eraill a drafodir yng ngweddill y casgliad:

eglwys gadeiriol  
yn machludo'n syrffedus  
ar noson na welsom  
harddwch gwrid ei gosber  
y prynhawn hwnnw<sup>75</sup>

Nid yw'r tirluniau na harddwch y gweithiau sy'n cael eu harddangos yn yr oriel yn cyffroi'r gynulleidfa ifanc, am na allant uniaethu â hwy. O safbwynt y gynulleidfa ifanc, y mae'r gweithiau i yn ddifywyd, yn gwbl 'syrffedus', ac nid ydynt yn ysgogi angerdd na chyffro.

Bron ar ddamwain, fodd bynnag, daw'r criw o hyd i gerflun enwog Rodin, 'Y Gusan', sy'n darlunio pâr noethlymun yn cusanu. Ceir cydraddoldeb rhwng gwryw a benyw yn y cerflun hwn – y mae'r ddau'r un mor noeth â'i gilydd, ac y mae'r gusan rhyngddynt yn eu huno ond hefyd yn cuddio'u noethni. Am y tro cyntaf ers iddynt gyrraedd yr oriel, y mae'r gwaith yn gwneud i'r merched aros yn eu hunfan, a thyrrant o'i gwmpas, 'yn gylch / annisgwyl ei awch am gelf.'<sup>76</sup> Dyma'r gwaith cyntaf y cyfeirir ato yn y gerdd sydd â chyrrff yn ganolbwynt iddo yn hytrach na delweddau o fyd natur, adeiladau neu dirluniau – y peth cyntaf yn yr oriel gyfan y gall y merched ysgol uniaethu ag ef. Disgrifia'r bardd y modd y rhyfeddant at y gwaith:

a ninnau'n gegrwth  
wrth gywilydd noeth  
cwlwm o gusan gain.<sup>77</sup>

---

<sup>75</sup> Ibid.

<sup>76</sup> Ibid., t. 17.

<sup>77</sup> Ibid.



Profiad byrhoedlog yw'r awch hwn, fodd bynnag, a rhoddir taw arno yn y fan a'r lle pan fynna'r tywysydd lusgo'r criw oddi yno. Cânt eu hysio yn eu blaenau yn ddigon diseremoni at weithiau llai tramgwyddus, ac y mae'r gri o 'dewch, ferched!'<sup>78</sup> yn cael ei defnyddio fel ergyd i ddeffro'r disgyblion o'r hud a ddaeth drostynt. Cyrhaeddant gasgliad o weithiau diflas yn yr un math o arddull ag a gafwyd ar ddechrau'r gerdd – 'at blatiau, tebot propor'<sup>79</sup> – lle nad oes perygl i neb gael eu hysgwyd na'u cyffroi gan yr hyn sydd o'u blaenau. Defnyddir yr ansoddair 'propor'<sup>80</sup> yn hynod effeithiol yma i gyfleu'r gweddusrwydd diogel unwaith yn rhagor, fel petai'r gair hen-ffasiwn ei hun yn adlewyrchu agwedd y tywysydd ceidwadol. Cânt ddychwelyd at y llestri a'u hatal rhag cydnabod eu rhywioldeb:

cyn ein hysio ymlaen ...  
... at blatiau, tebot propor  
ac arddangosfa arall  
fu'n llai angerddol ei hargraff  
ar glai ein glasfeddyliau  
ddiwedd prynhawn poeth.<sup>81</sup>

O ganlyniad i chwithdod y tywysydd, felly, rhwystrir chwilfrydedd ac angerdd y merched, a dychwelant at ddiflastod unwaith eto. Terfir yn llwyr ar yr egin-ddiddordeb hwnnw a ddangoswyd ganddynt oherwydd nad oedd y tywysydd yn teimlo bod y cynnwys yn addas i gynulleidfa o ferched ysgol ifanc. Pan gafwyd ymateb ganddynt, yr oedd yr ymateb hwnnw yn groes i'r hyn a ddisgwyliwyd, a theimlai'r tywysydd fod hyn yn annerbyniol. O ganlyniad, y mae ei embaras neu ei hembaras yn llethu'r awch yn y fan, a thrasiedi'r gerdd yw bod y cyfle i feithrin gwerthfawrogiad celfyddydol wedi ei rwystro'n llwyr oherwydd chwithdod. Fel y dywedodd Mererid Puw Davies:

---

<sup>78</sup> Ibid.

<sup>79</sup> Ibid.

<sup>80</sup> Ibid.

<sup>81</sup> Ibid.

Mae'r math yma o 'arddangosfa' yn peri i'r gelfyddyd a ddangosir ymddangos yn gaeedig, ac yn awgrymu nad oes dim o'r byd allanol a all dreiddio iddo, a dim ohono a all gyfathrebu â'r byd y tu allan iddo 'chwaith. I'r merched yn y gerdd... mae'r lluniau a'r gwrthrychau yn farw ac yn fud. Ac ar y foment fer lle'r ymddengys y gallai pethau newid, wrth edrych ar gerflun beiddgar Auguste Rodin, 'Y Gusan', torrir ar ei thraws yn ddigon buan, fel petai rhyw berygl mawr ar waith.<sup>82</sup>

Y cariadon sy'n ysbrydoli'r merched ifanc am mai dyma'r unig ddarn o gelf a welsant yn yr oriel gyfan a ganolbwyntia ar gyrff a phrofiad dynol. Y mae'r gerdd hon felly yn un sydd wedi'i seilio ar wrthgyferbyniadau – rhwng y dynion o arlunwyr a'r ymwelwyr o ferched, rhwng rheolau'r hyn sy'n weddus a rhyddid mynegiant, rhwng distawrwydd yr oriel a siarad byrlymus y bobl ifanc. Ceir gwrthgyferbyniadau hyd yn oed yn y dewis o luniau a grybwyllir yn y gerdd, rhwng y paentiadau un dimensiwn difywyd nad ydynt yn ennyn unrhyw fath o ymateb, a'r cerflun tri dimensiwn sy'n mynnu ei le ar lawr yr oriel gan hoelio sylw. Ceir cyferbyniadau rhwng absenoldeb pobl yn y darluniau a phresenoldeb amlwg y merched yn yr oriel, a'r cerflun a ddenodd sylw, sy'n canolbwyntio ar gyrff a phrofiad dynol, ac y mae'r cyfan fel petai'n toddi i'w gilydd wrth i'r merched sylwi ar 'Y Gusan' am y tro cyntaf.

Gallwn ystyried yr oriel yn y gerdd hon yn drosiad am y byd patriarchaidd – y mae'r gweithiau a ddisgrifir yn yr oriel i gyd yn rhai gan ddynion, ac yn darlunio gwrthrychau traddodiadol wrywaidd. Cawn weld delweddau o'r tir, a fyddai'n cael ei drin gan ddynion yn draddodiadol, ac eglwysi cadeiriol a gynlluniwyd ac a adeiladwyd gan ddynion, lle nad oes croeso i ferched. Caiff y merched eu distewi'n syth pan gyrhaeddant yr oriel, gan awgrymu'n gryf nad yw'r oriel yn lle i ferch godi ei llais. Yr hyn sy'n torri'r tawelwch gweddus hwnnw yw cerflun 'Y Gusan', wrth i'r merched weld y cyrff a phresenoldeb

---

<sup>82</sup> Puw Davies, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 51.

benywaidd yn y gweithiau am y tro cyntaf. Dyma'n union yw *écriture féminine*, ysgrifennu gan ddefnyddio'r corff, a defnyddio cyrff i godi llais a mynnu lle i ferched mewn byd patriarchaidd. Y mae defnydd Christine James o'r dechneg yn gelfydd iawn yma, gan ddefnyddio absenoldeb y cyrff i ddynodi tawelwch, a defnyddio'r cerflun fel modd o fynnu lle i'r merched a'r corff benywaidd yn y gymdeithas wrywaidd sydd ohoni.

Y gerdd hon yw un o'r enghreifftiau amlycaf o sut y mae'r bardd yn ysgrifennu'n fenywaidd. Ceir cyfeiriadau mynych yn y gerdd at rannau traddodiadol fenywaidd o'r corff wrth ddisgrifio noethni dau gymeriad yn y cerflun, megis at 'fron' y ferch a 'meddalwch parod' ei '[ch]lun'<sup>83</sup>. Dyma'r rhannau o'r corff sy'n cael eu cysylltu â ffrwythlondeb a geni plant, ac y mae'n arwyddocaol i'r bardd gyfeirio atynt wrth ddisgrifio'r gwaith celf ysgytiol. Ai noethni'r ddau, yn enwedig y ferch, oedd yr hyn a ystyrid yn anwedus? Yn sicr, gall celfyddyd fod yn heriol, a hyd yn oed yn fygythiol ar adegau, yn enwedig os yw'n bygwth normau cymdeithas.

Ail gerdd casgliad coronog 2005 yw 'y Ffrances a'r Gymraes', ac yma y gwelwn dechneg ecffrasis ar ei amlycaf, wrth i'r bardd ddadfframio'r llun yn llwyr. Merch yw testun y llun hwn, 'La Parisienne' gan Pierre-Auguste Renoir, a hi sy'n llefaru yn y gerdd. Y mae'r ferch sy'n cael ei phortreadu yn y llun yn siarad â merch arall o'r enw 'Gwen', sef yr un sydd wedi prynu'r llun.

Ceir awyrgylch fyfyrgar, gosmopolitaidd i'r gerdd, sy'n adlewyrchu cefndir Ffrengig y llun a'r arlunydd. Cyflëir hyn gan yr ymadroddion Ffrangeg sy'n britho'r gerdd, ac sy'n creu darlun o

---

<sup>83</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 17.

fywyd moethus y dosbarthiadau uwch mewn cymdeithas ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

llyfnder afon Seine yn llepian ...  
... cyn rhodianna eto'n ôl, fin nos,  
tua'n swper ar fraich ein *beaux*.<sup>84</sup>

Y mae gwrthrych y llun yn sgwrsio â Gwen, gan ofyn iddi ai lliw'r ffrog las a'i denodd i brynu'r llun, a honno yn 'asur mor danbaid â'r awyr'<sup>85</sup>, ynteu'r toriad, sy'n 'afradlonedd sidan, plyg ar blyg / yn rhaeadr chwil o grychau *chic*'.<sup>86</sup> Cyfeiria at yr wniadwreg 'fwy crefftus na'r cyffredin'<sup>87</sup> a fu wrthi'n pwytho ac yn llunio'r ffrog, a honno'n un adnabyddus ymhlith haenau uwch cymdeithas, y '*bourgeois*' a'r '*élite*'.<sup>88</sup>

Wrth grybwyll y moethusrwydd hwn, fodd bynnag, y daw ergyd y gerdd, wrth i'r ferch yn y llun ofyn iddi ai chwennych ffrog debyg 'a'th yrrodd, Gwen, i'm prynu / eilwaith fel putain?'<sup>89</sup> Gyda'r geiriau hyn, sylweddolwn y gwirionedd digon annymunol: byddai puteiniaid yn aml yn cael eu talu i sefyll i arlunwyr, ac mae'n bur debyg mai dyma oedd hanes gwrthrych y llun hefyd. Nid merch gyfoethog fel Gwen oedd hithau, ond merch a oedd yn cael ei defnyddio am ei chorff yn unig, cyn ei diosg i ddychwelyd at ei sefyllfa anffodus. Efallai y byddai rhai'n dadlau nad oedd ei sefyllfa'n gwbl druenus – cafodd rywfaint o arian, wedi'r cyfan, am fod yn fodel. Fodd bynnag, ni fydd y ferch fyth yn cael y profiad o dreulio oriau'n hamddena gyda'r uchelwyr, a mwgwd yn unig yw'r hyn a ddengys yn y llun, nad yw'n adlewyrchu ei realiti o gwbl. Wrth i Gwen brynu'r llun, y mae'r ferch sy'n

---

<sup>84</sup> Ibid., t. 18.

<sup>85</sup> Ibid.

<sup>86</sup> Ibid.

<sup>87</sup> Ibid.

<sup>88</sup> Ibid.

<sup>89</sup> Ibid.

cael ei phortreadu wedi cael ei phrynu unwaith eto, am yr un rheswm yn union, a hynny er mwyn i bobl eraill werthfawrogi ei chorff a'i phryd a'i gwedd:

... fy ngosod fyth  
i sefyll yn nrws y tes llesmeiriol  
yn borth i lenwi llygaid barus,  
heb unwaith deimlo mwythau maneg cariad  
mewn rhyw sioe o bilyn benthg.<sup>90</sup>

Erbyn diwedd y gerdd, daw'n amlwg mai Gwendoline Davies a brynodd y llun, sef wyres David Davies, Llandinam, a enillodd ei gyfoeth yn y diwydiant glo. Yr ensyniad felly yw ei bod hithau yn un o'r '*nouveaux riches*'<sup>91</sup> y cyfeirir atynt yn y gerdd, oherwydd iddi elwa o'r arian mawr a wnaeth ei thaid yn ei fusnes glo. Chwarae rôl yw bywyd moethus Gwen hithau, wrth iddi elwa ar arian dynion. Ategir hyn gan y cyfeiriad cynnil ar ddiwedd y gerdd at yr esgid fach ddu yn brigo o dan y glesni fel glo, gan awgrymu felly bod Gwen yn uniaethu â'r ferch yn y llun.

Y mae yna isleisiau ffeminyddol i'r gerdd hon, gan fod y bardd yn boenus o ymwybodol o sefyllfa'r butain a ddefnyddiwyd dros dro cyn ei thafu o'r neilltu. Y mae hi'n tosturio dros y ferch sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei chorff yn unig. Gwelwn y thema hon yn digwydd droeon yng ngwaith Christine James, mewn cerddi eraill megis 'noethlun' a 'merch noeth', a fydd yn cael eu trafod erbyn diwedd y bennod. Y gwahaniaeth rhwng 'noethlun' a 'merch noeth', fodd bynnag, o'u cymharu â'r gerdd 'y Ffrances a'r Gymraes', yw'r pwyslais ar noethni'r gwrthrychau yn y ddwy gerdd gyntaf. Y mae corff y ferch hon wedi'i gorchuddio yn llwyr, ond eto, gwledd i'r llygaid yw hi, ac ni fydd neb yn edrych y tu hwnt i'w phryd a'i gwedd.

---

<sup>90</sup> Ibid.

<sup>91</sup> Ibid.

Cerdd ecffrastig yw ‘blodau Mair’ hefyd, sy’n ymateb i’r llun ‘La Madonna dei Garofani’ (Madona’r Geian) gan Raphael. Y mae’r bardd unwaith eto yn dadfframio’r llun ac yn adrodd stori, gan sôn am y Forwyn Fair yn gofalu am y baban Iesu wrth iddo chwarae yn ei chôi. Ceisia ddiddanu’r plentyn trwy ddysgu enwau blodau a phlanhigion iddo. Tua’r un adeg ag yr oedd Raphael yn paentio’r llun hwn ar ddechrau’r unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd cwlt y Forwyn Fair ar ei anterth yng Nghymru.<sup>92</sup> Un o ganlyniadau hyn oedd y doreth o flodau a phlanhigion a enwyd ar ôl Mair yn y Gymraeg, a chyfeirir at nifer o’r planhigion hyn yn y gerdd, megis y ‘rhosmari’<sup>93</sup> a chanhwyllau Mair.

Y mae’r baban yn dewis blodyn o’r ardd ac yn ei gyflwyno i’w fam, ac o’r holl flodau, y mae’n dewis rhoi ‘ceian wryrfaidd’ iddi:

pob petal  
yn smotyn o waed sych  
ar gynfas lân.<sup>94</sup>

Y mae’r ansoddair ‘[g]wryrfaidd’,<sup>95</sup> wrth gwrs, yn gyfeiriad at y darlun o Fair drwy hanes fel gwryf, a’r cochni ar y petalau yn rhagweld y tywallt gwaed sydd i ddod ar y Groes. Nid dyma ddiwedd y stori, fodd bynnag:

Ac wedi iddo gymryd  
ei wala o laeth fy mronnau  
a chysgu o’r diwedd,  
llifodd fy nagrau  
am na ddewisodd  
gywain imi lili.<sup>96</sup>

---

<sup>92</sup> Ibid., t. 133.

<sup>93</sup> Ibid., t. 26.

<sup>94</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 26.

<sup>95</sup> Ibid.

<sup>96</sup> Ibid.

Fel y dywed Derec Llwyd Morgan, Ifor ap Glyn a Jason Walford Davies yn eu beirniadaeth ar gystadleuaeth y Goron Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005:

Wele, y mae'r ddihalog forwyn yn wylo am na chafodd symbol o burdeb. Nis cafodd gan Grëwr y Byd. Y mae'r ddiwinyddiaeth yn iasol, iasol: ac yn iasol delynegol, nid yn iasol o ddatganiadol, diolch i'r drefn. Dewisa Pwyntil weithio ar thema'r berthynas rhwng mam a'i phlentyn mewn sawl cân ac mewn sawl ffordd, nes creu cymhlethdod da o brofiadau clwm, yn 'gollwng' ac yn 'lliwddall' fel yn 'blodau Mair'.<sup>97</sup>

Awgryma Mererid Puw Davies fod dagrau Mair yn deillio o greulondeb y delfryd a grëwyd ohoni fel gwryf a ddewiswyd i roi genedigaeth i fab Duw, a bod y ddelwedd honno mor amhosibl o berffaith fel na all yr un ferch ei chyflawni na'i bodloni.<sup>98</sup> Y mae Mair yn y gerdd yn gwbl ymwybodol o'r ystrydeb y mae hi wedi'i chaethiwo iddi'n dragwyddol, a chaiff ei siomi i'r byw fod ei mab yn dewis rhoi ceian iddi, sy'n symbol o gariad ac o addewid i briodi, yn hytrach na'r lili, sy'n symbol o burdeb a diweirdeb.<sup>99</sup>

Ceir thema'r berthynas rhwng mam a'i phlentyn yn y gerdd hon, a gwelir yr un math o ddelweddau yn y cerddi 'gollwng' a 'lliwddall'. Unwaith eto, defnyddir y dechneg o gyfeirio at y rhannau hynny o'r corff benywaidd sy'n gysylltiedig â ffrwythlondeb a magu plant, gyda'r pwyslais ar feithrin a gofalu am y plentyn; er enghraifft, 'ac wedi iddo gymryd / ei wala o laeth fy mronnau'.<sup>100</sup>

Yn y gerdd 'noethlun', sydd unwaith eto'n gerdd ecffrastig, y mae'r bardd yn siarad gan ddefnyddio persona'r arlunydd. Y mae hi'n disgrifio llif yr ymwybod a gweithredoedd yr

---

<sup>97</sup> Derec Llwyd Morgan, Ifor ap Glyn, Jason Walford Davies, 'Beirniadaeth: Casgliad o gerddi rhydd ar thema heb eu cyhoeddi a heb fod dros 300 llinell', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffiniau 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), t. 36.

<sup>98</sup> Puw Davies, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas* (2005), 52.

<sup>99</sup> Ibid.

<sup>100</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 26.

arlunydd wrth iddo fynd ati i lunio portread o'r ferch noeth o'i flaen, a disgrifia'r modd y gallai arlunydd, tebyg i Picasso yn yr achos hwn, weld merch fel corff yn unig. Er ei fod yn sylwi ar bob manylyn o'i chorff, ac yn ceisio'i orau glas i gyfleu hynny ar gynfas, y mae'r arlunydd yn gwrthod edrych yn ddyfnach a'i gwerthfawrogi fel rhywbeth sy'n fwy na gwrthrych. Defnyddia'i chorff at ei ddefnydd ei hun, ond y mae'n methu sylwi ar y bod dynol sydd y tu ôl i'r wyneb:

Ni fentrais edrych unwaith  
dan orchudd ei phroffesiwn  
heibio i'r mwgwd dychryn,  
rhag ei throi yn fenyw fyw.<sup>101</sup>

Fel y cafwyd yn y gerdd 'y Ffrances a'r Gymraes', rydym unwaith eto yn ymwybodol o'r math o ferched a fyddai'n cael eu talu i wneud gwaith fel hyn, ac yn sylweddoli ei bod hi'n bosibl mai putain oedd yr un a fyddai wedi cael ei dewis er mwyn i rywun arall ddefnyddio ei chorff i'w fantais ei hun unwaith eto. Y mae'r neges yn un oesol, ac yr un mor berthnasol i'n cymdeithas ni heddiw – nid ei chorff yn unig sy'n diffinio merch. Y mae'r arlunydd yn ymhyfrydu yn y ffaith fod y model yn ufuddhau iddo ac yn gwranddo ar bob gair, gan ddweud ei bod hi'n symud â 'phob ystum i'm boddhau'.<sup>102</sup> Noda sut y mae'n 'ei chymryd y tro hwn ar ei hochr',<sup>103</sup> ac wrth i'r arlunydd yn defnyddio corff y ferch er ei fudd ei hun y mae'r geiriau hyn yn dwyn ystyr rywiol hefyd. Trwy gydol y gerdd, gallwn deimlo beirniadaeth y bardd o'r arlunydd, ac unigolion eraill tebyg iddo, nad ydynt yn gwerthfawrogi merched ac eithrio fel gwrthrychau i blesio dynion.

---

<sup>101</sup> Ibid., t. 30.

<sup>102</sup> Ibid.

<sup>103</sup> Ibid.



Defnyddia'r bardd gyfoeth o eiriau a delweddau benywaidd unwaith eto, gan grybwyll rhannau o'r corff a gysylltir ag atyniad rhywiol wrth iddi drafod yr arlunydd yn gosod ei fodel i eistedd mewn modd arbennig; y mae'n ei rhoi i orwedd a'i braich y tu ôl i'w phen er mwyn iddo 'brofi llawnder ei bronnau'.<sup>104</sup> Crybwylla hefyd sut y bu i'r arlunydd amlinellu 'cyhyrau clun' y ferch yn ogystal â'r 'cysgodion dirgel / dan fol, dan fron'.<sup>105</sup> Defnyddia'r rhannau o'r corff sy'n gysylltiedig â'r ferch yn draddodiadol er mwyn pwysleisio benyweidd-dra'r model, ac er mwyn tynnu sylw at y modd y defnyddir hi fel gwrthrych i'w gwerthfawrogi am ei chorff yn anad dim arall.

'Merch noeth' yw'r ail gerdd yn y triawd 'triptych', cerddi sy'n ymddangos o dan yr adran 'cymhlethdod clwm' yn y gyfrol *Rhwng y Llinellau*. Y mae'r gerdd yn debyg iawn i 'noethlun', a drafodwyd eisoes, o ran testun. Er nad oes llun wrth ochr y gerdd hon yn y gyfrol, daw'n amlwg o ddarllen y gerdd ei bod yn trafod yr un math o lun, sy'n bortread abstract o ferch noeth, mewn arddull giwbiaeth debyg i weithiau Picasso. Y mae'r bardd yn cydnabod yn syth y gall y gwaith eithrio'r rhai hynny sy'n edrych ar y llun gan fod arddull y gwaith yn 'bur estron i'n traddodiad ceidwadol ni',<sup>106</sup> ac y mae hi'n datgan yn ddigon pendant, 'Nid hawdd yw dehongli hon'.<sup>107</sup>

Y mae hi'n annog y gwylwr cyfoes i gymryd 'amser ac ymdrech / drosti, o'i blaen hi / i'w gwerthfawrogi'n llawn'. Trwy hyn felly, caiff y gwylwr ei annog i'w 'throi'n fenyw fyw',<sup>108</sup> gan adleisio'r syniad a geir yn 'noethlun':

syll arni nes troi llinellau syth  
yn fysedd am fronnau

---

<sup>104</sup> Ibid.

<sup>105</sup> Ibid.

<sup>106</sup> Ibid., t. 97.

<sup>107</sup> Ibid.

<sup>108</sup> Ibid., t. 30.

yn gysgod braich dros glun  
neu'n wefusau'n llawn dirgelwch  
... nes i'r wên droi'n waedd.<sup>109</sup>

Y mae'r llinell 'nes i'r wên droi'n waedd'<sup>110</sup> unwaith eto yn cyfleu'r syniad nad yw'r darlun cyhoeddus yn adlewyrchu sefyllfa fewnol druenus y ferch, nac yn adlewyrchu realiti ei bywyd pob dydd. Y mae'r ferch yn y llun wedi cael ei defnyddio a'i phortreadu fel corff yn unig, a chawn ein hannog i edrych o dan yr wyneb a'i gwerthfawrogi am yr hyn ydyw: 'i'w thro'i'n ddibeniad dagrau cariad / na fentrwyd ei fynegi / yn y noethlun hwn'.<sup>111</sup>

Cyfeirir unwaith eto at rannau penodol o'r corff benywaidd wrth ddisgrifio'r portread.

Cysylltir yr enw 'llyfnder'<sup>112</sup> yn draddodiadol â disgrifiadau o'r croen benywaidd, ac y mae'r cyfeiriadau at ei '[b]ronnau', ei '[ch]lun' a'i [g]wefusau'n llawn dirgelwch' eto'n enghreifftiau o ddefnyddio ieithwedd fenywaidd, a rhannau o'r corff sy'n cael eu cysylltu â disgrifiadau o ferched yn draddodiadol, wrth ddisgrifio'r portread.

Y gerdd 'alffa' sy'n agor cyfres o gerddi o'r enw 'egni' a ddaeth yn agos i'r brig yng nghystadlaeth y Goron, Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cyffiniau 2004, a hyd yn oed mewn cerdd heb ferch yn destun iddi, llwydda'r bardd gymathu ieithwedd a delweddaeth fenywaidd i'r testun. Sonia'r casgliad am awen bardd, a'r broses greadigol o roi geiriau at ei gilydd er mwyn llunio darn o gelfyddyd. Ar ddechrau'r gerdd, y mae'r bardd heb ei awen, a defnyddir ieithwedd sy'n adlewyrchu rhannau o benodau cyntaf llyfr Genesis ac Efengyl Ioan:

Yn y dechreuad

---

<sup>109</sup> Ibid., t. 97.

<sup>110</sup> Ibid.

<sup>111</sup> Ibid.

<sup>112</sup> Ibid.

nid oedd  
dim  
am na wyddwn na geiriau  
na gwyddor  
llenwi'r môr marw.<sup>113</sup>

Y mae'n ddigon posibl bod hyn hefyd yn gyfeiriad at brofiad y bardd wrth iddi ddysgu'r Gymraeg, a'i bod yn teimlo gwacter am nad oedd ganddi mo'r geiriau i allu ei mynegi ei hun yn gyflawn trwy gyfrwng yr iaith i ddechrau.

Disgrifir y bardd di-awen, neu'r bardd sy'n ei chael hi'n anodd ymrafael â'r broses greadigol o ddechrau llunio darn o gelfyddyd, yn yr un modd â'r disgrifiad Beiblaidd o greu'r ddaear:

Ac o dan y dyfroedd dim, daear sych  
a'i bronnau'n grychiog, ei thethi'n galed  
a hen groth hesb yn gwegian am gân.<sup>114</sup>

Crëir delwedd yn syth o ddiffeithwch, o fan lle na all bywyd ffynnu, ac yn yr un modd, y mae'r bardd yn ddiffrwyth wrth iddi geisio ymgodymu â'r awen. Yn ei disgrifiad o'r ddaear ddiffaith, cyfeirir at y rhannau hynny o'r corff benywaidd sy'n gysylltiedig â geni neu fagu plentyn gan greu'r ddelwedd yn syth o ferch ddi-blant neu anffrwythlon yn ysu am brofi beichiogrwydd. Y mae hyn unwaith eto yn enghraifft o ddefnydd y bardd o *écriture féminine*, wrth iddi ddefnyddio profiad y corff benywaidd i ddisgrifio profiad sy'n gyffredin rhwng dynion a merched.

Cerdd ysgafn iawn yw 'deffro'n fardd', sy'n disgrifio sut y mae'r awen yn mynd yn drech na'r bardd wedi iddi gael ei hysbrydoli ganddi drwy'r dydd. Er i feirniaid cystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol ei disgrifio fel cerdd 'lai llwyddiannus' a oedd yn 'tueddu i fod

---

<sup>113</sup> Ibid., t. 38.

<sup>114</sup> Ibid.

yn rhigwm ysgafn a disylwedd',<sup>115</sup> nodwyd ganddynt hefyd ei bod yn cyfleu hiwmor a hunan-ddychan y bardd. Sonia Christine James ei hun mai cerdd ysgafn y bwriadwyd i hon fod o'r cychwyn:

Dechreuais ysgrifennu ar anogaeth fy ffrind, Manon Rhys ... a chael digon o hwyl arni ymhen ychydig nes imi ddod i weld bod barddoni'n cynnig ffordd arbennig o edrych ar y byd, o ddod i delerau ag amgylchiadau bywyd – ac wedyn dyma weld cerddi ym mhobman! Mynegiant smala o'r canfyddiad hwnnw sydd yn y gerdd 'deffro'n fardd'; mae'r profiad ymarferol yn debycach i'r hyn sydd gen i mewn cerdd arall yn yr un dilyniant, 'lluwch geiriau', lle rwy'n ceisio (ymhlith pethau eraill) awgrymu'r rhwystredigaeth o fethu dod o hyd i eiriau digonol i fynegi'r hyn sydd yn fy mhen a'm calon.<sup>116</sup>

Fodd bynnag, er mai cerdd ddigon ffwrdd-â-hi yw hon yn sylfaenol, gellir adnabod isleisiau benywaidd ynddi hefyd. Y mae testun y gerdd yn cyfeirio at ddiwrnod arferol ym mywyd y bardd – a honno'n amlwg yn ferch. Pwysleisia'r bardd yr holl bethau a wneir ganddi, gan fwriadol gyfeirio at bethau a ystyrir yn 'fenywaidd'. Sonia am y modd y bu iddi sychu ei gwallt a llunio brechwast i'r teulu, a disgrifia sut y daw'r awen iddi '[d]ros lestri'n y sinc'<sup>117</sup>. Y mae hi hefyd adref i glywed '[c]noc dyn y post'<sup>118</sup>, ac felly yn ei gosod ei hun yn y rôl ddomestig draddodiadol fenywaidd. Sonia sut y mae hi'n paratoi 'cinio i'r teulu',<sup>119</sup> gan unwaith eto chwarae'r rhan ofalgar, famol ac ystrydebol fenywaidd. Y mae hi felly yn cydymffurfio â norm ei rhyw, ac yn gweld y gynghanedd ac yn clywed cerddi mewn pethau arferol, beunyddiol.

Er mor ysgafn yw'r gerdd hon, a'i bod yn bur debyg nad oedd y bardd wedi bwriadu cyfleu neges ffeminyddol fawr ynddi o gwbl, y mae'n ddiddorol mai'r pethau sy'n llunio ei diwrnod

---

<sup>115</sup> T James Jones, Dylan Foster Evans, Alan Llwyd, 'Beirniadaeth: Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Egni', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), tt. 17-19.

<sup>116</sup> 'Holi'r Archdderwydd', *Barddas*, 320 (2013), 12.

<sup>117</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 43.

<sup>118</sup> Ibid.

<sup>119</sup> Ibid.

yw'r tasgau domestig, a byd y ferch ar yr aelwyd – nid yw'r awen yn dod iddi wrth iddi godi silff neu atgyweirio'r car, er enghraifft. Y mae'r gerdd hon yn dwyn i gof gerdd ar yr un thema gan Menna Elfyn, o'r enw 'Bardd Di-gadair Freichiau'. Gellir dehongli teitl y gerdd hon mewn dwy ffordd. Ar y naill law, y mae'n cyfeirio at y syniad o ferch ar ei haelwyd, sy'n methu â chael amser i eistedd a myfyrio yn ei chadair esmwyth a disgwyl i'r awen ei tharo, fel ei chymheiriaid gwrywaidd. Ar y llaw arall, cyfeiria at sefyllfa merched a oedd yn barddoni yng Nghymru yn y cyfnod, gan nad oedd yr un ferch wedi ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y pryd, a bod pob merch yng Nghymru felly yn fardd 'di-gadair' ar lefel genedlaethol. O ran sefyllfa Menna Elfyn, a fyddai'n cael ei heithrio o *Flodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* ychydig flynyddoedd yn unig wedi iddi gyhoeddi'r gerdd hon, yr oedd hi'n sicr yn enghraifft o ferch a oedd yn ceisio canu am ei phrofiadau ei hun, a hynny heb dderbyn na chlod nac anrhydedd, na chadair na choron gan yr Eisteddfod Genedlaethol, y pethau hynny y rhoddir y pwyslais mwyaf arnynt yn y traddodiad barddol Cymraeg.

Yn y gerdd hon, dywed Menna Elfyn nad yw'r awen yn dod i'w rhan fel beirdd eraill, ac nad yw cael ei '[ch]au mewn stafell / i chwilio camffor / yr hyn a alwodd dynion yn Awen'<sup>120</sup> yn ei hysbrydoli hithau na merched eraill tebyg iddi, gan nodi'n ddigon eglur na '[d]aw hi ddim 'run ffordd i ferch'.<sup>121</sup> Dywed fod merched yn gweld yr awen yn y pethau bob dydd, domestig hynny sy'n ffurfio rhannau mor allweddol o'u bywydau. Merched sy'n cynnal y teulu a'r aelwyd, dadleua Menna Elfyn, ac nid oes ganddynt mo'r pleser o allu dianc i gornel neu astudfa i fyfrio a llunio cerddi. Rhaid iddynt ysgrifennu o'u profiad – o ganlyniad, daw'r

---

<sup>120</sup> Menna Elfyn, *Tro'r Haul Arno* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1982), t. 18.

<sup>121</sup> Ibid.

awen i'r bardd a'i chyfoedion benywaidd 'yn sydyn ganol swper'<sup>122</sup> neu wrth 'chwilio ffiws / ynghanol y fagddu / a'r plant dan draed'.<sup>123</sup>

Y mae'r ddwy gerdd fel petaent yn gwrthbrofi'r dyfyniad enwog gan y beirniad llenyddol Saesneg Cyril Connolly, a nododd, 'there is no more sombre enemy of good art than the pram in the hall'.<sup>124</sup> Dadleua Connolly fod cael plant yn lladd ar unrhyw awch greadigol, gan dynnu sylw'r awdur oddi ar ei waith, a'i atal rhag cyflawni ei lawn botensial. Y mae Christine James a Menna Elfyn, fodd bynnag, yn barddoni'n fwy helaeth o fod yng nghanol y bwrlwm domestig, gan gynnwys magu teulu. Y mae neges y ddwy yn debyg iawn, er bod un Menna Elfyn yn fwy bwriadol, yn fwy pwrpasol, a thipyn yn fwy crefftus. Fel ffeminydd blaengar, y mae Menna Elfyn yn targedu ei neges, ac yn ceisio pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng beirdd benywaidd a gwrywaidd, er mwyn hyrwyddo'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Y mae Christine James ar y llaw arall, yn llawer mwy goddefol, ac nid yw hi'n ceisio gwthio unrhyw neges nac agenda ar y darllenwyr. Cerdd ysgafn, ddoniol yw ei cherdd hithau, ac y mae hi'n cyfeirio at yr holl dasgau traddodiadol 'fenywaidd' yn isymwybodol, yn hytrach na'u dewis yn bwrpasol fel Menna Elfyn.

Y mae Christine James yn uniaethu'n bwrpasol â merched eraill mewn cerddi megis 'disgwyl', lle y disgrifia alar mam ddeugain mlynedd wedi trychineb Aberfan. Y mae'r wraig a ddisgrifir yn y gerdd hon hefyd yn un sy'n parhau â'r un drefn bob dydd. Y gwahaniaeth y tro hwn fodd bynnag yw ei bod hi'n dal i geisio parhau â'i rôl famol, er nad yw ei phlentyn yn fyw mwyach. Y mae hi'n gwneud yr un pethau domestig yn feunyddiol, ac yn paratoi te i'w phlentyn erbyn iddo ddychwelyd o'r ysgol:

---

<sup>122</sup> Ibid.

<sup>123</sup> Ibid.

<sup>124</sup> Cyril Connolly, *Enemies of Promise* (London: Routledge and Kegan Paul, 1948), t. 116.

Am ei bod hi eto'n brynhawn  
fel pob prynhawn arall, mae'n taenu eto  
drwch o fenyn cartre ar ddwy dafell  
a gosod y caws yn deidi ger y jam  
cyn gwlychu'r te am dri.<sup>125</sup>

Pan ddaw hi'n amser i'r plentyn gyrraedd gartref, y mae'r wraig yn mynd allan i 'sgwrio'r stryd'<sup>126</sup> ac i chwilio'n daer drwy'r dorf am 'wyrth mewn siwmpwr wau'<sup>127</sup> a fydd yn rhedeg i'w breichiau. Yn anochel, fodd bynnag, nid yw'r plentyn yn dychwelyd. Bob noson yn ddi-ffael, ar ôl iddi godi ei gobeithion, caiff y rheini eu chwalu'n deilchion gan realiti creulon, ac y mae'r hen wraig yn mynd i eistedd wrth y tân, a'i 'breuddwyd gwrach yn bwysau ar ei gweill'.<sup>128</sup> Er gwaethaf ei siom, y mae hi'n glynu wrth un ffaith, un llygedyn o obaith sy'n ei galluogi i barhau â'i bywyd wedi'r trasiedi enbyd – gŵyr y bydd yn breuddwydio am ei mab, ac y bydd yn cael bod gydag ef eto, er mor fyrhoedlog fydd y profiad hwnnw. Er y bydd hi'n deffro'n y bore ac yn ei golli unwaith eto, y mae'r sicrwydd y bydd yn ei weld bob nos yn gysur iddi:

gŵyr wrth wyllo naid y fflamau gwneud  
na fydd 'run rhwystro arno nawr:  
daw ati, bob nos, yn ddi-ffael.<sup>129</sup>

Gellir dadlau bod y gerdd hon hefyd yn darlunio gwraig sy'n anesmwyth yn ei chorff am ei bod hi'n dal i ddiffinio ac i ystyried ei hun fel mam, er nad oes plentyn ganddi i ofalu amdano bellach. Y mae holl bwrpas ei bywyd wedi dod i ben, ac y mae hi'n mynegi ei cholled drwy ei chorff, gan ddiffinio'i rôl fel mam drwy weithredoedd corfforol. Defnyddia'r wraig dasgau domestig corfforol er mwyn parhau â'i rôl famol, er enghraifft, gwau a pharatoi brecwast, a mynd allan i sgwrio'r stryd fel y byddai'n gwneud bob dydd wrth ddisgwyl i'w mab

---

<sup>125</sup> Ibid., t. 69.

<sup>126</sup> Ibid.

<sup>127</sup> Ibid.

<sup>128</sup> Ibid.

<sup>129</sup> Ibid.

ddychwelyd o'r ysgol a rhedeg i'w breichiau. Y mae'r darlun a grëir yn un ingol, truenus o hen wraig sy'n byw ei bywyd yn ysu am gael aduno â'i mab bychan. Y mae hi'n gaeth i'r oes a fu, i'r eiliad honno a newidiodd ei bywyd yn gyfan gwbl, ddeugain mlynedd ynghynt, ac y mae ei hanes yn un sy'n adlewyrchu profiad cymuned gyfan yng Nghymoedd y De, a siglwyd gan y drasiedi erchyll honno bron i hanner canrif yn ôl, ond sy'n dal wedi'i serio ar gof cenedl.

Cyfeirir at y thema o berthynas rhwng mam a'i phlentyn hefyd yn y gerdd 'mam yr artist'. Y gerdd hon yw'r gyntaf yn y gyfres o dair o gerddi ecffrastig o dan y teitl 'triptych', sydd oll â merch yn destun iddynt, ac y mae'n cyfeirio at y broses o greu darn o waith metel a chanddo greon pastel drosto. Y ferch o dan sylw yn y gerdd hon yw'r arlunydd ei hun, ac y mae adeiladwaith y gerdd yn cyfod sylwadau'r arlunydd wrth iddi lunio'r gwaith gyda geiriau ei phlentyn wrth iddo dyfu'n hŷn. Y mae'r gerdd yn dathlu'r berthynas rhwng mam a'i phlentyn, ac yn bwrw cipolwg ar sut y mae'r berthynas honno'n newid wrth i'r plentyn dyfu'n oedolyn. Er bod y plentyn bellach yn ddigon hen i fod yn annibynnol, y mae'n dal i ddibynnu ar ei fam, ac mae'r gerdd hon yn ddathliad o'r ffaith nad yw'r berthynas rhwng rhieni a phlant yn newid yn ei hanfod drwy'r blynyddoedd, a bod plant yn dal i droi at eu rhieni am gymorth, er eu bod bellach yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain.

Caiff y ddwy ffurf gelfyddydol eu plethu ynghyd i greu cyfanwaith, ac yn yr un modd, y mae'r cydbwysedd rhwng geiriau'r fam a'r plentyn yn dod at ei gilydd fel plethwaith i greu strwythur y gerdd. Y mae gyrfa a magu plant yn dod law yn llaw i famau erbyn heddiw, ac y mae'r gerdd hon yn darlunio sut y gellir uno'r ddwy rôl i greu campwaith yn y pen draw.

Defnyddir ymadroddion sy'n nodweddiadol o blentyn ar wahanol gamau bywyd er mwyn cyfleu'r broses o dyfu'n oedolyn: i ddechrau, clywn y plentyn bach sy'n swnian ar ei fam,



‘mami, mami, isie pi-pi’.<sup>130</sup> Yna, cawn gwyno eto, y tro hwn wrth i frawd iddo o bosibl dynnu arno: ‘gwêd wrtho, mae’n pryfocio’.<sup>131</sup> Wrth fynd drwy’r ysgol, y mae’r plentyn yn falch o’i gyflawniadau ac yn awyddus am ganmolïaeth ei fam – ‘ces i seren am ddarllen yn dda’<sup>132</sup> – ac yna’n dibynnu arni i sicrhau bod pob dim yn ei le, heb ddiolch na chydabod yr ymdrech a wna er mwyn cadw pob dim i dician – ‘ble mae ’nghot, ble mae ’nghit pêl-droed?’.<sup>133</sup>

Erbyn diwedd y gerdd fodd bynnag, y mae’r plentyn yn dod i werthfawrogi ei fam, am iddo brofi bywyd annibynnol hebddi – ‘dyma sws: ga i gwtsh? caru ti *loads*’.<sup>134</sup> Dyma’r tro cyntaf y cydnabyddir gwerthfawrogiad y plentyn o’i fam drwy’r gerdd, ac mae’n arwyddocaol i’r datganiad hwn ddod ar ôl i’r bardd bentyrro cwyn a chwestiwn un ar ôl y llall, gan ddangos cymaint y mae’r fam wedi ei roi i’r plentyn trwy ei oes. Y mae’r fam yn gwneud hyn oherwydd ei chariad tuag at ei phlentyn, ac erbyn diwedd y gerdd, y mae hi’n sylweddoli bod y cyfan werth yr holl ymdrech, wrth i’w phlentyn ddatgan ei gariad tuag ati hefyd.

Erbyn diwedd y gerdd, y mae’r arlunydd yn cwblhau ei gwaith, mewn dwy ystyr. Y mae’r cerflun metel wedi ei orffen o’r diwedd, ond y mae’r plentyn hefyd wedi tyfu’n oedolyn. Dethlir llwyddiant y ddau beth yn y gerdd hon felly, ac y mae’r bardd yn cloi trwy ddatgan bod:

dau gyfrwng, dau ddull o fewn llun  
... nes creu darn o gelfyddyd gain<sup>135</sup>

Er bod hwn yn gyfeiriad at y gwaith celf ar yr olwg gyntaf, sylweddolwn y gellir cymathu’r ystyr hwn i lwyddiant yr arlunydd i gydbwyso ei bywyd proffesiynol a’i rôl fel mam. Y mae

---

<sup>130</sup> Ibid., t. 96.

<sup>131</sup> Ibid.

<sup>132</sup> Ibid.

<sup>133</sup> Ibid.

<sup>134</sup> Ibid.

<sup>135</sup> Ibid.

magu ei phlentyn hefyd yn llwyddiant i'r rhiant, a gellir ystyried y broses o weld y plentyn yn tyfu o faban i oedolyn fel modd o greu 'darn o gelfyddyd gain' hefyd.

Dathliad gorfoleddus yw'r gerdd hon felly o rôl a swyddogaeth y fam mewn cymdeithas. Y mae'r gerdd yn darlunio'r berthynas ryngddibynnol rhwng mam a'i phlentyn – y mae arno yntau ei hangen hi i ofalu amdano, ond y mae hithau ei angen yn yr un modd, er mwyn iddi ei garu a rhoi o'i gorau iddo.

Ar drywydd ffeminyddol gwahanol, defnyddia Christine James enghreifftiau o'r gorffennol er mwyn pwysleisio'r gwahaniaethau a oedd rhwng statws dynion a merched yn yr oes a fu. Yn y gerdd 'ar ddechrau'r daith' sonia'r bardd am ei phrofiad o weld ysgerbydau dyn a gwraig o'r cyfnod Celtaidd cynnar, ac y mae hi'n disgrifio'r eitemau a gladdwyd gyda hwy.

Rhodddwyd bwyd a diod i'r ddau ohonynt er mwyn eu cynnal ar eu taith i'r byd nesaf, yn ogystal â rhai gwrthrychau arbennig unigryw. Claddwyd y dyn gyda'i arfau, er mwyn pwysleisio ei fawredd ar faes y gad a'i ddoniau fel rhyfelwr cadarn:

i hwn addaswyd  
helm, caed tarian, gwayw bras, a llafn yn fesur  
gwryd<sup>136</sup>

Er y dengys parch at y dyn, cyfeiria'r bardd at ei wraig fel '[c]ymar gwron'.<sup>137</sup> Darlunia hyn yn glir agwedd pobl y cyfnod at ferched – ail iddo ef oedd y ferch, a'r unig rôl a oedd ganddi i'w chwarae mewn bywyd oedd bod yn wraig i arwr rhyfel. Ni fyddai hi'n cael ei chofio am ei doniau neu ei champau, dim ond fel ôl-ystyriaeth i'w gŵr. Nid oedd arteffactau rhyfelgar tebyg i'r rhai a gladdwyd gyda'r dyn yn cael eu hystyried yn addas i ferched, ac nid oedd neb wedi ystyried y byddai o bwys i'r ferch gael y math hyn o beth i law er mwyn ei tywys ar gam

---

<sup>136</sup> Ibid., t. 76

<sup>137</sup> Ibid.

nesaf ei thaith. Dim ond 'harnais pres i'r meirch' a gafodd hithau'n rhodd i fynd gyda hi i fywyd tragwyddol, ac y mae'n amlwg bod y bardd yn beirniadu'r ffordd y triniwyd y ferch yn israddol, fel y rhan helaethaf o ferched ar hyd y canrifoedd.

Fodd bynnag, fe'i claddwyd hithau hefyd yn gwisgo gemwaith a fyddai wedi ei gwneud yn hardd, unwaith:

hudwyd iddi waddol  
gwell yn anwes gleiniau'r gwanwyn ar ei bron a  
tholach crib fach asgwrn yn ei llaw<sup>138</sup>

Pan fyddant yn codi eto o farw'n fyw ar Ddydd y Farn, y peth pwysicaf yw ei bod hi'n dal yn brydferth er mwyn 'i'w harddwch / sgleinio eto'n llachar trwy ei llwch pan ddônt i dre'. Y mae'r sylw hwn yn feirniadaeth ar oes pan oedd gwerth merch yn cael ei benderfynu'n amlach na pheidio yn ôl ei phryd a'i gwedd, heb i neb boeni'n ormodol am y ferch go iawn o dan yr wyneb.

Y mae'r syniad o ymddangosiad ac o roi argraff wahanol i realiti hefyd yn thema amlwg yn 'cinio i dair yn ASK'. Yn y gerdd hon, darlunnir tair ffrind yn cyfarfod am bryd o fwyd mewn bwyty Eidalaid. Y mae'r bardd yn arsylwi ar ymddygiad y merched yng nghwmni ei gilydd, ac yn sylweddoli bod pob un yn ceisio cyfleu darlun ohonynt eu hunain nad yw'n adlewyrchu eu sefyllfa go iawn, wrth i bob un o'r tair fynd allan o'u ffordd i ddangos eu bod yn bwyta, ond heb wneud hynny mewn gwirionedd. Y mae hi'n taro ar y ddeuoliaeth ryfedd – caiff nifer o bobl, merched yn enwedig, eu beirniadu am geisio colli pwysau neu boeni am eu pryd a'u gwedd, ond eto, y mae pwysau eithriadol arnynt gan gymdeithas i fod yn denau, yn enwedig o du'r cyfryngau, hyd yn oed os oes rhaid gwneud hynny mewn modd afiach.

Disgrifia'r bardd sut y mae'r tair ffrind yn fodlon ymgymryd â'r bwydydd ysgafn, gan gymryd

---

<sup>138</sup> Ibid.

y manion lleiaf posibl – y maent yn ‘cytuno’n rhwydd ar ‘sgafnder gwin ... a dau *bruschetta*’,<sup>139</sup> am fod hynny’n dderbyniol, a bod modd bwyta’r bwydydd hyn heb ymddangos yn rhy farus, nac ychwaith edrych fel petaent yn ceisio ymwrthod rhag bwyd yn fwriadol. Er hyn, cyfeddyf y bardd iddi ‘[g]adw’r briwsion lleiaf yn [ei] llaw’,<sup>140</sup> fel petai hi’n methu gorffen ei phryd, er mai cwrs cyntaf bychan oedd hwnnw. Y mae hyn yn dwyn i gof ymddygiad sy’n gysylltiedig ag anhwylderau bwyta, pan fydd dioddefwyr yn ceisio cuddio bwyd wrth fwyta o amgylch y bwrdd er mwyn twyllo teulu a ffrindiau i feddwl fod popeth yn iawn. Y mae’r tair ffrind yn y gerdd hon fel petaent yn mynd allan o’u ffordd i greu delwedd nad yw’n adlewyrchu realiti, er mwyn perswadio’r lleill:

gwnaf  
ryw sioe o droelli’r clymau pasta’n ddiog ... a sylwi’n  
sydyn nad oes gen’ ti stumog at y saws.<sup>141</sup>

Ar ddiwedd y gerdd, y mae’r tair yn penderfynu gadael ‘heb gael mwy / o win: am na fynnai’r un ohonom ofyn’.<sup>142</sup> Cawn yr argraff na wnaeth yr un ohonynt fwynhau’r pryd bwyd mewn gwirionedd, ac mae’r tair yn gadael wedi eu siomi, am iddynt dreulio mwy o amser yn poeni am eu delwedd gyhoeddus na mwynhau eu hamser gyda’i gilydd. Cerdd am dwyll a hunan-dwyll yw hon, felly, ac y mae’r bardd fel petai’n nodi’r ffaith mai dyma sut ymddygiad a geir gan y merched, yn hytrach na’u beirniadu. Sylwa sut y mae pobl yn gweld eu cyrff mewn ffordd annaturiol gan dynnu sylw at y berthynas ryfedd sydd gan ferched a’u cyrff. Fel y gwelwyd eisoes, y mae’r merched yn anghyfforddus yn eu cyrff, ac yn ceisio dianc rhag realiti trwy bortreadu delwedd ddelfrydol ohonynt eu hunain, yn hytrach na derbyn y drefn fel y mae hi.

---

<sup>139</sup> Ibid., t. 93.

<sup>140</sup> Ibid.

<sup>141</sup> Ibid.

<sup>142</sup> Ibid.

Y mae'r gerdd 'chwiorydd' yn debyg iawn i 'llywddall', a fydd yn cael ei thrafod yn y bennod nesaf ar gerddi ecffrastig y bardd, yn y modd y trafoda ein hagwedd tuag at wragedd mewn oed, a'r berthynas rhwng aelodau o'r un teulu. Mam yr arlunydd a drafodir yn 'llywddall', ond yn y gerdd hon, dwy chwaer sydd o dan sylw, a'r rheini yn barotiaid mewn anifeilfa. Egyr y gerdd trwy gyfeirio at yr arwydd uwchben cawell y ddwy, gan dynnu ein sylw yn syth at brif thema'r gwaith: '*African grey parrots. Two old females. Unwanted pets.*'<sup>143</sup> Trwy gyfod y geiriau 'grey', 'old females' ac 'unwanted', crëir y syniad yn syth bod merched dros ryw oedran arbennig yn ddiwerth yng ngolwg cymdeithas. Cyfeirir at y ddwy chwaer fel 'gwragedd gwrthod',<sup>144</sup> a chânt eu disgrifio fel 'rhyw flodyn o chwiw / a wywodd'.<sup>145</sup> Cyflëir yma natur anwadal yr hil ddynol, ac y mae'r bardd yn beirniadu'r modd yr ydym yn colli diddordeb mewn pethau a'u diosg neu eu hamnewid pan fydd rhywbeth gwell ar gael. Yr oedd y perchennog wedi diflasu ar y ddwy, ac wedi penderfynu cael gwared arnynt 'cyn eu carthu / fel y cach / ar waelod eu caets'.<sup>146</sup> Defnyddir iaith amrwd yma er mwyn cyfleu'r atgasedd a oedd gan y perchennog tuag at ei anifeiliaid anwes, ac hefyd er mwyn pwysleisio mor alltud ac wrthodedig oedd y ddwy cyn ymgartrefu yn yr anifeilfa. Pwysleisir unigrwydd y ddwy, am nad oes neb wedi dangos cariad tuag atynt ers amser:

gweddwon a'u pennau'n eu plu  
 pob anwes wedi oeri'n angof  
 neu ynteu'n atgof a hedodd  
 y tu hwnt i farrau hiraeth  
 i dir nad oes cyrchu iddo mwyach<sup>147</sup>

---

<sup>143</sup> Ibid., t. 94.

<sup>144</sup> Ibid.

<sup>145</sup> Ibid.

<sup>146</sup> Ibid.

<sup>147</sup> Ibid.

Pwysleisir henaint y ddwy unwaith eto, wrth i'r bardd gyfeirio at eu 'dawns arthritig',<sup>148</sup> sy'n ychwanegu at y darlun truenus ohonynt. Wrth i'r bardd sylu ar y ddwy, fodd bynnag, y maent yn sythu'n sydyn, ac yn ceisio twtio'u hunain, bron fel pe na baent yn gyfarwydd â derbyn sylw, ond eu bod ar yr un pryd yn falch iawn o gael y cyfle i ddangos eu hunain ar eu gorau unwaith eto. Disgrifir y modd y ceir 'winc fach slei'<sup>149</sup> yn eu llygaid duon, a sut yr '[y]mbinciant yn nrych ei gilydd',<sup>150</sup> gan 'ffwdanu trwsio plu'<sup>151</sup> wrth iddynt fwynhau'r sylw y maent yn ei dderbyn.

Dywed y bardd fod yr ymbincio hwn 'yn gyrru eto fflamau ffeminyddol / trwy farwor eu galar'.<sup>152</sup> Y mae hwn yn ddisgrifiad diddorol, bron fel petai cael rhywun yn dangos diddordeb ynddynt yn aildanio awch yn y ddwy, mewn diflastod a oedd wrthi'n mudlogi. Y mae'r defnydd o'r gair 'ffeminyddol' yn hynod o arwyddocaol, ac yn cyfeirio at sut y mae'r ddwy yn benderfynol o brofi na ddylid diystyru merched am eu bod dros oedran arbennig. Wrth gwrs, nid yr adar yn unig sy'n ymwybodol o hyn, a dyma ffordd Christine James o drosglwyddo ei neges, gan ddangos na ddylid wfftio merched sydd wedi colli eu hieuenctid, am fod rhywbeth ym mhawb i'w werthfawrogi, ni waeth pa mor ddibwys. Y mae hefyd yn ffordd o'n hatgoffa na ddylem anwybyddu'r henoed yn ein cymdeithas – yn wahanol i'r gerdd 'lليwddall', y mae'r cymeriadau o dan sylw yn y gerdd hon yn benderfynol o beidio â phylu i'r cefndir.

---

<sup>148</sup> Ibid.

<sup>149</sup> Ibid.

<sup>150</sup> Ibid., t. 95.

<sup>151</sup> Ibid.

<sup>152</sup> Ibid., t. 94.

Wrth i'r bardd droi ei chefn ar yr adar a symud at y gawell nesaf, y mae'r ddau barot yn troi yn ôl at ei gilydd. Gwêl y bardd fod yr adar yn ddigon bodlon yng nghwmni ei gilydd, ac y mae'n sylweddoli dyfnder y cyswllt rhwng chwiorydd:

A chrawcia tro eu cefnau crwm  
wrth i minnau droi  
yn unig  
draw o'u caets,  
fod mewn chwaer  
fyd sy'n llawn digon i ddwy.<sup>153</sup>

Nid oes angen neb arall ar y ddwy – er iddynt gael eu diystyru gan eu perchennog, ac er bod ymwelwyr yn cerdded heibio i'w cawell, y mae bod yng nghwmni ei gilydd yn ddigon iddynt, am fod digon o gariad rhwng chwiorydd heb orfod chwilio ymhellach.

Gellir ystyried y gerdd hon yn un a ysgrifennwyd o safbwynt benywaidd am ddau reswm felly. Yn gyntaf, y mae'n nodi'r modd y teimla'r henoed, yn enwedig merched, yn anweledig ar adegau, am fod pobl yn eu diystyru mewn modd cwbl annheg. Yn ail, y mae'r gerdd yn ddathliad o'r cwlwm sydd rhwng chwiorydd, ac yn dweud y gall cariad chwaer drechu popeth.

Cerdd ysgafn arall yw 'mama mia!', ac y mae'r naws yn debyg iawn i ysgafnder ffwrdd-a-hi 'deffro'n fardd'. Cerdd delynegol yw hon, sy'n odli bob ail a phedwaredd linell. Ceir odl hefyd yn y cwpled clo. Y mae'r arddull hwn yn teimlo'n fwy chwareus, rywsut, na'r cerddi rhydd, ac yn ein hatgoffa o rigymau plant. Y mae hyn wrth gwrs yn gweddu i gynnwys mwy ysgafn y gwaith, ac yn ymgais fwriadol gan y bardd i asio'r ystyr a'r mesur.

Cerdd ecffrastig yw hon hefyd, sy'n ymateb i'r llun 'Korny Krispies' gan Boris Tietze. Yn y paentiad hwn, darlunnir dynes a chanddi fag papur ar ei phen yn dawnsio mewn lolfa.

---

<sup>153</sup> Ibid., t. 95.

Sonnir ei bod hi'n blasu munud o ryddid yng nghanol prysurdeb ei bywyd fel gwraig, mam a gwraig tŷ:

O'r diwedd aeth pawb allan  
y gŵr 'di mynd i'w waith  
a'r bechgyn ar drip ysgol –  
fydd neb yn ôl tan saith!<sup>154</sup>

Teimlir mai'r ychydig oriau prin hyn yw'r unig gyfle sydd ganddi i ymlacio, heb orfod chwarae rôl y wraig draddodiadol, berffaith sy'n cadw tŷ ac yn meithrin ei phlant. Gall ymollwng yn llwyr ynddi hi ei hun ac ymhyfrydu yn y rhyddid prin hwnnw.

Cyfatebir tasgau domestig beunyddiol y wraig â'i dawnsio byrlymus:

Fe dwistia' i drwy'r dwsto  
... a pholisho i'r fflamenco  
... cyn gwthio'r celfi i gyd yn ôl  
a hwfro rownd i'r roc-a-rôl.<sup>155</sup>

Y mae'r defnydd o iaith lafar, mewn geiriau megis 'polisho', 'hwfro', hefyd yn arwydd o benderfyniad y fam i beidio â chydymffurfio. Llwydda i dorri holl reolau'r ddelwedd o'r 'Fam Gymreig' barchus gan droi yn '*dancing queen*',<sup>156</sup> hyd yn oed os mai dim ond peth byrhoedlog yw'r rhyddid hwnnw. Gwelwn ddylanwadau tramor yn y gerddoriaeth a grybwyllir yma, yn enwedig dylanwadau Americanaidd ac Ewropeaidd, ac efallai bod hyn unwaith eto yn symbol o'r awydd i dorri'n rhydd.

---

<sup>154</sup> Ibid., t. 117.

<sup>155</sup> Ibid.

<sup>156</sup> Ibid.



Dywed y bardd iddi lunio'r gerdd pan oedd y ffilm o'r sioe gerdd *Mamma Mia!* yn y theatrau.<sup>157</sup> Yr oedd y ffilm yn un hynod boblogaidd, yn enwedig ymhlith gwragedd canol oed,<sup>158</sup> ac ysbrydolwyd y bardd gan y ffenomen hon yn ogystal â'r llun.

Teimlwn bron fel petai'r wraig yn dioddef o ryw fath o 'argyfwng canol oed'. Cyfeddyf iddi deimlo rhyw newid yn ei chymeriad 'ers misoedd erbyn hyn'<sup>159</sup> – ac er iddi barhau â'i dyletswyddau gan sicrhau bod y tŷ yn 'lân fel pîn',<sup>160</sup> y mae hi'n teimlo ei bod hi'n colli arni ei hun ar adegau: 'ond fel y gwelwch chi o'r llun / nid wyf i wir yn fi fy hun'.<sup>161</sup> Gall hyn wrth gwrs fod yn gyfeiriad at y newid sy'n digwydd i ferched yn ystod eu bywydau pan fydd y mislif yn dod i ben a phan fyddant yn methu â chenhedlu plant mwyach. Y mae'n ddigon hysbys bod cyfnod mor gythryblus yn gallu peri dryswch neu wallgofrwydd mewn rhai merched, o ganlyniad i'r holl newidiadau i'r hormonau, yn ogystal â'r pendantrwydd na fyddant bellach yn gallu esgor ar blentyn. Y mae'r cyfnod yn nodi diwedd ieuenctid a diwedd ffrwythlondeb, ac yn newid y gellir ei ystyried fel un digon brawychus a dweud y lleiaf.

Gellir dadlau hefyd bod y gerdd yn darlunio gwraig sy'n meddiannu ei chorff, i raddau, a hynny drwy ddawnsio ac ymweld â'i byd ffantasiol ei hun. Y mae'r ystafell a ddarlunnir yn un digon cyffredin, ond trwy wisgo'r bag ar ei phen, caiff ymollwng o'i dyletswyddau fel mam a gwraig, a dianc i fyd llawer mwy cyffrous y dychymyg.

---

<sup>157</sup> Ibid., t. 139.

<sup>158</sup> Louise Fitzgerald a Melanie Williams, 'Facing our Waterloo: Evaluating *Mamma Mia! The Movie*', yn Louise Fitzgerald a Melanie Williams (goln.) *Mamma Mia! : the movie: exploring a cultural phenomenon* (London: I. B. Tauris, 2013), tt. 4-11.

<sup>159</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 117.

<sup>160</sup> Ibid.

<sup>161</sup> Ibid.

Gallwn ddarllen hyd yn oed y gerdd seml hon wrth gadw safbwynt ffeminyddol mewn golwg. Prif thema'r gerdd yw'r awydd i dorri ffiniau rolau traddodiadol y rhywiau – nid oes yn rhaid i ferched gadw at eu lle traddodiadol yn y cartref. Eto, mae'r holl beth yn digwydd yn y dirgel – nid yw'r wraig yn ymddwyn fel hyn o flaen ei theulu – ac efallai bod hyn yn arwydd nad oes gan ferched yr hyder i fod yr hyn yr ydynt go iawn ond yn eu bywydau preifat a phersonol.

Fel y ferch gyntaf i'w phenodi'n Archdderwydd felly, gan orffen dros ganrif a hanner o arweinyddiaeth wrywaidd yr Orsedd, disgwyliid i Christine James wneud safiad ffeminyddol yn ei bywyd cyhoeddus ac yn ei barddoniaeth. Yn wir, pan benodwyd hi i'r rôl yn ôl yn 2013, derbyniodd lawer o sylw am fod y cyntaf i dorri'r traddodiad patriarchaidd o'r diwedd. Fodd bynnag, er iddi geisio tawelu'r sôn amdani fel '*rôle model*' cyhoeddus i ferched, ni ellir gwadu bod ei cherddi yn dangos isleisiau ffeminyddol, a'i bod yn dilyn dysgeidiaeth rhai ffeminyddion blaenllaw'r ugeinfed ganrif, p'un ai yn ymwybodol ai peidio. Defnyddia *écriture feminine* yn ei gwaith er mwyn rhoi llais i'r profiad benywaidd, ac y mae hi'n gwbl ymwybodol o'r anghysondeb yn y modd y caiff dynion a merched eu trin. Teimla anghyfiawnder sefyllfa merched a ddefnyddiwyd am eu cyrff cyn eu diosg o'r neilltu, a'r modd y penderfynir ar werth merch ar sail ei phryd a'i gwedd yn unig. Er iddi geisio osgoi cael ei labelu'n orsyml gan y cyfryngau, felly, y mae'n debyg y gallwn ddisgrifio Christine James fel bardd ffeminyddol i raddau helaeth, wrth iddi adael i'w barddoniaeth lefaru ar ran ei rhan. Fodd bynnag, fel y gwelir yn y penodau nesaf, nid bardd ffeminyddol yn unig mohoni, ac ni ddylwn felly ei chategoreiddio'n rhy benodol cyn ystyried agweddau niferus eraill ar ei barddoniaeth.

## Pennod 2 – Ecffrasis

Fel y gwelwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf, un o'r nodweddion sy'n gwneud barddoniaeth Christine James mor arbennig yw ei chasgliad helaeth o gerddi sydd wedi'u hysbarduno gan baentiadau a cherfluniau. Cyn symud i drafod y gweithiau hyn, y mae'n briodol trafod y term 'ecffrasis' a rhoi sylw i gyd-destun barddoniaeth ecffrastig yn y Gymraeg a thu hwnt. Bydd y bennod hon felly yn ystyried sut y mae barddoniaeth Christine James yn rhan o'r traddodiad o gerddi ecffrastig yn y Gymraeg, a sut y mae hi wedi mynd ati i ymateb i gelfyddyd weledol. Bydd y bennod yn trafod y cerddi hyn, gan ystyried sut y mae hi wedi llwyddo i adfywio'r *genre* a sut berthynas sydd rhwng ei cherddi a'r gweithiau celf.

Gair sy'n deillio o'r Hen Roeg yw 'ecffrasis', a rhoddir esboniad o'r term fel a ganlyn:

The term 'ekphrasis' generally denotes a literary description of a visual work of art. The word derives from the Greek *ekphrazein* (*ek*, 'out' + *phrazein*, 'explain'), which refers to any rhetorical description of a person, place, object or event. The first recorded use of the term occurs in the histories of Dionysius of Helicarnassus (first century B.C.E.) ... In a work titled *Ekphraseis*, Callistratus (fl. third to fourth centuries C. E.) describes in detail fourteen statues. This is the first time the term is used to directly connect verbal description with visual art objects. The *Oxford English Dictionary* has the term ekphrasis entering the English language in 1715.<sup>162</sup>

Erbyn heddiw, y mae ysgolheigion yn dal i anghytuno ynglŷn â sut i ddiffinio elfennau o'r term, ond yn gyffredinol, cytunir â'r diffiniad isod gan James A. W. Heffernan:

I propose a definition simple in form but complex in its implications: *ekphrasis is the verbal representation of visual representation.*<sup>163</sup>

---

<sup>162</sup> Joseph T. Sorensen. *Optical Allusions: Screens, Paintings and Poetry in Classical Japan (ca. 800-1200)*, (Leiden: Brill Academic Publishers, 2012) tt. 6-7

<sup>163</sup> James A. W. Heffernan, *Museum of Words: The Poetics of Ekphrasis from Homer to Ashbery* (Chicago: Chicago University Press, 1993), t. 3.

Yn achos barddoniaeth Gymraeg, defnyddia Damian Walford Davies y term 'ecffrasis' mewn modd cynhwysfawr i ddisgrifio cerddi tebyg i rai Christine James, sydd wedi'u hysbrydoli gan weithiau celf neu wedi'u symbylu ganddynt, gan sôn am y ddeuliaeth a geir mewn gweithiau o'r fath:

Cynigia'r cerddi ecffrastig mwyaf llwyddiannus gymaint mwy na disgrifiadau syml o'r chwaer-gelfyddydau. Ystyria ecffrasis bob gwaith celf fel bywyd llonydd, *vie morte*, i'w animeiddio a'i atgyfodi. "Dychmygwyd hon i ffram", medd y bardd am yr hen ddynes ym mhortread enwog Whistler o'i fam. Mae ecffrasis yn archwilio'r broses honno, ond mae hefyd yn dadfframio'r llun, yn dychmygu'r realiti y tu ôl, y tu hwnt, i ffiniau'r ffrâm. Myfyria hefyd – yn uniongyrchol neu fel arall – ar union allu iaith i leisio a chyfieithu darlun. Haen balimpsestig ar y gwaith celf yw cerdd ecffrastig, neu beintiad geiriol ar ofod cyfochrog (gellir ystyried pob cerdd ecffrastig fel diptych amlgyfryngol). Mae deuliaeth fywiocaol a chythryblus yn rhan o hanfod y profiad. Fe'i bywiogir gan y ddeinameg rhwng stasis hunangynhaliol y gwaith celf a byrhoedledd bywyd brau'r gwylwr – tensiwn creiddiol sy'n esbonio pam y nodweddir llawer iawn o gerddi ecffrastig gan elfen bruddglwyfus.<sup>164</sup>

Y mae ecffrasis yn derm a chanddo amryw haenau o ystyron. I ddibenion y traethawd hwn, fodd bynnag, fe'i defnyddir i ddisgrifio gweithiau ysgrifenedig sy'n seiliedig ar weithiau celf. Rhaid cofio, fodd bynnag, mai datblygiad cymharol ddiweddar yw cyfyngu categori cerddi ecffrastig i gerddi sy'n ymateb i gelfyddyd yn unig.<sup>165</sup> Yn ogystal â lluniau, cerfluniau a tapestrïau, arferai'r gair gyfeirio at gelfyddyd ysgrifenedig a symbylwyd gan gynrychiolaeth weledol megis adeiladau, pensaernïaeth, a mannau a ystyrir yn hardd.<sup>166</sup>

Dros y deugain mlynedd diwethaf, bu cynnydd mewn barddoniaeth ecffrastig yn y Saesneg yn Lloegr ac Unol Daleithiau America, a hwnnw yn gynnydd ffrwydrol o ran maint y gwaith a gynhyrchwyd, yn ogystal â'i boblogrwydd a'r ymateb a gafwyd i'r gwaith gan feirniaid a

---

<sup>164</sup> Damian Walford Davies, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284, (2005), 52-3.

<sup>165</sup> Gerwyn Williams, 'Celfyddyd y Beirdd', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX* (Llandysul: Gwasg Gee, 2010), t. 101.

<sup>166</sup> William H. Race, 'Ekphrasis' yn Alex Preminger a T. V. F. Brogan (goln), *The New Princeton Encyclopedia of Poetry and Poetics* (Princeton, New Jersey: Princeton University Press, 1993), t. 320.

chynulleidfaoedd fel ei gilydd.<sup>167</sup> Ers hynny, y mae'r traddodiad wedi cael ei adfywio ac yn parhau'n boblogaidd hyd heddiw, fel y noda M. Wynn Thomas:

[This] boom shows no sign of moderating, since striking poems about paintings continue to be published by a host of notable poets, including Seamus Heaney, Derek Mahon, Charles Wright, Charles Simic, Jorie Graham, Louise Gluck, Dave Smith and Rita Dove.<sup>168</sup>

Nid ymhlith beirdd a ysgrifenna yn Saesneg yn unig y gwelwyd y cynnydd a'r diddordeb hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Daeth cerddi a oedd yn seiliedig ar weithiau celf yn fwy cyffredin yn y Gymraeg erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, gan rai megis Gwyn Thomas a Bryan Martin Davies. Cyhoeddwyd ambell gerdd ecffrastig ar gyfer prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis awdl aflwyddiannus Thomas Parry yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan 1932, 'Mam', a oedd yn seiliedig ar y cerflun 'Genesis' gan Jacob Epstein.<sup>169</sup> Disgrifia'r awdl 'Mam' y broses o greu, gan y cerflunydd â'r fam feichiog sy'n cael ei phortreadu, trwy sôn sut y cyflëwyd syniad mor rhamantaidd o greu bywyd newydd mewn ffordd mor farwaidd yn y cerflun:

Rhoi llun y maen ar wir ac anwiredd  
A delw hagrach i'r hen hudol lygredd;  
Rheibio a thrin taer obaith rhianedd,  
A cherfio i graig hoen a chrefu gwragedd <sup>170</sup>

Ceir hefyd gyferbyniad yn y gerdd hon rhwng y bywyd newydd sy'n cael ei awgrymu gan y ffigur beichiog a'r sylweddoliad na fydd byth yn esgor ar blentyn, am mai dim ond delw yw hi:

Ei gobeithion a'i hyder o'u cronni  
A gurai yn gaeth trwy groen a gwythi;  
A byth ni chyrraedd na gwaedd na gweddi  
I ŵydd ei Duw ...

---

<sup>167</sup> James A. W. Heffernan, *Museum of Words: The Poetics of Ekphrasis from Homer to Ashbery* (Chicago: Chicago University Press, 1993), t. 135.

<sup>168</sup> M. Wynn Thomas, *R. S. Thomas: Serial Obsessive* (Cardiff: University of Wales Press, 2013), t. 263.

<sup>169</sup> Thomas Parry ac Amanwy, *Cerddi'r Lleiafrif* (Aberystwyth: Cambrian News Cyf, 1932), tt. 7-18.

<sup>170</sup> Thomas Parry, *Cerddi'r Lleiafrif* (Aberystwyth: Cambrian News Cyf, 1932), t. 7.

... Ni ddaw i'w chnawd dangnefedd ochneidio,  
Ni ddaw i'w chalon ddedwyddwch wylo <sup>171</sup>

Cerdd ecffrastig hefyd oedd awdl James Nicholas 'Yr Alwad' a ddaeth i'r brig yng nghystadlaeth y Gadair, Eisteddfod Genedlaethol y Fflint yn 1969, a oedd yn seiliedig ar arddangosfa o waith y cerflunydd Henry Moore.<sup>172</sup> Yn yr un modd ag awdl Thomas Parry, cerdd am y broses o greu yw hon, sy'n ymateb i gais y cerflunydd Moore i bersonoli grym anorfod natur. Disgrifia'r bardd sut y mae'r wraig yn gwneud hyn drwy genhedlu ac esgor ar blentyn, a gwelwn mai dyma yw'r 'alwad' sy'n gwneud iddi sylweddoli ei galwedigaeth mewn bywyd.<sup>173</sup> Disgrifia'r bardd y cerflunydd fel un sy'n trin y tir, cyn mynd ymlaen i uniaethu'r wraig â natur a'r cerflunydd â ffermwr, gan wau'r trosiadau drwy ei gilydd. Portreadir y cerflunydd a'r wraig fel crewyr yma felly, gan bwysleisio'r gwahanol ffyrdd o greu – creu celf a cherdd, creu o'r tir a chreu bywyd newydd.

Ers yr 1990au felly, y mae barddoniaeth ecffrastig wedi ennill ei phlwyf yng Nghymru, a hynny gan feirdd Cymraeg a beirdd Eingl-Gymreig fel ei gilydd. Fel y nodi M. Wynn Thomas:

This boom has also been evidence in the many painting-poems produced over the last few years in Wales, a development common to both Welsh-language culture (witness the work of Euros Bowen, Bryan Martin Davies and Christine James) and English-language culture (as exemplified by the poetry of John Ormond, Gillian Clarke, Tony Conran, Tony Curtis, Dannie Abse and Pascale Petit).<sup>174</sup>

---

<sup>171</sup> Ibid., t. 8. Ceir trafodaeth ehangach ar y gerdd hon yn Derec Llwyd Morgan, *Y Brenhinbren: Bywyd a Gwaith Thomas Parry 1904-1985* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2013), tt. 89-103.

<sup>172</sup> James Nicholas, 'Yr Alwad', yn J. Tysul Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Fflint* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1969), tt. 19-22.

<sup>173</sup> Geraint Bowen, 'Beirniadaeth Yr Awdl', yn J. Tysul Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Fflint* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1969), t. 5.

<sup>174</sup> Thomas, R. S. *Thomas: Serial Obsessive*, t. 264.

Un o'r cwestiynau mwyaf sylfaenol wrth ystyried barddoniaeth ecffrastig yw i ba raddau y mae ein mwynhad â'n dealltwriaeth o'r cerddi yn ddibynnol ar weld y gweithiau celf a fu'n ysbardun i'r beirdd. A ellir gwerthfawrogi'r cerddi yn llawn heb fod yn gyfarwydd â'r llun?

Yn wir, nodwyd gan feirniaid cystadleuaeth y Goron yn 2005 nad oedd angen gweld y gweithiau a oedd yn cyfateb i gyfansoddiadau Christine James:

[Byddai] golud y cerddi'n amlwg hebddynt ... [Y mae'r cerddi] yn ymwneud â'r darnau celf hyn yn hytrach nag yn gerddi sy'n seiliedig arnynt gan fod y bardd yn eu defnyddio fel dechreubwyntiau i'w farddoniaeth, gan hawlio'i berspectif ei hun arnynt, ac allan ohonynt yn mynd i ddychmygyd newydd.<sup>175</sup>

Noda Cen Williams, fodd bynnag:

Mae arwyddocâd rhai o'r llinellau a'r gyfeiriadaeth yn llawer iawn cyfoethocach o weld y paentiadau. Mae hynny yn wir am bob cerdd ...<sup>176</sup>

Y mae arwyddocâd y cerddi yn sicr yn amlycach o weld y lluniau mewn ambell achos, megis yn 'y Ffrances a'r Gymraes' a drafodwyd yn y bennod gyntaf. Ar ôl rhoi sylw manwl i wisg y ferch yn y llun, sy'n 'afradlonedd sidan' o liw 'asur mor danbaid a'r awyr',<sup>177</sup> dargyfeirir ein sylw:

Neu a sylwaist ar yr esgid fach,  
ei blaen yn mynnu brigo dan y godre glas  
fel cnwybyn cudd o'r glo mân  
fu'n fodd i gyfoethogi gwlad?<sup>178</sup>

Y mae'r gyfeiriadaeth hon yn ein hatgoffa o sut y bu i David Davies Llandinam ennill ei ffortiwn, a thrwy hynny sut yr oedd gan ei wyres, Gwen, y modd i brynu'r llun yn y lle cyntaf.

Y mae'r gyfeiriadaeth yn un gynnil, ond yn drawiadol hefyd – a sylweddolwn sut y gall y manylyn lleiaf ein hannog i newid ein persbectif. Byddai neges y gerdd, wrth gwrs, yn glir

---

<sup>175</sup> Derec Llwyd Morgan, Ifor ap Glyn, Jason Walford Davies, 'Beirniadaeth: Casgliad o gerddi rhydd ar thema heb eu cyhoeddi a heb fod dros 300 llinell', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffiniau 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), t. 34.

<sup>176</sup> Cen Williams, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284 (2005), 54.

<sup>177</sup> Christine James, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 18.

<sup>178</sup> Ibid.

heb weld y llun – ond gallwn werthfawrogi'r gwaith gymaint â hynny'n fwy wedi i ninnau hefyd gael cip ar 'La Parisienne'. 'Brigio' yn llythrennol o dan y wisg las anferth y mae esgid y ferch, a phrin y byddai unrhyw un yn sylwi arni ar yr olwg gyntaf. Y mae darllen y gerdd yn agor ein llygaid i werthfawrogi'r darlun – rydym yn cael ein gorfodi bron i ystyried sefyllfa druenus y butain a dalwyd er mwyn dod â boddhad i bobl llawer mwy cyfoethog a ffodus na hithau.

Fel y ceir gweld, nid yw barddoniaeth ecffrastig Christine James a'r lluniau y mae'r cerddi wedi'u seilio arnynt fel petaent yn ddibynnol ar ei gilydd. Gall pob un o'r cerddi sefyll ar eu traed eu hunain a hawlio'u lle fel cerddi annibynnol. Eto i gyd, cyfoethogir profiad y darlennydd yn ddi-os trwy weld y rhan helaeth o'r lluniau ochr yn ochr â'r cerddi. Nid dyma'r sefyllfa ym mhob achos, fodd bynnag, fel y gwelir yn achos rhai o ragflaenwyr Christine James. Cymerwn gyfrol Iwan Llwyd *Dan Anesthetig* (1987) fel enghraifft, lle caiff y cerddi eu cyflwyno ochr yn ochr â gweithiau celf Iwan Bala. Y mae'r gyfrol yn un sy'n gwneud defnydd o luniau wrth ochr cerddi, ond mewn ffordd wahanol i farddoniaeth Christine James. Cyfansoddi cerddi gan ddefnyddio gweithiau celf fel ysbardun neu ysbrydoliaeth a wna Christine James, ond yn achos *Dan Anesthetig*, lluniodd Iwan Bala'r gweithiau celf yn seiliedig ar y cerddi, mewn ymgais i'w hatgyfnerthu, fel petai. Y mae cerddi Iwan Llwyd yn amlwg yn rhai hynod grefftus, a darluniau Iwan Bala hefyd; ystyrir y gerdd 'Gwryf' fel enghraifft amlwg. Dadleua'r bardd ein bod yn niweidio'r iaith trwy fynnu ei chadw'n bur a gwrthod gadael iddi esblygu i'r oes fodern – 'mynnwn ninnau ei meithrin / yn wryf i'w bedd .... / a thu hwnt i'w muriau caeth / mae'r bobl yn byrlymu',<sup>179</sup> ac y mae llun Iwan Bala o ferch brydferth wedi'i chaethiwo tra bo'r byd y tu allan yn symud yn ei flaen yn adlewyrchu testun

---

<sup>179</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1987), t. 6.



y gerdd. Fodd bynnag, nid yw'r lluniau yn y gyfrol hon fel petaent yn ychwanegu at y profiad o ddarllen y cerddi. Fel y dadleua Dafydd Evan Morris:

A beth am y dwsin o luniau gan Iwan Bala sy'n mynd efo'r cerddi? ... Ni welaf eu bod yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r cerddi – nac yn eu helpu, nac yn tynnu oddi arnynt – a byddai'r cerddi'r un mor llwyddiannus hebddynt. Wedi dweud hynny, y *maent* yn aml yn darlunio emosiynau'n dda ... Nid sgribliadau ffwrdd-â-hi mor lluniau ... ond hyd yn oed os byddwch yn methu â gweld dim ynddynt, peidiwch â gadael iddynt eich cadw rhag y cerddi ffres a sylweddol hyn.<sup>180</sup>

Cafwyd ambell enghraifft arall o gerddi ecffrastig gan feirdd Cymraeg ar hyd y blynyddoedd y teimlir eu bod yn disgrifio'r gweithiau celf mewn geiriau, yn hytrach nag yn twrio o dan yr wyneb er mwyn dod â'r gwaith celf yn fyw. Cymerer 'Dewi Sant (Y cerflun yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd)' o waith Ray Evans fel enghraifft. Yn ogystal â chynnig disgrifiad o'r gwaith celf, â'r bardd yn ei flaen i wawdio'r cerflun â'r modd yr ydym yn ymateb i weithiau o'r fath:

'Llyma,' medd hi wrth y trethdalwyr twymgalon, 'eich nawddsant.  
Fi yw ei dyst, a heddiw ei ddygwyl. Molwch ef! Molwch ef!'

Caled yw carreg, ac oer, fel y mae amgueddfa yn oer,  
Fel y mae dy fuchedd ddilychwin yn oer  
O dan wydr difrawder ...

... Ond yn ei blaen yr â'r sioe. Mae'r trethdalwyr twymgalon yn aros.  
Plycia di'r llinyn heno. Pâr i ddaear prifddinas ddawnsio  
Dan dy sodlau cignoeth, i fiwsig Llanddewi Brefi.  
Yfory, adroddir dy fuchedd gan y garreg lefn.<sup>181</sup>

Y mae hon yn gerdd sy'n rhoi lle canolog i'r tensiwn yn y gwaith celf ei hun. Dyma dechneg a welir yng ngwaith ecffrastig Christine James hefyd, fel y trafodir yn y man. Yn y gerdd hon, cyferbynnir egni'r garreg ar ffurf lafa chwilboeth â'r modd y cafodd ei mowldio'n ddarn o

---

<sup>180</sup> Dafydd Evan Morris, 'Bardd i Heddiw yw Iwan', *Barddas*, 127 (1987), 16.

<sup>181</sup> Ray Evans, 'Dewi Sant (Y cerflun yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd)' yn Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln.), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), tt. 338-9.

gelf oeraidd, di-fflach. Gwelwn densiwn hefyd yma rhwng apêl y cerflun i'r twristiaid sy'n tyrru i'w weld â dirmyg amlwg y bardd tuag at rhywbeth yr ystyria sy'n wastraff o arian cyhoeddus.

Carreg filltir bwysig yn hanes cerddi ecffrastig Cymraeg oedd cyhoeddi *Darllen Delweddau* yn 2000. Y mae'r cerddi hyn yn debycach i'r math o ymdriniaeth ecffrastig a geir gan feirdd sy'n ymateb i'r Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac y maent yn fwy soffistigedig na'r enghreifftiau cynharach. Yn achos y rhan fwyaf o'r cerddi hyn, cyfoethogir profiad y darllenydd o weld y gweithiau celf cychwynnol. Cymerwn gerdd Nesta Wyn Jones, 'pwy, heddiw?', fel enghraifft. Lluniwyd y gwaith mewn ymateb i gyfosodiad lleiafol gan Tim Davies o dan y teitl 'Capel Celyn', sy'n dangos cannoedd o ddarnau pren gwyn wedi'u gosod mewn haenen denau ar y llawr. Nid Tryweryn a welodd y bardd yn y gwaith hwn, fodd bynnag, ac y mae'n troi ei sylw at gyflafan ac erchyllter y bom niwclear a ollyngwyd ar Hiroshima:

Pwy yw'r rhain?  
Y lladdedigion gwyn ar lawr  
Eu pennau a'u cyrff heb aelodau  
Yn llonydd  
Fel esgyrn eira.<sup>182</sup>

Nid disgrifio'r gwaith celf mewn geiriau a wna'r bardd, a byddai'r gerdd yn gallu sefyll ar ei phen ei hun heb inni fel darllenydd weld y gwaith celf cychwynnol. Fodd bynnag, o weld gosodiad Tim Davies, sylweddolwn ergyd y gerdd, sydd yn ein harwain i ystyried y darnau pren fel esgyrn neu adfeilion dinas a ddinistriwyd gan arfau niwclear. Defnyddia Nesta Wyn Jones y gwaith fel modd o fynegi ei safbwyntiau personol, yn hytrach na disgrifio'r gwaith

---

<sup>182</sup> Nesta Wyn Jones, 'pwy, heddiw?' yn Iwan Bala (gol.), *Darllen Delweddau* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2000), t. 56.

celf yn slafaid. Nid dyma'r unig ddau ddewis mewn cerdd ecffrastig, wrth gwrs, fel y trafodir yn nes ymlaen; ond ysbardun yw'r gosodiad iddi adeiladu arno a'i ddatblygu ymhellach na'r syniad a ysbardunodd yr arlunydd.

Ymddengys, fodd bynnag, mai ar hap yr oedd y beirdd yn ymateb i weithiau celfyddydol i ddechrau, heb ymgais fwriadol gan unrhyw fardd i ymateb yn benodol i symbyliadau gweledol. Sonia Robyn Tomos, Swyddog Celf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol, am sgwrs a glywodd rhwng yr arlunydd Iwan Bala a'r Prifardd T. James Jones, sy'n amlygu'r teimlad o anniddigrwydd a fodolai ymhlith arlunwyr Cymru yn yr 1980au am y modd y rhoddwyd mwy o werth a phwyslais ar farddoniaeth yn hytrach na chelfyddydau gweledol, a'r berthynas unochrog rhwng y ddwy gelfyddyd:

“Paham nad yw ein beirdd yn ymateb i waith artistiaid Cymru tra bod ein hartistiaid wrthi'n chwilio'r awen mewn barddoniaeth Gymraeg? Dyna ni, yr un hen stori eto; llenyddiaeth yn tra-arglwyddiaethu ar y celfyddydau gweledol yng Nghymru ... ”

“Dwi ddim yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai beirdd ymateb i waith celf. Creu'r cyfle sydd ei eisiau, dyna i gyd,” meddai'r bardd.

Yn fuan wedi hyn, fodd bynnag, crëwyd y cyfle hwnnw. Fel y dywed Gerwyn Williams:

Deuir ar draws amryw enghreifftiau o gerddi [ecffrastig] ... yn digwydd yn achlysurol ac ar hap a'r bardd yn ymateb yn ôl ei fympwy neu i apêl yr awen i ryw waith penodol a wnaeth argraff arno. Ond mae yna enghreifftiau mwy bwriadus ac ymwybodol o gerddi fel hyn a'r math yma o gerddi wedi ennill eu plwyf yn y Gymraeg oddi ar y 1990au wrth i'r berthynas rhwng celfyddyd weledol a barddoniaeth gael ei hybu'n fwy rhagweithiol.<sup>183</sup>

Cyfeirir yn benodol yma at ddechrau'r traddodiad o benodi bardd i ymateb i weithiau celf y Pafiliwn Celf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Mewn digwyddiad a ddisgrifir fel 'carreg filltir bwysig'<sup>184</sup> yn hanes y traddodiad ecffrastig yng Nghymru,

---

<sup>183</sup> Williams, *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, t. 101.

<sup>184</sup> *Ibid.*, t. 102.

comisiynwyd Iwan Llwyd i fod yn fardd preswyl y Pafiliwn Celf a Chreffft yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau 1997, ac arddangoswyd ei gerddi ochr yn ochr â'r gweithiau celf a fu'n ysbrydoliaeth iddynt. Cyhoeddwyd y cerddi hyn yn *Taliesin* wrth ymyl ffotograffau o rai o'r gweithiau celf wedi'r Eisteddfod, ac yn dilyn llwyddiant y gweithiau a'r hwb a gafwyd i niferoedd yr ymwelwyr â'r Pafiliwn Celf a Chreffft, comisiynwyd y Prifardd Ceri Wyn Jones i fod yn fardd preswyl y Pafiliwn yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr yn 1998 a'r Prifardd Cen Williams ym Môn yn 1999.<sup>185</sup> Y mae'r traddodiad yn parhau hyd heddiw, a chomisiynwyd Christine James ei hun i fod yn fardd preswyl yr arddangosfa yn y Lle Celf yn 2008.

Wedi ystyried, felly, y math o gerddi ecffrastig a fodolai yn y Gymraeg cyn i Christine James gyfansoddi'i chasgliad, gellir ystyried gwaith y bardd yng nghyd-destun y traddodiad hwn a sylwi sut y mae ei hymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol i'r traddodiad hwnnw. Yr hyn sy'n amlwg wrth ddarllen cerddi Christine James yw nad un math o ecffrasis yn unig a ddefnyddia yn ei chasgliad helaeth o gerddi sy'n ymwneud â delweddau. Gellir grwpio cerddi gyda'i gilydd i bedwar categori bras. Ceir gorgyffwrdd yn naturiol rhwng y categorïau hyn ar adegau, ond ceisir trafod pob categori yn ei dro cyn dod i gasgliad mwy cyffredinol am y gwaith.

### **Tadogi stori ddychmygol ar weithiau celf**

Y categori cyntaf a welir yw cerddi lle y mae'r bardd yn tadogi stori ddychmygol ar y gwaith celf. Dyma'r math o ecffrasis a welwn yn bennaf yn 'Llinellau Lliw', y casgliad ecffrastig

---

<sup>185</sup> Robyn Tomos, 'Pontio Llên a Llun' yn Iwan Bala (gol.), *Darllen Delweddau* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2000), t. 7.

arobryn a ddaeth â Christine James i sylw'r cyhoedd. Gellir dadlau hefyd mai'r rhain yw'r cerddi sydd wedi denu'r sylw mwyaf at farddoniaeth ecffrastig yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac sy'n gyfrifol am ddod â cherddi ecffrastig i'r ymwybyddiaeth Gymreig unwaith eto.

I ddechrau, rhaid rhoi sylw dyledus i'r gweithiau celf sy'n cael eu crybwyll yn y casgliad. Y mae'r holl weithiau a drafodir yn 'Llinellau Lliw' yn perthyn i ganon cydnabyddedig arlunio gorllewinol, ac y mae'n debyg y bydd rhai o'r arlunwyr neu'r gweithiau o dan sylw yn adnabyddus i'r gynulleidfa. Rhoddir y prif bwyslais yn y rhan fwyaf o'r gweithiau celf ar Ffrainc yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda llawer iawn ohonynt yn perthyn i gyfnod neu arddull argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth.<sup>186</sup> Y mae pob un o'r gweithiau yn ffigurol, ac eithrio gwaith Warhol, a phob un yn waith gan arlunwyr o ddynion, a dim un o'r rheini gan arlunwyr o Gymru. Gellir honni eu bod yn ddetholiad diogel o bosibl, am eu bod i gyd yn weithiau gweddol adnabyddus, sydd eisoes wedi cael eu derbyn i ganon cydnabyddedig. Fodd bynnag, y mae'n ddigon posibl fod y bardd wedi dewis canu am weithiau celf sy'n adnabyddus yn fwriadol, er mwyn herio rhagdybiaethau'r darllenydd amdanynt, gan ein harwain i edrych ar ddarn yr ydym eisoes yn credu ein bod yn ei adnabod gyda llygaid newydd.

Gwelwn gyferbyniad yn y casgliad rhwng noethlymundod a dillad sydd bron yn or-barchus. Y mae'r gweithiau a drafodir yn 'arddangosfa', 'ymgolli mewn cusan', 'gollwng', 'noethlun' oll yn canolbwyntio ar ffigurau noethlymun; yn 'y Ffrances a'r Gymraes' a 'llywddall', ar y llaw arall, y mae'r cymeriadau sy'n ganolog i'r lluniau ac i'r cerddi wedi'u gwisgo mewn dillad

---

<sup>186</sup> Mererid Puw Davies, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284 (2005), 52.

sy'n gorchuddio bron pob rhan o'r corff, o'r llewys hir a'r ffrogiau llaes i'r hetiau ar bennau'r ddwy wraig. Y mae'r defnydd o liwiau yn y lluniau hefyd yn drawiadol – o las llachar 'y Ffrances a'r Gymraes' i goch a gwyn pwl 'cysgod y gadeirlan', melyn a glas 'ar oleddf', arian y balwnau yn 'hedfan', a llwyd, gwyn a du yn y gerdd 'lليwddall'.

Gwelwn themâu neu syniadau tebyg yn cysylltu parau o'r gweithiau celf yn y casgliad.

Cynhwysa 'y Ffrances a'r Gymraes' a 'noethlun' fodel sydd fwy na thebyg yn butain, ac mae'r ddwy gerdd yn darlunio anesmwythder y merched sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyrff yn unig. Y mae 'hedfan' a 'gollwng' fel petaent yn cyfleu'r profiad o ryddid hedfan neu fynd gyda'r llif heb wybod lle y byddwch yn glanio. Cyfeiria 'ar ddangosfa' ac 'ar risiau'r amgueddfa' ill dwy at yr oriel gelf – o bosibl fel trosiad am fywyd. Er nad yw 'ar risiau'r amgueddfa' yn gerdd ecffrastig, dyma'r gerdd sy'n cloi'r casgliad, ac y mae fel petai'n crynhoi'r holl gerddi at ei gilydd ac yn clymu'r cyfan yn ddestlus.

Y mae'r cerddi am storïau dychmygol i gyd yn mynd y tu hwnt i'r gwaith gwreiddiol gan dyrru o dan ffrâm y gwaith a dod â hwnnw'n fyw. Cawn y teimlad mai cipluniau mewn ffordd yw'r gweithiau celf, sy'n dal un foment yn y stori. Ymddengys mai gwaith y cerddi yw creu lluniau eraill o'u cwmpas, gan arwain y darlennydd i feddwl y tu hwnt i ffrâm y llun gwreiddiol.

Cafwyd trafodaeth yn y bennod gyntaf ar 'ar ddangosfa', 'y Ffrances a'r Gymraes' a 'blodau Mair', a soniwyd eisoes am y modd yr aeth y bardd y tu hwnt i'r gweithiau celf gan greu storïau dychmygol am y gweithiau a'u cymeriadau. Yr un math o ymdriniaeth a gawn eto yn y gerdd 'lليwddall'. Hen wraig yw testun y llun 'Trefniad mewn Du a Gwyn' gan Whistler, ac

unwaith eto, y mae'r bardd yn defnyddio cymeriad yn y gwaith fel ysbardun i greu hanes dychmygol. Prif thema'r gerdd yw'r modd yr ydym yn diystyru'r henoed, ac yn enwedig gwragedd hŷn. Dywed y bardd fod Whistler yn 'hoffi defnyddio teitlau a ddieithrai destun ei luniau'<sup>187</sup>, megis y modd y dewisodd deitl gwahanol i'r darlun na'r un a ddefnyddir yn gyffredin, sef 'Whistler's Mother'. Mewn ymateb i hyn felly, ceisiwyd amlygu'r thema o ddieithrwch yn y gerdd. Gwnaeth hyn yn gelfydd trwy ei defnydd o'r Wenhwyseg wrth ddisgrifio'r hen wraig. Cysylltir y Wenhwyseg gyda hen ffordd o fyw – er bod rhai yn dal i ddefnyddio'r dafodiaith hyd heddiw, y mae wedi colli tir yn sylweddol, ac yn gyffredinol yn cael ei hystyried fel tafodiaith yr hen genedlaethau a arferai fyw yng Ngwent a Morgannwg. Trwy ddefnyddio cyffyrddiadau o'r Wenhwyseg yn y gerdd, megis yn y llinell 'mewn iaith nas mynnai'i whilia erioed',<sup>188</sup> y mae'r bardd yn pwysleisio'r modd y mae'r hen wraig yn cael ei rhoi o'r neilltu, i siarad tafodiaith nad yw pobl yn ei deall yn llwyr ar y gwrandawriad cyntaf. Disgrifir yr hen wraig yn eistedd mewn cornel, ac yn gwrando ar sgwrs o'i chwmpas. Y mae hi'n amlwg wedi ei dieithrio o'r drafodaeth, ac y mae 'hisial main y lleisiau diarth yn ei chlust ... / yn troelli'n lluwch o nifwl llachar am ei phen',<sup>189</sup> gan ei drysu a'i gadael ar y cyrion. Nid oes neb yn gwneud ymdrech i'w chynnwys yn y sgwrs; yn hytrach, caiff ei gadael i 'syllu'i hun o ymyl bod'<sup>190</sup> wrth i bawb ei hanwybyddu. Wrth iddi fyfyrion yn ei meddyliau ei hun, y mae hi'n cofio sgysiau difyr y gorffennol, ac yn casglu'r atgofion, 'eu perlau glân ... / fesul gair, / i'r nisied glaerwen yn ei chôl'.<sup>191</sup>

---

<sup>187</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 134.

<sup>188</sup> *Ibid.*, t. 32.

<sup>189</sup> *Ibid.*

<sup>190</sup> *Ibid.*

<sup>191</sup> *Ibid.*

Y mae hi ar y cyrion yn llwyr, yn cael ei hanwybyddu gan y criw o'i hamgylch a'i gadael i syllu i'r cornel. O ganlyniad, noda'r bardd y 'dychmygwyd hon i ffrâm / sydd prin yn ffitio',<sup>192</sup> gan ei mab, yr arlunydd, gan awgrymu y gall y berthynas rhwng rhiant a phlentyn ddirywio gyda henaint, yn enwedig os oes yna ddiffyg cyfathrebu rhwng y ddau. Disgrifia'r bardd mor sych a diflas yw'r llun a baentiodd Whistler o'i fam:

rhyw gornelyn o gorff, a'i chadair gaeth  
mor ddiddychymyg syth â Sul  
y rhai a fynnodd roi amdani sgertiau llaes  
eu meddwl monocrôm eu hun<sup>193</sup>

Y mae'r portread o'r hen wraig yn y gwaith celf yn adlewyrchiad o'r ffigwr benywaidd yn y cyfnod Fictoraidd, gyda'i 'sgertiau llaes'<sup>194</sup> caeedig. Condemnia'r bardd y portread diddychymyg hwn o hen wraig a orfodwyd o'r neilltu, gan wneud inni sylweddoli bod mwy iddi na'i henaint – bu unwaith yn diddanu ac yn creu atgofion fel pawb arall. Gellir cymharu thema'r gerdd hon â 'chwiorydd' a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf, pan gynigwyd sylwebaeth ar y modd y caiff gwragedd hŷn eu hesgeuluso a'u hanwybyddu.

Cerdd arall sy'n defnyddio gwaith celf fel ysbardun i adrodd stori ddychmygol yw 'ymgolli mewn cusan'. Y mae hon hefyd yn trafod cerflun Rodin, 'Y Gusan', y cyfeiriwyd ato eisoes yn 'arddangosfa'. Y tro hwn, fodd bynnag, y mae'r bardd yn dod â hanes y ddau gymeriad yn fyw ac yn trafod yr hyn sy'n cael ei gyfleu gan y gwaith, yn hytrach na'r effaith sy'n tarddu o weld y cerflun. Rhennir y gerdd yn dair adran, sy'n trafod agweddau gwahanol ar yr ymateb i'r cerflun a'r fytholeg a gyflëir yn y gwaith. I ddechrau, sonnir am ymateb ymwelwyr, a cheir adlais yma o'r ymatebion a gafwyd yn 'arddangosfa':

y sefyllian a'r sibrwd  
y chwerthin ifanc swil

---

<sup>192</sup> Ibid.

<sup>193</sup> Ibid.

<sup>194</sup> Ibid.



neu ochenaid ysol,  
a thwtian ambell un  
na phrofodd ei serch ei hunan<sup>195</sup>

Darlunnir yr ymatebion amrywiol i'r gwaith, gan ein hatgoffa o'r cyferbyniad rhwng chwilfrydedd y merched ifanc a chwithdod y tywysydd yng ngherdd gyntaf y casgliad. Trwy ddechrau a chloi ei chasgliad gyda'r un gwaith cychwynnol, yn ogystal â defnyddio adleisiau o'r gerdd gyntaf yn 'ymgolli mewn cusan', creïr cyfanwaith taclus, gan roi teimlad cyflawn a gorffenedig i'r gwaith.

Yn ail ran y gerdd, disgrifia'r bardd fel y mae nifer o bobl sy'n gweld y cerflun yn ei ddehongli fel mynegiant o serch nwydus a phur. Fodd bynnag, nid yw popeth yn fêl i gyd, ac mae'r bardd yn sôn am y stori a ysbrydolodd y gwaith, sydd yn fwy trasig o lawer na'r hyn a ddisgwyliid, o edrych ar 'Y Gusan'. Cymeriadau hanesyddol a oedd yn byw yn yr Eidal yn y drydedd ganrif ar ddeg oedd y dyn a'r ferch a ddarlunnir yn y cerflun, sef Francesca, gwraig uchelwr o'r enw Giovanni, a'i brawd yng nghyfraith, Paolo. Cafodd y ddau eu dal gan wêr Francesca wrth iddynt fynd i gusanu am y tro cyntaf, ac mewn pwl o genfigen, lladdodd y gêr eiddigeddus y ddau ohonynt. Daeth y cymeriadau i amlygrwydd yng ngherdd Dante 'Inferno', a'r gwaith hwn oedd yr ysbardun gwreiddiol ar gyfer creu'r cerflun. Yn y gerdd honno, rydym yn cyfarfod â Francesca a Paolo yn ail gylch Uffern, lle y condemnir y rheini sydd wedi ildio i chwant. Condemniwyd y ddau i Uffern am eu pechod o odineb, a'u cosb yw na fyddant fyth yn cyflawni eu chwant am weddill tragwyddoldeb – y maent wedi'u caethiwo mewn corwynt tragwyddol, ac wedi'u tynghedu i gael eu hysgubo i ffwrdd os beiddiant ildio i'w nwydau.

---

<sup>195</sup> Ibid., t. 34.

Y mae Christine James yn ein hatgoffa am y stori hon yn ail ran ei cherdd, ac yn gwneud inni sylweddoli gymaint y gall cyd-destun newid ein hargraffiadau a'n bydolwg. Yr oeddem wedi cymryd yn ganiataol bod stori'r ddau yn un o serch a chariad tyner – ond cawn ddadrithiad wrth i'r bardd ddatgelu'r hanes gwaedlyd:

Wrth dderbyn gwth gwres ei gnawd  
ar wefus, i'w chôl barod,  
rhoed llafn trwy galon priod.

Nid dechrau'r ffordd i'w gwynfyd  
mo'r gusan yn hanes 'rhain  
ond porth Dinas Dolefain.<sup>196</sup>

Sonia Damian Walford Davies am y modd y mae'r bardd yn agor ein llygaid i ailystyried ein hargraffiadau o'r gwaith, ac yn ein hannog i ailfeddwl ein safbwyntiau:

Mud ... yw pob llun, pob cerflun. "Ni ellir ond pendroni", medd Christine James, ynghylch ystyr neu foment y gweithiau hyn. Ac felly cymwys yw'r aildychmygu, yr ailystyried, a geir ar ddiwedd y gyfres parthed cerflun enwog Rodin. Fe'i gwelir, fel petai, o ongl arall, ac mae'r osgo'n newid yn syfrdanol.<sup>197</sup>

Yn nhrydedd ran y gerdd, y mae'r bardd yn syllu ar y cerflun ac yn rhoi ei hymateb personol iddo. Wrth ddadansoddi'r gwaith, ni all benderfynu:

ai ef sy'n gwthio  
ynteu hi sy'n ei dynnu  
wysg ei gefn ...  
i'r golledigaeth<sup>198</sup>

Y mae'r bardd yn chwarae ar eiriau'n grefftus yma – gan ddefnyddio 'cwlwm o gelwydd noeth' i gyfeirio at noethni llythrennol y ddau gymeriad, yn ogystal â'r godinebu a'r twyll a oedd yn rhan mor allweddol o hanes eu bywydau a'u marwolaeth.

---

<sup>196</sup> Ibid.

<sup>197</sup> Walford Davies, *Barddas*, 285 (2005), 53.

<sup>198</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 35.

Defnyddir ecffrasis mewn modd ychydig yn wahanol yn 'ar oleddf', sy'n seiliedig ar waith Vincent van Gogh, 'Glaw – Auvers'. Y tro hwn, nid yw'r olygfa yn dod yn fyw o flaen ein llygaid wrth inni gamu i mewn i'r darlun; yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar y broses o greu'r llun. Eto i gyd, y mae'r bardd yn tadogi stori ddychmygol ar y gwaith celf, ac yn dychmygu'r hyn oedd ar feddwl yr arlunydd wrth iddo greu'r darlun. Ceir techneg debyg yng ngherdd Emrys Roberts, 'Guernica', a ysbrydolwyd gan waith enwog Picasso, sy'n rhannu ei enw â'r gerdd. Fel a geir yng ngwaith Christine James, trafodir yma'r broses o greu'r llun gan ddychmygu'r hyn sy'n mynd trwy feddwl yr arlunydd wrth iddo beintio'r gwaith:

Er y beddau,  
a hen bentre'r arabedd yn bentwr o rwbel,  
llewyrchai'n llachar trwy feddwl yr artist  
lun llawn o oleuni a lliw

Ond o un i un diflannodd,  
wedi'r dyfal ail-lunio,  
sumbolau'r gobaith o gynfas Picasso.<sup>199</sup>

Disgrifia Emrys Roberts sut y bu i erchyllterau'r rhyfel bylu gobaith yr arlunydd, gan fanylu ar y duwch sy'n llethu'r darlun a defnyddio hyn fel symbol o'r creulondeb a'r arswyd a ddigwyddodd yn sgil bomio tref Guernica. Ceir enghreifftiau tebyg yn 'ar oleddf' hefyd; penderfyna'r bardd ganolbwyntio ar gyflwr meddyliol cythryblus yr arlunydd, a sut y cyflëwyd hyn yn y gwaith, yn hytrach na'r tirlun sy'n cael ei ddarlunio. Cyflawnodd Van Gogh hunanladdiad dair wythnos wedi creu'r llun, a'r syniad hwn sydd wedi cipio dychymyg Christine James wrth iddi adnabod arwyddion yn y paentiad sy'n rhagargoeli'r digwyddiad erchyll hwnnw.

---

<sup>199</sup> Emrys Roberts, 'Guernica', yn Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 401.

Y mae'r gwaith celf yn darlunio tref neu bentref sydd wedi'i amgylchynu gan gaeau melyn. Dros yr olygfa ddelfrydol, fodd bynnag, ceir llinellau hir sy'n amharu ar y tirlun, a hynny i gyfleu glaw yn syrthio dros yr olygfa. Dychmyga'r bardd sut y bu i Van Gogh ddechrau ar y broses o ddarlunio'r glaw, wedi iddo gwblhau gweddill y llun:

Mor dyner  
dyner  
y syrthiai'r dafnau cyntaf;  
eu disgyn  
ysgafn yn anwes  
gras annisgwyl  
ar wres y pridd sawrus,  
yn offrwm pêr  
i'w ffroenau ei hun  
dros fethiant ei fod.<sup>200</sup>

Y mae'r broses o baentio'r glaw fel petai'n adlewyrchu salwch meddwl yr arlunydd. Disgrifir y glaw yn ysgafn ac yn dyner i ddechrau, ac mae'r arlunydd yn y lle cyntaf fel pe na bai'n siŵr a yw'r dafnau yn llesol neu'n niweidiol – yr 'anwes gras annisgwyl'.<sup>201</sup> Sylweddolwn nad yw pob dim yn iawn, fodd bynnag, yn llinell glo'r pennill, pan sonnir bod y bardd yn offrymu'r dafnau 'dros fethiant ei fod', gan roi awgrym o'r iselder sy'n ei lethu. Sonnir am y modd na all yr arlunydd ddianc o'r salwch sy'n ei feddiannu, wrth ddefnyddio'r glaw fel trosiad estynedig o hyd:

Ac eto'r dafnau'n dod,  
yn dyner  
dyner eto ...  
... cyn anweddu  
heb olwg gwellhad.<sup>202</sup>

---

<sup>200</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 22.

<sup>201</sup> Ibid.

<sup>202</sup> Ibid., t. 23.

Wrth i'r gerdd fynd rhagddi, fodd bynnag, y mae'r storm yn trymhau, gan adlewyrchu'r modd y cafodd y salwch afael mor dynn ar yr arlunydd:

Yn awr y gawod guchiog  
sy'n troi byd ar ei ben  
yr anarchiaeth glaf  
o gwmwl ...  
... a blaenffrwyth erwau'r  
nefoedd gau yn ffusto  
terfysg y môr melyn  
na fyn ufuddhau iddo byth.<sup>203</sup>

Cyflëir y chwalfa a achosir gan iselder, a sut y teimla'r arlunydd nad oes modd dianc rhag ei salwch. Sonia'r bardd fel y trodd meddwl chwim yr arlunydd yn ei erbyn, a dechrau ei blagio a'i boenydio – 'A'i feddwl chwip / yn ei erlid fel cysgod brân'<sup>204</sup> – a hynny mewn modd llechwraidd, tywyll y mae rhedeg oddi wrtho yn ofer. Erbyn diwedd y gerdd, y mae'r dafnau glaw yn syrthio'n fwy miniog, wrth i'r arlunydd grafu'r llinellau yn y paent:

mae'r llafnau mud  
yn rhaselu eto i'r bywyn  
mewn storm o law  
nad oes ffoi bellach  
rhag ei llachiadau  
i ddiogelwch.<sup>205</sup>

Defnyddir geiriau sy'n ein hatgoffa o offer miniog, megis 'llafnau', 'rhaselu' a 'llachiadau' er mwyn pwysleisio'r boen y mae'r arlunydd yn ei theimlo – gyda'r boen feddyliol yn troi'n boen gorfforol erbyn y diwedd. Trwy grafu'r dafnau glaw ar y paentiad, y mae'r arlunydd fel petai'n hunan-niweidio er mwyn ceisio llacio tensiwn neu alw am gymorth. Ystyrir hunan-niweidio yn rhywbeth sy'n gallu dod law yn llaw ag iselder, ac y mae'r bardd yn gweld hyn wrth edrych ar yr holl linellau a grafwyd ar wyneb y paentiad. Unwaith eto, defnyddia'r

---

<sup>203</sup> Ibid.

<sup>204</sup> Ibid.

<sup>205</sup> Ibid.

bardd ecffrasis fel modd o fynd y tu hwnt i'r llun – a thrwy hynny, ein hannog i edrych ar y paentiad â llygaid newydd. Fel y dywed Damian Walford Davies:

Rhydd rhyddid ecffrasis rwydd hynt i'r bardd droi llun van Gogh beniwaered, a'i ailbaentio, i gyfleu storm law seicolegol yr artist.<sup>206</sup>

Bu i Christine James ei hun ddiodef cyfnod o iselder, ac y mae'n ddigon posibl ei bod yn gallu adnabod ei phrofiadau ei hun wrth edrych ar y llun.

Cyhoeddwyd cerdd gan Gwyn Thomas sydd hefyd yn defnyddio'r un gwaith celf yn symbyliad iddo. Y mae'r gerdd honno yn rhannu ei henw â'r paentiad – 'Vincent van Gogh: "Glaw yn Auvers" (1890)', ac y mae yntau hefyd yn defnyddio'r storm o law fel trosiad o gyflwr meddyliol yr arlunydd. Cyfeiria at weithiau eraill gan van Gogh i ddechrau, a'r rheini yn adlewyrchu cyfnodau hapusach yn ei fywyd. Ar ddechrau'r gerdd, disgrifia'r darlun 'Y Bwytawyr Tatws' a baentiwyd yn gynnar yng ngyrfa'r arlunydd, ac er bod hwnnw'n ddarlun yn llawn lliwiau tywyll, canolbwyntia'r bardd ar y fflag olau sy'n hawlio'i lle ynghanol y gwaith:

Ond yno'n loyw, hefyd, un lamp  
Uwchben, yn y canol,  
Fel cariad yn pelydru trwy'r gerwinder,  
Yn goleuo'r pethau tywyll.<sup>207</sup>

Dengys sut y mae gobaith yn dal i arwain y ffordd i'r arlunydd, ac yn ei gynorthwyo i ddal ati yn ystod cyfnodau anodd. Yn ail ran y gerdd, disgrifia'r bardd gyfres o baentiadau a grëwyd gan van Gogh sy'n dangos cefn gwlad Arles, a'r lluniau hynny'n darlunio tirluniau yn yr heulwen, gan adlewyrchu cyfnod hapusach:

Wedyn meysydd Arles, a'r heulwen  
Yn hinfelyn arnynt,  
Yn dresi disglair o dragwyddoldeb;  
Ac egni goleuni yn des,

---

<sup>206</sup> Walford Davies, *Barddas*, 284 (2005), 53.

<sup>207</sup> Gwyn Thomas, *Wmgawa* (Dinbych: Gwasg Gee, 1984), t. 43.

Yn gynnes trwy holl liwiau  
Yr awyr eang a'r ddaear –  
Mae'n las yn taslo ac yn tywynnu;  
Mae'n felyn, felyn, fawr.<sup>208</sup>

Defnyddir geiriau a gysylltir â'r haul er mwyn awgrymu llawenydd a'r gobraith a fu unwaith ym mywyd yr arlunydd, gyda'r llinell 'Mae'n felyn, felyn, fawr' yn cyfleu'r hapusrwydd hwn ar ei eithaf. Fodd bynnag, ceir trobwynt yn y rhan nesaf, wrth i salwch yr arlunydd gydio ynddo, ac wrth i'w gyflwr meddyliol droi'n iselder di-ddianc, gan gyferbynnu'n llwyr â'r awyrgylch hamddenol hafaidd a gafwyd gynt:

Ac yna y glaw yn Auvers:  
Y melyn mawr a'r tywynaid glas yn boddi  
Yn wylofain digyfnwid y glaw.<sup>209</sup>

Yn yr un modd ag y gwna Christine James yn ei cherdd hithau, defnyddia Gwyn Thomas y glaw fel symbol o'r boen feddyliol a hunan-niweidio corfforol sydd mor aml yn cael ei gyplysu ag iselder:

... y glaw  
A oedd yn arllwys iasau oerlas  
Fel sgrffiadau egr trwy dy fyd.<sup>210</sup>

Nid y crafiadau ar wyneb y paent yw prif ffocws Gwyn Thomas, fodd bynnag, ac yn wahanol i Christine James, rhydd ei sylw i'r brain sy'n llechu yn y coed ynghanol y darlun:

A'r brain yna, y brain yn oerni'r glaw.  
Yn ddu ynghanol dy lun,  
Yn ddu yng ngloes y glaw,  
Yn ddu fel dy angau, a oedd, eisoes,  
Yn crawcian yn d'ymennydd cynddeiriog.<sup>211</sup>

---

<sup>208</sup> Ibid.

<sup>209</sup> Ibid.

<sup>210</sup> Ibid.

<sup>211</sup> Ibid., t. 44.

Unwaith eto, defnyddir nodweddion o'r llun fel trosiad am iselder yr arlunydd, a chrëir awyrgylch fygythiol wrth ddisgrifio'r brain fel cysgodion tywyll yn dynesu o gwmpas yr arlunydd. Pwysleisir salwch meddwl van Gogh yma yn uniongyrchol wrth i Gwyn Thomas gyfeirio at 'ymennydd cynddeiriog' yr arlunydd, gan bwysleisio'r iselder a oedd wedi'i blagio cyhyd. Yn yr un modd, cyfeiria Christine James at '[ei] feddwl chwip / yn ei erlid fel cysgod brân',<sup>212</sup> gan dynnu ar yr un ddelweddaeth fygythiol a chreu'r syniad bod y cyflwr, fel y brain, yn nesáu at yr arlunydd heb fod modd iddo ddianc.

Y mae'n ddiddorol sut y mae'r ddau fardd wedi ymateb i'r llun mewn modd mor debyg, gan bwysleisio'r thema o iselder, a sut y mae hwnnw'n gwaethygu dros amser. Ar ddechrau 'ar oleddf', y mae'r glaw yn 'ysgafn' ac yn 'anwes',<sup>213</sup> er bod awgrym nad yw popeth yn hollol iawn o'r cychwyn. Wrth i'r gerdd fynd rhagddi, fodd bynnag, daw'r llachiadau'n fwy cyson a sylweddolwn wir anobaith yr arlunydd wrth iddo sylweddoli 'nad oes ffoi bellach ... na gwella'.<sup>214</sup> Diweddglo tywyll anochel sydd i gerdd Gwyn Thomas hefyd. Cyfeiria at yr holl nodweddion a arferai gynnig gobaith yn nhirluniau cynharach van Gogh, a sut y bu i'r rheini gelu i'r cysgodion yn sgil yr iselder a gymerodd fywyd yr arlunydd, yn y pen draw:

d'ymennydd cynddeiriog  
a oedd, yn Auvers, yn aros  
i dy dynnu di o felyn hir yr haul,  
i dy dynnu di o'r eangderau glas,  
i dy dynnu di o lewyrch pob tynerwch  
i lawr i stafelloedd tywyll y ddaear oer,  
i lawr i gyfyngderau du, cyntefig y pridd.<sup>215</sup>

Er mor debyg yw ymdriniaeth y ddau fardd yn y cerddi, yn enwedig y pwyslais ar y glaw, y brain ac iselder yr arlunydd, y mae'n ddiddorol bod y ddau yn defnyddio ecffrasis at

---

<sup>212</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 23.

<sup>213</sup> *Ibid.*, t. 22.

<sup>214</sup> *Ibid.*, t. 23.

<sup>215</sup> Thomas, *Wmgawa*, t. 44.



ddibenion gwahanol. Y mae Gwyn Thomas yn siarad â'r arlunydd, ac yn defnyddio'r lluniau fel modd o olrhain y newid syfrdanol a fu yn ei waith a'i gyflwr meddyliol. Ar y llaw arall, yn 'ar oleddf', y mae Christine James yn ein cymell i ddychmygu ein bod yn gwylio van Gogh wrth iddo beintio'r gwaith, ac yn sylweddoli ar sut y mae ei ymddygiad yn adlewyrchu ei gyflwr meddyliol aflonydd.

Cerdd sydd eto'n defnyddio'r gwaith celf fel ysbardun i greu stori ddychmygus yw 'hedfan'. Y tro hwn, nid ein dychmygu ein hunain fel arsylwyr yr ydym ni, ond yn hytrach, deawn yn rhan o'r gwaith ei hun. 'Cymylau Arian' gan Andy Warhol yw'r unig waith celf haniaethol sy'n ysbardun i gerddi'r casgliad arobryn, ac adlewyrchir hyn yn arddull freuddwydiol, fwriadol amwys y gerdd 'hedfan'. Cyflëir y teimlad o hedfan uwch y byd, heb ffiniau, yn union fel y balwnau arian a lenwai ystafell fel rhan o'r gwaith celf gwreiddiol. Eglura

Christine James natur y gwaith celf:

Nid llun ond cydosodiad (*installation*) yw *Cymylau Arian* Andy Warhol – llond ystafell o falwnau metalaidd sy'n symud yn rhydd mewn cerrynt o aer cynnes, heb ddim i'w cadw yn eu lle.<sup>216</sup>

Y rhyddid hwn sy'n cael ei gyfleu bennaf yn 'hedfan', wrth i'r bardd ysgrifennu mewn arddull freuddwydiol. Pwysleisia ei bod ar ei phen ei hun, ac ymddengys ei bod yn mwynhau'r

llonyddwch hwn:

Wrthyf fy hun  
ar gangen o wynt  
a'r awel yn wal o wefr  
yn fy wyneb<sup>217</sup>

Cawn yr argraff ei bod yn edrych i lawr ar y byd, gan awgrymu ei bod wedi cymryd cam yn ôl i edrych ar ei sefyllfa a'i phroblemau yn wrthrychol:

---

<sup>216</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 133.

<sup>217</sup> *Ibid.*, t. 24.

mae'r byd islaw  
islaw sylw  
mor bell  
â'r llun hwn  
o'm hunan fach  
mewn drych  
â'i drwch o graciau mân <sup>218</sup>

Trwy gyfeirio at y drych yn llawn namau bychain, awgrymir ei bod yn edrych ar ei hadlewyrchiad ac yn sylwi ar yr holl fân bethau sy'n peri pryder iddi. Fodd bynnag, trwy bwysleisio'r pellter sylweddolwn fod y bardd wedi ei datgysylltu oddi wrth y pethau hyn, ac wedi penderfynu gadael y cyfan ar ôl a chael ei chario gan y gwynt i ba le bynnag y mynno ei chymryd. Nid oes pryder ganddi bellach, ac ymhyfryda sut y gall estyn ei llaw 'heb feddwl am ymyl arian / na chwilio chwaith / am gortyn cudd'.<sup>219</sup> Daw hyn â ni yn ôl at waith Warhol, a'r rhyfeddod y gall y gwaith symud yn barhaus heb i ni allu gweld yr hyn sy'n ei reoli. Nid yw'r bardd yn mynnu chwilio am yr ateb, fodd bynnag, nac yn poeni a oes triciau cudd yn symud y balwnau – y mae hi'n derbyn y sefyllfa ac yn parhau i hedfan heb bryder yn y byd, fel y gwna'r holl falwnau arian sy'n llenwi'r ystafell.

Y mae'r gerdd hon yn fwriadol amwys er mwyn adlewyrchu natur haniaethol ac anarferol y gwaith celf. Gorfodir ni i lunio ein casgliadau ein hunain ynglŷn â'r ystyr, ac am fod cynnwys y gerdd yn niwlog, ychwanega hyn at yr elfen etheraidd a breuddwydiol. Llwydda Christine James eto i gyfleu mewn geiriau y profiad o weld y gwaith celf, a theimlwn ein hunain yn ehedeg yn rhydd trwy'r aer, fel y gwna gwaith Warhol. Nid pethau i sylwi arnynt yn unig yw'r gweithiau celf yr ysgrifenna'r bardd amdanynt, ond pethau i'w profi a'u byw, a dyna'n union sy'n digwydd yn y gerdd hon.

---

<sup>218</sup> Ibid.

<sup>219</sup> Ibid.

Nid y casgliad a enillodd iddi'r Goron yn 2005 yw'r unig weithiau ecffrastig a gyhoeddwyd gan Christine James sy'n defnyddio'r dechneg o ddefnyddio gwaith celf fel ysbardun i greu stori ddychmygol am y delwedd. Aeth ati'n ddyfal i gynnwys y *genre* hwn yn ei chasgliadau eraill, yn ogystal ag mewn cerddi unigol. Cerdd arall yn y grŵp hwn yw 'cyffordd', a gynhwyswyd yn 'Celf a Cherdd', a luniwyd mewn ymateb i arddangosfa'r Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol 2008. Gwelwn arddull fwy rhyddieithol yma sy'n debycach i lôn meicro na barddoniaeth. Lluniwyd y gwaith mewn ymateb i 'Ysbaid' gan Nathan Ford, sy'n darlunio cyffordd lwyd mewn ardal drefol. Egyr y gerdd trwy sôn am '[Dd]au rywle'n gynnar ar y ffordd i fory',<sup>220</sup> gan gyfleu addewid a gobaith y ddau gymeriad am yr hyn sydd i ddod yn y dyfodol. Ceir naws freuddwydiol bron wrth i'r bardd ddarlunio dau heb bryder yn y byd, ar daith heb wybod lle y byddant yn glanio. Nid yw'r awyrgylch hamddenol braf hyn yn parhau, fodd bynnag:

mae e'n rhoi'i bwysau ar y brêc  
yn sydyn – ansicr, meddai, pa mor bell i fynd cyn troi, a hithau'n  
gwasgu i gyrraedd yno'n gyflym<sup>221</sup>

Y mae hon yn sefyllfa y gall pawb uniaethu â hi, a gwelwn yr ysfa i bwyllo pan fydd ansicrwydd wrth deithio i rywle anghyfarwydd yn cyferbynnu â'r angen parhaus i fynd a mynd o hyd, gan frysio i bobman heb ystyried y canlyniadau. Cyferbynnir agwedd y ddau gymeriad yma, a gwelwn rwystredigaeth yn y gwahaniaeth rhwng yr oedi a'r mynd.

Daw trobwynt y gerdd fer hon yn y frawddeg gwta, 'Oedi braidd yn hir',<sup>222</sup> sy'n awgrymu'n gynnill bod rhywbeth o'i le, neu bod rhywbeth ar droed. Dychwelwn at y darlun

---

<sup>220</sup> Ibid., t. 120.

<sup>221</sup> Ibid.

<sup>222</sup> Ibid.

rhamantaidd eto am ennyd, pan gyfeirir at y gyrrwr yn 'Plannu rhith o gusan'<sup>223</sup> ar foch ei gariad. Defnyddir y gair 'rhith' yn effeithiol yma, er mwyn cyd-fynd â naws aneglur llun niwlog, a chrëir naws freuddwydiol fel y cafwyd ar ddechrau'r gerdd. Gallai hefyd wrth gwrs gyfeirio at rywbeth byrhoedlog, nad ydym yn siŵr a yw yno go iawn ai peidio. Tybiwn fod y tensiwn wedi'i ddatrys wrth i'r ddau gariad gymodi, wrth i'r gusan ategu'r cariad sydd rhyngddynt. Fodd bynnag, nid dyma ddiwedd eu stori, a sylweddolwn mai'r eiliad honno yw'r eiliad dyngedfennol – 'A dyna pryd y gwelodd hithau'r golau coch'.<sup>224</sup>

Y mae'r amwysedd yn fwriadol yma, ac yn ein harwain i ofyn beth sydd wedi digwydd – a yw'r ddau gariad wedi aros yng nghanol y gyffordd yn rhy hir, ac wedi cael damwain? Dyma'r esboniad cyntaf, rhesymol, yn enwedig am i'r gyrrwr dynnu ei lygaid oddi ar yr heol. Arweinia hyn i ni feddwl sut y gall pethau newid ar amrantiad, gan ddangos mor fyrhoedlog yw bywyd. Ar y llaw arall, y mae 'gweld golau coch' yn symbol cyfarwydd, ystrydebol hyd yn oed, o synhwyro perygl neu o rybudd, yn ogystal â'r ystyr o weld y golau traffig yn llythrennol. Y ferch, 'hi', sy'n gweld y golau coch – sydd o bosibl yn arwydd iddi sylweddoli na all gymodi â'i phartner gan symboleiddio diwedd y berthynas. Gorfodir ni i lunio ein casgliadau ein hunain oherwydd y diweddglo amwys, ac y mae hyn yn ychwanegu at apêl y gerdd.

Yn y gerdd hon, sylwa'r bardd ar y pethau bychain yn y llun a gwna'r rhain yn rhan bwysig o neges y gerdd. Cawn ein hatgoffa yma eto o'r arddull a ddefnyddiwyd yn 'y Ffrances a'r Gymraes' gyda'r glo yn brigio o dan yr wyneb. Y ddawn hon i sylwi ar y manion lleiaf, ac

---

<sup>223</sup> Ibid.

<sup>224</sup> Ibid.

yna'u crybwyll mewn cyffyrddiadau bychain sy'n rhoi eu crefft i'r cerddi, ac sy'n dangos camp Christine James i allu rhoi pwyslais mor bwysig ar y nodweddion lleiaf posibl. Fel y dywed y bardd ei hun:

Onid yw'n rhyfedd sut y gall rhywbeth bach fod yn allwedd i gyd-destun helaethach. Mae'n siŵr bod pawb, ryw dro neu'i gilydd, wedi cael y profiad ar sylwi ar arwydd neu ystum neu air sy'n taflu goleuni newydd – llachar, weithiau – ar sgwrs neu sefyllfa, a ninnau'n sylweddoli'n sydyn nad oeddem wedi deall llawn arwyddocâd yr hyn a fu'n digwydd hyd hynny. Mae'r un peth bach hwnnw yn egluro'r cwbl ... Mae llun Nathan Ford yn llawn awyrgylch enigmatig. Mae yma gyffordd, does dim llawer o draffig ar yr heol, ond mae popeth yn sefyll yn ei unfan ... dim yn symud ... Ac yn araf, mae'r llygaid yn cael eu tynnu at y golau coch ar ochr dde'r llun. Sylwi'n sydyn ar y golau coch a awgrymodd thema'r gerdd imi.<sup>225</sup>

Un o gerddi ecffrastig eraill Christine James a gyfansoddwyd ar gyfer Lle Celf yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2008 yw 'cynllun strategol', a ysbrydolwyd gan y gwaith 'Y Ddwy Ford' gan David Hastie. Dengys y llun ddau fwrdd ac arnynt gastell yr un, ac er bod y ddau fwrdd yn agos at ei gilydd, nid ydynt yn cyffwrdd. Ceir llinyn yn cysylltu'r bwlch rhwng y ddau fwrdd, er mwyn creu pont. Cerdd sy'n adrodd stori ddychmygus am y gwrthdaro rhwng gwahanol bleidiau a charfannau yw hon, sy'n manylu'n enwedig ar y syniad o rithiau a ffalsedd wrth i'r ddwy garfan ymddangos yn gyfeillgar tuag at ei gilydd gan gelu'u gwir deimladau wrth wneud hynny. Sonia Christine James am yr hyn a welodd yn y gwaith, a'r hyn a'i hysbrydolodd i gyfansoddi:

Fe'm trawyd gan y cyferbyniad rhwng dwy ran y gwaith hwn: ar y naill ben, y ddwy gaer sy'n wynebu ei gilydd, dau gadarnle sy'n ymateb i'w gilydd, y naill yn adlewyrchiad drych o'r llall. Ac wedyn, yn y pen arall, y bont fach simsan, tamaid o gortyn ar ffurf cilgant – ar ffurf gwên – yn fodd i'r naill ochr groesi at y llall.<sup>226</sup>

Egyr y gerdd trwy gyfeirio at y modd y ceisiodd y ddwy garfan amddiffyn eu hunain, i ddechrau:

Bu esgus o ffos isel a phalis wyneb-pren

<sup>225</sup> Christine James, 'Celf a Cherdd', *Taliesin*, 135 (2008), 52.

<sup>226</sup> *Ibid.*, 54.

yn lloches ddigonol i'r ddwyblaid  
ar y dechrau.<sup>227</sup>

Awgrymir yn gryf gan y gair 'esgus' fod twyll ar droed yma, gyda'r ansoddair 'isel' yn cyfleu bod yr ymddygiad ymddangosiadol gyfeillgar yn ddi-sail, heb ddim dyfnder iddo. Cyfeiria '[p]alis wyneb-pren' at balas a chanddo *facade* pren, gan awgrymu unwaith eto'r syniad o guddio gwir y tu ôl i fwgwd, a cheisio camarwain y gwrthwynebwy. Dim ond 'ar y dechrau' yr oedd hyn yn ffordd ddigonol o amddiffyn y gwirionedd, fodd bynnag, gan awgrymu bod newid ar droed wrth i'r sefyllfa suro rhwng y ddwy garfan:

Cloddio'n ddyfnach wedyn;  
gosod seiliau hunanamddiffyniad  
yn erbyn sion sgwâr  
o'r ddeutu<sup>228</sup>

Erbyn hyn daw ymosodiadau mwy personol, a gorfodir trigolion y cestyll i godi'r muriau, ac amddiffyn eu hunain rhag honiadau celwyddus gan y garfan arall, mewn 'ymateb i'r ymosod oddi allan'.

Ar ôl cyfnod, gorfodir i'r ddwy garfan dderbyn y sefyllfa fel y mae hi:

Felly'r ymgastellant  
gan rythu fel mewn drych ar frychau  
strategaethau'r llall

Ystyr 'ymgastellant' wrth gwrs yw codi caer neu wersyllu, a thrwy chwarae ar y gair hwn cawn ein cyfeirio yn ôl at y cestyll yn llun gwreiddiol. Wrth amddiffyn ei hun rhag llachiadau'r llall, rhaid i'r ddwy garfan gysgodi y tu ôl i'w muriau 'gan rythu fel mewn drych' ar y gelyn. Awgryma'r syniad o'r drych fod y ddwy garfan, er eu bod yn elynion, yn debyg i'w gilydd yn y bôn, wrth i'r ddwy fabwysiadu'r un tactegau i gryfhau ei hun a lladd ar y llall.

---

<sup>227</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 124.

<sup>228</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 124.

Wrth syllu ar ei gilydd, ceisiant ddod o hyd i fân ‘frychau’ yn strategaethau’r garfan arall, gan bigo beiau man, a chwilio am y pethau dibwys, lleiaf posibl yn y gobaith o ddod o hyd i ryw wendid a fydd yn ddigon i’w chwalu, fel yr awgymir yn y sylwadau ategol a roddir yn y cromfachau, ‘(llwydni’r fylchgaer heb yr haul, / drwgbybidaeth ffenestr hollt)’.<sup>229</sup>

Erbyn diwedd y gerdd, gwelwn gyfeillgarwch ffug yn datblygu rhwng y ddwy garfan wrth iddynt dderbyn yr heddwch anesmwyth, am y tro:

a gofalu cynnal  
(draw, yn ddigon pell)  
fregusrwydd hanner gwên  
o bont yn sianel frys  
rhwng dau gywely dirgel.<sup>230</sup>

Gwelwn sut y maent yn estyn llaw at ei gilydd trwy adeiladu’r bont, ond bod hynny’n cael ei wneud yn betrusgar ac yn ofalus, er mwyn gwarchod eu buddiannau eu hunain. Awgryma’r syniad o ‘fregusrwydd hanner gwên’ sut mae cyfamod dros dro yw hwn, wrth i’r ‘[d]dau gywely dirgel’ geisio cael y gorau ar y llall o hyd.

Gellir cymathu ystyr y gerdd hon i esbonio’r berthynas rhwng carfannau gwahanol yn ein cymdeithas ni heddiw, fel yr oedd hefyd yn wir rhwng carfannau a oedd yn elyniaethus i’w gilydd yn y gorffennol. Bryd hynny, fel y byddai arglwyddi gelyniaethus yn lunio cyfamod trwy briodas wleidyddol neu gefnogaeth mewn brwydr, yn y gobaith o gryfhau eu sefyllfaoedd eu hunain, felly hefyd y mae cyfamod tebyg i glymbleidio rhwng dwy blaid wleidyddol. Dyma’r hyn a welodd Christine James yn y llun a’i harweiniodd i gynnig sylwebaeth ar sefyllfa oesol:

---

<sup>229</sup> Ibid.

<sup>230</sup> Ibid.

Onid yw hyn yn dweud llawer am y berthynas rhwng gwahanol garfannau a'i [sic.] gilydd, boed y rheini'n wladwriaethau neu bleidiau gwleidyddol neu unigolion, hyd yn oed? Gall anghydfod neu anghydweld digon dibwys ac elfennol ddatblygu dros amser yn sefyllfa o *stand-off* uchelgeisiol a soffistigedig, a'r ddwy ochr yn sicrhau iddynt eu hunain adnoddau a strategaethau cynyddol i amddiffyn ac i ymosod. Ond er yr elyniaeth agored, gyhoeddus, fel arfer bydd rhyw bont yn hongian rywle yn y dirgel, rhyw ddrws cefn sy'n caniatáu i'r ddwyblaid groesi'r gagendor ac ymglyfathrachu pan gyfyd yr angen neu'r awydd.<sup>231</sup>

### **Deinameg neu densiwn yn y gwaith celf yn cael ei adlewyrchu yn y cerddi**

Cerdd am densiwn yw 'cynllun strategol', sy'n sôn am ddwy garfan sy'n gorfod cyd-dynnu er gwaetha'u gwahaniaethau a'u hamheuaeth o'i gilydd. Ceir enghreifftiau cyson o ddeinameg neu densiwn yn nifer o gerddi eraill Christine James hefyd, yn arbennig rhwng symud a llonyddwch a mudandod a sain. Un o'r cerddi ecffrastig sy'n crisialu'r tensiwn hwn yw 'cân fud', a gyfansoddwyd mewn ymateb i 'Blaen Ffrancon rhif 1' o waith Kyffin Williams. Rhagflaenir y gerdd â dyfyniad gan Simonides, sy'n darlunio'r tyndra rhwng tawelwch a sain, ac hefyd am y berthynas rhwng celf a cherdd – '*Cerdd fud yw celfyddyd, a llun sy'n llefaru yw cerdd*'.<sup>232</sup> Wrth ystyried y dyfyniad hwn, gellir tybio mai Christine James sy'n rhoi'r sain i waith celf Kyffin yma. Fodd bynnag, ei dadl hi yw bod gwaith Kyffin Williams yn llefaru'n llawn ddigon ar ei ben ei hun.

O'r dechrau, gwelwn y cyferbyniad rhwng tawelwch yr olygfa a ddarlunnir yn y llun, a mawredd crefft gweithiau'r arlunydd:

Mae mudandod hynod ei gân  
i'w glywed yn glir  
ar gopaon ei gelfyddyd.

---

<sup>231</sup> James, *Taliesin*, 135 (2008), 54.

<sup>232</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 88.



Y mae'r darluniau a grëir ganddo yn disgrifio'r olygfa'n llawn, fel nad oes angen geiriau i'w hatgyfnerthu. Llwyddodd i gyfleu mawredd mynyddoedd Eryri gyda brws paent, ac nid oes angen eglurhad geiriol arnom i esbonio ymhellach:

Bochia'i gymylau'n groch  
dros huodledd ffriddoedd dilais;  
crisielir odlau mewn ffrydiau cudd –

os clustfeiniwn. Ust! a gwelwch  
rythmau Eryri'n rhudd, clywch glog  
dan drwch o dawedogrwydd

A mudandod hynod ei gân  
yn acenion i gyd  
ar gopaon ei gelfyddyd.<sup>233</sup>

Defnyddir y cyferbyniad rhwng tawelwch y darlun o gymharu â maint y dweud sydd yng ngwaith Kyffin yn drawiadol yma gan y bardd i bwysleisio pa mor gymhleth yw'r berthynas rhwng geiriau a delweddau. Mae'r gerdd hon, felly, yn un sy'n dipyn o baradocs – cerdd a ysgrifennwyd er mwyn dangos nad oes angen geiriau i egluro syniadau nac adrodd stori bob tro. Bron y gellir dadlau bod y bardd yn ei gwrth-ddweud ei hun yma, trwy osod geiriau er mwyn nodi bod rhai pethau y tu hwnt i eiriau.

### **Pwysleisio'r berthynas rhwng geiriau a delweddau**

Gwelwn ymdriniaeth debyg yn 'ornithoffobia: colomennod', 'ornithoffobia: peunod', ac 'ornithoffobia: eryr', wrth i'r bardd hiraethu am gyfnod pan oedd geiriau'n ddarostyngedig i ddelweddau. Nid oedd amwysedd nac amheuaeth wrth edrych ar lun, yn wahanol i eiriau sy'n medru cael eu camddehongli neu eu troi i olygu rhywbeth cwbl wahanol, nes peri ofn.

---

<sup>233</sup> Ibid.

Yn ‘orthinoffobia: colomennod’, gwelwn y bardd yn pwysleisio symlrwydd a diogelwch y dyddiau pan oedd nerth y ddelwedd yn ddigon:

Tra glaniai’u delweddau’n ysgafnblu  
ar y gainc, nid oedd golwg drycin  
yn eu cwmwl gwarcheidiol dros y cwm;

nid oedd peryg chwaith yng nghuriad pell  
adenydd can ar lannau Iorrdonen  
wrth wyllo o ddiogelwch y dorf<sup>234</sup>

Ceir dau gyfeiriad yma at y golomen yn cynrychioli’r Ysbryd Glân. Tarddiad y naill yw ‘Colomennod’ Waldo a Gwenallt; cyfeiria’r llall at hanes bedyddio Crist, pan ddaeth yr Ysbryd Glân i lawr o’r nefoedd ar ffurf colomen a glanio ar yr Iesu yn syth wedi iddo godi o’r dŵr. Y mae’n symbol sy’n dal yn adnabyddus i ni hyd heddiw, ac nid oes angen geiriau i’w esbonio. Caiff y sawl sy’n darllen y byd drwy ddelweddau ymdoddi i ‘ddiogelwch y dorf’,<sup>235</sup> a bod yn un – ar lefel dirnadaeth a chred. Teimlwn fel petai’r bardd yn dyheu am ddychwelyd i’r cyfnod hwn, gan bwysleisio nad oedd ‘achos gofid’<sup>236</sup> wrth edrych ar y lluniau am fod eu hystyron yn ddigon amlwg i bawb. Y perygl a ddaeth i darfu ar hyn i gyd oedd y ‘rheibydd gwyn’,<sup>237</sup> y gair ysgrifenedig y gellir ei ddehongli mewn amryw o wahanol ffyrdd, gan achosi rhaniadau ymhlith carfannau gwahanol wrth ddehongli testunau. Ategir neges y bardd yn amlycach o bosibl yn ‘orthinoffobia: peunod’, wrth iddi ganolbwyntio eto ar y berthynas rhwng gair a delwedd. Egyr y gerdd gyda’r ymadrodd ‘*In principio erat verbum ...*’<sup>238</sup> sy’n cyfieithu o’r Lladin fel ‘Yn y dechreuad yr oedd y gair’. Â ymlaen i nodi sut y bu i gymunedau’r gorffennol fynd ati i ffynnu trwy greu delweddau, am nad oedd pawb yn defnyddio’r gair ysgrifenedig:

---

<sup>234</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 81.

<sup>235</sup> Ibid.

<sup>236</sup> Ibid.

<sup>237</sup> Ibid.

<sup>238</sup> Ibid., t. 82.

... a thrwy blygion cadwraeth y cnawd  
fe nythai'r rhain yn nail ein hanllythrennedd;

ni bu bob-bobian eu pennau gyda'r hwyr  
yn peri inni stwyrion rhwng y bôn a'r brigau

na phlethiad annhebygol gwddf a gair  
yn tarfu ar ein cwsg ynghanol y colfenni<sup>239</sup>

Nid oedd y delweddau hyn yn peri pryder inni, hyd nes i rywun ddechrau troi'r delweddau hyn yn eiriau:

hyd nes i gwilsyn craff ddihuno'u lliw  
ac adfywiogi'u llun yn ddychryn o rywogaeth

sy'n rhodresa'u goruchafiaeth yn eu plith  
mewn fflach a phlu a ffydd; ac o *lapis lazuli*

eu gwyntyll, llygaid hollweledol yr afrllad  
yn darllen inni lith llygredigaeth erchyll y cnawd.<sup>240</sup>

Ystyr y gair 'cwilsyn' yw ysgrifennydd neu gopiwr llawysgrifau, ac yn nhyb y bardd, y gallu i droi delweddau yn eiriau oedd dechrau ein problemau. Dywed y bardd bod geiriau wedi rhoi'r gallu inni rodresu, sef y gallu i ymffrostio a honni goruchafiaeth ar ein gilydd. Ar ddiwedd y gerdd, awgryma'r bardd fod y darlun o Grist yn ein gwyllo o liw glas paent y '*lapis lazuli*', ac yn cael ei arswydo gan ein hymddygiad. Enw am y bara a ddefnyddir yn ystod y Cymundeb yw'r 'afrllad', sy'n cael eu defnyddio i symboleiddio corff Crist. Yr awgrym yma felly yw bod Iesu Grist a'i lygaid 'hollweledol' yn ein gwyllo yn troi ei air ef yn '[ll]ith llygredigaeth erchyll'.<sup>241</sup>

Ceir tensiwn rhwng tawelwch a sain eto yn 'orthnithoffobia: eryr', a ysgrifennwyd wedi i'r bardd weld eryr pres darllenfa Eglwys San Silyn yn Wrecsam. Pwysleisir unwaith yn rhagor y

---

<sup>239</sup> Ibid.

<sup>240</sup> Ibid.

<sup>241</sup> Ibid.

berthynas rhwng delwedd a gair wrth i'r bardd ddefnyddio'r eryr fel symbol o'r gair, gan nodi sut nad oes rhaid i ni ofni geiriau bellach:

Er cyffro da y deor  
yn y dechreuad, fe lyfnodd  
traddodiadau hir grafangau'r Gair  
yn ddim, a dofi'i unsgrech hyll  
am waed wrth bylu'i big  
o sill i sill hyd at fudandod maith.<sup>242</sup>

Synnai'r bardd nad oedd y ddelw o'r eryr pres 'a'i osgo oddefol ... a'i big di-fin' yn adlewyrchiad gwirioneddol o natur y creadur go iawn,<sup>243</sup> a gwelwn hyn wrth iddi nodi sut y bu i'r ddelwedd '[d]dofi' a 'phylu' yr aderyn wrth ei anfarwoli mewn metel. Trwy ystyried y cerddi eraill sy'n rhannu'r teitl 'ornithoffobia', awgrymir ein bod, trwy droi gair yn ddelwedd, yn colli'r gallu i gamddechongli neu gamddefnyddio'r testun gwreiddiol. Lle y bu unwaith sŵn aflafar, ceir tawelwch, a gwelwn hyn wrth i'r bardd gyferbynnu ymadroddion megis 'unsgrech hyll / am waed' gyda '[m]udandod maith'.<sup>244</sup>

Erbyn yr ail bennill, fodd bynnag, teimlwn fel petai'r bardd yn sylweddoli sut y gall delwedd gael ei chamdechongli hefyd, a bod angen geiriau i egluro'r sefyllfa yn llawn. Y mae'r berthynas rhwng delwedd a gair felly yn un sy'n ddibynnol ar ei gilydd – ni allwn gael y darlun cyflawn bob tro heb ystyried y ddwy safbwynt. Noda sut y gallwn anwybyddu'r gwirionedd am natur yr eryr erbyn hyn, am ei fod bellach wedi cael ei droi'n symbol neu'n ddelwedd nad yw'n adlewyrchu ei gwir gymeriad:

Cawn anwybyddu'r  
gras a'r gwir – a mynnu sôn am sut  
cylchwyliai froydd llên, gan wanu  
braster cig ac asgwrn cerdd at fêr,  
neu chwedleua'n faith amdano'n pigo'r

---

<sup>242</sup> Ibid., t. 84.

<sup>243</sup> Ibid., tt. 136-7.

<sup>244</sup> Ibid., t. 84.

sêr apocalyptaidd wedi'r gosber.

Cyfeirir yma at gylch Canu Heledd a'r modd y defnyddiwyd delwedd yr eryr mewn llenyddiaeth Gymraeg mewn ffordd ddelfrydol, bron fel petaem yn edrych ar y digwyddiad trwy wydrau rhosliw, yn hytrach nag ystyried cymeriad go iawn yr aderyn. Pwysleisia sut yr ysbardunodd y ddelwedd straeon a cherddi – a bod y gair ysgrifenedig felly wedi deillio o'r symbol.

Erbyn diwedd y gerdd, pwysleisia'r bardd eto nad oes raid inni ofni'r eryr, gan ein bod wedi ei sefydlu fel delwedd:

Mae hwn yn hen: does raid  
ei ofni nawr. Fe'i dodwn yn ben  
ar bolyn, cilwenu ar fraw'r llygaid,  
swildod yr adenydd  
  nes daw awelon  
Haleliwia i grychu'i blu i'w bôn  
a churiad esgyll ei ddadeni gogoneddus  
i'n dryllio'n sglyfaeth fyw i frenin nef.<sup>245</sup>

Y mae'r gerdd hon yn un sy'n pwysleisio'r berthynas rhwng geiriau a delwedd ac sy'n dangos fod gan ddelweddau eu lleisiau eu hunain, am eu bod yn cyfleu profiadau nad oes yn rhaid eu disgrifio â geiriau. Ceir nifer o esiamplau eraill yng ngwaith ecffrastig y bardd sy'n trafod y berthynas rhwng geiriau a delweddau, a sut y gallwn gyfathrebu heb ddefnyddio geiriau o reidrwydd. Un o'r rhain yw 'aroddodiad dwylo', sy'n seiliedig ar gyfres o ffotograffau: 'Defod a Phroses (Troi)' gan Sam Bakewell. Dengys un o'r lluniau hyn yn y gyfrol *Rhwng y Llinellau*, sef ffotograff o bâr o ddwylo yn estyn allan at y gynulleidfa. Trafoda'r gerdd y broses o siarad gyda'n dwylo – nid iaith arwyddion, fel y cyfryw, ond yr ystumiau naturiol y mae nifer

---

<sup>245</sup> Ibid.

ohonom yn eu gwneud â'n dwylo wrth inni gyfathrebu er mwyn inni fynegi ein hunain yn fwy eglur:

Fel y gŵyr pawb sy'n f'adnabod, rwy'n un o'r bobl hynny sy'n ei chael hi'n anodd iawn i'w mynegi eu hunain ar lafar heb gymorth eu dwylo ... rhyw chwifio dull-rhydd, llawer llai dyrchafedig [na iaith arwyddion]. Boed wrth ddarlithio neu wrth sgwrsio'n anffurfiol, byddaf fel arfer angen ychydig o 'help llaw'. Mae hynny'n arbennig o wir pan fyddaf am bwysleisio rhywbeth, neu gyfleu didwylledd neu bwysigrwydd yr hyn sydd gennyf i'w ddweud, ac rwy'n hoff iawn o ddefnyddio fy nwylo hefyd i gyfleu perthynas arddodiadol rhwng pethau a'i gilydd.<sup>246</sup>

Trwy gydol y gerdd hon, defnyddir trosiad estynedig o wnïo er mwyn disgrifio sut yr ydym yn llunio brawddegau. Ceir ambell gyfeiriad at wnïo yng ngwaith y bardd, megis yn 'y Ffrances a'r Gymraes' ac 'y wers wnïo', gan ddatblygu yn un o'i motiffau cyson. Ceir darlun hyfryd o'r broses o greu ystyr trwy osod geiriau at ei gilydd:

rwy'n pinio gair  
ar aer, pwytho fy mrawddegau'n

sownd i'r awyr, rhag i edau'r  
ystyr redeg ymaith heb help llaw

'ngwniadwaith.<sup>247</sup>

Ceir darlun o rywbeth cywrain iawn yma, ac mae'r delweddu estynedig yn adleisio'r un math o arddull a gafwyd gan y bardd yn ei chasgliad 'egni', a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch yn 2004. Y mae'r casgliad hwn, a fydd yn cael ei drafod yn fanylach yn y drydedd bennod, yn sôn am y broses o farddoni, o ymgodymu â'r iaith Gymraeg ac o geisio cyfleu syniadau ar lafar neu bapur. Y mae 'arddodiad dwylo' yn llwyddo i adleisio'r syniadau hyn trwy ddangos elfen arall inni ar y broses o greu, sef defnyddio'r corff i roi ystyr a mynegiant i syniadau. Noda'r bardd sut y cyfareddir hi gan y 'ffaith bod pobl wedi eu creu â'r gallu i gyfosod eu bodiau yn erbyn eu

---

<sup>246</sup> James, *Taliesin*, 135 (2008), 52.

<sup>247</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 118.

bysedd’ a sut y mae hynny’n ‘caniatáu inni drin offer yn ddeheuig a chyflawni tasgau manwl fel creu gweithiau celf, gwnïo – ac ysgrifennu.’<sup>248</sup> Dyma’r math o ddelweddaeth a ddefnyddir yng ngherddi’r bardd, gyda phwyslais arbennig ar ddefnyddio’r campau hyn fel trosiadau yn ymwneud â sut yr ydym ni yn cyfathrebu â’n gilydd.

Cerdd sy’n defnyddio ysbardun gweledol tebyg yw ‘dwylo: etymoleg cysur’, a gyfansoddwyd mewn ymateb i’r llun ‘Bryn a Doreen Lewis’ gan Sam Bakewell. Fel y gerdd ‘dwylo’<sup>249</sup> sy’n rhan o’r casgliad o gerddi sy’n ymateb i salwch y bardd, ‘[c]erdd bapur’<sup>250</sup> yw hon hefyd sy’n apelio i’r llygad yn hytrach nag i’r glust.

Nid etymoleg cywir, academiaidd a gawn yn ‘dwylo: etymoleg cysur’. Disgrifir y gerdd gan Christine James fel ‘[e]tymoleg emosiynol yn hytrach nag ymenyddol’,<sup>251</sup> sydd unwaith eto yn amlygu’r syniad o effaith llesol cyffyrddiadau. Llunnir y gerdd o bum llinell sy’n lleihau mewn hyd, gan gyfyngu’r geiriau bob tro er mwyn dangos sut cafodd y gair ei “ffurfio” yn y pen draw:

di-	+	(h)wyl +	-aw	>
dy-	+	wylaw	>	
dy-	+	law	>	
dwy	+	law	>	
dwylo. <sup>252</sup>				

Er mor fer yw’r gerdd hon, cyflëir unwaith eto’r syniad o sut y gallwn ddefnyddio ein dwylo er gwell, gan bwysleisio’r nerth sydd mewn cyffyrddiad. Ystyr ‘wylaw’ wrth gwrs mewn Cymraeg canol oedd ‘wylo’, a gwelwn yn y gerdd hon eto’r teimlad cychwynnol o

<sup>248</sup> James, *Taliesin*, 135 (2008), 52.

<sup>249</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 51.

<sup>250</sup> *Ibid.*, t. 139.

<sup>251</sup> *Ibid.*

<sup>252</sup> *Ibid.*, t. 126.

ddioddefaint a phoen. Yn nes ymlaen, y mae'r pâr o eiriau 'dy + law' yn troi i 'dwy law'.

Gallai hyn gyfeirio at bâr o ddwylo unigolyn, ond trwy ystyried y cysylltiad gyda'r 'wylaw' a'r syniad fel petai o ymestyn 'dy- + law' i greu 'dwy + law', y mae'n debyg unwaith eto mai sôn am gyffyrddiad gan rywun arall y mae'r gerdd hon. Y mae hyn yn atgyfnerthu'r hyn a welir yn y llun – sef ffotograff hen law, grychiog a llaw ifanc esmwyth, a'r ddau yn cydio dwylo.

Ategir hyn gan sylwadau'r bardd ei hun ar y gwaith:

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn gwybod rhywbeth am y cysur dwfn sydd yn y weithred syml o ddal llaw rhywun arall – boed plentyn, cariad neu glaf. Dyma waith celf sy'n siarad am y profiad hwnnw, er bod y dwylo hyn wedi eu dieithrio oddi wrth yr unigolion sy'n rhoi'r cysur ac yn ei dderbyn. Mae fel petai Sam Bakewell wedi ceisio cyflwyno hanfod y profiad ar ffurf ei elfennau sylfaenol, annibynnol: cerdd i'r llygad yn hytrach nag i'r glust: fel yn achos y profiad a gyfleir, nid oes angen dweud y geiriau.<sup>253</sup>

Y mae'r cerddi yn y casgliad hwn felly i gyd yn chwarae gyda'r syniad o'r berthynas rhwng geiriau a delweddau, naill ai trwy bwysleisio sut y gallwn gyfathrebu heb yngan gair neu drwy greu cerddi sy'n ddelweddau ynddynt eu hunain. Cerdd arall sy'n pwysleisio'r berthynas hon yw 'gwyrdd', sy'n seiliedig ar y gwaith trawiadol llawn lliw 'Taffiti Graffiti' gan Bethan Ash. Gellir ystyried rhai mathau o graffiti yn weithiau celf sy'n cyfuno'r gair ysgrifenedig â chelfyddyd weledol; fel adlewyrchiad o hyn clytwaith o siapau mewn arddull haniaethol yw 'gwyrdd', a bob yn awr ac yn y man gwelwn eiriau yn brithio'r gwaith, a'r rheini yn enwau lliwiau gwahanol, gan gynnwys 'Glas', 'MELYN' a 'GWRYRDD' [sic].

Defnyddia'r bardd y syniad o liwiau a graffiti i gyfeirio at rai o'r ymgyrchoedd mwyaf nodweddiadol yn y frwydr dros yr iaith, yn enwedig y syniad o beintio arwyddion a sloganau er mwyn tynnu sylw at achosion amrywiol. Crybwylla sut y cawsom ein hannog ar hyd y

---

<sup>253</sup> James, *Taliesin*, 135 (2008), 53.



blynyddoedd i fynnu ‘Deddf i’r laith’, i gofio am foddi cwm ‘[T]ryweryn’, ac i fynd ati i hawlio ‘Tai, Tir’ a ‘Gwaith’, gan ein hatgoffa o bwysigrwydd sloganau o’r fath i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Cawn drobwynt yn ail hanner y gerdd, ac yn hytrach nag edrych yn ôl ar ymgyrchoedd y gorffennol, y mae’r bardd yn ein hatgoffa bod brwydrau gennym i’w hennill o hyd.

Defnyddir geiriau enwog Dafydd Iwan, a’n hanogodd i ‘baentio’r byd yn wyrdd’, gan gymhathu’r ystyr gwreiddiol o beintio llythrennol arwyddion uniaith Saesneg tuag at wneud ein rhan i leihau effeithiau cynhesu byd eang. Yn ein brwydr fodern ni, defnyddir ‘gwyrdd’ i olygu ailgylchu ac ynni adnewyddadwy, ac mae geiriau eiconig y frwydr dros hawliau ieithyddol wedi magu ystyr newydd yn y byd sydd ohoni heddiw. Cydnabu Christine James mai’r syniad deublyg hwn oedd ei bwriad wrth gyfansoddi’r gerdd:

Daethom yn hen gyfarwydd â gweld graffiti Cymraeg ar hyd heolydd ein gwlad, a llawer o’r sloganau’n tynnu sylw at rai o’r prif ymgyrchoedd gwleidyddol a fu dros y blynyddoedd ... Gosododd yr artist ei ‘graffiti’ ei hunan yn y darn hwn ... Ac yno, rywle tua’r ymyl gwaelod (ac wedi’i gamsillafu at hynny!), ceir y gair ‘gwyrdd’ – sydd hytrach yn eironig yn sgil yr holl alw sydd arnom bellach i ymagweddu’n wyrdd trwy fod yn ddarvoudus yn ein defnydd o adnoddau’r blaned. Ymgais i dynnu’r ddeupeth hynny ynghyd yw’r gerdd hon – peintio graffiti Cymraeg ar y naill law, ac ar y llall yr alwad i ailgylchu. Mae anogaeth cân enwog Dafydd Iwan inni ‘Beintio’r Byd yn Wyrdd’ wedi magu arwyddocâd newydd yn y byd sydd ohoni.<sup>254</sup>

Yn wahanol i’r cerddi eraill a grybwyllwyd, nid rhan o gasgliad ecffrastig mo ‘cerdd ddarogan’. Comisiynwyd y gerdd fel rhan o’r prosiect ‘26 Trysor’, pan ofynnwyd i chwech ar hugain o feirdd ymateb i ddarnau gwahanol o drysorau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mewn cerddi o union 62 gair. Lluniodd Christine James waith yn ymateb i Lyfr Du Caerfyrddin, gan adlewyrchu’r math o gerddi a geir yn y llawysgrif, megis englynion milwr a cherddi darogan.

---

<sup>254</sup> Ibid., 52-3.

Tynna Christine James ar y syniadau hyn gan lunio cerdd sy'n darogan diwedd y Llyfr Du, pan fydd y llawysgrif yn cael ei chau am y tro olaf, gan gollir holl hen lenyddiaeth sydd ynddi ynghyd â straeon am gymeriadau megis Myrddin, Taliesin ac Ysgolan:

Caewyd Llyfr Du Caerfyrddin:  
mud o hyn allan Myrddin,  
rhoed taw ar lais Taliesin.

Aeth pob llythyren yn llwch  
heb dân Sgolan.

Llyfr Du Caerfyrddin yw'r lle cawn y cyfeiriad cyntaf yn y Gymraeg yn y llawysgrif at Ysgolan, y cymeriad a ddaeth yn enwog yn ddiweddarach mewn cerddi darogan. Cyfeirir ato yng ngherdd Dafydd ap Gwilym 'Chwarae Cnau i'm Llaw',<sup>255</sup> ac mewn pennill o dadogwyd ar Guto'r Glyn, a ysgrifennwyd yn lledymyl gwaith William Salesbury, *A Brief and Playne Introduction*.<sup>256</sup> Rhoddir cryn bwyslais ar bechod a phenyd y cymeriad yn y Llyfr Du, a sonnir amdano'n llosgi eglwysi ac yn dinistrio llyfrau gwerthfawr.<sup>257</sup>

Defnyddir ieithwedd yr Oesoedd Canol er mwyn creu awyrgylch y canu darogan ac ymateb yn fwy diffuant tuag at y testun craidd:

Nid cain yn awr cyntefin:  
distaw cogau, cyndau crin<sup>258</sup>

Ystyr 'cyntefin' yw dechrau'r haf,<sup>259</sup> ac nid yw hwnnw'n brydferth bellach wedi colli'r Llyfr Du. Ceir cyfeiriadau mynych at y gog ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol, a dywed Ifor Williams mai'r rheswm am hyn yw bod cân y gog yn debyg i'r hen air Cymraeg am 'i ble?', a

---

<sup>255</sup> Dafydd ap Gwilym, 'Chwarae Cnau i'm Llaw', cerdd 95 (Cyrchwyd: 23 Mehefin 2015)  
<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm>.

<sup>256</sup> Ceir cyfeiriad at hyn yn Philip Schwyzer, *Literature, Nationalism and Memory in Early Modern England and Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004), t. 82.

<sup>257</sup> Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Abertawe, 'Nodiadau cerdd 95' (Cyrchwyd: 23 Mehefin 2015)  
<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm>.

<sup>258</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 86.

<sup>259</sup> *Ibid.*, t. 137.

bod hyn yn atgoffa'r beirdd o'r hyn a fu, gan ysgogi atgofion hiraethus am gymaint a gollwyd. Dywed y bardd yn y rhan hon o'r gerdd bod y cogau wedi distewi – nid oes neb ar ôl bellach sy'n cofio am y straeon a'r chwedlau, ac heb y cogau, nid oes unrhyw ffordd o'n hatgoffa am y cyfoeth a gollwyd.

Mae'n gerdd ddigon tywyll, wrth inni ddychmygu cymaint ar ei cholled y byddai llenyddiaeth Gymraeg petai dydd yn dod pan fydd pobl yn anghofio'r hen straeon. Y mae'r gerdd hon yn ymateb i'r llawysgrif gyfan, ond y mae'r tudalen penodol wrth ochr y gwaith yn arwyddocaol. Ceir llun creadur ar ochr y tudalen, ac mae'r bardd yn ymateb iddo drwy gyfeirio at y 'bwystfil trwy'r bedwenni' sydd wedi dinistrio'r cof am y Llyfr Du. Awgryma fod rhywbeth erchyll wedi dod a rheibio'r cyfan gan '[f]awa ar y beddi', heb ddim parch at y cyfoeth o ddiwylliant rhwng y cloriau, gan wneud llanast o bob dim. Nid yw'r bardd yn dweud hynny'n uniongyrchol, ond y syniad yw bod ein diwylliant o dan fygythiad a bod rhaid gochel rhag hyn. Rhybuddia ni o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol os nad ydyn yn gwarchod ein llawysgrifau na'n rhoi gwerth arnynt, neu os ydym ym eu dibrisio a'u diystyru.

### **Priodi delwedd ac atgof**

Categori arall yw cerddi ecffrastig sy'n priodi delwedd ac atgof. Lluniwyd 'ynysig', er enghraifft, sy'n dod o dan yr adran 'cerddi claf', gan y bardd mewn ymateb i gyfnod o salwch pan oedd ar ymweliad â Phrifysgol Harvard, a'r iselder a ddilynodd y salwch hwn. Y mae'r bardd wedi cydnabod droeon mai'r cyfnod hwn o iselder a ysbardunodd ei gyrfa farddol, gan ei hannog i ysgrifennu fel rhyw fath o gatharsis.

Disgrifia 'ynysig' felly brofiad y bardd o fod yn glaf mewn gwlad bell oddi cartref, ac y mae'r is-deitl 'hunllef' yn dweud y cyfan am hynny. Y mae'r gerdd hon yn seiliedig ar 'Noethlun Glas' gan Picasso. Darlunnir merch noeth yn troi ei chefn ar y gwylwr ac yn rhoi ei phen ar ei phenelinoedd, a chyflëir y teimlad mewnblyg hwn yn grefftus gan y bardd. Strwythur y gerdd mewn chwe chwpled, a phob un o'r rhain yn dechrau gyda'r llinell 'Rwy'n ynys fach mewn môr mawr'.<sup>260</sup> Llwydda hyn i gyfleu'r teimlad o ddieithruch a deimlai'r bardd o gael ei gadael ar ei phen ei hun yn ei salwch mewn gwlad estron, a chawn yr argraff ei bod yn boddi ynghanol y cyfan. Y mae hi'n ymwrthod â chyffyrddiadau corfforol a chyswllt dynol, gan ei hynysu ei hun fwy fyth oddi wrth y rheini sy'n gofalu amdani:

Rwy'n ynys fach mewn môr mawr  
paid â chyffwrdd â mi nawr<sup>261</sup>

Cerdd dywyll, negyddol iawn yw hon, sy'n pwysleisio iselder y bardd ar ei amlycaf:

gad lonydd imi, wnei di, nawr.<sup>262</sup>

Erbyn y trydydd cwpled, y mae'r bardd yn troi oddi wrth yr ymddieithrio corfforol ac yn defnyddio'r tywydd fel trosiad o'i chyflwr meddyliol cythryblus, fel rhyw fath o gamsyniad teimladol. Yn eu tro, rhestrir sut y 'mae'r gwynt yn dechrau codi nawr', a'i bod hi'n 'bygwth storom cyn y wawr'.<sup>263</sup> Cawn y teimlad bod rhywbeth ar droed, ac y mae'r bardd yn cyfleu disfydrwydd y peth hwn gan bwysleisio bod pethau'n gwaethygu bob munud a hithau heb fodd o ddianc. Pwysleisir hyn unwaith eto wrth i'r bardd ddisgrifio sut y 'mae'r tonnau'n sgubo drosta i nawr',<sup>264</sup> gan ategu'r syniad iddi gael ei llethu gan y profiadau tywyll.

---

<sup>260</sup> Ibid., t. 58.

<sup>261</sup> Ibid.

<sup>262</sup> Ibid.

<sup>263</sup> Ibid.

<sup>264</sup> Ibid.

Yn y ddau gwpled nesaf gwelwn y teimlad o foddi ar ei amlycaf: ‘mae’r cerrynt yn fy nhynnu i lawr.... Rwy’n boddi yn fy môr mawr.’ Gwelwn sut y mae’r bardd yn gaeth i’w meddwl ei hun, a chawn yr argraff ei bod ar fin ildio i’w chyflwr meddyliol, a gadael i’r iselder ei llethu’n llwyr. Pwysleisir mai ei brwydr bersonol yw’r frwydr hon, gan gyfeirio at ei hiselder fel ‘fy môr mawr’.<sup>265</sup> Awgrymir perchnogaeth gan y rhagenw ‘fy’ a theimlwn fel petai’r bardd yn teimlo ei bod hi’n brwydro yn erbyn ei meddwl ei hun. Gosodir y llinell hon ar ei phen ei hun, gan dorri’r patrwm o gwpledi a welwyd yn flaenorol a hoelio sylw’r darllenydd at y llinell. Llwydda hyn ein hargyhoeddi cymaint yw teimlad y bardd iddi gael ei llethu gan ei hofn a’i hunigrwydd, a theimlwn ei bod hi erbyn hyn yn galw am gymorth, fel rhyw fath o gri am help. Arweinia hyn ni ymlaen at linell glo’r gerdd:

Estyn law;  
rho gymorth –  
nawr.<sup>266</sup>

Ceir newid yn holl gymeriad y gerdd yn y llinell hon. Lle y bu’r bardd gynt yn cilio, gan wrthod cyswllt dynol a dyheu am lonydd, y mae hi bellach yn erfyn am gymorth. Sylweddola erbyn y diwedd na all frwydro’r salwch ar ei phen ei hun, a bod angen gofyn am gymorth a’i dderbyn cyn y bydd iachâd. Gosodir ‘nawr’ ar linell ar wahân, gan bwysleisio unwaith eto mor argyfyngus yw’r sefyllfa. Gwelwn mor anobeithiol yw sefyllfa’r bardd, ac y mae hi fel petai hi’n ymbil arnom – ar unrhyw un – i ateb ei chri a’i thynnu o grombil ei hiselder.

Darlunia’r gwaith celf gwreiddiol wraig noeth, gan gysylltu unwaith eto gyda’r syniad a drafodwyd yn y bennod flaenorol o ferched sy’n anghyfforddus yn eu cyrff eu hunain. Nid ydym yn cael gweld wyneb y ferch, ac felly y mae’r llun, o edrych arno drwy lygaid bach, fel

---

<sup>265</sup> Ibid.

<sup>266</sup> Ibid.

petai, yn edrych fel map o ynys mewn môr. Y tro hwn, y bardd yw'r testun, ac mae'r gerdd yn cyfleu ei phrofiad personol o ymdrin ag iselder. Salwch sy'n gyfrifol am yr anghysur y tro hwn felly – a hwnnw'n salwch corfforol sy'n esgor ar salwch meddwl, gan arwain y bardd i fod yn gaeth yn ei meddwl ei hun. Gwelwn fod noethni'r wraig yn y llun yn cael ei adlewyrchu yn naws fregus y gerdd, gan bwysleisio sut y teimla'r bardd yn agored i niwed ac yn archolladwy.

Cerdd sydd fel petai'n seiliedig ar brofiad personol y bardd wrth ddygymod â'i salwch yw 'Iolfa las', a gyfansoddwyd mewn ymateb i 'Tirlun Annileadwy' gan Ken Elias ar gyfer arddangosfa'r Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2008. Llun haniaethol yw'r gwaith hwn, yn darlunio sofffa a chadeiriau esmwyth, tirluniau ar y wal a rhosynnau blith draphlith dros y llun i gyd. Gwelwn fod y Iolfa fel petai yn edrych ar olygfa allanol – coed, caeau a thai lliw melyn a gwyrdd llachar sy'n cyferbynnu â lliwiau diflas y Iolfa. Yn y gyfrol *Rhwng y Llinellau*, dengys y llun fel un du a gwyn, ond roedd y darlun gwreiddiol yn las, ac o ganlyniad, y mae ystyr y gerdd yn gweddu'n well i'r gwaith celf gwreiddiol.

Defnyddia'r bardd arddull ailadroddus y filanél i ymateb i'r motiffau ailadroddus yn y llun. Llwydda hyn i gyfleu obsesiwn ac agoraffobia yr unigolyn, sydd wedi'i chau ei hun yn ei hystafell fyw. Cyfaddefa'r bardd iddi ddefnyddio'r arddull hwn yn fwriadol i adlewyrchu'r hyn a ddarluniwyd yn y gwaith celf:

Gwelais i rywbeth obsesiynol yn y llun hwn – y defnydd gormesol o un lliw, yr ailadrodd syrffedus bron ar fotifau, y diffyg perthynas naratifol rhwng ei wahanol elfennau. Cerdd obsesiynol amdani, felly, a phrin bod yr un mesur mwy obsesiynol na'r filanél, a'i hailadrodd patrymog, pendant ar linellau ac ar odlau.<sup>267</sup>

---

<sup>267</sup> James, *Taliesin*, 135 (2008), 53-4.

O'r cychwyn cyntaf, gwelwn sut y mae diflastod yn llenwi'r gerdd:

Na, dwi ddim am fentro mas,  
diflannodd pob un awydd;  
ymgiliais i'm lolfa las.<sup>268</sup>

Pwysleisir dro ar ôl tro y colli awch hwn, wrth i'r bardd nodi sut y 'diflannodd pob un awydd' ynddi, a sut y bu iddi '[e]rs amser bellach' golli blas ar fyw. Dywed hefyd, '[d]iflasais ar y byw ar ras, / ar dwrw'r dref aflonydd'<sup>269</sup> gan nodi nad yw'r byd y tu allan yn ei chyffroi bellach – dim y dref brysur nac ychwaith heddwch 'y môr a'r mynydd'.<sup>270</sup>

Ailadroddir 'ymgiliais i'm lolfa las' a 'na, dwi ddim am fentro mas'<sup>271</sup> bob yn ail bennill, gan amlygu'r elfen obsesiynol a'r modd y bu i'r llefarydd ymgilio fwyfwy i'w gragen, gan wrthod cyswllt â'r byd y tu allan. Y mae'r lolfa yn lloches ac yn noddfa, ac er bod y llefarydd yn cydnabod bod bywyd ynddi'n fas, gall deimlo'n ddiogel yma, gan osgoi popeth allanol, cadw at ei hun a '[ch]uddio yma'n gelfydd'.<sup>272</sup>

Ceir rhywbeth mwy rhithiol yn y ddau bennill olaf, fel petai'r caethiwo hunan osodedig hwn yn ei gyrru'n wallgof: 'Dyw alaw'r celfi byth yn gras, / daw rhosod yn gawodydd'.<sup>273</sup> Mewn llinellau fel y rhain gwelwn gyffyrddiadau cynganeddol, ac y mae trefn arbennig y geiriau hefyd yn ychwanegu at yr elfen obsesiynol. Y mae'r pennill olaf yn fwy sinistr fyth, wrth i'r llefarydd nodi 'Ac nid wy'n blino ar yr ias / yn rhithweliadau'r walydd',<sup>274</sup> fel petai'n gweld drychiolaethau oherwydd ei chaethiwed. Erbyn diwedd y gerdd, y mae'r noddfa wedi troi'n

---

<sup>268</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 114.

<sup>269</sup> Ibid.

<sup>270</sup> Ibid.

<sup>271</sup> Ibid.

<sup>272</sup> Ibid.

<sup>273</sup> Ibid.

<sup>274</sup> Ibid.

fygythiad, ac mae'r cyfuniad o obsesiwn a salwch yn ein hargyhoeddi nad yw hon yn sefyllfa iach o gwbl.

Gwelwn ddefnydd o eirfa dafodieithol eto, fel a geir yn nifer o gerddi'r bardd, gan gynnwys geiriau megis 'mas' a 'walydd'.<sup>275</sup> Llwydda hyn i gyfleu naws mwy anffurfiol, fel petai'n siarad â'i hun neu'n ceisio perswadio'i hun, gan droi syniadau yn ei phen am nad yw hi'n mentro allan eto.

Y mae lliw glas y llun gwreiddiol yn cyfleu'r symbol hirsefydlog o dristwch ac iselder. Gellir honni bod y bardd yn y gerdd hon yn tynnu oddi ar ei phrofiad o iselder a sut y bu iddi golli mwynhad yn y pethau hynny a arferai ei chyffroi:

Ces i'n nharo'n sâl yn America ... on i'n gorfod cael llawdriniaeth yn America, a dwi'n credu efallai mai trawma'r peth oedd e'n fwy na dim, ond beth bynnag, ar ôl cyrraedd gartref, ces i'n hun mewn cyflwr o wendid corfforol, ddim yn gallu canolbwyntio i neud y ngwaith i. Daeth hynny fel sioc achos oni wedi bod yn berson sydd yn mwynhau gweithio'n galed, yn bwrw ati gyda ngwaith i.<sup>276</sup>

Unwaith eto, fel yn nifer helaeth o'i cherddi ecffrastig eraill, y mae'r bardd yn mynd o dan groen y gwaith celf gwreiddiol ac yn defnyddio'i cherdd i gyfoethogi'r motiffau a welir yn y darlun. Nid yw'r gerdd yn dibynnu ar y llun ond cyfoethogir profiad y darlennydd o weld y gwaith hwnnw, wrth inni sylweddoli ar yr adlewyrchu rhwng yr elfen haniaethol yn y gwaith a'r elfennau rhithiol yn y gerdd.

Ymddengys fel petai'r gerdd 'cysgod y gadeirlan' hefyd yn seiliedig ar brofiad personol, ac rydym ni fel darllenwyr yn gwyllo'r olygfa bron fel petaem yn edrych trwy albwm o

---

<sup>275</sup> Ibid.

<sup>276</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00



ffotograffau. Teimlwn fod gweld y llun ‘Eglwys Gadeiriol Rouen: Machlud Haul’, o waith Monet wedi deffro atgofion y bardd o ymweliad â’r lleoliad hwnnw. Nid trafod arddull y gwaith celf a wna’r bardd o gwbl, am mai’r gadeirlan ei hun yw canolbwynt y gerdd, ac fel yn achos ‘y Ffrances a’r Gymraes’, y mae’r bardd yn torri’r ffiniau rhwng y llun a’r stori, gan ddadfframio’r gwaith a’n galluogi ni i brofi’r olygfa gyda hi. Y gadeirlan ei hun yw gwrthrych y gerdd, nid y gwaith celf, ac ar ddechrau’r gerdd, creïr darlun hamddenol, rhamantaidd o deulu’n eistedd yng nghysgod Eglwys Gadeiriol Rouen yn mwynhau eu *baguettes*:

Awr offeren *al fresco* yn Rouen:  
ninnau’n gwledda’n ddigywilydd rad  
ar lathen o *baguette*<sup>277</sup>

Megis yn ‘y Ffrances a’r Gymraes’, creïr awyrgylch gosmopolitaidd, Ffrengig yn y gerdd hon eto. Fodd bynnag, nid yw’r profiad dymunol hwn yn parhau’n rhy hir wrth i gardotyn ddod i darfu ar y teulu:

Doedd angen fawr o iaith  
i ddeall meddwl hwn  
a’i gwpan o law yn gwthio  
i ganol ein pryd byrfyfyr ...

... a hwn yn dod â gwynt y gwin  
i’w ganlyn.<sup>278</sup>

Caiff yr awyrgylch ddelfrydol ei chwalu, gan ddifetha’r profiad rhamantaidd o eistedd yng nghysgod y gadeirlan i’r teulu. Defnyddir y disgrifiad ‘cripiodd ei fegera’n gysgod gothig’<sup>279</sup> yn effeithiol i ddod â’i wedd a’i ymddygiad rhyfedd a thywyll yn fyw – nid yw’r cymeriad hwn yn cyd-fynd â’r ymweliad â’r gadeirlan sanctaidd nac ychwaith arddull feddal, argraffiadol Monet yn ei baentiad. Y mae’r cyfeiriad ar ‘wynt y gwin’ yn creu awyrgylch fygythiol – y mae rhywbeth sy’n cael ei gysylltu â’r Ffrainc gosmopolitaidd, hamddenol yn cael ei wyrddroi i

---

<sup>277</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 20.

<sup>278</sup> *Ibid.*, t. 22.

<sup>279</sup> *Ibid.*, 20.

achosi pryder, wrth inni baratoi ar gyfer ymddygiad byrbwyll a threisgar, o bosibl, gan y cymeriad hwn o dan ddylanwad alcohol. Fel yr eglura Mererid Puw Davies:

Ceir golygfa sydd, mae'n debyg, yn dawel a llonydd i ddechrau, sef y bardd yn edmygu'r eglwys gadeiriol real ... Ond aflonyddir ar y bardd gan gardotyn blin. Efallai mai crwydryn yw'r unigolyn yma, hynny ydy, rhywun a nodweddir gan fywyd symudol; a thrwy ei ymddygiad anystywallt, mae'n gwrthsefyll pob rhamantu amdano, wrth beidio â chaniatáu i'r bardd ei gynnwys yn rhan o unrhyw ddarlun sentimental.<sup>280</sup>

Dyma enghraifft eto, felly, o'r gwrthdaro rhwng llonyddwch a symudoledd a welir yn gyson yng ngwaith y bardd. Fel nifer o gerddi ecffrastig Christine James, y mae 'cysgod y gadeirlan' yn gwbl ddealladwy heb weld y llun. Fodd bynnag, cyfoethogir y stori wrth weld y paentiad, wrth inni werthfawrogi'r cyferbyniad rhwng delfryd y ddelwedd a realiti profiad y bardd o'i hymweliad. Y mae lliwiau pinc a choch y paentiad yn gwneud inni feddwl am y syniad o 'edrych ar y byd trwy wydrau rhosliw', ac felly'n cryfhau'r syniad o awyrgylch ddelfrydol. Y mae'r gerdd felly yn mynd y tu hwnt i'r gwaith celf gwreiddiol, ond eto'n parhau mewn perthynas agos â'r darlun, mewn ffordd. Y mae profiad y bardd yn chwalu darlun delfrydol Monet o'r eglwys, ac ni allwn lai na theimlo fod ymddygiad y cardotyn wedi suro'r delfryd hwnnw i'r bardd:

Ni fynnai fara,  
a dirmygodd ein dyrnaid arian mân  
yn fygythiol floesg ...

... Ond glynodd blas ei wrthod  
fel afrellad ar dafnod<sup>281</sup>

Llwydda'r bardd wau delweddau'r bara a'r gwin, sydd mor ganolog i fywyd yr Eglwys Gristnogol, yn grefftus ac yn gynnill gyda'i phrofiadau hi yn y Gadeirlan. Wrth iddi geisio mwynhau ei *baguette*, fodd bynnag, nid yw hi'n profi teimlad ysbrydol, fel a geir yn yr

---

<sup>280</sup> Puw Davies, *Barddas*, 284 (2005), 51.

<sup>281</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 20.

Offeren. Daw'r cardotyn â'i win i suro'r cyfan, ac mae ei ymddygiad anniolchgar a bygythiol wedi eu gweithred hael o gynnig bwyd iddo, yn gadael blas cas ar y profiad.

Fel y dywed Damian Walford Davies:

[Y] mae pensaernïaeth cadeirlan Rouen, darlun Monet ohoni, bwyd a begera yn ymdoddi'n brofiad gothig trawshanesyddol yn 'cysgod y gadeirlan'.<sup>282</sup>

Ategir y syniad hwn o chwalu ffiniau hanes gan Mererid Puw Davies:

[M]ae'r cardotyn yma fel petai yn dianc i mewn i'r llun adnabyddus ei hun, ac felly, yn newid y llun hwynnw. Fe'i disgrifir yn 'cripi[an]' trwy'r olygfa fel '[c]ysgod gothig' ... mae'r ansoddair 'gothig' yn ein hatgoffa ... mai campwaith hŷn yw'r eglwys ei hun, a ffurfiau ei phensaernïaeth yn dynwared esgyn tua'r nefoedd. 'Roedd yr arddull gothig yn destun cryn gyfaredd esthetig a deallusol i ddiwylliant Ffrainc y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gymwys am ei fod, erbyn hynny, yn ymddangos mor ddiarth a hynod, ac weithiau mor grotesg. Felly, mewn sawl cyswllt, mae'r gerdd yn adfer dimensiwn hanes, a symudiad amser hefyd, i'r gynfas statig.<sup>283</sup>

Y mae profiad y bardd yn ein galluogi i gamu i mewn i'r llun, a gweld nad yw'r delfryd a baentiwyd yn adlewyrchu'r realiti mewn gwirionedd. Y mae'r darlun a'r profiad go iawn yn ymdoddi'n ei gilydd a llwydda'r bardd i ddefnyddio ecffrasis ar ei orau i wneud inni deimlo ein bod yn rhannu'r profiad gyda hi, a'n bod ninnau hefyd yn cael ein siomi nad yw'r sefyllfa go iawn yn adlewyrchu darlun rhamantaidd Monet.

Gwaith crefyddol arall sydd eto'n priodi ag atgofion y bardd yw gwaith enwog Michelangelo 'Y Creu', sy'n rhan o do Capel y Sistine ac yn ysbardun ar gyfer y gerdd 'gollwng'. Llais mam a geir yn y gerdd hon sy'n ffarwelio â'i mab ym maes awyr Heathrow a chymerir ei sefyllfa gyda'r ddelwedd o Dduw yn gosod Adda ar y Ddaear yng ngwaith Michelangelo. Disgrifir y fam fel creawdwr yn y gwaith hwn, ac fel y gwna Duw yn y llun ac yn Llyfr Genesis, y mae'r fam yn gadael i'w mab i ddod o hyd i'w ffordd ei hun yn y byd, gan ddechrau ar y broses o

---

<sup>282</sup> Walford Davies, *Barddas*, 285 (2005), 53.

<sup>283</sup> Puw Davies, *Barddas*, 284 (2005), 51-2.

ymwahanu rhwng rhiant a phlentyn. Tynnir oddi ar ddelweddaeth dwy ran o'r Beibl yma.

Yn gyntaf, sonia'r bardd am y fagwraeth a gafodd ei mab, gan adleisio rhannau o Lyfr

Genesis:

Fe gest tí'r rhain cyn dy fod,  
yn etifeddiaeth ysgafn  
í'w chludo'n rhwydd o'm côl:  
delw fy nghnawd a gair yn gân.

A chyn iti flysio am flasu  
cyffro ffrwythau'r wlad bell,  
rhois iti'r ardd hon í'w rhodio  
a'i meddu'n gron Gymraeg.<sup>284</sup>

Disgrifir magwraeth y plentyn fel rhyw fath o Ardd Eden. Cafodd ryddid i fwynhau cyfoeth bro ei febyd cyn í'r awch i deithio ymhell afael ynddo. Adleisia'r llinell 'delw fy nghnawd a gair yn gân' y disgrifiad o Grist fel 'y gair a wnaethpwyd yn gnawd' a geir yn Efengyl Ioan, gan dynnu paralel eto rhwng Mab Duw a mab y bardd.

Yn y penillion nesaf, gwelwn mor gryf yw cariad y bardd at ei mab:

Rhwng pob pilyn pwrpasol  
a aeth í'r baich di-hid ar dy gefn  
taenais gariad fesul tafell denau  
fel na phwysai arnat ddim.<sup>285</sup>

Gwelwn ofal y bardd o'i mab, a sut y byddai'n ceisio esmwytho'i fyd cymaint â phosibl trwy gynnig cariad a chysur iddo yn ystod adegau anodd. Yma eto, cawn y syniad o 'greu', wrth inni ystyried y mab fel cynnyrch y fam. Fodd bynnag, y mae hi bellach yn amser caniatáu í'r mab gael ei ryddid ac annibyniaeth, a'r cam cyntaf yw gadael iddo deithio'r byd a dod o hyd

---

<sup>284</sup> Ibid., t. 28.

<sup>285</sup> Ibid.

i'w lwybr ei hun. Wrth sôn am yr ymadawiad hwn, â'r bardd yn ei blaen i adleisio Dameg y Mab Afradlon, gan wthio ei 'ffedog i gefn y drâr / gyda'r rysâit am lo pasgedig'.<sup>286</sup>

Er ei fod yn gadael cartref, fodd bynnag, y mae'r bardd yn atgoffa ei mab o'r hyn y mae hi wedi ei roi iddo, trwy ei fagwraeth:

Ond cyn llacio llinyn ein llygaid,  
rhof iti'n bwn y bwlch rhwng bysedd  
fydd iti'n fesur ar y rhyddid rhwth  
sy'n agor o'r fan hon hyd gibau'r moch.<sup>287</sup>

Bydd y bwlch sydd rhyngddynt yn atgoffa'r mab fod modd dychwelyd, ac y bydd llinyn rhyngddynt waeth pa mor bell yr aiff, a pha bynnag beth y daw o hyn iddynt ar ei daith. Fel y dywed Damian Walford Davies:

Pair y gerdd 'gollwng' inni ystyried arwyddocâd 'y bwlch rhwng bysedd' yn ffresco eiconig Michelangelo, 'Creu Adda' (hoff gan ecffrasis feddiannu'r fath fylchau, y fath fanylion) ac mae diwinyddiaeth feiddgar y paralel rhwng Duw ac Adda ar y naill law a'r fam yn ffarfwelio â'i chyntafanedig yn Heathrow ar y llall yn esiampl wych o'r ffordd y gall y golwg ecffrastig ddistyrbio dogma.<sup>288</sup>

Fel y soniwyd yn 'gollwng' am y berthynas rhwng mab a mam, trafod y berthynas rhwng neiniau a theidiau â'u hwyrion y gwna 'cynefin'. Ysbardunwyd y gerdd hon gan y darlun 'Cegin Ora Nain a Taid', o waith Eleri Jones. Llun o ddau ditw tomos las yw'r gwaith, a'r rheini yn addurniadau ar gyfer y tŷ, fwy na thebyg. Ysbrydolwyd y gerdd wedi i'r bardd sylwi ar waith adeiladu ar gartref ei mam-gu a'i thad-cu, a'r profiad rhyfedd o sylwi ar y gwahaniaethau modern o gymharu â sut olwg oedd ar y lle yn ei phlentyndod:

Cefais y profiad yn ddiweddar o fynd heibio i hen gartref fy mam-gu a'm tad-cu innau – y tro cyntaf ers blynyddoedd, fel mae'n digwydd – a chael fy nharo gan y gwahaniaeth oedd yng ngolwg y tŷ erbyn hyn, o'i gymharu â'r hyn a gofiwn pan oeddwn yn ferch fach ac yn mynd yno'n rheolaidd: y ffenestri uPVC, estyniad helaeth

---

<sup>286</sup> Ibid., t. 29.

<sup>287</sup> Ibid.

<sup>288</sup> Walford Davies, *Barddas*, 285 (2005), 53.

a *conservatory* mawr yn y cefn. Ac ni allwn ond dychmygu sut olwg oedd ar y tu mewn; beth, tybed, sydd wedi disodli'r celfi syml, hen ffasiwn, a'r trugareddau ar y dresel yr oeddwn mor hoff o estyn amdanynt pan oeddwn i'n fach – â chanlyniadau trychinebus weithiau ... Y profiad chwithig hwnnw, yr ymdeimlad o newid ac o golled bersonol, oedd y man cychwyn.<sup>289</sup>

Tua'r un adeg, clywodd y bardd am hanes y cwmp yn niferoedd y titw tomos las ym Mhrydain o ganlyniad i'r tywydd garw, a sut yr oedd adar eraill wedi meddiannu'r nythod.<sup>290</sup> Cyfunwyd y ddau syniad hyn ynghyd felly wrth i'r bardd ymateb i'r llun ac i'w deitl perthnasol, a gallwn ddarllen y gerdd trwy gyplysu'r ystyr at yr adar neu at y fam-gu a'r tad-cu.

Egyr y gerdd gyda disgrifiad annwyl o'r fam-gu a'r tad-cu, wrth i'r bardd nodi sut y '[c]adwai'r pâr yn glôs i'w patshyn'.<sup>291</sup> Defnyddir geirfa dafodieithol yma er mwyn cyfleu agosatrwydd ac ategu'r syniad fod y ddau yn gymeriadau sy'n gartrefol yn eu milltir sgwâr. Ategir hyn eto gan ddisgrifiadau nesaf y gerdd, 'byth yn crwydro'n / bell o ddiogelwch eu cynefin', a gwelwn sut y mae'r ddau wedi gwreiddio yn eu lle ac yn hapus eu byd yno.

Ni fu i'r ddau geisio bywyd uchelgeisiol – yn wir, 'bu magu plant mewn gwely / plu, cymoni tipyn ar yr ardd ...'<sup>292</sup> yn ddigon iddynt. Unwaith eto, defnyddir tafodiaith y de-ddwyrain, gyda geiriau fel 'cymoni' yn ychwanegu at y darlun clos, cartrefol o'r ddau sy'n driw i'w bro ac sydd wedi magu eu teulu yn yr ardal honno. Sonnir bod y byd y tua allan yn eu 'synnu' wrth iddynt edrych arno 'trwy lygaid bach', ond er hyn teimlwn fel petai'r ddau yn ddigon bodlon byw bywyd syml, hen ffasiwn, a oedd yn cylchdroi o amgylch yr aelwyd.

---

<sup>289</sup> Ibid., 51.

<sup>290</sup> Ibid.

<sup>291</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 122.

<sup>292</sup> Ibid.

Trwy gydol y gerdd, crëir darlun o ddau gymeriad hoffus:

tynnai'u dal-pen-  
rheswm smala  
wên bob tro digwyddai  
rhywun daro heibio;

hwythau byth yn blino  
ar fusnesa, nac ar gasglu trugareddau<sup>293</sup>

Daw'r disgrifiadau a'r ddau yn fyw o flaen ein llygaid, gan ychwanegu at ein dealltwriaeth o'u personoliaethau. Diddorol hefyd yw'r cyfeiriad at y 'trugareddau', sy'n ein hatgoffa eto o'r darlun a'r ddau ditw tomos tsieni a welir yno.

Cawn ddarlun chwareus o'r berthynas rhwng y fam-gu a'r tad-cu a'u hwyrion yn y pennill nesaf:

ond o fentro  
estyn llaw'n rhy agos ... ara' ...  
cawn ganddynt stŵr – a  
dyna ddiwedd sydyn ar y miri!<sup>294</sup>

Gwelwn sut y mae'r pâr yn amlwg yn gwerthfawrogi'r trugareddau, er mor fychan a di-nod oeddent, a sut yr oedd y plant yn ceisio gwthio'r ffiniau, gan wybod na fydd drwg yn dod ohono yn y diwedd. Gwelwn elfen ddrygionus y plant yma, ond hefyd y berthynas rhyngddynt â'r fam-gu a'r tad-cu, a sut y caiff y rheini eu cofio trwy gof plentyndod.

Daw'r trobwynt trist yn y pennill olaf. Wedi hel atgofion am ddau mor annwyl, sylweddolwn bod y cyfan wedi newid, am fod y ddau bellach wedi marw, a'r tŷ lle y bu atgofion mor felys yn wag. Teimlwn ergyd y llinell 'Ac O! am brofiad chwithig wedyn', gan ein harwain i ymdrin

---

<sup>293</sup> Ibid.

<sup>294</sup> Ibid.

â'r thema annifyr o beth i'w wneud â chartref wedi i'r preswylwyr farw. Y mae'r pennill olaf yn dwyn i gof y thema a geir yn 'Tŷ'r Ysgol' T. H. Parry Williams. Y gwahaniaeth yw, fodd bynnag, lle yr oedd yntau'n cadw'r tŷ ac yn methu â gadael fynd, gan ddychwelyd i dendio'r lle bob yn awr ac yn y man, teimla Christine James ei bod wedi colli'r tŷ yn rhy gyflym, ac wedi gorfod ffarwelio â'r cartref cyn ei bod yn barod i wneud hynny. Teimlwn hefyd ei phoen fod teulu newydd wedi symud i'r tŷ bellach, gan ddisodli ei pherthnasau a chymryd eu cartref heb ystyried y rhai a fu'n byw yno cyhyd:

prin i'w cartre oeri hebddynt  
cyn glanio rhyw adar estron  
i bigo dros eu nyth.<sup>295</sup>

Gwelwn trwy'r gerdd felly sut y mae'r y llun o'r adar a'r stori am y titw tomos las yn colli eu nythod, ynghyd â theitl y llun a'r syniad o fam-gu a thad-cu y bardd i gyd yn plethu gyda'i gilydd mewn modd celfydd. Defnyddir y llun fel symbol o'r hyn a gollwyd, a gwelwn enghraifft o gerdd ecffrastig sy'n cyfoethogi'r gwaith celf.

O ystyried cerddi ecffrastig Christine James felly, gwelwn bod ei hymdriniaeth o'r arddull hwn yn torri tir newydd mewn barddoniaeth Gymraeg. Gwelwyd bod yr enghreifftiau o ganu ecffrastig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn canolbwyntio ar ddisgrifio'r broses o greu'r gwaith celf, tra bo eraill yn canolbwyntio ar ddisgrifio'r gweithiau yn hytrach na threiddio o dan yr wyneb i ehangu ein dealltwriaeth o'r gelfyddyd. Y mae ymdriniaeth Christine James yn wahanol, fel y noda Idris Reynolds:

Christine James however makes no attempt to translate the paint into verse, that on its own would amount to no more than a literary exercise. On the contrary, her aim is to enhance the work of art by using it as a starting point for her own fertile imagination.<sup>296</sup>

---

<sup>295</sup> Ibid.

<sup>296</sup> Idris Reynolds, 'Reviews: Idris Reynolds on Christine James', *Poetry Wales*, 50 (2014), 62.



Defnyddia bedwar dull ecffrastig gwahanol er mwyn treiddio y tu hwnt i'r fframiau â'r

lluniau yn fyw, gan ysgrifennu mewn modd soffistigedig a threiddgar. Crynhoir ei

hymdriniaeth yn gelfydd gan Mererid Puw Davies:

Mewn gair, felly, mae'r cerddi yn peri i'r lluniau ystwyrian a dod yn fyw. Mae'r llun yn agor allan i'r byd; ac yn gadael i bethau newydd o'r byd hwnnw ac o ddychymyg y bardd dreiddio iddo yntau. Mae'r cerddi hefyd yn agor y ffiniau rhwng gwahanol gyfryngau trwy ymestyn y lluniau i gyfrwng newydd, sef iaith, wrth i'r bardd gydio mewn rhywbeth sydd yn y llun a gweu hanesyn amdano. Ac mae'r darlennydd wedyn yn dod yn rhan o'r gwaith yma, trwy orfod datblygu ar awgrymiadau'r bardd, sydd weithiau'n amwys neu'n ddirgel, yn enwedig os yw'n darllen y cerddi heb y lluniau wrth eu hymyl i'w goleuo.<sup>297</sup>

---

<sup>297</sup> Puw Davies, *Barddas*, 284 (2005), 52.

### Pennod 3 – Aralledd

A ninnau bellach wedi trafod cerddi ffeminyddol ac ecffrastig Christine James, trown ein sylw yn y bennod olaf hon at y gyfran helaeth arall o'i gwaith y gellir dadlau ei bod yn ymwneud ag aralledd. Ceir disgrifiad o'r cysyniad hwn i ddechrau, a thrafodir lle'r bardd ymysg beirdd a llenorion eraill Cymru, cyn mynd ati i drafod gweithiau'r bardd yng ngoleuni'r theori hon.

Y mae aralledd yn gydsyniad sy'n perthyn i theori ôl-drefedigaethedd, sy'n archwilio effaith trefedigaethedd neu wladychiaeth ar ddiwylliannau a chymdeithasau. Deillia aralledd o'r ddamcaniaeth hon, gan ymwneud â'r syniad bod grwpiau lleiafrifol yn wahanol i ddiffiniad y 'mwyafrif' ohonynt. Esbonia Lisa Sheppard sut y defnyddir y term mewn amryw gyd-destunau er mwyn disgrifio unigolion neu grwpiau lleiafrifol:

Yr 'arall' (the 'other') yw un o gysyniadau mwyaf sylfaenol rhai theorïau beirniadol a diwylliannol: i ddamcaniaethwyr ôl-drefedigaethol, yr arall yw'r deiliad sydd wedi ei drefedigaethu ac sy'n israddol yng ngolwg y trefedigaethwr; i ddamcaniaethwyr ffeministaidd, yr arall yw'r fenyw sy'n cael ei diraddio gan gymdeithas patriarchaidd. Mae'r arall hefyd yn bwysig i syniadau ynglŷn ag amlddiwylliannaeth, gan fod y genedl fel endid wedi'i diffinio yn erbyn aralledd (otherness) ... lle mae aelodau'r genedl nid yn unig yn debyg i'w gilydd, ond maent hefyd yn wahanol i aelodau cenhedloedd eraill.<sup>298</sup>

Ategir hyn gan Raman Selden, sy'n pwysleisio sut y defnyddir y term er mwyn cydnabod y gwahaniaethau rhwng grwpiau mwyafrifol a lleiafrifol:

Deriving from Simone de Beauvoir's perception of woman as 'the Other' to man, sexuality (together with class and race) is identified as a binary opposition (man/woman, black/white) which registers 'difference' between groups of people – differences which are manipulated socially and culturally in ways which cause one group to dominate or oppress another.<sup>299</sup>

---

<sup>298</sup> Lisa Sheppard, 'Troi Dalen "Arall": Ail-ddehongli'r berthynas rhwng cymunedau Cymraeg a Saesneg de Cymru mewn dwy nofel ddiweddar yng ngoleuni ffigur yr "arall"', *Gwerddon*, 21, Ebrill 2016, 26–46.

<sup>299</sup> Raman Selden, 'Feminist theories', yn Peter Widdowson a Peter Brooker (goln.), *A Reader's Guide to Contemporary Literary Theory*, (Hemel Hempstead: Prentice Hall/Harvester Wheatsheat, 1997), t. 137

Yn syml, fodd bynnag, ac yng nghyd-destun y traethawd hwn, defnyddir y term aralledd er mwyn nodi elfennau sy'n wahanol rhwng Christine James a beirdd eraill sy'n cyfansoddi yn y Gymraeg:

“Otherness” or “the other” are, at their most basic, simply signifiers of difference.’<sup>300</sup>

Yn sicr, rydym yn ymwybodol y gellir ystyried y Cymry Cymraeg yn lleiafrif, am fod ein diwylliant yn wahanol i'r diwylliant Prydeinig llywodraethol. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn ein lleiafrif bychan ni, rydym yn grwpio pobl nad ydynt yn gweddu i'r mowld traddodiadol o Gymro ac yn eu hystyried fel 'arall'. Wrth edrych ar feirdd sydd wedi derbyn llawer o sylw beirniadol dros y blynyddoedd, ac sy'n dal i ennyn diddordeb erbyn heddiw, megis R. Williams Parry neu T. H Parry Williams er enghraifft, efallai bod rhai ohonom yn euog o ystyried 'bardd Cymraeg' fel dyn sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac sydd wedi ei eni a'i fagu yng nghadarnleoedd yr iaith. Fel y soniwyd yn y bennod gyntaf, wrth edrych ar restr buddugwyr cystadlaethau'r Gadair a'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol, dynion Cymraeg iaith gyntaf sy'n hawlio'u lle fel enillwyr gwobrau llenyddol mwyaf anrhydeddus ein cenedl. Yng nghyd-destun yr ystrydeb annheg hwn felly, y mae'n debyg y gellir synio am Christine James fel bardd sy'n gweddu i'r categori 'arall' – merch sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac a fagwyd yng Nghymoedd y De.

Fel Cymry, tueddwn i fawrygu pobl sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, gan ymddwyn yn nawddoglyd ar adegau tuag at y rheini sy'n dysgu'r iaith. Ymddengys bron fel pe na baem

---

<sup>300</sup> Kirsti Bohata (2004), *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English* (Cardiff: University of Wales Press), t. 18.

yn gallu credu bod unrhyw un nad ydyw wedi cael magwraeth Gymraeg o'r crud yn gallu cyrraedd y fath safon. Crybwyllir hyn gan John Rowlands:

Yn y byd llenyddol Cymraeg rhaid iddo [y llenor neu'r bardd] fod naill ai'n arwr neu'n alltud. Byddwn yn tueddu weithiau i faldodi'r llenor ail-iaith yn ormodol, gan ei guro'n gymeradwyol ar ei gefn oherwydd ei gamp yn meistrioli'n hiaith, ac yn arbennig oherwydd ei alluoedd deallusol, heb gyfaddef ein bod yn teimlo yn nwf'n ein calonnau nad yw mewn gwirionedd yn llwyr berthyn, ac na chaiff wedi'r cwbl fynediad i gysegr sancteiddiolaf ein llên er gwaetha'r curo dwylo byddarol.<sup>301</sup>

Ar ben hynny, rhoddir pwyslais mawr ar y modd y llwydda camp y dysgwyr i symboleiddio rhyw fath o adferiad yn statws yr iaith. Defnyddiwn eiriau T. James Jones am Christine James fel enghraifft:

Mae Christine yn ymgorfforiad o allu'r Gymraeg i adennill tir achos fe gafodd hi ei magu ar aelwyd ddi-Gymraeg, ond er hynny, mae hi nawr wrth gwrs yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a dyma'r ddysgwraig gyntaf i ddod i Gadair yr Archdderwydd.<sup>302</sup>

Yn y cyd-destun hwn, difyr yw nodi cymaint o enwau mawr ein llên yn ystod yr ugeinfed ganrif sydd wedi defnyddio'u statws ieithyddol allanol fel rhagamod i herio'r drefn: Saunders Lewis, Waldo Williams, Bobi Jones, Pennar Davies, Alun Llywelyn-Williams, i enwi dim ond rhai. Gellir dadlau bod statws fel dysgwr yn rhoi mwy o bersbectif i'r bardd neu'r llenor ail iaith i gwestiynu ymddygiad y ffigurau 'cynhenid' – nid ei bod hi'n amhosibl i Gymro iaith gyntaf i wneud yr un peth wrth gwrs. Yn ystod yr 1950au, er enghraifft, yr oedd aelodau 'Cylch Cadwgan', a oedd yn cynnwys beirdd ac ysgolheigion megis Euros Bowen, J. Gwyn Griffiths a Kate Bosse-Griffiths, yn agored eu barn fod angen ymryddhau llenyddiaeth Gymraeg o'i 'hen hualau' a bod angen iddi foderneiddio er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau'r oes.<sup>303</sup> Cyfeiria M. Wynn Thomas at y criw dethol hyn fel 'a collection of

---

<sup>301</sup> John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), t. 219.

<sup>302</sup> T. James Jones: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

<sup>303</sup> Ceri Davies, 'Y Bywgraffiadur Cymreig: J. Gwyn Griffiths' (Cyrchwyd: 6 Ionawr 2016) <http://yba.llgc.org.uk/cy/c8-GRIF-GWY-1911.html>

seeming oddballs and exotics', ac awgryma fod eu haralledd yn caniatáu iddynt gynnig beirniadaeth wrthrychol ar lenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg.<sup>304</sup> Wrth drafod dylanwad Bobi Jones fel beirniad ac fel llenor, sonia John Emyr am y modd y defnyddia ei statws allanol i feirniadu'r diwylliant Cymraeg yn wrthrychol:

Bobi Jones is an author of great significance, not least for non-Welsh speakers. Himself having learnt Welsh, his work offers an insight, more so than the work of most authors whose first language is Welsh, into the significance of Welsh language and culture, particularly because of the strong intellectual or reflective element in his work. Deeply involved with the language and its culture, passionately committed to the best things in Welsh life, there is in his work – even at moments of high intensity – an element of detachment, an ability to step aside and see the wonder of Wales, its beauty and its tragedy, with an outsider's reflective, almost analytical gaze.<sup>305</sup>

Diddorol hefyd yw ystyried cymaint o fawrion ein cenedl sydd wedi mabwysiadu'r iaith yn gyfrwng trwy ddewis ymwybodol ac wedi mynd ymlaen i fod yn ddylanwadol drwy'r cyfrwng hwnnw, gan eu troi eu hunain drwy hynny yn 'Gymry Cymraeg'. Sonia Bobi Jones am y modd y bu iddo gofrestru ar gyfer modiwl Cymraeg yn y Brifysgol bron ar ddamwain, a sut y bu iddo straffaglu drwy'r wythnosau cyntaf, cyn wynebu datguddiad:

O dipyn i beth, dechreuodd fy mhenderfyniad ynghylch y dyfodol wyro i gyfeiriad newydd. Nid oedd neb o'r staff yn yr adrannau eraill ... yn meddu ar y dimensiwn rhyfedd a brofw'n yn yr Adran Gymraeg, nac i'w cymharu o ran na brwdfrydedd na newydd-deb gwelediad nac ymwybod o bwrpas. Yr hyn a gawn yn y pwnc hwn oedd nid testun ysgolheigaidd ... nid cyfarwyddyd ar gyfer troi maes academiaidd ... Ond Achos, Galwad, Dewiniaeth, Gweledigaeth, Ymgyrch, Bywyd. Roedd y dosbarthiadau Cymraeg yn gymharol fychain ac yn ffurfio cymdeithas o fath, cymdeithas gyfareddol i fachgen glas o'r ddinas ... Roedd yn ddatguddiad byd-eang. A'r darlithiau'n ddaeargryn barhaol.<sup>306</sup>

Digon tebyg oedd hanes Alun Llywelyn-Williams wrth iddo arddel y Gymraeg. Er mai Cymry oedd ei rieni, Saesneg oedd iaith yr aelwyd gan amlaf, a mynychodd wersi Cymraeg yn yr

---

<sup>304</sup> M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1999), t. 95.

<sup>305</sup> John Emyr, *Writers of Wales: Bobi Jones* (Cardiff: University of Wales Press, 1991), t. 1-2.

<sup>306</sup> Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), tt. 78-9.

ysgol o'i anfodd. Gorfodwyd ef i astudio'r Gymraeg yn y chweched dosbarth, ac oddi yno y datblygodd ei gariad tuag at yr iaith a'i diwylliant:

Cefais fy hun o'm hanfodd yn dechrau ar y cwrs Cymraeg. Bu'n foddion tröedigaeth llanc. Mor wahanol oedd cwrs y chweched dosbarth i'r hyn a ddisgwylwn, i bopeth a brofaswn yn Gymraeg hyd hynny. Cefais fy nghyflwyno'n gwbl annisgwyl i gorff o lenyddiaeth y gallwn weld fod ei bethau gorau yn deilwng i'w gosod ochr yn ochr â rhai o brif greadigaethau'r dychymyg mewn llenyddiaethau eraill ... *Y Bardd Cwsg, Pwyll Pendefig Dyfed o Bedeir Keinc y Mabinogi*, awdlau *Gwlad y Bryniau* Gwynn Jones ac *Eryri* T. H. Parry Williams, *Ynys yr Hud*, W. J. Gruffydd, a *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* ... Yr oedd darllen y rhain, na wyddwn i ddim am fodolaeth y rhan fwyaf ohonyn nhw o'r blaen, yn weledigaeth, yn fynedfa i diriogaeth oludog newydd. O'r awr honno ymlaen, 'roedd yr iaith Gymraeg wedi gosod ei chrafangau ynof, ac ni allwn "ddianc rhag hon".<sup>307</sup>

Yn y Brifysgol hefyd yr eginodd gwir ddiddordeb Christine James yn y Gymraeg:

[Es i] ymlaen i Goleg Aberystwyth, nid i astudio'r Gymraeg, nid dyna'r bwriad ar y dechrau. [Astudio] Daearyddiaeth oedd y bwriad, a chael fy nhynnu fewn wedyn gan grŵp arbennig o ffrindiau, cael fy nhynnu fewn i'r bywyd Cymraeg, a syrthio mewn cariad â'r holl *package*, os hoffech chi – yr iaith, y lenyddiaeth, y diwylliant, a'r cwbl. Mae'n rhaid i fi dalu pob teyrnged i'r ffrindiau a oedd gen i yn y Brifysgol, roedden nhw'n amyneddgar iawn gyda rhywun o gefndir ail iaith ... yn gefnogol ac yn gynhwysol ac yn amyneddgar. Wedyn, i raddau, yn eu cwmni nhw y trois i'n Gymraes.<sup>308</sup>

Gellir ystyried Christine James hefyd felly fel un sy'n sefyll mewn olyniaeth o ffigurau dylanwadol a gyflwynwyd i'r iaith fel oedolion ifanc, cyn mynd ati i flodeuo yn y byd Cymraeg llenyddol. Nid yw pob bardd a llenor Cymraeg yn byw yn y filltir sgwâr lle cawsant eu geni, eu magu a'u haddysgu ac felly gellir dadlau bod y ddelwedd ystrydebol fardd Cymraeg yn driw i'w fro ychydig yn gamarweiniol. Y mae'n ddiddorol felly sut y mae'r dysgwyr yr iaith neu'r rheini a gafodd fagwraeth y tu allan i'r cadarnleoedd ieithyddol wedi llwyddo i hawlio'u lle yn y byd llenyddol yn yr un modd â'r Cymry Cymraeg cynhenid.

---

<sup>307</sup> Alun Llywelyn-Williams, *Gwanwyn yn y Ddinas* (Dinbych: Gwasg Gee, 1975), tt. 61-2.

<sup>308</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

Yn sicr, sylweddola Christine ei bod yn anghyffredin, gan nodi ei bod hi'n ymwybodol nad yw hi'n gweddu i'r ddelwedd o fardd Cymraeg traddodiadol:

Yn fy achos i yn aml iawn ... rwy'n gorfod pinsho'n hunan – beth mae'r ferch fach 'ma o Donypandy, gafodd ei geni ar aelwyd hollol ddi-Gymraeg ... beth mae hi'n ei wneud gyda phobl yn cyfeirio ati fel Archdderwydd Cymru?<sup>309</sup>

Bydd y bennod hon felly yn trafod y cerddi hynny gan Christine James sy'n crybwyll ei 'haralledd'. Trafodir i gychwyn ei phrofiad fel un a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith. Eir ymlaen wedyn i drafod y gweithiau hynny sy'n canolbwyntio ar fro ei mebyd yng Nghymoedd y De, cyn trafod y dylanwadau crefyddol ar ei gwaith.

Ysbrydolwyd 'y coma caeth' gan 'Awelon', cerdd fuddugol Aled Jones Williams yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002. Y mae honno'n gerdd gwbl unigryw, lle y ceir geiriau a brawddegau blith draphlith yn ogystal ag elfennau gweledol sy'n adrodd hanes claf mewn ystafell aros, gyda'i holl feddyliau yn cymysgu ymysg ei gilydd. Daw'r gerdd i ben gyda choma mewn boccs – gan awgrymu bod y stori yn dod i ben ar ei hanner. Y mae'r llefarydd yn dioddef gan gyflwr terfynol, a llwydda'r coma ar ddiwedd y gerdd awgrymu bod bywyd yn gorffen yng nghanol brawddeg, ac nad oes diwedd glo twt i bob stori.

Y mae 'y coma caeth' felly, fel 'Awelon', yn gerdd fwriadol amwys. Y mae Christine James yn pendroni ynghylch ystyr y coma, ac yn ysu am iddo dorri'n rhydd o'r blwch sy'n ei gaethiwo.

Gwêl hi botensial y frawddeg anorffenedig, gan annog y coma i dorri'n rhydd:

... diferyn o destun byw  
yn difaru ei ddiffinio;  
'chaiff atal 'run anadl  
mewn arch.<sup>310</sup>

---

<sup>309</sup> Ibid.

<sup>310</sup> Christine James, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 39.

Ceisio alw ar rywun – p'un ai bardd 'Awelon', neu'r awen, neu ni fel darllenwyr – i ollwng y coma'n rhydd 'i ddiferu rhwng y geiriau crimp / i iro'r ystyr / a gwlychu llwnc brawddeg grin / sy'n gwichian ei ffordd i'r glust'.<sup>311</sup> Adlewyrcha hyn y syniad a geir yn 'alffa' o sychder, a'r angen i ddyfrhau rhywbeth hesb a sych, er mwyn 'gwlychu llwnc brawddeg grin / sy'n gwichian ei ffordd i'r glust'<sup>312</sup> a chael yr awen i lifo eto.

Cynhwyswyd y gerdd hon yn y casgliad, a ddaeth yn agos iawn i gipio'r Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch yn 2004, dan y teitl 'Egni'. Y mae pob un o'r cerddi'n ymwneud â'r awen farddol. Nid dyma'r unig ffordd o ddarllen y cerddi hyn, fodd bynnag; yng nghyd-destun cefndir y bardd, gellir hefyd eu hystyried fel gweithiau sy'n cyfeirio at y profiad o farddoni yn ei hail iaith. Yn sicr, y mae modd darllen y cerddi fel rhai sy'n trafod yr her o ymgiprys â iaith nad yw'n famiaith, a'r frwydr i geisio dod o hyd i'r geiriau cywir mewn iaith nad ydych yn gwbl hyderus ynddi.

Er enghraifft, yn y gerdd 'y coma caeth', sonia'r bardd am ei dymuniad i'r awen '[d]deffro egin gwewyr bardd / mewn coma'.<sup>313</sup> Ceir dwy ystyr i'r 'coma': yn ogystal â'r enw ar yr atalnod, disgrifia'r gair y cyflwr meddygol o fod yn anymwybodol mewn 'marw gwsg'. Gellir tybio felly fod y bardd yn ystyried ei chyfnod anffrwythlon o ran gwaith creadigol fel rhyw fath o 'goma', a bod angen symbyliad arni i'w deffro, am nad oes modd barddoni'n llwyddiannus heb awen.

Nodwyd gan feirniaid cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 2004 – nad oeddynt, wrth reswm, yn ymwybodol o enw'r bardd na'i hanes wrth ddarllen y gwaith am y

---

<sup>311</sup> Ibid.

<sup>312</sup> Ibid.

<sup>313</sup> Ibid.



tro cyntaf – fod y casgliad yn cynnwys cerddi a ddangosai'r anallu i gyfathrebu, yn ogystal â methiant i ysgrifennu'n greadigol:

Cerddi sy'n trafod anallu'r bardd i gyfathrebu yw'r rhain, cerddi sy'n trafod rhwystredigaeth y crëwr yn ei ymgais i drin geiriau'n llwyddiannus. Mae yna elfen o eironi yn yr holl waith sef, ar y naill law, rhwystredigaeth y bardd wrth iddo ymgodymu â geiriau, a hynny'n aflwyddiannus yn ei dyb ef, a dawn lachar y bardd i drin geiriau ar y llaw arall.<sup>314</sup>

Yn sicr, gellir darllen 'y coma caeth' fel cân gan ddysgwyr unrhyw iaith – y rhwystredigaeth o fethu â chyfathrebu'n llawn, a'r poendod o fethu â dweud yr hyn sydd ar eich meddwl am nad oes gennych mo'r geiriau i'w gyfleu'n effeithiol. Y mae'r bardd yn gweld y tebygrwydd rhwng siarad mewn iaith ddieithr a'r broses o farddoni, am fod yn rhaid, yn y ddau achos, ddod o hyd i'r ffordd o gyfleu eich syniad mewn modd sy'n trosglwyddo'r neges yr ydych am ei chyflwyno.

Gwelwn y paralel rhwng barddoni a dysgu ail-iaith yn amlycach yn y gerdd 'lluwch geirie'. Tawedogrwydd y bardd yw canolbwynt y cyfan, sy'n amlygu'r gwrthdaro rhwng yr ysfa i ddweud rhywbeth ar y naill law a'r anallu i wneud hynny ar y llaw arall. Egyr pob pennill yn yr un modd, gan bwysleisio'r rhwystredigaeth nad oes gan y bardd mo'r eirfa i ddweud yr hyn a ddymuna:

Pe medrwn,  
fe ddywedwn –

Pe medrwn  
fe rannwn –

Pe medrwn  
fe roddwn dro ar esbonio<sup>315</sup>

---

<sup>314</sup> T James Jones, Dylan Foster Evans, Alan Llwyd, 'Beirniadaeth: Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Egni', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), t. 19.

<sup>315</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 40.

Y mae'r pedwerydd pennill yn fwy disgrifiadol ei naws, wrth i'r bardd geisio egluro'r

ddelweddaeth y mae hi'n awyddus i'w chyfleu yn ei cherdd:

Pe medrwn,  
dywedwn  
am d'wyllwch sy'n disgyn  
fel barrug ar dalar,  
am blu geiriau gwyllt  
yn chwythu trwy goetir,  
rhy chwim i'w rhwydo,  
am rewi pob pentir.

Cyferbynnir symudiad a llonyddwch yma, er mwyn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng yr ysfa i ddweud â'r ddawn i wneud hynny. Awgryma geiriau megis 'chwim' a 'chwythu' y syniad o ysfa greadigol yn chwyrlïo wrth i syniadau a delweddu ffurfio yn nychymyg y bardd. Ceir cyferbyniad wedyn wrth i'r cyfan sefyll yn stond yn ei unfan, oherwydd na all y bardd fynegi'r hyn sydd ganddi i'w ddweud mewn geiriau am nad oes ganddi'r offer allweddol i fynegi ei syniadau yn effeithiol.

Cawn barhad o'r un naws yn y pennill nesaf lle y mae'r bardd yn disgrifio'r holl bethau y gall eu gweld, ond na fedr mo'u disgrifio mewn geiriau:

Pe medrwn,  
eglwyrwn  
am gesair yn ffrwyll  
o gosb ar y blaendir:  
am gawod o gaddug  
yn cau am y mynydd,  
am eirie yn lluwchio,  
yn twmblo nes tagu  
pob llwybr i'r lle  
y mynnwn  
ei glirio<sup>316</sup>

---

<sup>316</sup> Ibid.

Ceir delweddau gwahanol i ddisgrifio'r tensiwn y tro hwn. Defnyddia'r bardd oerni a thywyllwch fel symbolau o anobaith. Nid oes modd i'r hyn y dymuna'r bardd ei ddweud flodeuo na ffrwythloni heb eiriau, a llwydda'r delweddau gaeafol i ategu'r syniad ei bod wedi'i rhewi yn ei hunfan, heb allu mynegi yr hyn sydd ganddi i'w ddweud.

Daw'r gerdd i ben gydag ailadrodd y llinell 'pe medrwn' unwaith eto, gan gloi ar nodyn trist a diobaith. Y mae'r holl syniadau sydd gan y bardd yn ddiffrwyth, a theimlwn ei hanobaith pan sylweddola na all wneud dim byd gyda nhw am nad oes ganddi mo'r modd i fynegi ei neges.

Gellir dehongli'r gerdd mewn sawl ffordd. Un eglurhad yw efallai na all y bardd egluro'r syniadau creadigol sydd ganddi am eu bod yn cyfleu profiadau sydd y tu hwnt i eiriau. Esboniad arall yw bod ei rhwystredigaeth a'i hanobaith yn deillio o ddiffyg awen. Fodd bynnag, fel bardd sydd wedi bod yn agored iawn am ei hawydd i gynnig ysbrydoliaeth i eraill sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, gellir yn bendant ystyried y gerdd hon yng nghyd-destun ei brwydr i feistrioli iaith i'r fath raddau fel y gellir cyfathrebu'n rhwydd ynddi. Teimlir bod y gerdd hon yn cyfleu profiadau bardd nad yw wedi cyrraedd y cam hwnnw eto, ac sy'n dal i deimlo fel petai rhywbeth yn ei dal yn ôl.

Gan ddilyn yr un thema ag a geir yn 'lluwch geirie', y mae 'wonabi' hefyd yn ymwneud ag awen y bardd, ac unwaith eto y mae'r ymdeimlad o ddiffyg hyder i allu ysgrifennu yn codi'i ben. Y gwahaniaeth mwyaf yn y gerdd hon fodd bynnag yw nad oes cymaint o anobaith ynddi, ac y mae'r bardd yn galw ar feirdd eraill i ysgrifennu, yn hytrach na theimlo cywilydd am eu gwaith.

Egyr gyda dyfyniad gan D. Tecwyn Lloyd – ‘Ni ddylai unrhyw egni creadigol / ofni gwneud ffŵl ohono’i hun byth’ – ac y mae neges y gerdd yn ategu’r syniad hwn. Strwythurir y gerdd ar ffurf cyfres o gwestiynau rhethregol, gyda phob pennill yn codi cwestiynau perthnasol i unrhyw un sy’n ceisio ysgrifennu’n greadigol. Ceir cyfres o gyferbyniadau rhwng tawelwch a chodi llais, gweld a dallineb, a gwylltineb a threfn, a’r cyfan unwaith eto er mwyn pwysleisio’r frwydr fewnol wrth ysgrifennu:

Ai gwell cadw’n ddistaw na bod yn fardd gwan;  
tynnu llygaid dychymyg allan nes ’mod i’n ddall  
i bob delwedd a ffurf all ymgynnig yn drosiad  
i roi llun ar brofiad, deall murlun fy mod?<sup>317</sup>

Gwelwn ddiffyg hyder a phryder nad yw ei cherddi yn cyrraedd safon arbennig. Ceisia benderfynu a ddylai fynd gyda’i greddf ac ysgrifennu fel y myn, ynteu aros yn dawel a chelu ei syniadau:

Ai gwell bod yn dawel na llunio cerddi sâl;  
gadael teimpladau gwyllt ar chwâl i’w crwydro  
rhydd; yn lle brwydro i’w torri a’u trefnu  
eu gyrru dros gof a chefnu ar eu cynnwrf?<sup>318</sup>

Ceir adlais yma o’r gerdd ‘Broseliawnd’ gan T. Gwynn Jones, lle mae Myrddin yn ystyried a ddylai fentro i’r goedwig nad oes modd dianc ohoni:

Ba ddim o aberth boddi ymwybod?  
A’i gyfar, ing, yng nghwsg y mawr angof?  
Ai gwell yw gwybod trwy golli gobaith  
Na thagu anobaith ag anwybod?  
Pe na bai gof, oni pheidiai gofid?  
Pam y bai gas y dulas dawelwch  
Onid i’r sŵn sydd yn hudo’r synnwyr?  
Pa les, er hyn, fydd y pleser hwnnw  
Na phraw na dal na pharhau ond eiliad?  
Fyth wedi’r ing, cyd bo faith, daw’r angof,  
I wag a llawn bydd yr un gell, yno.<sup>319</sup>

---

<sup>317</sup> Ibid., t. 42.

<sup>318</sup> Ibid.

<sup>319</sup> T. Gwynn Jones, ‘Broseliawnd’, yn Bethan Mair (gol.), *Hoff Gerddi Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009), tt. 50-1.

Y mae'n ymylu ar fod yn hunanladdiad, wrth i Fyrddin gwestiynu a yw hi'n well mentro i'r goedwig ynteu cael ei yrru'n wallgof â chwilfrydedd, a gwelwn frwydr fewnol y cymeriad wrth iddo ystyried goblygiadau'r ddau benderfyniad. Yn yr un modd, yn 'wonabi', teimla Christine James fod gweithio ar gerdd yn ormodol ar adegau yn gallu pylu ei syniadau, gan arwain at ddiflastod a cholli diddordeb yn y gwaith. Y mae'r ysfa i geisio perffeithio'r gwaith yn amlwg yn pwyso arni, a gwelwn amheuaeth y bardd o werth ei gwaith ar ei amlycaf wrth iddi ofyn, 'Onid gwell peidio â mentro na bod yn fardd gwael?'<sup>320</sup> Trwy osod y llinell hon ar ei phen ei hun, cawn deimlad o fregusrwydd y bardd – dyma yw ei hofn pennaf wrth ysgrifennu, sef cwestiynu a yw hi'n well iddi beidio ag ysgrifennu o gwbl na chyflwyno ymgeisiau gwan. Yn wahanol i 'llwuch geiriau', fodd bynnag, nid hunanamheuaeth y bardd sy'n ennill y dydd y tro hwn, ac y mae'n cloi'r gerdd ar nodyn cadarnhaol:

Pan ddaw rhyw wefr ddi-ffael o drin geiriau  
pa eisiau sydd iti roi ffrwyn ar dy awydd?  
Rho adenydd i'th awen – a cher gyda'r llif!<sup>321</sup>

Y mae ei neges yn un o obaith, wrth iddi annog unrhyw fardd neu lenor nad ydynt yn hyderus yn eu gwaith i ddal ati i greu ac i gladdu eu hamheuon. Y mae hi'n neges sy'n berthnasol i bob un sy'n ysgrifennu'n greadigol ac sy'n ei chael hi'n anodd ennyn yr hyder i fynd ati i gynhyrchu gweithiau llenyddol. Fodd bynnag, y mae Christine James wedi bod yn agored ar sawl achlysur ynglŷn â'r angen i annog dysgwyr y Gymraeg i fagu hyder, ac yn y cyd-destun hwn gallwn ystyried y gerdd yn fodd o annog siaradwyr ail-iaith i fynd ati i ddefnyddio'u Cymraeg yn greadigol:

'Dyw [dysgu'r Gymraeg fel ail iaith] ddim yn rhwydd. Mae'n gam o ffydd mewn gwirionedd ... Mae'n fwgan i bobl, mae cymaint o bobl mas 'na sy'n medru'r Gymraeg yn iawn ond dyw'r hyder ddim gyda nhw ... mae iaith yn sgil, mewn

---

<sup>320</sup> Ibid.

<sup>321</sup> Ibid.

gwirionedd, a chydag unrhyw sgîl mae eisiau ymarfer ... Yr unig beth fyddwn i'n ei ddweud wrth unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg ... yw agorwch eich ceg a gadewch i faint bynnag o Gymraeg sydd gyda chi ddod mas, a thyfu a gwella neith eich sgiliau ieithyddol wedyn.<sup>322</sup>

Trwy ystyried yr agwedd hon felly, gallwn yn sicr weld sut y gellir darllen y cerddi fel modd o annog dysgwyr unrhyw iaith i fynd ati i fagu hyder a defnyddio'r iaith honno.

Cerdd arall ar yr un thema yw 'ar hyd yr un llinellau', sydd unwaith eto yn trafod hyder wrth gyfathrebu neu greu. Y tro hwn, defnyddir un ddelwedd estynedig o uned y frawddeg fel trê, a geiriau'r frawddeg fel cerbydau'r trê hwnnw.<sup>323</sup> Ar ddechrau'r gerdd, cawn ddelwedd o'r trê yn cychwyn ar ei daith yn araf ac yn bwyllog:

Brawddeg o drê yn hysio ei hystyr  
mewn rhesiad o goetsys, pob un yn llwythog,  
yn llithro'n araf dros gledrau cyfarwydd  
yn llwybrau diogel o lasddur ysgleiniog,  
rhigolau rhagdybiau a syniadau parod.<sup>324</sup>

Unwaith eto, gellir ystyried hwn fel cyfeiriad at y broses greadigol. Dechreu'r bardd gyda'r 'cyfarwydd' a'r 'diogel' cyn i'r awen danio'i dychymyg. Daw'r syniadau yn gynt, ac wrth iddi fynd i hwyl, y mae'r trê yn codi stêm ac yn cyflymu:

Grym y gystrawen yn gwthio, yn tynnu  
cerbydau o eiriau sy'n cydio'n ei gilydd  
wrth redeg yn rhugl ar hyd yr hen draciau,  
pob un yn gafael yng nghwt ei ragflaenydd  
rhag colli ar rythm y synnwyr a'r ergyd.<sup>325</sup>

Yn sydyn, fodd bynnag, y mae'r trê yn mynd trwy dwinnel ac yn dod i stop. Symboleiddia hyn sut y gall bardd neu lenor golli gafael ar yr awen neu'r symbyliad i ysgrifennu, a'r

---

<sup>322</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

<sup>323</sup> T James Jones, Dylan Foster Evans, Alan Llwyd, 'Beirniadaeth: Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Egni', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), t. 18.

<sup>324</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 44.

<sup>325</sup> Ibid.

diflastod a ddaw yn sgil sylweddoli nad oes modd gwneud dim â syniad a oedd mor gyffrous i ddechrau. Pwysleisir sut y gall ansicrwydd darfu ar y profiad creadigol, gan arwain at ddryswch ac amheuaeth:

Brawddeg o drên yn disgyn i dwannel  
annisgwyl ansicrwydd sy'n drysu ei rhythmau<sup>326</sup>

Bellach, dim ond adleisiau ac atseiniau o'r syniadau sydd ar ôl, fel rhyw fath o gysgod sydd wedi pylu nes mynd yn ddim:

adlais atsain – atgof adlais arall  
a llwyth y trên bellach yn pwysu ar seibiau  
rhwng ei gerbydau gwag<sup>327</sup>

Lle bu'r trên unwaith â'i gerbydau'n llwythog, yn gorfod symud yn araf ac yn ofalus o dan y pwysau, y mae bellach yn wag ac yn ofer. Y mae'r disgrifiad hwn yn dod a'r broses anodd o ysgrifennu yn fyw, gan ddelweddu sut y gall y cyfan ddod i ben yn ddisymwth, er bod pethau yn ymddangos mor obeithiol ar y dechrau. Unwaith eto, yng nghyd-destun Christine James fel un a ddysgodd y Gymraeg yn ei harddegau, gellir ystyried y gerdd hon fel alegori am y modd y caiff pobl nad ydynt yn siaradwyr brodorol anhawster i gyfathrebu. Y mae ganddynt y syniadau cychwynol o'r hyn yr hoffent ei ddweud, ac mae eu brawddegau'n dechrau ffurfio, cyn dadfeilio mewn eiliad o ansicrwydd.

Cerdd arall sy'n canolbwyntio ar rwystredigaeth wrth fethu â chyfathrebu yw 'clera'.

Crynoir cynnwys y gerdd gan feirniaid cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol

Casnewydd a'r Cylch yn 2004:

'Mae 'Clera' – sy'n chwarae ar y gair 'clera' (taith farddol) a 'cleren' (pryfyn) – yn gerdd sy'n ymdrin â rhwystredigaeth yr artist. Gall rhai cerddi fethu, a gall ein hegni creadigol fethu cyrraedd y nod a phylu nes marw, fel cleren yn ei hyrddio ei hun yn erbyn gwydr y ffenest wrth geisio cyrraedd y goleuni y tu allan. Felly, hefyd, yr artist

---

<sup>326</sup> Ibid.

<sup>327</sup> Ibid.

creadigol sy'n syllu ar wydr sgrîn ei gyfrifiadur: 'gwib geiriau, / ei ruthr yn rhythm / sy'n ei hyrddio'i hun / at y sgrîn o'm blaen, / yn mentro, / yn mynnu, / yn marw / am gael ffordd / at sgwaryn o ffenest / nes gorwedd o'r diwedd / am y gwydr â'r goleuni / mewn distawrwydd'.<sup>328</sup>

Yn y pennill cyntaf, cyflwynir ni i'r ddelwedd o'r gleren neu'r pryfyn sy'n ei thaflu ei hun at oleuni er bod hynny'n ei niweidio. Y mae'r gleren yn hyrddio'i hun ato dro ar ôl tro nes i'r ymdrech fynd yn ormod, ond eto, y mae rhywbeth yn ei denu'n ôl at y goleuni:

Rhuthr gwyllt am y goleuni,  
hen reddf yn ei hyrddio o guddfan  
ei llonyddwch ei hun<sup>329</sup>

Cawn gyferbyniad yma eto rhwng goleuni a thywyllwch a rhwng llonyddwch a symudiad, sy'n themâu cyson drwy'r casgliad. Adlewyrcha hyn ddelweddaeth llyfr Genesis, a defnyddia'r bardd y syniad o'r 'creu' a'i gymhwyso at greu gweithiau celfyddydol. Y mae'r disgrifiad o reddf y gleren i'w niweidio'i hun hefyd yn ddiddorol – nid rhywbeth y gellir ei reoli yw hyn, ac y mae'r gleren yn dilyn yr hyn sy'n teimlo'n naturiol heb eglurhad. Yn yr un modd, awgrymir fod rhywbeth yn natur y bardd neu'r llenor sy'n ei yrru ymlaen i greu o hyd, sy'n ei orfodi i ddal ati hyd yn oed os yw hynny'n groes i bob rheswm:

Ni fennai rhu'r tywyllwch arni ddim  
nes tanio myrdd canhwylau'i llygaid  
a'i gyrru, ei gorfodi tua'r golau.

Pwysleisir y penderfynoldeb hyn drwy'r gerdd, a gwelwn sut y mae'r gobraith o gyrraedd y goleuni yn ddigon i'w hannog i ddal ati i frwydro, ac yn cadw'r dŵch rhag ei llethu.

Fodd bynnag, erbyn y trydydd pennill y mae'r ymdrech yn mynd yn ormod iddi, ac y mae'r gleren yn marw'n anochel:

---

<sup>328</sup> T James Jones, Dylan Foster Evans, Alan Llwyd, 'Beirniadaeth: Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Egni', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), t. 18.

<sup>329</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 45.



Hwrdd eto a'i hadenydd  
yn morthwyllo'i phen ar y ffenest,  
yn mynnu,  
yn methu  
nes marw  
a gorwedd o'r diwedd  
am y gwydr â'r goleuni<sup>330</sup>

Y mae sydynrwydd y peth yn ormod i'r bardd, ac ni all ddygymod â'r golled:

... distawrwydd  
na allaf ei glywed  
am fod fy mhen yn llawn  
o'r lle y bu<sup>331</sup>

Sylweddolwn mai'r goleuni yr oedd y gleren yn anelu tuag ato oedd sgrin y cyfrifiadur, a bod y pryfyn yn drosiad o awen y bardd a'i hawch i gyfansoddi. Y mae'r diwedd glo yn negyddol wrth i'r awen farw gan rwystro dychymyg y bardd yn ei unfan, a gorfodir hi i roi'r gorau i'r gwaith creadigol. Roedd y dyfalbarhad a'r holl ymdrech yn ddiffrwyth yn y pen draw – bu farw'r gleren cyn cyrraedd ei nod, yn yr un modd â'r gerdd a oedd yn ffurfio ym meddwl y bardd.

Daw'r casgliad i ben felly gyda distawrwydd, wrth i ddiffyg hyder drechu yn y diwedd.

Awgrymir bod hyn yn adlewyrchu profiad y bardd wrth geisio llunio cerddi, gan ddangos bod cyfansoddi yn frwydr barhaus rhwng ennill a cholli syniadau – ond y mae'n ddiddorol hefyd wrth ystyried y syniad o feistroli ail iaith. Diffyg cyfathrebu yw prif thema'r gerdd hon unwaith eto, gan fod y methiant wrth gyfleu'r hyn oedd ganddi i'w ddweud yn rhwystro'r bardd rhag mynegi ei syniadau.

---

<sup>330</sup> Ibid.

<sup>331</sup> Ibid.

Wedi trafod felly y cerddi hynny sy'n ymwneud â diffyg hyder a'r anallu i gyfathrebu, y mae'n briodol troi ein sylw at y cerddi sy'n trafod nodweddion eraill ar aralledd y bardd. Un o'r cerddi a gyfansoddodd Christine James yn ystod ei chyfnod o salwch yn Unol Daleithiau America yw 'gollwng gwaed', sy'n disgrifio profiad a gafodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty. Egyr y gerdd drwy drafod ei diflastod, wrth i'r nyrsys dynnu ei gwaed a'i phigo a'i phrocio fel rhan o'u harchwiliadau. Sylwa un o'r meddygon ar ei hacen, ac wrth gydnabod hynny dywed y bardd, 'gŵyr fy mod yn Gymraes'.<sup>332</sup>

A dyna sy'n bwysig – er nad yw hi'n Gymraes iaith-gyntaf o'r cadarnleoedd nac yn gweddu i'n syniadau traddodiadol am Gymreictod, Cymraes yw hi o hyd, ac mae hi'n ymfalchïo yn hynny. Y mae cwestiynau'r meddyg yn tanio rhyw ynni cenedlaetholgar ynddi, ac er ei gwendid a'i salwch, daw egni o rywle:

*'Wales ... Cymrŵ ...  
Tell me, lady,  
how d'ya get Wales  
out of Cymrŵ?'*

Rwy'n treiglo cnau ffrengig  
cyfarwydd yn fy llaw, gan hulo  
seminar o gulni'r gwely:  
dyma hudo'r alltudion  
mewn cychod o'r cyfandir  
i stelcio'u twyll o biler i bost  
nes gwneud estroniaid o gymrodyr  
yn eu bro eu hunain.<sup>333</sup>

Yn sgil holi'r meddyg, caiff y bardd gyfle i ymgartrefu yn ei rôl gyfarwydd yn darlithio a thrafod etymoleg, a cheisia gynnig ateb. Cyfeiria'r llinell 'nes gwneud estroniaid o gymrodyr' at y gwahaniaeth rhwng tarddiad y geiriau 'Cymru' a 'Welsh'. Ffurfiwyd y gair 'Cymru' o elfennau a oedd yn golygu 'cyd-frowyr' yn wreiddiol, ond y mae 'Wales' a 'Welsh'

---

<sup>332</sup> Ibid., t. 55.

<sup>333</sup> Ibid.

yn tarddu o eiriau sy'n golygu 'dieithriaid', ac yn derm a dadogwyd ar bobl y wlad gan fewnfudwyr Eingl-Sacsonaidd.<sup>334</sup> Trwy hyn felly, bu i'r mewnfudwyr arallu'r brodorion, gan eu troi yn estroniaid yn eu gwlad eu hunain.

Wedi'r drafodaeth hon am y Cymry, y mae'r meddyg yn adrodd ei stori ei hun. Cawn awgrym mai un o boblogaeth frodorol Americanaidd ydyw, ac aiff ati i sôn am hanes ei genedl:

Ef nawr yw'r tiwtor:  
ei enw (yn ei iaith ei hun)  
yw Brân;  
gŵyr yntau straeon  
am gyndadau pell, am rai  
a'u galwai eu hunain  
'Y Bobl' ...  
... cyn eu troi'n gadnoid  
i'w cwrso trwy'r coed,  
cyn eu lladd fel llwynogod  
gan rai gwelwon a'i gyrru  
gwyllt tua'r gorllewin.<sup>335</sup>

Sylweddolwn sut y mae'r ddwy genedl, er eu bod gannoedd o filltiroedd oddi wrth ei gilydd, ill dwy wedi'u gormesu gan estroniaid ac wedi colli gafael ar eu gwledydd eu hunain. Cawn ein hatgoffa ein bod ni fel Cymry yn cael ein hystyried fel 'arall' i'r genedl Brydeinig, ac er y byddai rhai sy'n ystyried dysgwyr ail-iaith yn wahanol, mewn gwirionedd lleiafrif ydym ni hefyd, a dylem groesawu unrhyw un sy'n barod i fabwysiadu ein hiaith a'n diwylliant. Pan gafodd y cyfle i ddiffinio'i hun, dewisodd 'Gymraes' yn hytrach na 'Phrydeines'. Er gwaethaf ein syniadau rhagdybiedig ynglŷn â'r hyn yw Cymro Cymraeg, dengys Christine James inni ei bod hithau, fel eraill sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, yn Gymraes lawn cymaint â'r Cymry Cymraeg iaith gyntaf.

---

<sup>334</sup> Ibid., t. 134.

<sup>335</sup> Ibid., tt. 55-6.

Er bod Christine James yn ei hystyried ei hun yn Gymraes erbyn hyn, roedd cyfnod yn ei bywyd pan deimlai ei bod wedi'i heithrio o'r diwylliant Cymreig oherwydd ei hanallu i ddeall yr iaith. Un o'r cerddi sy'n cyfleu'r teimlad hwn o aralledd ar ei bennaf yw 'wyna, Tynewydd', sy'n adrodd hanes ei hymweliad â fferm yng Nghwm Rhondda yn ystod ei phlentyndod. Daw'r gerdd hon o gasgliad o gerddi o dan y teitl 'cynnau tân', sy'n trafod magwraeth ddi-Gymraeg y bardd â chyfeiriadau at Gymoedd Glo'r De, yn enwedig trychineb Aber-fan.

Yn 'wyna, Tynewydd', disgrifia'r bardd y profiad o weld oen amddifad yn cael cot o groen oen marw wedi'i rhoi amdano er mwyn i'r famog ei dderbyn fel ei phlentyn ei hun. Dywed y bardd sut y bu i'r profiad hwn ei hysgwyl – yr oedd hi wedi mynd i'r fferm gyda'r bwriad o weld yr wŷn bach, ac yn disgwyl gweld eu 'prancio' a'u '[c]oesau cam' a rhoi '[m]wythau bach'<sup>336</sup> iddynt. Yn hytrach, cafodd brofi realiti creulon byd natur:

Cefais weld ei gwaddol, gwyllo  
gwisgo'r bychan mewn cot estron  
a'i roi i rwto'i hun ar famaeth  
anfoddog.

Teimlai wedi'i heithrio am nad oedd yn deall beth oedd yn digwydd, oherwydd na allai ddeall iaith y clos:

Minnau'n deall dim  
ond cryndod ei gri – a'm gwddwg  
innau'n dynn, er diogelwch y clos,  
yng nghlyw'r llafar anghyfarwydd.<sup>337</sup>

Ac yn nieithrwch croeso'u cegin  
dros swper na allwn ei stumogi,  
a'r sgwrs yn tincial rhwng y llestri  
mewn seiniau na fedrwn eu dal,

---

<sup>336</sup> Ibid., t. 64.

<sup>337</sup> Ibid.

synhwyras, wrth fentro fy 'nos da' dila,  
fy mod innau'n amddifad  
ym mlaenau fy nghwm fy hun.<sup>338</sup>

Yr oedd y teimladau anniddig yn gyfuniad o sioc yn ymwneud â'r hyn a welodd, yn ogystal â'r sylweddoliad ei bod yn ddieithryn yn ei gwlad ei hun. Daw i'r casgliad ei bod yn estron yn ei bro enedigol hyd yn oed, ac mae hynny'n peri syndod iddi. Cyferbynnir y croeso a gafodd gan deulu'r fferm gyda'i hymdeimlad o ddieithrwch. Yr oedd popeth yn y fferm yn cynnig cyfeillgarwch, ar yr wyneb, ond yr oedd y bardd wedi'i chau allan, oherwydd ei hanallu i gyfathrebu.

Y mae hon yn gerdd ddiddorol am ei bod fel petai'n nodi trobwynt ym mywyd y bardd. Cawn yr argraff mai dyma'r tro cyntaf iddi sylweddoli goblygiadau peidio â deall y Gymraeg, ac iddi deimlo dieithrwch hyd yn oed mewn ardal gyfarwydd iddi. Dyma un o'r cerddi mwyaf uniongyrchol am ei haralledd, a sylweddolwn mor annifyr oedd ei theimlad nad oedd hi'n perthyn, bron fel petai ei bro wedi'i bradychu.

Gan barhau â thema ei bro, un o'r trychinebau mwyaf erchyll i ddigwydd yn ardal magwraeth Christine James yn ystod yr ugeinfed ganrif oedd trychineb Aber-fan, sy'n dal i adael ei greithiau ar yr ardal a'i phobl hyd heddiw. Y mae gan Christine James nifer o gerddi sy'n ymateb i'r digwyddiad, ar y gwaith glo. Ceir golygfa ddelfrydol ar ddechrau'r gerdd 'sêr, Merthyr Vale' wrth i'r bardd syllu i lawr ar yr hen waith glo:

Mae llawr y cwm  
yn ddrych i'r nen,  
a'r gwaith yn gytser  
ger tanad y tai  
O'r fan hon, gallaf  
ymgolli yn eu gwawl ...<sup>339</sup>

---

<sup>338</sup> Ibid.

<sup>339</sup> Ibid., t. 66.

Cawn ddisgrifiad o olygfa hyfryd wrth i oleuni a disgleirdeb miloedd o sêr gael eu hadlewyrchu yn y cwm. Fodd bynnag, buan y sylweddolwn bod yr harddwch hwn yn cuddio cyfrinach dywyll, ac y mae'n gwawrio arnom bod yr olygfa ddelfrydol yn celu'r erchyllterau a ddigwyddodd yno:

... syllu i'w llewyrch solet  
heb glywed y dwndwr  
diddiwedd fu'n crynhoi  
yn nwyon y craidd<sup>340</sup>

Cawn gyferbyniad rhwng disgleirdeb y sêr a'r gwastraff glo du a fu'n cronni cyhyd heb i neb sylweddoli'r perygl oedd ar fin dinistrio'u bywydau. Noda'r bardd sut y datblygodd yr hyn a arweiniodd at y drychineb yn raddol dros amser, gan gyfeirio at y sŵn a'r dinistr a oedd yn cuddio o dan yr wyneb ac yn tyfu gam wrth gam nes rhyddhau anghenfil:

heb gofio'r egni cudd  
cynoesol, cilfachau'r creu.<sup>341</sup>

Cawn ein hatgoffa fod y glo hwn yn gynoebol, yn rhan o dirlun yr ardal ers cyn cof. Ceir sawl ystyr bosibl i'r gair 'cudd' yma. Y mae glo wrth gwrs yn sylwedd sydd wedi'i guddio o dan wyneb y ddaear yn naturiol; y mae hefyd yn rhywbeth ansylweddol o ran ei olwg, ond mae'r egni sydd ganddo wedi pweru gwareiddiad, gan gelu'i llawn botensial, fel petai. Yn fwy trasig, wrth gwrs, ac yn eironig hefyd, y bu i'r peth a alluogodd cymaint o ddatblygiad wrth gynnau fflam diwydiant ddod â dinistr llwyr i'w ran mewn eiliad. Daw'r gerdd i ben ar nodyn tywyll iawn, a chawn ddarlun erchyll o'r drychineb:

a'r twll du fu'n sugno  
gwŷr hyd y gwaelod  
cyn chwydu gwae.<sup>342</sup>

---

<sup>340</sup> Ibid.

<sup>341</sup> Ibid.

<sup>342</sup> Ibid.

Y mae'r darlun hwn yn un hynod anghynnes, ac yn gwneud inni sylweddoli mor anobeithiol oedd ffawd y rheini a ddaliwyd yn y drychineb wrth i'r twll du eu sugno heb gynnig dihangfa. Y mae'r ddelwedd o 'chwydu gwae' yn ddisgrifiad hynod effeithiol, sy'n darlunio'r domen lo yn gorchuddio'r pentref yn fyw o flaen ein llygaid. Llwydda'r disgrifiad hefyd i gyfleu poen y golled, am fod y domen wedi dod â dim byd ond galar ac ing gydag ef.

Yn y gerdd hon felly, dengys y bardd sut y mae'r drychineb wedi serio yng nghof trigolion y Cymoedd. Roedd yn ddigwyddiad arswydus a'i effeithiau'n ddiffeithiol, a thrwy gyferbynnu harddwch a llonyddwch y cwm erbyn heddiw gyda'r dinistr a'r poen a fu yno cawn ein hatgoffa na fydd y trigolion byth yn medru anghofio'r erchyllterau a ddigwyddodd yno.

Yn ogystal â chyferbynnu Aber-fan ddoe a heddiw, defnyddia'r bardd ei cherddi eraill i'n tywys yn ôl i gyfnod y drasiedi. Yn 'Bethania, Aber-fan', sonia'r bardd sut y defnyddiwyd un o'r capeli lleol fel marwdy dros dro i gadwyd cyrff y rheini a laddwyd. Ceir cyfeiriadaeth Feiblaidd yn frith drwy'r gerdd, sy'n briodol o ystyried y disgrifiad o'r capel a'r holl chwilio atebion a fu yn dilyn y digwyddiad. Rhagflaenir y gerdd â dyfyniad o Mathew 26:9 – '*I beth y bu'r golled hon?*'. Y mae hwn wrth gwrs yn un o'r cwestiynau a ofynnir yn gyson wedi trychineb, sy'n cyfleu ein hanghredinedd llwyr wrth inni geisio dod i delerau â pha mor ddisynnwyr oedd y golled. Y mae chwilio unrhyw fath o ateb neu ystyr i egluro pam y bu i erchylltra o'r fath ddigwydd yn ymateb naturiol wedi unrhyw drasiedi, ac mae'r defnydd o'r dyfyniad gan y bardd yn ategu'r hyn a holir drwy gydol y gerdd.

Adleisia'r pennill cyntaf y disgrifiad proffwydol o Grist a geir yn Eseia 53:3<sup>343</sup> – 'Cafodd ei ddirmygu a'i wrthod gan bobl; yn ddyn wnaeth ddiodde, [sic.] yn gyfarwydd â phoen'.<sup>344</sup> Yn

---

<sup>343</sup> Ibid., t. 135.

<sup>344</sup> Eseia 53:3 (Cyrchwyd: 25 Awst 2015) <http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=53&book=BNET%3AIsa&viewid=BNET%3AIsa.53&newwindow=&math=>,

yr un ffordd ag yr oedd Crist yn gyfarwydd â phoen, y mae capeli, wrth gwrs, yn adeiladau sy'n gyfarwydd â marwolaeth, galar a phryder – daw pobl yno i gladdu ein hanwyliaid ac i weddio am iachâd pan fydd rhywun yn sâl neu'n dioddef:

Tŷ cyfarwydd â gofid  
a chynefin â dolur  
ar ganol y pentre;

yn gwybod am golli gŵr  
o boen hen glwyf  
am waelu sydyn brawd,

am anadl angau'n llithro  
mor llyfn â chymdoges  
trwy ei ddrws agored.<sup>345</sup>

Y mae colled yn rhan o'n bywydau beunyddiol ac ystyrir y capel yn ganolbwynt i gymuned gael cydalaru.

Crybwyllir yr olewau persawrus a ddefnyddir i eneinio yn y penillion nesaf. Gweithred ofalgar yw eneinio, ac felly trwy grybwyll hyn atgyfnerthir y syniad o'r capel fel lle sy'n gofalu am eraill ac yn cynnig cysur:

Bu'r gweini oddi yma'n gysur,  
y gofalu'n falm i galon  
ar gracio, a'r llestr holtt

yn mentro gollwng pwys  
ei eli drud nes llenwi'r tŷ  
a'r stryd gerllaw â'i sawr

grasusol, a hwnnw'n esgyn  
fry fel gweddi'r offrwm mwg  
o enau'r pwll ar lawr y cwm.<sup>346</sup>

---

<sup>345</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 67.

<sup>346</sup> *Ibid.*, t. 135.



Gallai'r capel hwn fod yn rhan o unrhyw gymuned — ond trwy grybwyll y pwll glo unwaith eto, cawn ein hatgoffa o gymunedau glofaol Cymoedd y De a'r holl drychinebau fu'n gysylltiedig â nhw. Trychineb Aber-fan, fodd bynnag, yw'r un sydd wedi serio ar yr ymwybod oherwydd maint y drasiedi yn ogystal â'r nifer o blant a laddwyd, gan arwain at golli cenhedlaeth gyfan o'r pentref. Does dim yn ddigon i ddileu'r atgofion erchyll o gof y gymuned:

Ond ni fedrai neb â nard  
felysu'r tŷ, na sgwrio'r garreg  
aelwyd hon yn lân â gweddi,

na chwaith, ailgynnau arni  
danau'r nef, ar ôl i rywrai  
sarnu yma iraid drycsawr

a gosod plant i orwedd yn y seti  
mewn llieiniau, heb glywed llais  
yn galw arnynt heno i ddod allan.

Yn ôl yr hanes yn Ioan 11:1, yr oedd Lasarus a'i ddwy chwaer yn dod o Fethania. Defnyddia Christine James enw'r capel felly er mwyn plethu gyda'r hanes ac ychwanegu'r eironi creulon. Yn ôl yr hanes, wrth gwrs, cafodd Lasarus ei atgyfodi wedi ei farwolaeth:

Ar ôl dweud hyn, dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, "Lasarus, tyrd allan!" A dyma'r dyn oedd wedi marw'n dod allan. Roedd ei freichiau a'i goesau wedi eu rhwymo gyda sribedi o liain, ac roedd cadach am ei wyneb.

"Tynnwch nhw i ffwrdd" meddai Iesu, "a'i ollwng yn rhydd."<sup>347</sup>

Y gwir creulon yw na fydd yr un o'r plant a laddwyd yn y drychineb yn cael eu hatgyfodi, ac na fydd y capel a ddefnyddiwyd fel marwdy ar eu cyfer yn gweld gwyrth fel a ddigwyddwyd yn y man a ysbrydolodd ei enw. Y mae'r gyfeiriadaeth Feiblaidd yma yn hynod gelfydd a'r ergyd yn finiog wrth bwysleisio creulondeb ac anhegwch y sefyllfa – pam na chafodd y plant

---

<sup>347</sup> Ioan 11:43 (Cyrchwyd: 25 Awst 2015) [http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=11&book=BNET%3AJohn&viewid=BNET%3AJohn.11&newwindow=BOOKREADER&math=.](http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=11&book=BNET%3AJohn&viewid=BNET%3AJohn.11&newwindow=BOOKREADER&math=)

eu hatgyfodi na'u hachub? Pwysleisia'r bardd fod y cysylltiad rhwng y capel a'r drychineb yn rhy boenus i allu adfer ohoni. Nid oedd modd i'r gymuned ddychwelyd i fywyd normal a bu'n rhaid dymchwel y capel er mwyn ceisio cael iachâd. Y mae'r gerdd hon yn un hynod drist a theimladwy, a llwyddodd y bardd i wau'r hanes Beiblaidd, enw'r capel a'r drychineb gyda'i gilydd i greu teyrnged ingol i'r rheini a gollwyd mewn digwyddiad mor erchyll.

Pwysleisir mor enbyd oedd effaith y drychineb ar y gymuned hefyd yn y gerdd 'gŵyl y Gweryddon, 21 Hydref'. Yn 1969, tynnwyd Gŵyl y Gweryddon o'r calendr Catholig oherwydd diffyg ffeithiau pendant am y Santes Wrswla.<sup>348</sup> Nid yw'r calendr felly yn 'cofio bellach' amdani bellach, ond cawn ei hanes gan y bardd ym mhennill cyntaf y gerdd.

Gwrthododd Wrswla briodi pennaeth yr Hyniaid, ac o ganlyniad, cafodd ei lladd ynghyd â 11,000 o wryfon eraill. Gwrthododd ymwrthod â'i ffydd, gan ddewis angau yn hytrach na bradychu ei chredoau.<sup>349</sup>

Yn yr ail bennill, dywed y bardd mor ddiwerth yw cofio gŵyl Wrswla a'i haberth erbyn heddiw, gan fod trychineb Aber-fan wedi digwydd ar yr un diwrnod. I'r gymuned ac i ni fel Cymry, y mae honno'n golled lawer mwy byw bellach, ac o ganlyniad, y mae stori Wrswla yn amherthnasol i'r teuluoedd sy'n dal i alaru. Bellach, i lawer o bobl y Cymoedd a thu hwnt, bydd yr unfed ar hugain o Hydref yn ddiwrnod cofio trychineb arall, sef yr holl blant a gollwyd yn Aber-fan. Nid oes angen stori, am fod y realiti gymaint yn fwy trasig nag unrhyw chwedl:

Nid oes angen ceisio cadw'r cof  
am Wrswla ansylweddol, na chwedleua  
am ronyn gwirionedd ei gwryfon  
mewn cwm lle sgythwyd hanes plant

---

<sup>348</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 135.

<sup>349</sup> Ben Johnson, 'Saint Ursula and the 11,000 British Virgins' (Cyrchwyd: 27 Awst 2015) <http://www.historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofEngland/Saint-Ursula-the-11000-British-Virgins/>.

na welsant oedran dewis gwra:

Eu dygwyl du a gadwn yma.<sup>350</sup>

Awgrymir fod dewis o fath gan Wrswla, am mai hi oedd wedi gwrthod priodi gan dynghedu'r holl forwynion i'w marwolaeth. Ni chafodd plant Aber-fan y moethusrwydd hwn o ddewis eu tynged, a lladdwyd hwy ym mlagur eu dyddiau. Teimlwn annhegwch hyn i'r byw wrth i'r bardd ategu mor ddisynnwyr oedd yr holl ddinistr a cholledion bywyd.

Cerdd fer, seml iawn yw 'gŵyl y Gweryddon, 21 Hydref', ond llwydda i gynhoi creulondeb trasiedi Aber-fan yn grefftus. Llefara'r bardd ar ran ei bro, gan greu ymdeimlad o dynnu ynghyd – waeth beth yw'r achos dros ddathlu neu'r coffau sy'n digwydd ledled y byd, cofio'r drychineb fydd yn digwydd 'yma'.<sup>351</sup>

Tristwch y pyllau glo a gawn eto yn 'tân, Mynydd Merthyr'. Cyfeirir yn benodol at drychinebau'r ardal a'r diweithdra ingol a geir yno, dau beth yn anffodus yn rhywbeth a gysylltir yn ddigamsyniol â'r Cymoedd. Yr oedd pentref Aber-fan ar waelod llethrau dwyreiniol Mynydd Merthyr, a gwelwn yn y gerdd hon sut y creithiwyd yr ardal gan y diwydiant glo – oddi yma y disgynnodd y domen lo yn ystod y diwrnod tyngedfennol hwnnw o fis Hydref. Darlunia Christine James danau blwyddyn ar Fynydd Merthyr gan ddechrau gyda delwedd o dymor y gwanwyn:

Goddaith gwanwyn:  
cleddyfau grug a rhedyn  
yn trywanu'r pridd cynnes.<sup>352</sup>

---

<sup>350</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 68.

<sup>351</sup> Ibid.

<sup>352</sup> Ibid., t. 72.

Ystyr 'goddaiith' yw cynnau tân i losgi eithin, gan ein hatgoffa felly o ddechrau proses. Crëir darlun o dân yn mudlosgi, a chawn ein harwain i gyplysu'r syniad o wres a chynhesrwydd gyda rhywfaint o obaith. Datblyga'r tân ymhellach erbyn yr haf, gan ymestyn ar y teimlad gobeithiol hwn:

Cynnau haf:  
llwydd llafur a chnwd eirias  
gwŷr yn goron ar waith.<sup>353</sup>

Cyfeiria '[l]lwydd' yma at lwyddiant llafur gweithwyr y diwydiannau ac awgrymir fod eu gwaith caled wedi dwyn ffrwyth. Diffinnir 'eirias' fel 'tân neu danllwyth gwenfflam angerddol'<sup>354</sup> gan gyfleu fod y cnwd yn hynod lewyrchus, a holl waith caled gwŷr y Cwm yn werth chweil. Ceir teimlad o ddathliad o fath yma, a gwelwn fod pethau ar eu gorau i drigolion yr ardal.

Fodd bynnag, nid yw'r llawenydd na'r gobaith hwn yn parhau'n hir, a cheir trobwynt erbyn tymor yr hydref. Y mae'r gobaith wedi mynd, gan adael tristwch yn ei le:

Coelcerth hydref:  
dagrau dail a gwragedd  
mewn galarwisg wedi'r gwres.<sup>355</sup>

Gollyngodd goed yr hydref eu dail tua'r un cyfnod ag y digwyddodd trychineb Aber-fan ar 21 Hydref 1966, gan arwain at '[d]dagrau dail a gwragedd' yn gymysg yn ei gilydd. Defnyddir y syniad o'r dail yn colli eu lliw fel symbol o'r gymuned yn marw galaru am yr hyn a fu, wrth i'r bardd grybwyll y gwragedd a'r mamau yn eu galar hefyd yn yr un ddelwedd.

Erbyn y pennill olaf mae'r tanau wedi'u diffodd yn llwyr, gan adael dim ond anobaith ar ôl:

---

<sup>353</sup> Ibid.

<sup>354</sup> Diffiniadau yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru (Cyrchwyd: 25 Awst 2015) <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>.

<sup>355</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 72.

Llosg gaeaf:  
lludw llethrau, a llanciau'n  
grŷn dan gwfwl anobaith.

Y mae'r fflamau wedi mynd gan adael y llosg ar ei ôl – y peth hyll, poenus sy'n ddim ond atgof o'r hyn a fu. Tristwch y gerdd yw mai dim ond lludw sydd bellach ar y llethrau lle bu'r llewyrch wrth i'r gymuned golli cenhedlaeth o blant bron yn llwyr. Y mae pwysau'r drychineb a'r gwaith llafurus wedi arwain dynion ifanc yr ardal i fynd yn hen cyn eu hamser, a chawn ddelwedd ohonynt yn crymu o dan bwysau eu hanobaith a'u galar. Cerdd deimladwy yw hon felly sy'n darlunio effaith y golled ar y gymuned a gwelwn sut y mae cylch bywyd y tân ar y mynydd yn adlewyrchu ysbryd y gymuned.

Nid cerddi yn ymwneud ag Aber-fan yn unig a geir gan y bardd er mwyn pwysleisio ei hymrwymiad i'w bro. Lluniwyd y gerdd 'ynni' trwy gydweithio gyda'r arlunydd Ifor Davies i greu darn celf o'r enw 'Henlo', a ddefnyddiwyd yn rhan o arddangosfa'r Lle Celf yn 2008, lle cynhwyswyd y gerdd ar ben y gwaith. Ystyr 'henlo' yw gweddillion hen dân y gellir ei ddefnyddio i gynnu tân newydd,<sup>356</sup> a daw'r enw hwn yn arwyddocaol wrth ystyried neges y gerdd.

Cyfeirir at y Chwyldro Diwydiannol yn y pennill cyntaf. Mae'r bardd yn ein hatgoffa sut y bu i lo'r Cymoedd weithredu fel sylfaen i gynnydd gwlad:

O ddyfnder gwythiennau duon Rhondda, Rhymni, Taf a Chynon,  
ar ddociau Bute a glanfa lwerydd  
arllwysai'r glo yn enw cynnydd  
a chynhesu'r byd.<sup>357</sup>

---

<sup>356</sup> Ibid., t. 66.

<sup>357</sup> Ibid., t. 70.

Crybwyllir enwau'r llefydd mwyaf nodweddiadol yn y broses hon, a sylweddolwn mor greiddiol yr oedd y Cymoedd drwy gydol yr holl ddatblygiad. Cyflëir y ddelwedd o'r Cymoedd fel calon, wrth i'r glo lifo drwy'r 'gwythiennau' oddi yno i'r dociau cyn cael ei allforio ledled y byd. Y mae'n ddigon posibl fod y bardd wedi cymysgu rhwng swyddogaethau gwythiennau a rhydweiliau yma – rhydweiliau sydd wrth gwrs yn cludo gwaed oddi wrth y galon, a byddai defnyddio'r ddelwedd hon yn fwy effeithiol o bosibl. Fodd bynnag, yr un yw'r neges, a gwelwn sut yr anfonwyd trysor yr ardal allan i'r byd 'yn enw cynnydd'. Y mae'r cyfeiriad hwn yn eironig, am mai ardaloedd y cynnydd yw'r rheini a ystyrir ymysg y mwyaf difreintiedig yng Nghymru erbyn heddiw. Cawn ein harwain i ofyn felly, beth oedd gwerth y cynnydd hwn mewn gwirionedd?

Yn yr un modd ag y gwelwn lif yr adnodd naturiol o'r Cymoedd, defnyddia'r bardd y syniad o'r gwythiennau a'r rhydweiliau er mwyn symboleiddio'r mudo a gafwyd gan boblogaeth cefn gwlad i'r Cymoedd diwydiannol er mwyn chwilio am waith. Atega'r bardd bod hyn yn cael ei weld eto heddiw, wrth i bobl barhau i fudo o'r ardaloedd gwledig tua'r trefi a'r dinasoedd mawr yn y dwyrain:

Ar hyd y rhydweiliau cochion  
o Wynedd, Powys, Ceredigion,  
at henlo ddoe daw tanwydd newydd  
yn gnapau o Gymraeg ar gynnydd  
i gynnau gwlad<sup>358</sup>

Teimlwn fod y bardd yn gweld hyn fel peth cadarnhaol, wrth i'r bobl hyn sy'n symud o'r Fro Gymraeg ddod â'u Cymreictod i'w hardaloedd mabwysiedig. Pwysleisir y syniad o aildanio, a gwelwn fod tân Cymreictod â oedd yn y Cymoedd flynyddoedd ynghynt yn dal i fudlosgi ond

---

<sup>358</sup> Ibid.

bod angen bywyd newydd arno er mwyn ffynnu. Cyfeirir at y ‘cnapau’ sy’n atgyfnerthu’r syniad o lo, gan hefyd gyfleu’r ddelwedd o grynoadau bychain o Gymreictod ledled yr ardal, ac ategu bod angen mwy o hwb ar y cnapau hyn cyn iddynt dyfu’n dân mawr.

Y mae’r gerdd hon felly’n cyferbynnu gyda thuedd y Cymry i feddwl am y mudo o’r cadarnleodd i’r dinasoedd fel peth negyddol, ac mae’n ddiddorol cymharu hyn â safbwynt brodor o’r ardal. Heria hyn y syniad o aralledd y bardd – er efallai bod rhagfarnau rhai yn eu harwain i feddwl nad lle i’r Cymry Cymraeg cynhenid yw Cymoedd y De, gellir dadlau bod Christine James yn anghytuno. Ceir awgrym yma fod y bardd yn hawlio’r Cymoedd fel rhan o’r Gymru Gymraeg ei hiaith, gan bwysleisio bod Cymreictod wedi bod yn rhan o’r ardal erioed a bod modd cael adfywiad ieithyddol yno.

Cerdd arall sydd â chysylltiad â’r Cymoedd yw ‘wara cwato’, sydd wedi’i ysbrydoli gan y ffotograff ‘Aitsh, Trehafod’ gan Anthony Stokes. Ffotograff yw’r gwaith celf o gornel wal wrth ymyl heol, ac ar y wal gwelwn arwydd bach melyn a chanddo llythyren ‘H’ arno er mwyn dangos bod hydrant tân yno. Y tro hwn, iaith yr ardal sy’n cael sylw gan y bardd. Lluniodd Christine James y gerdd er cof am Dr Ceinwen H. Thomas, a ddisgrifiwyd fel ‘prif ddehonglydd tafodiaith Cwm Taf – y Wenhwyseg’<sup>359</sup>. Ysgrifennwyd y gerdd yn y dafodiaith honno, a thrwy hynny, y mae’n troi’n ddatliad o hanes a diwylliant y fro. Gwelwn ddefnydd helaeth o nodweddion amlycaf y dafodiaith, megis y sain ‘a’ yn y sillaf olaf ddiacen, lle y ceir sain ‘e’ fel arfer yn y tafodieithoedd deheuol. Gwelwn hefyd ddefnydd o’r ‘æ’ fain mewn geiriau unsill, a’r tuedd i beidio ag ynganu’r llythyren ‘h’, ac eithrio wrth

---

<sup>359</sup> Ibid., t .139.

bwysleisio.<sup>360</sup> Dyma'r elfen sy'n cael y sylw pennaf yn y gerdd ysgafn, hwyliog hon sy'n canolbwyntio'n benodol ar sut y mae'r lythyren 'h' yn cael ei gollwng.

Ceir naws chwareus o'r dechrau wrth i'r bardd ddisgrifio'r 'h' goll fel rhyw fath o gêm:

Odd fel 'sa pawb ffor 'yn  
yn wara gêm wrth wilia  
unwath:

rywla ar 'yd llethra'r  
oesoedd glæn, fan 'yn,  
gollyngws rywun, rywbryd,  
aitsh; ac wetyn gosod pawb  
ar waith i'w ffindo.<sup>361</sup>

Tywysa'r bardd ni yn ôl at oes a fu gan grybwyll y pethau hynny a fu'n rhan o fagwraeth draddodiadol yn y Cymoedd, ac a fu'n rhan o astudiaeth Dr Ceinwen H. Thomas. Gwelwn sut yr oedd crefydd, ymhlith pethau eraill, yn rhan mor allweddol o frodwaith y gymuned:

Odd dim sôn amdani  
yn adnota'r Tæd  
yr 'wn wyt yn y nefodd,  
nac yn oriela'n 'aleliwia;<sup>362</sup>

Cawn ddarlun rhamantaidd o oes a fu yn y disgrifiad o'r gwerthwyr ar y stryd yn galw ar eu cwsmeriaid: 'raid cæl 'alan ddychra'r gaea / er mwyn 'alltu'r mochyn tena; / 'alan, prynwch 'alan môr'.<sup>363</sup> Yn naturiol, rhoddir lle canolog i'r pyllau glo yn y gerdd, a gwelwn sut yr oedd digwyddiadau cymunedol yn dod â phobl y gymdeithas at ei gilydd:

ddath neb o 'yd i'r aitsh  
yn niarepa pen y pwll;  
a byrlymai'r 'wbbwb, 'wyl  
y ddawns, yn burion <sup>364</sup>

---

<sup>360</sup> Ibid.

<sup>361</sup> Ibid., t .130.

<sup>362</sup> Ibid.

<sup>363</sup> Ibid.

<sup>364</sup> Ibid.



Atgyfnerthir y darlun rhamantaidd hwn trwy gynnwys rhannau o rigymau plant, gan ddwyn atgofion o blentyndod hapus yn ystod oes hen ffordd o fyw:

pa ddipan moeli clustia  
am ei suon yn rigyma'n  
mama ger y tæen, ne wara'n plant  
(‘buwch goch y genfan,  
p'un a' glaw ne 'non...')?<sup>365</sup>

Daw'r gerdd i ben ar nodyn chwareus yn gyson â gweddill y gwaith. A hithau wedi eithrio'r llythyren 'h' bron yn llwyr o'r gerdd (ac eithrio mewn synau megis 'sh') daw'r llefarydd i'r casgliad nad oes modd dod o hyd i'r 'h' o gwbl yn yr ardal, cyn chwerthin yn uchel:

A'r wilo isiws wedi bod  
ymlæen ers blynyddoedd maith,  
blinws ei waraewyr  
a mynd sha thre o un i un;

a'i gatal 'itha'n dal i gwato byth,  
yn giglan mewn ryw gwli  
a'i chefan at y wal ...

... Na, dyw'r wara ddim ar ben.

Ha!<sup>366</sup>

Uchafbwynt y gerdd felly yw'r hiwmor yn y llinell glo – daw'r 'h' mor rhwydd i'r siaradwr ar y diwedd, wedi'r holl chwilio maith amdani. Noda Christine James sut y mae teitl y gwaith celf ei hun yn eironig am na chaiff y llythyren 'h' ei hynganu yn yr enw 'Trehafod' gan y trigolion.<sup>367</sup> Y mae'r gerdd felly yn chwarae ar y syniad hwn, ac yn dangos yr eironi bod siaradwr yn defnyddio'r llythyren mor naturiol ar ôl gwneud ymgais mor benodol i ddod o hyd iddi.

---

<sup>365</sup> Ibid.

<sup>366</sup> Ibid.

<sup>367</sup> Ibid., t .139.

Yr hyn sy'n gwbl amlwg yn y gerdd hon yw crefft Christine James wrth ysgrifennu mewn tafodiaith, a'i chlust at batrymau iaith lafar naturiol. Llifa'r gwaith yn gwbl rwydd a chawn ein tywys yn ôl i hen ffordd o fyw mewn modd hollol ddiffwdan. Mewn ffordd, dyma un o'r cerddi sy'n pwysleisio'i haralledd bennaf, am fod y gwaith yn crybwyll iaith sydd mor gwbl wahanol i'r hyn a nodwedda 'fardd Cymraeg' traddodiadol. Llwydda'r gerdd i ddangos inni fod traddodiad i'r Gymraeg yn y Cymoedd hefyd, a bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r ardal. Y mae'r gerdd hon yn deyrnged i fro mebyd y bardd a'i thafodiaith, yn ogystal â bod yn dathliad deallus ac hoffus o fywyd ysgolhaig a wnaeth gymaint dros y Wenhwyseg.

Gan ein bod ar drywydd defnydd Christine James o ieithwedd, y mae'n briodol rhoi ystyriaeth i'w defnydd o iaith yn gyffredinol yn ei cherddi. Gwelwn yn gyson ddefnydd o iaith a geirfa y gellid dadlau eu bod yn anghyffredin, er enghraifft, geiriau megis 'pali', 'gordderchau', 'darbodaeth' a 'pilyn' yn y gerdd 'y Ffrances a'r Gymraes'.<sup>368</sup> Byddai geiriau o'r fath yn anghyfarwydd i gynulleidfa fyw, o bosibl, p'un ai'n gynulleidfa o Gymry Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith. O ganlyniad, mae defnydd Christine James o ieithwedd fel hyn fel petai'n ei gosod ar wahân i rai beirdd cyfoes eraill, yn enwedig y rheini sy'n arfer darllen eu gwaith o flaen cynulleidfa fyw, megis Myrddin ap Dafydd neu Karen Owen. Efallai y byddai rhai'n dadlau mai iaith dysgwr a welir yma, un nad yw'n sylweddoli y gallai geiriau o'r fath fod yn anghyfarwydd i gynulleidfa o Gymry Gymraeg. Fodd bynnag, y mae'n bosibl hefyd mai ymgais yw hyn gan y bardd i gyflwyno cyweiriau anarferol a ffres i faes barddoniaeth Gymraeg. Yn sicr, y mae apêl i'r math hwn o ieithwedd yn y cerddi, ac y mae llawer o'r cerddi yn gyfoethocach o'i herwydd.

---

<sup>368</sup> Ibid., t .18

Gwelwn ddefnydd o ieithwedd debyg yn ngherddi Waldo Williams, bardd arall a ddysgodd y Gymraeg fel oedolyn. Ceir enghreifftiau o eirfa anodd ac anarferol yn nifer o'i gerddi, megis 'Mewn Dau Gae', sydd fel petai'n adleisio'r profiad ysbrydol cymhleth ac anesboniadwy sy'n cael ei bortreadu yn y gerdd:

Oddifry uwch y chwibanwyr gloywbib, uwch callwib y cornicyllod,  
Dygai i mi y llonyddwch mawr.<sup>369</sup>

Ar ddiwedd y gerdd hefyd, plethir geiriau cyfoethog ac anarferol gyda thafodiaith bro'r

Preseli:

...trwy'r celloedd i'w mawrfrig ymennydd.  
Mor llonydd ydynt a hithau a'i hanadl  
Dros Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd heb ludd,  
A'u gafael ar y gwrthrych, y perci llawn pobl.  
Diau y daw'r dirhau, a pha awr yw hi,  
Y daw'r herwr, daw'r heliwr, daw'r hawliwr i'r bwlch ...<sup>370</sup>

Ceir defnydd anghyffredin o iaith yng ngwaith Bobi Jones hefyd, ac yntau hefyd yn fardd a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith. Yn ei gerdd 'Preselau' er enghraifft, ceir defnydd o eirfa gyfoethog ac anarferol megis 'perchentyaeth', 'brodiau', 'bwhwman', 'nycha' a 'nawf',<sup>371</sup> geiriau y gellid eu hystyried eto yn rhai digon anghyfarwydd. Ceir defnydd anarferol o ieithwedd yn ei feirniadaeth lenyddol hefyd. Awgrymwyd gan Simon Brooks bod gwaith Bobi Jones yn deilwng o sylw cenedlaethol a rhyngwladol, ond bod ei ddefnydd o ieithwedd gymhleth yn dieithrio cynulleidfaoedd ac, o ganlyniad, yn ei amddifadu o'r sylw y mae'n ei haeddu.<sup>372</sup>

---

<sup>369</sup> Waldo Williams, 'Mewn Dau Gae', yn Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln.), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 146.

<sup>370</sup> Ibid.

<sup>371</sup> Bobi Jones, 'Preselau', yn Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln.), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), tt. 388-9.

<sup>372</sup> Sonrir am hyn yn Eleri Hedd James, *Casglu Darnau'r Jig-so: Theori Beirniadaeth Lenyddol R.M. (Bobi) Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2009), t. 13. Gweler sylw tebyg hefyd yn Eurig Salisbury, 'Meddwl y Gynghanedd', *Llên Cymru*, 31 (2008), 198-204.

Yn achos Christine James, Waldo Williams a Bobi Jones, mae eu defnydd anarferol o iaith yn cyfoethogi'r cerddi ac yn cyflwyno cyweiriau ffres i farddoniaeth Gymraeg. Gellir dadlau felly, fel yr awgrymwyd ar ddechrau'r bennod, fod statws allanol beirdd Cymraeg ail iaith yn eu galluogi i arbrofi â chyweiriau anarferol, gan roi gwedd wahanol ar farddoniaeth nas gwelir yn aml yng ngwaith beirdd Cymraeg iaith gyntaf.

Nid ei statws fel dysgwr na'i magwraeth yng Nghymoedd y De yw'r unig bethau sy'n nodweddu Christine James fel un sy'n perthyn i'r categori 'arall'. Er bod crefydd yn rhywbeth sydd wedi nodweddu barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg erioed, y mae'n llai arferol erbyn heddiw, yn enwedig ysgrifennu am grefydd mewn modd mor amlwg ag y gwna Christine James.<sup>373</sup> Crybwyllwn air yn fyr felly am ei cherddi crefyddol a sut y mae'r rhain hefyd yn ychwanegu at ei phortreadu fel bardd anarferol yn y Gymraeg.

Er bod ysgrifennu yn agored am grefydd yn fwy anghyffredin nag y bu mewn barddoniaeth Gymraeg erbyn heddiw, nid eithriad i'r norm yw Christine James. Ceir rhywfaint o sôn am grefydd a ffydd bersonol mewn cerddi gan feirdd cyfoes megis Tudur Dylan Jones, Mererid Hopwood, Ceri Wyn Jones, Iwan Rhys a Menna Elfyn. Yn y gyfrol *Dauwynebog* gan Ceri Wyn Jones, er enghraifft, ceir casgliad o gerddi sy'n cyfeirio at grefydd. Fodd bynnag, y mae naws y cerddi hyn yn fwy negyddol na'r hyn a welir gan Christine James, a chawn awgrym fod Ceri Wyn Jones yn amau ac yn cwestiynu ei ffydd ar adegau. Cymerer yr englyn 'Yr Yswiriant Boreol' fel enghraifft:

Ar ryw dduw, rwy'n gweddio'n wyngalchog,

---

<sup>373</sup> Ibid., t. 260.

gan ail-gylchu'n brydlon,  
fy nagrau hawdd, fy nhiwn gron  
ar ei gyfer – rhag ofon.<sup>374</sup>

Er bod y bardd yn sôn am ei weddi boreol yma, ceir tinc agnostig yma, wrth iddo awgrymu ei fod yn mynd trwy'r un rigmarôl bob dydd fel rhyw fath o 'yswiriant' rhag ofn bod Duw yn bod, yn hytrach nag oherwydd gwir ffydd. Awgryma'r 'ail-gylchu' a'r '[d]iwn gron'<sup>375</sup> mai mater o arfer yw ei bader, ac nid gwir ysfa i addoli. Yn yr un modd, yn y cywydd 'Bore Sul', gwelwn y bardd yn cyferbynnu'r 'bore Sul bara sych'<sup>376</sup> yn yr oes a fu gyda'i 'Sul hawdd heb un *hassle*<sup>377</sup> ef, wrth iddo aros yn y tŷ yn hytrach na mentro i'r capel. Er iddo deimlo'n 'euog' am hyn, mae '*lie-in* y Sul' yn trechu'r awydd i foli, ac yn awgrymu efallai nad yw crefydd yn rhan hynod o ddylanwadol ar ei fywyd. Yn gyferbyniol, fel y gwelir yn rhai o gerddi Christine James megis 'hud yn Nyfed (aros mae)', cawn yr argraff bod ei chrefydd yn rhan greiddiol o'i bywyd, a gwelwn hi'n dyheu am ddychwelyd at gyfnod pan oedd crefydd yn rhan allweddol o gymdeithas.

Bardd arall sy'n defnyddio ieithwedd grefyddol yn ei gwaith yw Menna Elfyn, rhywbeth sydd hefyd i'w weld yng ngwaith Christine James. Fodd bynnag, defnyddia Menna Elfyn y geiriau hyn ar adegau bron fel modd o ddangos mor arwynebol yw ffydd. Yn y gerdd 'Angel o'r tŷ' adrodda hanes mam a gafodd ei lladd mewn lloches i ferched wedi iddi ddianc o gartref treisgar. Dywed sut y bu iddi 'Chwilio i'w chywion / Dangnefedd' o'u sefyllfa anodd a disgrifir sut y chwiliodd y fam am 'nef / Di-ddyrnau, / Chwilio am angel' i gynnig achubiaeth iddi – ond y cyfan a gafodd oedd 'angau'.<sup>378</sup> Awgrymir yma bod y fam yn dyheu

---

<sup>374</sup> Ceri Wyn Jones, *Dauwynebog* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. 34.

<sup>375</sup> Ibid.

<sup>376</sup> Ibid., t. 35.

<sup>377</sup> Ibid.

<sup>378</sup> Menna Elfyn, *Perffaith Nam* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), t. 72.

am wyrth i'w hachub o'i sefyllfa druenus, a'i bod wedi rhoi ei ffydd yn y noddfa, cyn i'r cyfan droi'n uffern, a'r awgrym a gawn yma yw bod y bardd yn cwestiynu pam na chafodd y fam hon ddiogelwch, a pham na chafodd 'angel' i ofalu amdani. Teimlad negyddol a thywyll iawn sydd i'r gerdd hon, wrth i Menna Elfyn bwysleisio'r modd y cafodd y ferch ei hesgeuluso gan y lloches i ferched, ac o bosibl gan bŵer uwch.

Ar y llaw arall, defnyddir ieithwedd grefyddol a chyfeiriadaeth Feiblaidd gan Christine James fel modd o adrodd straeon, yn enwedig mewn rhai o'r cerddi ecffrastig. Yn wir, un o'r nodweddion sy'n pwysleisio'i chrefydd yn bennaf yw'r gyfeiriadaeth Feiblaidd sy'n britho'i gwaith. Yn 'blodau Mair' gwelwyd sut y bu i'r Forwyn Fair wylo am na roddodd ei mab symbol o burdeb iddi. Yn 'gollwng' ceir cyfeiriadaeth at lyfr Genesis a Dameg y Mab Afradlon ynghyd â'r syniad o'r fam fel Crëwr, ac yn 'alffa' ddefnyddir delweddaeth y creu yn llyfr Genesis i ddisgrifio awen y bardd. Enghraifft arall o gerdd sy'n defnyddio crefydd fel canolbwynt yw 'hud yn Nyfed (aros mae)', a ysbrydolwyd gan ymweliad y bardd â Ffynnon Non, Tyddewi. Prif fyrddwn y gerdd yw sut y mae crefydd yn colli tir yn yr oes sydd ohoni, o gymharu â dyddiau llewyrchus crefydd yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ar ddechrau'r gerdd, cawn gyfeiriadau at Fuchedd Dewi, straeon sy'n gysylltiedig â Dewi Sant, er mwyn atgyfnerthu'r neges:

Ar ddydd na wŷr wyrth  
mae prinder cyrff  
i'w hatgyfodi heddiw  
ar y morfa<sup>379</sup>

Heddiw yw'r diwrnod sy'n cael sylw, wrth i'r bardd edrych yn ôl yn hiraethus at gyfnod lle yr oedd crefydd yn rywbeth i'w edmygu. Cyfeiria cyrff i'w hatgyfodi at wyrthiau Dewi a Christ

---

<sup>379</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 80.

yn benodol, ond gellir hefyd ei ystyried hefyd fel cyfeiriad at Ddydd y Farn – ni fydd cymaint o gredinwyr i'w hatgyfodi erbyn heddiw am fod pobl wedi troi eu cefnau ar grefydd. Erbyn heddiw, nid yw pobl yn credu mewn gwyrthiau, ac y mae hyn yn tristau'r bardd:

ni fyn 'run  
garreg styfnig syflyd iod  
heb sbardun mellt  
argoelus; dim sôn am neb  
all gynnig gwellhad  
llwyr i lygaid dall.<sup>380</sup>

Gwelwn ddefnydd o ansoddeiriau pwrpasol megis 'styfnig' a 'dall' i bwysleisio anfodlonrwydd y bardd at y rheini nad ydynt yn barod i agor eu meddyliau i dderbyn crefydd. Bellach, rydym yn dyheu am esboniadau gwyddonol, ac yn gwybod bod terfyn ar hyn o bryd i'r hyn y gall meddygaeth ei gyflawni. Pan fo gwyddoniaeth a thechnoleg yn gallu rhoi atebion inni, nid oes angen gwyrthiau, a theimlwn fel petai hyn yn siom i'r bardd.

Yr unig bethau sydd ar ôl gennym yw'r pethau bychain, cyffredin, a'r rhain sy'n dangos i'r bardd fod rheswm i gredu o hyd:

cysonder  
ocheneidiau'r môr  
dan bregeth euraid adar<sup>381</sup>

Y mae'r sôn am grefydd yn dal i fodoli, er ei fod wedi colli tir yng Nghymru, fel y sôn am yr hud ar Ddyfed yn y Pedair Cainc:

a pharablu di-baid  
dyfroedd cred am hud  
fu gynt yn Nyfed  
dan wylled angylion.<sup>382</sup>

---

<sup>380</sup> Ibid.

<sup>381</sup> Ibid.

<sup>382</sup> Ibid.

Er gwaetha'r holl ddatblygiadau gwyddonol sydd wedi dod ac sy'n parhau i ddod, ac er i gymaint o bobl golli eu ffydd, y mae'r bardd yn dal yn gadarn yn ei chrefydd:

Rwy'n Gristion o argyhoeddiad, ac rwy'n credu bod Duw yn rhoi doniau i bawb ... rhan o fywyd rhywun mewn gwirionedd yw gweld, adnabod y doniau mae Duw wedi rhoi i chi a'u defnyddio nhw, hyd eithaf eich gallu.<sup>383</sup>

Yn wir, defnyddia ei chrefydd i egluro sut y bu iddi ddechrau cyfansoddi yn y lle cyntaf yn ystod ei chyfnod o iselder. Crynhoir agwedd y bardd gan ei mab, Emyr:

[Wrth sôn am ei chyfnod o iselder] Sai 'ishe awgrymu bod e ddim 'di bod yn gyfnod anodd; mae'r Beibl yn dweud ond ydyw bod Duw yn cyd-drefnu pob dim er daioni. Mae hynny sicr wedi bod yn wir yn ein profiad ni, mae wedi arwain Mam i dorri tir newydd, ac efallai i fentro i fannau lle byddai hi ddim wedi gwneud heb hynny.<sup>384</sup>

Adleisir y sylwadau hyn gan y bardd ei hun yn ogystal:

Fe barodd [yr iselder] am amser gyda fi ... roedd hi'n fisoedd cyn bo' fi'n ddigon da i fynd yn ôl i'r gwaith ... Ond dyna sy'n rhyfedd, roedd Emyr yn dweud bod Cristnogion yn credu bod pob peth yn cydweithio i'r rhai sy'n caru Duw, ac allan o'r twll yma, fe dyfodd yr awydd i ysgrifennu, rhoi ffurf ar eiriau, trefnu geiriau, chwarae gyda geiriau ... Roedd y pethau cyntaf ysgrifennais i yn ddigon tywyll, ond wrth i fi wella, wedyn mae pethau'n dod yn fwy chwareus ... Ymhen dwy flynedd a hanner, ro'n i'n ennill y Goron ym Mangor, ac ar ôl hynny, mae pob math o bethau eraill wedi dod; oni bai fy mod i wedi ennill y Goron, fydden i ddim yn Archdderwydd, oni bai fy mod i wedi ennill y Goron, fydden i ddim wedi ysgrifennu'r gyfrol yma o gerddi ac wedyn y casgliad yna wedi'i gwobrwyo yn gynharach eleni. Felly mae pob math o bethau positif wedi dod mas o ryw beth oedd ar y pryd yn negyddol iawn.<sup>385</sup>

Cerdd arall yn ymwneud â chrefydd yw 'symudiad ymosodol'. Cerdd ecffrastig yw hon sy'n ymateb i 'Nerth Gwahanol', ffotograff o waith Hywel Harris. Yn y ffotograff, gwelwn gapel ar ochr chwith y llun a bwrdd hysbysebu ar yr ochr dde sy'n dangos merch yn paffio, a'r slogan 'A Different Kind of Strength' arno. Cerdd fer iawn yw 'symudiad ymosodol', sydd

---

<sup>383</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

<sup>384</sup> Emyr James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

<sup>385</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.



wedi'i hysgrifennu mewn ffurf sy'n adlewyrchu'r emynau cyfarwydd. Defnyddia ieithwedd yr emyn hefyd, trwy ddefnyddio geiriau tafodieithol er mwyn creu'r odl, mewn modd sy'n ein hatgoffa o emynau Williams Pantycelyn, a cyfres o ferfau gorchmynnol, megis 'estyn', 'chwâl' a 'dryllia' fel y ceir mewn emynau sy'n gofyn i Dduw roi cymorth i ni.

Cyfeiria'r teitl at fudiad a oedd yn gangen genhadol i'r Methodistiaid Calфинаidd Cymreig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a oedd yn rhoi lle amlwg i ferched wrth arwain a phregethu.<sup>386</sup> Ystyriwyd hyn yn gam blaengar ar y pryd, ac mae'r bardd fel petai'n ymbil ar Dduw i chwalu'r rhagfarnau sy'n dal i fodoli mewn rhai agweddau o grefydd, er mwyn symud gyda'r oes a gwaredu'r pethau hynny sy'n dal crefydd yn ôl:

Estyn, lôr, a chliria ddelwedd  
crefydd drist ar ôl y tân:  
chwâl ffenestri'i phietistiaeth,  
dryllia ddrws rhagfarnau'n lân,  
dymchwel adfail gwag arferion  
berthyn i ryw oes o'r bla'n.

Y mae'r bardd yn cydnabod sut y mae crefydd wedi dirywio er cyfnod tanbaid y Diwygiad, lle'r oedd addoliad ar ei anterth a'r capeli'n orlawn. Bellach, dim ond 'crefydd drist' sy'n bod 'ar ôl y tân' a fu, ac y mae'r bardd yn gofyn i Dduw waredu'r argraffiadau negyddol hyn er mwyn rhoi cyfle i grefydd adfer ei enw da.

Cyfeiria at yr angen i chwalu '[p]ietistiaeth', sef gordduwioldeb neu dduwioldeb teimladol, er mwyn gwaredu'r cyneddfau negyddol sy'n gysylltiedig â hyn, megis eithafiaeth a chulni. Dymuna'r bardd weld crefydd yn rhywbeth perthnasol i'n bywydau, gan waredu'r rhagfarnau hen-ffasiwn a dod â ffydd yn ôl i'r oes sydd ohoni. Cyflea'r berfau ymosodol megis 'chwâl', 'dryllia' a 'dymchwel' gymaint o newid sydd ei angen, a chymaint o nerth

---

<sup>386</sup> James, *Rhwng y Llinellau*, t. 139.

sydd ei angen er mwyn cyflawni hyn, gan glymu'n ôl felly gyda'r nerth sy'n cael ei ddangos yn y ffotograff.

Lluniwyd y gerdd hon yr un pryd ag y pleidleisiodd Synod Eglwys Lloegr o blaid caniatáu merched i ddod yn esgobion. Wrth i'r digwyddiad hyn ei hysbrydoli felly, awgrymir bod newid ar droed o'r diwedd â'n bod yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r rhagfarnau sydd wedi llesteirio crefydd cyhyd. Dengys yr hysbyseb yn y ffotograff ferch yn paffio, gan glymu gyda'r gerdd i awgrymu bod gan ferched y grym i newid pethau.

Gellir dosbarthu'r gerdd hon fel cerdd ffeminyddol, ecffrastig a chrefyddol, lle y cydnebydd y bardd y problemau yn ei chrefydd ei hun, gan awchu i weld y rheini'n cael eu datrys. Wrth iddi ymbil ar Dduw am ryw fath o chwyldro cawn ein hatgoffa o'r gerdd 'Cymru 1937' gan R. Williams Parry, lle y mae'r bardd yn dyheu am chwyldro cenedlaetholgar. Ysgrifennwyd 'Cymru 1937' fel ymateb i ddifaterwch y Cymry pan ddiswyddwyd Saunders Lewis o Brifysgol Abertawe yn dilyn ymgyrch llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth. Defnyddir ieithwedd debyg wrth i'r bardd ymbil am chwyldro, er mwyn deffro'r Cymry di-hid o'u trwmgwsg:

Bedyddia'r di-hiraeth a'th ddagrau, a'r doeth ail-gristia;  
Rho awr o wallgofrwydd i'r llugoer tu ôl i'w fur,  
Gwna ddaeargrynfeydd dan gadarn goncrit Philistia: ...  
... Dysg i'r di-fai edifeirwch, a dysg iddo obaith;  
Cyrraedd yr hunan-ddigonol drwy glustog i lwth  
A dyro i'r difater materol ias o anobaith<sup>387</sup>

Defnyddia'r beirdd yr un math o ieithwedd wrth ymbil ar bŵer uwch i ymyrryd er mwyn sicrhau chwyldro, p'un ai a yw hwnnw'n chwyldro crefyddol neu genedlaetholgar.

Eglura Christine James y cysylltiad rhwng y Symudiad Ymosodol â'i hardal enedigol:

---

<sup>387</sup> R. Williams Parry, 'Cymru 1937', yn Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln), *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 53.

Canolbwyntiaï'r Symudiad Ymosodol yn bennaf ar ardaloedd diwydiannol de-ddwyrain Cymru, ac un nodwedd ar ei weithgarwch oedd y lle amlwg a roddid i ferched o ran arwain a phregethu yn ei gyfarfodydd – datblygiad cwbl radical ar y pryd ... Dyma lun trawiadol, sy'n cyferbynnu ystrydeb o grefydd adfeiliedig, grebachlyd â delwedd annisgwyl – er un wedi ei hystumio – o fraich estynedig paffwraig ... Mae tân Diwygiad 1904 wedi hen oeri bellach, a llai na 10% o boblogaeth Cymru sy'n mynychu lle o addoliad yn gyson. Mae'r gerdd yn weddi i Dduw i ddisgyn a chlrrio gweddillion hen grefydd dreuliedig a marw – a'r hyn sy'n ymhlyg yn hynny yw agor y ffordd i ailsefydlu Cristnogaeth fyw a grymus yn ein gwlad.<sup>388</sup>

Gwelwn felly fod Christine James yn trafod ei haralledd yn gyson yn ei barddoniaeth.

Sylweddola bod ffydd yn colli tir yng Nghymru erbyn heddiw, ond yn wahanol efallai i rai

beirdd cyfoes eraill sy'n trafod eu ffydd, gwêl reswm i ddal ati i gredu yng ngwyrthiau'r

pethau bychain. Y mae hi'n gwbl ymwybodol o angen crefydd i newid er mwyn bod yn

berthnasol yn yr oes fodern – ond gwêl argoelion gobeithiol bod newid ar droed o'r diwedd.

Trafoda'r rhwystredigaeth o fethu â chyfathrebu mewn ail-iaith, a'r diffyg hyder sy'n aml yn

llesteirio ymdrechion i gynnal sgwrs neu gyflwyno syniadau mewn iaith estron, gan weld

tebygrwydd rhwng y broses o gaffael iaith a cheisio barddoni pan fo'r awen yn gwrthod

cydio. Disgrifia'r profiad annifyr a gafodd wrth sylweddoli ei bod yn ddieithryn yn ei bro ei

hun am nad oedd yn medru'r Gymraeg, a disgrifia effaith ddinistriol trychineb Aber-fan ar ei

chymuned, gan bwysleisio nad yw'r graith wedi gwella hanner canrif yn ddiweddarach. Yn

anad dim, fodd bynnag, mynna ystyried bro ei mebyd fel man lle gall y Gymraeg ffynnu, a

gwelwn ei hymdrechion i hawlio'r Cymoedd yn rhan o'r Gymru Gymraeg gyflawn, wrth iddi

ddangos fod Cymreictod wedi gwreiddio yn yr ardal ers canrifoedd, a bod modd cael

adfywiad ieithyddol a diwylliannol mewn ardal nad yw'n cael ei hystyried yn gadarnle i'r

iaith.

---

<sup>388</sup> Christine James, 'Celf a Cherdd', *Taliesin*, 135 (2008), 54-5

## Casgliadau

Yn yr astudiaeth hon, ystyriwyd tair agwedd wahanol ar farddoniaeth Christine James: ei cherddi ffeminyddol ac ecffrastig a'r cerddi hynny a oedd yn ymwneud â'i haralledd. Nid yw hon yn astudiaeth gyflawn, a byddai lle eto yn y dyfodol i drafod y casgliad o 'gerddi claf' a luniodd y bardd fel ymgais i ddygymod â'i salwch a'i iselder, yn ogystal ag astudiaeth fanylach o'r gyfeiriadaeth lenyddol sy'n britho'i gwaith. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r cerddi a drafodwyd yn yr astudiaeth hon, gwelwyd tystiolaeth fod Christine James yn fardd amryddawn, athrylithgar sy'n ysgrifennu cerddi sy'n gyforiog o gyfeiriadaeth a sylwgarwch. Derbyniodd *Rhwng y Llinellau* gryn sylw cyhoeddus pan gafodd ei chynnwys ar restr fer Llyfr y Flwyddyn yn 2014, a nodwyd gan adolygwyr ar y pryd ei bod yn gyfrol arbennig:

Byddai hi'n amhosibl i *rhwng y llinellau* beidio â bod yn gystadleuydd cryf oherwydd ei chraffter, teimladrwydd, ystyron cudd, iaith sy'n pefrio, a chrebwyll artistig. Cawn weld ...<sup>389</sup>

Enillodd y gyfrol y categori barddoniaeth yn y gystadleuaeth honno, ac er iddi ddod yn agos at gipio gwobr Llyfr y Flwyddyn – un o wobrau mwyaf anrhydeddus y byd llenyddol Cymraeg – prin yw'r sylw beirniadol a fu ar y cerddi hyd yma, ac eithrio ambell adolygiad yma ac acw. Bwriad yr astudiaeth hon oedd ceisio treiddio'n fanylach a thafllu goleuni ar gerddi bardd a esgeuluswyd gan feirniaid, er gwaethaf eu craffter a'u crefft.

Yn y bennod gyntaf, cafwyd dadansoddiad ffeminyddol o gerddi Christine James, a cheisiwyd penderfynu a allwn ei labeli yn amodol fel bardd ffeminyddol. Nodwyd ein bod yn disgwyl iddi, yn ôl ei hanfod, wneud safiad ffeminyddol yn ei bywyd cyhoeddus ac yn ei barddoniaeth, o gofio mai hi oedd y ferch gyntaf i'w phenodi i gadair Archdderwydd Gorsedd y Beirdd. Fodd bynnag, y mae Christine James wedi ceisio tynnu'r sylw oddi ar hyn

---

<sup>389</sup> Meg Elis, 'Adolygiad: rhwng y llinellau, Christine James', *Taliesin*, 150 (2013), 104-106.

droeon, gan fynnu nad yw hi am gael ei hystyried fel lladmerydd ar ran hawliau merched, nac fel un sydd ar flaen y gad o ran ei rhyw – ac mae'n llawer gwell ganddi gael ei chydabod fel un a ledodd y ffordd i'r rheini a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith. Er iddi wadu ei bod yn ffigur blaenllaw wrth dorri i mewn i draddodiad patriarchaidd barddoniaeth Gymraeg felly, ni ellir gwadu bod ei cherddi yn dangos isleisiau ffeminyddol. Nid oedd hi'n ffigur amlwg yn yr ymgyrch gan feirdd benywaidd yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o waith gan ferched a'r ymgais i defnyddio *écriture féminine*, ond gwelwn yr agweddau hyn yn amlwg yn ei gwaith. Llwyddodd i ennill y Goron gyda chasgliad o gerddi nodweddiadol ffeminyddol – ac ni fyddai hyn yn bosibl heb i waith gan ferched eraill, ynghyd ag ieithwedd a themâu benywaidd, ddod yn fwy derbyniol. Y mae hi'n rhan o'r dilyniant hwn a ddechreuwyd gan ferched o'i blaen felly – ac yn sicr yn llais benywaidd cryf yn y traddodiad.

Fel y gwelwyd, nodweddion amlycaf ei cherddi ffeminyddol yw ei defnydd o *écriture féminine*, y syniadaeth a anogwyd gan ffeminyddion Ffrengig fel Hélène Cixous. Gwelwn hyn yn y gerdd 'arddangosfa' er enghraifft, lle y mae presenoldeb y cyrff yn yr oriel yn arwain y merched i dorri'r tawelwch o'u hamgylch. Adleisia hyn syniadau Cixous o'r hyn yw *écriture féminine* :

An act that will also be marked by woman's seizing the occasion to speak, hence her shattering entry into history, which has always been based on her suppression. To write and thus to forge for herself the antilogos weapon. <sup>390</sup>

Cyfeiria Christine James at rannau benywaidd o'r corff yn gyson wrth ddisgrifio'r merched sy'n destunau i'w cherddi, yn enwedig y rhannau hynny sy'n gysylltiedig â magu plant, megis

---

<sup>390</sup> Hélène Cixous, 'Le Rire de la Méduse', *L'Arc* (1975), tt. 39-54. Cyfieithiad Saesneg gan Keith and Paula Cohen, 'The Laugh of the Medusa', *Signs*, Vol. 1, No. 4 (Summer, 1976), t. 880.

y groth a'r fron. Gellir ystyried bod hyn hefyd yn ffordd o ymateb i alwad Cixous, er mwyn rhoi sylw mewn gweithiau llenyddol i gyrff benywaidd a anwybyddwyd gyhyd:

We've been turned away from our bodies, shamefully taught to ignore them, to strike them with that stupid sexual modesty<sup>391</sup>

Defnyddia ffigur y fam yn gyson yn ei gwaith, megis yn y cerddi 'blodau Mair', 'mama mia!', 'deffro'n fardd', 'mam yr artist', 'lliuddall' a 'disgwyl'. Hyd yn oed yn y cerddi hynny nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at y fam fel cymeriad, defnyddir delweddau o'r fam er mwyn pwysleisio syniadaeth ehangach. Er enghraifft, yn y gerdd 'alffa', defnyddir merch ddi-blant fel symbol i ddisgrifio'r ddaear yn nechrau ei bodolaeth, gan bwysleisio pa mor hesb, crin ac anffrwythlon yr oedd y tir nad oedd wedi cael cyfle i flodeuo.

Y llinyn cyswllt rhwng yr holl ferched sy'n ymddangos yng ngherddi Christine James yw eu bod yn anghyfforddus yn eu cyrff ac yn y rôl a dadogwyd arnynt. Gwelwn ddirmyg prif gymeriadau 'y Ffrances a'r Gymraes', 'noethlun' a 'merch noeth', er enghraifft, eu bod yn cael eu gweld fel gwrthrychau yn unig, a mynegant eu tristwch o'r modd y defnyddir eu cyrff gan yr arlunwyr cyn eu diosg yn ddiseremoni. Hyd yn oed yn y gerdd 'mama mia', lle mae traethydd y gerdd yn mwynhau bod yn ei chorff ei hun, ceir awgrym ei bod yn colli arni hi ei hun mewn gwirionedd, wrth iddi nodi 'nid wyf i wir yn fi fy hun'.<sup>392</sup> Yn ei cherddi, y mae hyd yn oed y Forwyn Fair yn anhapus gyda'i delwedd, a darlunnir hi yn torri ei chalon am ei bod yn gaeth i'w hystydebb fel gwryf a mam, ac y mae hi'n wylo am nad yw ei mab yn cydnabod hynny, gan ddewis rhoi blodyn sy'n symbol o gariad ac addewid i briodi iddi, yn hytrach na'r lili, sy'n symbol o burdeb a diweirdeb.

---

<sup>391</sup> Ibid., 887.

<sup>392</sup> Christine James, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 139.

Beirniada'r bardd y rheini sy'n gweld merched fel cyrff yn unig ac sy'n ystyried pryd a gwedd merch fel modd o benderfynu'i gwerth. Gwelwn hyn ar ei amlycaf yn y cerddi ecffrastig y mae merched yn destun iddynt, ac yn y cerddi eraill y mae merched yn brif gymeriad ynddynt. Enghraifft o hyn yw 'dechrau'r daith', lle caiff gwraig y pennaeth canoloesol ei chlodfori am ei phrydferthwch ond nid ei champau, ac amlygir y ddeuliaeth yn y modd y caiff y ddau ryw eu trin. Ceir beirniadaeth debyg yn y gerdd 'lليwddall' hefyd. Condemnia'r bardd y portread diddychymyg o'r hen wraig, a gofynna inni werthfawrogi ei chymeriad a'i phersonoliaeth y tu hwnt i'r darlun monocrom ohoni.

Gwelwyd fel y mae dewis y gweithiau celf sy'n sail i'w barddoniaeth ecffrastig wedi galluogi Christine James i herio'r byd celfyddydol patriarchaidd – a phatriarchaeth y byd barddonol Cymraeg yn yr un modd. Gwelwn hyn yn amlwg mewn cerddi megis 'arddangosfa' – caiff y merched eu distewi yn yr oriel, ond wrth siarad am y cyrff o'u blaenau, chwalant y tawelwch parchus ac enynnir eu hawch am fywyd. Codant eu lleisiau yng ngherdd gyntaf y gyfrol, gan osod cysail ar gyfer yr hyn sydd i ddod, wrth i ferched fynegi anfodlonrwydd gyda'r modd y cânt eu trin, eu defnyddio a'u beirniadu gan gymdeithas wrywaidd.

Er nad yw hi am gael ei chydabod yn y cyfryngau fel *rôle model* o ferch, gwelwn ei ffeminyddiaeth yn ei barddoniaeth, a gwelwn ei bod yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu merched, yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ac eithrio fel gwrthrychau i blesio dynion ar hyd y canrifoedd.

Yn sgil ein trafodaeth ar gerddi ecffrastig Christine James, gwelwyd bod modd i bob un o'r cerddi ecffrastig sefyll ar eu traed eu hunain fel cerddi annibynnol. Pwysleisiwyd nad yw'r cerddi'n ddibynnol ar y lluniau – fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod gweld y gweithiau a oedd yn sail i'r farddoniaeth yn cyfoethogi profiad y darllenydd. Gwelwyd hyn, er enghraifft,

yn y gerdd ‘y Ffrances a’r Gymraes’, wrth i’r bardd gyfeirio at yr esgid yn brigio o dan ffrog las y ferch, manylyn a fyddai wedi cael ei esgeuluso a’i anwybyddu gan rywun â llygad llai craff. Llwydda’r bardd i blethu’r manylyn bychan hwn â’r syniad o lo brig, y diwydiant a oedd yn gyfrifol am ffortiwn David Davies Llandinam, a hynny mewn modd cynnil a chrefftus.

Nodwyd bod modd rhannu cerddi ecffrastig Christine James i bedwar categori bras, er bod gorgyffwrdd yn naturiol rhyngddynt. Yn y casgliad o gerddi a enillodd iddi Goron yr Eisteddfod Genedlaethol, y categori amlycaf yw’r syniad o dadogi stori ddychmygol ar y gweithiau celf. Defnyddia’r bardd y straeon dychmygol er mwyn mynd y tu hwnt i’r gwaith gwreiddiol, gan ddadfframio’r gwaith a dod â’r hyn a ddarlunnir yn fyw. Ceir yr argraff mai cipluniau yw’r gweithiau celf, sy’n dal un foment yn y stori, gan ychwanegu dimensiwn newydd i weithiau celf o ganon adnabyddus.

Mewn cerddi megis ‘cynllun strategol’ a ‘cân fud’, gwelwyd bod deinameg neu densiwn yn y gwaith celf yn cael ei adlewyrchu yn y cerddi. Darlunia ‘cynllun strategol’ densiwn rhwng dwy garfan sy’n gorfod cyd-dynnu er gwaethaf eu hamheuaeth o’i gilydd, ac y mae stori’r gerdd yn adlewyrchu’r hollt yn y gwaith celf gan adrodd hanes dwy gaer sydd wedi eu cysylltu gan raff denau, fel arwydd o ffug gyfeillgarwch. Pwysleisia ‘cân fud’ y tensiwn rhwng mudandod a thwrw, a’r tyndra rhwng tawelwch yr olygfa sy’n cael ei darlunio yn y paentiad ‘Blaen Ffrancon rhif 1’ a mawredd campweithiau Kyffin Williams. Yn y gerdd hon hefyd, gwelir gwrthdaro rhwng celf a cherdd, wrth i’r bardd ei hun awgrymu nad oes angen iddi ychwanegu geiriau er mwyn dod â’r mynyddoedd yn fyw – llwydda’r arlunydd i wneud hynny’n llawn ddigon ar ei ben ei hun gyda’i frws paent.



Y trydydd categori a ddiffiniwyd oedd y cerddi ecffrastig hunangynhaliol sy'n pwysleisio'r berthynas rhwng geiriau a delweddau, megis y cerddi 'orthnithoffobia', sy'n dwyn i gof gyfnod pan oedd geiriau'n ddarostyngedig i ddelweddau. Hiraetha'r bardd am gyfnod symlach, wrth iddi awgrymu nad oedd modd camddehongli delwedd, ond y gall geiriau gael eu troi a'u tynnu o'u cyd-destun gan achosi trafferthion a chynnen rhwng carfanau. Yr oedd rhai o'r cerddi eraill yn y categori hwn yn gerddi gweledol, lle mae siâp y gerdd yn cyfleu'r ystyr. Gwelir hyn yn 'dwylo: etymoleg cysur' a 'dwylo', er enghraifft, lle y llwyddir i greu cerddi sy'n ddelweddau ynddynt eu hunain, gan amlygu unwaith eto fod y berthynas rhwng geiriau a delweddau yn un sy'n gallu cael ei diffinio mewn amryw ffyrdd.

Y categori olaf a drafodwyd oedd y cerddi hynny sy'n priodi delwedd ac atgof. Defnyddia Christine James rai gweithiau celf fel modd o adrodd am ei hatgofion poenus. Enghraifft o hyn yw 'ynysig' sy'n cofio'n ôl i gyfnod y bardd o salwch mewn gwlad estron. Yn y gerdd hon, y mae'r bardd, yn yr un modd â'r ferch yn y llun, yn teimlo iddi gael ei heithrio o'r byd ac yn ymgilio i'w chragen er mwyn dianc. Ceir syniad tebyg yn 'lolfa las', lle y defnyddia'r bardd fotiffau ailadroddus er mwyn disgrifio sut y gall noddfa droi'n obsesiwn, gan dynnu oddi ar ei phrofiadau yn gwella o'i salwch meddwl. Yn 'cysgod y gadeirlan' dywed sut y trodd delfryd yn chwerw wrth i'r cardotyn darfu ar ei phrofiad rhamantaidd o eistedd yng nghysgod cadeirlan Rouen. Atgof chwerwfelys a geir yn 'gollwng', wrth i'r atgof o fab yn gadael cartref blethu gyda'r ddelwedd o Dduw yn gadael Adda i wneud ei ffordd yn y byd, a chawn hiraeth am fam-gu a thad-cu annwyl yn 'cynefin', wrth i'r bardd gyplysu'r ddau ditw gydag atgof o'r hen addurniadau a lenwai'r tŷ, yn ogystal â'r syniad o adar estron yn dod i feddiannu'r nyth.

Yr hyn a welir ym marddoniaeth ecffrastig Christine James yw casgliad o gerddi crefftus, amlhaenog sy'n gwbl hunangynhaliol – ond sydd hefyd yn cael eu cyfoethogi'n ddi-os o weld y lluniau y seiliwyd hwy arnynt. Defnyddia wahanol fathau o ecffrasis er mwyn creu casgliad helaeth, gan adfywio'r *genre* a chynnig gwedd newydd, wreiddiol ar fath o farddoniaeth sydd wedi dechrau ennill ei phlwyf ar y llwyfan llenyddol Cymraeg yn ystod y degawdau diwethaf.

Trafodwyd hefyd y syniad o 'aralledd' y bardd, a sut y mae hyn yn cael ei gyfleu yn ei barddoniaeth. Yn sicr, nid yw Christine James yn gweddu i'r ystrydeb dreuliedig o fardd Cymraeg, a hithau'n ferch, sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, ac sydd wedi ei geni a'i magu yng nghymoedd glofaol De Cymru. Yn ychwanegol at hyn, y mae hi hefyd yn perthyn i'r Eglwys Efengylaidd ac yn trafod ei chrefydd yn agored, ac er bod hyn yn cael lle amlwg yn draddodiadol, y mae'n nodwedd sy'n anghyffredin erbyn heddiw wrth i bobl fod yn barod iawn i ddirmygu'r rheini sy'n agored ynglŷn â'u ffydd. Y mae parodrwydd Christine James i drafod ei chrefydd felly yn cynnig gwedd arall i ni ar ei 'haralledd', ac yn ychwanegu at y syniad ohoni fel bardd anghyffredin yn y Gymraeg. Sonia yn 'hud yn Nyfed' am y modd y mae crefydd yn colli tir yn yr oes sydd ohoni. Dengys inni bod gwyrthiau yn y pethau bychain a bod rheswm i gredu o hyd, dim ond inni agor ein llygaid. Cydnebydd, er hyn, bod yn rhaid i grefydd newid er mwyn goroesi yn yr oes fodern – trwy waredu'r hyn sy'n dod ag enw drwg i grefydd megis gordduwioldeb, eithafiaeth a chulni. Defnyddia hanes y 'symudiad ymosodol' i ddarlunio'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweld cynnydd – ac y mae arwyddocâd llunio'r gerdd yr un diwrnod ag y pleidleisiwyd i ordeinio merched yn offeiriaid yn awgrymu bod gobaith ar gael am newid.

Fel y disgwyliid, efallai, gan un sy'n cyfansoddi trwy gyfrwng iaith nad yw'n famiaith iddi, ceir nifer o gerddi gan Christine James sy'n sôn am gaffael iaith. Yn y casgliad hwn, gwelir cyfatebiaeth a thebygrwydd rhwng barddoni a dysgu ail iaith. Pwysleisir y syniad o ddiffyg hyder yn 'wonabi' a sonnir am y rhwystredigaeth o fethu â chyfathrebu'n llawn yn 'y coma caeth' a 'clera'. Ceir gwrthdaro a thensiwn rhwng tawedogrwydd a'r ysfa i greu neu gyflwyno syniadau mewn cerddi megis 'lluwch geirie', a gwelwn y frwydr gyson rhwng yr awydd i ysgrifennu a'r anallu i wneud hynny. Crybwyllir y profiad o fethu â dod o hyd i'r geiriau cywir i gyfathrebu yng nghyd-destun bardd yn ymgodymu â'r awen, ond gellir cysylltu hyn gyda'r syniad o siarad mewn iaith ddieithr. Yn y naill achos a'r llall, rhaid dod o hyd i'r geiriau cywir er mwyn gallu cyfleu eich syniadau, ac y mae hyn yn thema gyson yng ngwaith y bardd.

Gwelwn ei hymlyniad at ei bro yn y gerdd 'ynni' sy'n trafod sut y mae pobl ifanc yn mudo o gefn gwlad i drefi a dinasoedd y de-ddwyrain. Cawn agwedd gyferbyniol i'r disgwyl yn y gerdd hon, gan fod llawer fel rheol yn gweld colli Cymry Cymraeg o'r ardaloedd gwledig fel peth drwg. Y mae Christine James, fodd bynnag, fel brodor o dde-ddwyrain Cymru yn hawlio'r Cymoedd fel rhan o'r Gymru Gymraeg ei hiaith, ac yn pwysleisio bod modd aildanio Cymreictod yr ardal sydd wedi bod yn mudlogi yno erioed. Ceir casgliad helaeth o gerddi gan Christine James am drychineb Aber-fan – 'gŵyl y Gweryddon, 21 Hydref', 'tân, Mynydd Merthyr', 'Bethania, Aber-fan', i enwi dim ond rhai. Daw'n amlwg fod y gymuned wedi'i chreithio'n ddwfn a bod y cof am yr hyn a ddigwyddodd yn dal i beri poen. Yn y gerdd 'sêr, Merthyr Vale' cyferbynnir harddwch presennol y fro â'r erchylltra a ddigwyddodd yno, gan ddangos nad oes modd i'r gymuned anghofio'r drychineb enbyd. Gellir dadlau bod ymgais yma hefyd i roi llais Cymraeg i'r digwyddiad a'r ymatebion iddo a fu'n gyfyngedig bron yn

gyfan gwbl i'r Saesneg cyn hyn, a gallwn ystyried hyn fel estyniad o'r ymdrech i fynnu bod Cymreictod yn rhan o Gymoedd a de ddwyrain Cymru erioed.

Pwysleisir aralledd y bardd eto yn 'wara cwato'. Lluniwyd y gerdd trwy yn y Wenhwyseg, sy'n gwbl wahanol i'r hyn a welir mewn barddoniaeth Gymraeg yn gyffredinol (oni bai am ambell eithriad amlwg, megis 'Y Llen' gan Dyfnallt Morgan). Yr hyn a gawn yn 'wara cwato' yw dynwared iaith, a thafodiaith yn fwy penodol, nad yw'n famiaith i'r bardd. Llwydda i fabwysiadu acen frodorol Cymry Cymraeg cynhenid ei hardal er mwyn talu teyrnged i un o fawrion yr ardal – ond ar yr un pryd, gellir gweld hyn fel ymgais i ddod o hyd i'w lle mewn cymdeithas Gymraeg ei hiaith. Trafoda'r bardd y tro cyntaf iddi deimlo ei haralledd fel plentyn yn 'wyna, Tynewydd', pan glywodd y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn sgwrs naturiol o'i hamgylch a hithau'n methu deall gair. Teimlodd ddieithrwch yn ei bro hun oherwydd nad oedd yn medru'r Gymraeg.

Gwelwn yn 'gollwng gwaed' ei bod hi'n ei hystyried ei hun yn Gymraes er gwaethaf hyn oll – a dyna sy'n bwysig yn y pen draw. Sonia am y modd y cafodd y Cymry eu troi yn estroniaid yn eu gwlad eu hunain, sut y cawsant eu harallu gan Brydeinwyr. Nid yw Cymry a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith yn llai o Gymry na'r rheini a anwyd ac a fagwyd trwy gyfrwng yr iaith – ac y mae Christine James yn enghraifft berffaith o hynny. Llwyddodd i godi i frig ei maes fel academydd – anrhydedd na fedr y rhan fwyaf o Gymry Cymraeg brodorol ond breuddwydio amdano. Y mae hi'n feistr ar ei chreffft fel bardd ac ar yr iaith a fabwysiadodd, a'i cherddi'n gyforiog o gyfeiriadaeth at lenyddiaeth a chwedlau Cymraeg. Gellir yn sicr ei hystyried fel un sydd wedi arwain y ffordd i ddysgwyr y Gymraeg fel ail iaith, ac ymddengys felly iddi gyflawni ei chenhadaeth:

Os bydda i'n meddwl amdanaf i fy hun fel unrhyw fath o *rôle model*, mae'n llawer gwell gen i feddwl amdanaf i fy hun fel rhywun sydd wedi dod o gefndir di-Gymraeg, ac wedi meistrioli'r iaith i'r fath raddau fel bo' fi'n gallu cydgerdded ... gyda Chymry sydd wedi cael y fagwraeth i gyd a dangos i ddysgwyr ... [nad ydych] yn gorfod bodloni ... gydag ychydig o eiriau, ychydig o ymadroddion. Mae na ddiwylliant cyfan mas 'na, mae yna fywyd Cymraeg mas 'na, ac fe allwch chi fod yn rhan o hynny; mae'n golygu gwaith, mae'n golygu ymdrech, chwys, dagrau – dim gormod o waed ... ond ... [mae] modd dod yn rhan o'r byd Cymraeg.<sup>393</sup>

---

<sup>393</sup> Christine James: Dyfyniad o *Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

## Llyfryddiaeth

### Llyfrau a Chyrolau o Farddoniaeth

BOHATA, Kirsti, *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2004).

BOWEN, Geraint, 'Beirniadaeth Yr Awdl', gol. J. Tysul Jones, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Fflint* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1969), t. 5.

BROOKS, Simon, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru*, Cyfres Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig, 14 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004).

CONNOLLY, Cyril, *Enemies of Promise* (London: Routledge and Kegan Paul, 1948).

CRWYDREN, Roni, 'Welsh Lesbian Feminist: A Contradiction in Terms?', *Our Sisters' Land: Changing Identity of Women in Wales*, goln. Jane Aaron et al. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt. 294-300.

ELFYN, Menna, (gol.) *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985).

ELFYN, Menna, (gol.) *O'r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Honno, 1991).

ELFYN, Menna, 'Trwy Lygaid Ffeministaidd', *Sglefrio ar Eiriau*, gol. John Rowlands (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), tt. 22-41.

ELFYN, Menna, *Perfffaith Nam* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005).

ELFYN, Menna, *Tro'r Haul Arno* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1982).

EMYR, John, *Writers of Wales: Bobi Jones* (Cardiff: University of Wales Press, 1991).

EVANS, Ray, 'Dewi Sant (Y cerflun yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd)', *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, goln. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), tt. 338-9.

FITZGERALD, Louise a WILLIAMS, Melanie (goln.) *Mamma Mia! : the movie: exploring a cultural phenomenon* (London: I. B. Tauris, 2013).

HEFFERNAN, James A. W., *Museum of Words: The Poetics of Ekphrasis from Homer to Ashbery* (Chicago: Chicago University Press, 1993).

JAMES, Christine, *Rhwng y Llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013).

JAMES, Eleri Hedd, *Casglu Darnau'r Jig-so: Theori Beirniadaeth Lenyddol R.M. (Bobi) Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2009).

JONES, Bobi, 'Preselau', *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, goln. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), tt. 388-9.

JONES, Bobi, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

- JONES, Ceri Wyn, *Dauwynebog* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007).
- JONES, Nesta Wyn, 'pwy, heddiw?', *Darllen Delweddu*, gol. Iwan Bala (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2000), t. 56.
- JONES, T. Gwynn, 'Broseliawnd', *Hoff Gerddi Cymru*, gol. Bethan Mair (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009), tt. 49-51.
- JONES, T. James, FOSTER EVANS, Dylan, LLWYD, Alan, 'Beirniadaeth: Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Egni', gol. J. Elwyn Hughes, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004), tt. 17-19.
- LLWYD, Alan, 'Casgliad o Gerddi: Gwreichion – Beirniadaeth Alan Llwyd', gol. W.J. Jones, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1990), tt. 30-6.
- LLWYD, Iwan, *Dan Anesthetig* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1987).
- LLYWELYN-WILLIAMS, Alun, *Gwanwyn yn y Ddinas* (Dinbych: Gwasg Gee, 1975).
- MORGAN, Derec Llwyd, AP GLYN, Ifor, WALFORD DAVIES, Jason, 'Beirniadaeth: Casgliad o gerddi rhydd ar thema heb eu cyhoeddi a heb fod dros 300 llinell', gol. J. Elwyn Hughes, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffuniau 2005* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), tt. 34-7.
- MORGAN, Derec Llwyd, *Y Brenhinbren: Bywyd a Gwaith Thomas Parry 1904-1985* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2013).
- MORGAN, Elin Llwyd, *Duwieslebog*, (Talybont: Y Lolfa, 1993).
- NICHOLAS, James, 'Yr Alwad', gol. J. Tysul Jones, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Fflint* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1969), tt. 19-22.
- PARRY, Thomas ac AMANWY, *Cerddi'r Lleiafrif* (Aberystwyth: Cambrian News Cyf, 1932).
- RACE, William H., 'Ekphrasis', *The New Princeton Encyclopedia of Poetry and Poetics*, goln. Alex Preminger a T. V. F. Brogan (Princeton, New Jersey: Princeton University Press, 1993), t. 320.
- REES, Mair, *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen: Y Corff Benywaidd A'i Symbolaeth Mewn Ffuglen Gymraeg Gan Fenywod* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014).
- ROBERTS, Emrys, 'Guernica', *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, goln. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 401.
- ROWLANDS, John, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992).
- SAGER, Laura M., *Writing and Filming the Painting: Ekphrasis in Literature and Film*, (Amsterdam: Rodopi, 2008).

SCHWYZER, Philip, *Literature, Nationalism and Memory in Early Modern England and Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004).

SELDEN, Raman 'Feminist theories', *A Reader's Guide to Contemporary Literary Theory*, goln. Peter Widdowson a Peter Brooker (Hemel Hempstead: Prentice Hall/Harvester Wheatsheat, 1997), t. 137

SHOWALTER, Elaine, 'Toward a Feminist Poetics', *The New Feminist Criticism: Essays on Women, Literature and Theory*, gol. Elaine Showalter (London: Virago, 1986), tt. 125-143.

SORENSEN, Joseph T., *Optical Allusions: Screens, Paintings and Poetry in Classical Japan (ca. 800-1200)*, (Leiden: Brill Academic Publishers, 2012).

TOMOS, Robyn, 'Pontio Llên a Llun', *Darllen Delweddau*, gol. Iwan Bala (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2000), t. 7.

THOMAS, Gwyn, *Wmgawa* (Dinbych: Gwasg Gee, 1984).

THOMAS, M. Wynn, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).

THOMAS, M. Wynn, *R. S. Thomas: Serial Obsessive* (Cardiff: University of Wales Press, 2013).

WILLIAMS PARRY, R., 'Cymru 1937', *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, goln. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 53.

WILLIAMS, Gerwyn, 'Celfyddyd y Beirdd', *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, gol. Gerwyn Williams (Llandysul: Gwasg Gee, 2010), tt. 100-118.

WILLIAMS, Waldo, 'Mewn Dau Gae', *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, goln. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas, 2010), tt. 146-7.

## **Cylchgronau a Chyfnodolion**

AP GWILYM, Gwynn, 'Wynebu'r Moabaid', *Barddas*, 135-137 (1988), 37-8.

CIXOUS, Hélène, 'Le Rire de la Méduse', *L'Arc* (1975), 39-54. Cyfieithiad Saesneg gan Keith and Paula Cohen, 'The Laugh of the Medusa', *Signs*, Vol. 1, No. 4 (Summer, 1976), 875-893.

CURTIS, Kathryn, HAYCOCK, Marged, AP HYWEL, Elin, LLOYD-MORGAN, Ceridwen, 'Beirdd Benywaidd yng Nghymru cyn 1800', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 12-27.

CURTIS, Kathryn, HAYCOCK, Marged, AP HYWEL, Elin, LLOYD-MORGAN, Ceridwen, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 34-44.

CURTIS, Kathryn, HAYCOCK, Marged, AP HYWEL, Elin, LLOYD-MORGAN, Ceridwen, 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', *Y Traethodydd*, CXLI, 598 (1986), 45-61.

DAFYDD, Guto, 'Adolygiadau: Delweddau a doethineb', *Barn*, 609 (2013), 50-1.



- DI-ENW, 'Holi'r Archdderwydd', *Barddas*, 320 (2013), 12-13.
- ELIS, Meg, 'Adolygiad: rhwng y llinellau, Christine James', *Taliesin*, 150 (2013), 104-6.
- JAMES, Christine, 'Celf a Cherdd', *Taliesin*, 135 (2008), 50-87.
- JONES, Bobi, 'Y Ffeminydd F/Beirniadol', *Barddas*, 134 (1988), 6-11.
- LLOYD JONES, Wendy, 'Min Awen y Menywod', *Barddas*, 102 (1985), 16.
- LLOYD-MORGAN, Ceridwen, 'Clwy'r Canmlwyddiannau?', *Barn*, 304 (1988), 34-5.
- LLWYD, Alan, 'Golygyddol', *Barddas*, 118 (1987), 4-5.
- LLWYD, Alan, 'Golygyddol', *Barddas*, 135-137 (1988), 12-15.
- MORRIS, Dafydd Evan, 'Bardd i Heddiw yw Iwan', *Barddas*, 127 (1987), 15-16.
- PUW DAVIES, Mererid, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284 (2005), 51-2.
- REYNOLDS, Idris, 'Reviews: Idris Reynolds on Christine James', *Poetry Wales*, 50 (2014), 62-3.
- SALISBURY, Eurig, 'Meddwl y Gynganedd', *Llên Cymru*, 31 (2008), 198-204.
- SHEPPARD, Lisa, 'Troi Dalen "Arall": Ail-ddehongli'r berthynas rhwng cymunedau Cymraeg a Saesneg de Cymru mewn dwy nofel ddiweddar yng ngoleuni ffigwr yr "arall"', *Gwerddon*, 21, Ebrill 2016, 26-46.
- WALFORD DAVIES, Damian, 'Ein Barn am Gerddi'r Goron', *Barddas*, 284 (2005), 52-3.
- WILIAMS, Gerwyn, 'Politics Prydyddol! (Cyflwyniad i ddyrmaid o gerddi gan feirdd ifanc)', *Taliesin*, 61 (1988), 28-32.

## Radio

*Tra Bo Dau* (2014) Pennod 6, Non Evans a Christine James, BBC Radio Cymru, 21 Medi, 10:00.

## Gwefannau

Broliant 'Rhwng y Llinellau' ar wefan Cyhoeddiadau Barddas:

[http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com\\_content&view=article&id=122:rhwng-y-llinellau&catid=37:cyfrolau&Itemid=55](http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com_content&view=article&id=122:rhwng-y-llinellau&catid=37:cyfrolau&Itemid=55) Cyrchwyd: 03 Ionawr 2016.

Cerdd Dafydd ap Gwilym, 'Chwarae Cnau i'm Llaw' (rhif 95):

<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm> Cyrchwyd: 23 Mehefin 2015.

Cyflwyniad i fywyd a gwaith Ann Griffiths: <http://www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/cyflwyniad.html>.

Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2014.

Cyfweliad â Christine James: <https://www.mudiad-efengylaidd.org/cylchgrawn/dan-yr-wyneb-christine-james/> Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2015.

Dadansoddi Canlyniadau'r Cyfrifiad: <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/detailed-characteristics-for-local-authorities-in-england-and-wales/sty-religion.html> Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2015.

Erthygl am benodi Christine James fel Archdderwydd: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/23503321>. Cyrchwyd: 10 Hydref 2014.

Eseia 53:3: <http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=53&book=BNET%3AIsa&viewid=BNET%3AIsa.53&newwindow=&math=> Cyrchwyd: 25 Awst 2015.

Geiriadur Prifysgol Cymru: <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> Cyrchwyd: 25 Awst 2015.

Hanes J. Gwyn Griffiths: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c8-GRIF-GWY-1911.html> Cyrchwyd: 6 Ionawr 2016.

Hanes Santes Wrswla: <http://www.historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofEngland/Saint-Ursula-the-11000-British-Virgins/> Cyrchwyd: 27 Awst 2015.

Ioan 11:43: <http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=11&book=BNET%3AJohn&viewid=BNET%3AJohn.11&newwindow=BOOKREADER&math=> Cyrchwyd: 25 Awst 2015.

Proffil Academaidd Christine James: <http://www.swansea.ac.uk/staff/academic/artshumanities/aht/jamesc/> Cyrchwyd: 20 Rhagfyr 2015.

Rhestr o Enillwyr y Goron: <https://www.eisteddfod.cymru/amdanom-ni/enillwyr-yr-eisteddfod/enillwyr-y-goron> Cyrchwyd: 14 Chwefror 2016.